THE UNIVERSITY
OF ILLINOIS
LIBRARY

225.55
B47WE
1850

Return this book on or before the **Latest Date** stamped below.

University of Illinois Library

JAN -6 1958

L161—H41

# TESTAMENT NEWYDD

EIN

# ARGLWYDD IESU CHRIST.

GWEDY EI DYNNU,

YD Y GADEI YR ANCYFIAITH 'AIR YN EI GYLYDD

OR

## GROEC A'R LLATIN,

GAN NEWIDIO FFURF LLYTHYREN GAIRIAE-DODI.

EB LAW HYNNY

Y MAE POB GAIR A DYBIWYT Y VOD YN ANDEALLUS, AI O RAN LLEDIAITH Y 'WLAT, AI O ANCYNEFINDER Y DEUNYDD,

## WEDI EI NOTI AI EGLURHAU

AR 'LEDEMYL Y TU DALEN GYDRYCHIOL.

CYFIEITHIAD

## WILLIAM SALESBURY.

ARGRAFFIAD NEWYDD.

CAERNARFON:

CYHOEDDWYD GAN ROBERT GRIFFITH, LLYFRWERTHWR,
HEOL Y LLYN.

1850.

225.55
B47WE
1850

9526 KM

# RICHARD CAN 'RAT DYW EPISCOP MENEW,

## YN DAMUNO ADNEWYDDIAT YR HEN FFYDD CATHOLIC A' GOLLAUNI EUANGEL CHRIST IR CEMBRU OLL, YN ENWEDIC I BOP MAP ENEID DYN O VEWN EY ESCOPAWT.

---

YN gymeint am bot i yn gwybot yn yspys lle ny weleis am llygait, vot pop gwlat o Ruuein yd yma megis Germania vawr, a'r Almaen, Polonia Lloegr, a' Phrydyn, Frainc, Llydaw Llychlyn, Iwerddon, a' rrei wrth glun y gelyn yn yr Ital a'r Yspaen, ie ac mewn ynysoedd, gorwledydd, artaloedd a' broedd eraill, yn awyddus ac a mawr groeso yn derbyn gair Dyw drwy ail vlodeuat Euangel ein Arglwydd Iesu Christ, y mae yn dra salw genyf dy welet ti wlat Cembru, a vu ryw amser gyntaf, yr owrhon yn dyvot yn olaf ynghyfryw ardderchawc oruuchafieth a hynn: deffro dithe bellach Gymbro glan, vy annwyl, am caredic vrawt ynghrist Iesu: paid ath ddigenedlu, paid ath ddifrawy, paid ac edrych ir llawr, tremia y vyny tu ar lle ith hanyw: na chwanega mwy om dolur, cadw ith cof a ddywait ath wir gar: ystyria sy tan dy law, cowleidia, ac erbyn attat yr anrheg nefol a ddanfonawdd trugaredd yr Arglwydd yt heddiw. Coffa 'r hen amser, ymofyn ath henafiait, chwilia'r 'storiay, ti a fuost gynt anrhydeddus, ac vchel dy fraint. Ni wna vi son am vrddas, parch, ac anrhydedd bydol yr hen Brytaniait: tewi a wnaf am y gwrolaeth, dewrder, buddugolaythay, ac anturiaythae y Cymru gynt, mi a 'ollynga heibio y amryw gylfyddyday hwynt, synwyr, dysc, doythineb, ar athrylith ragorawl (cyd bai canmoladwy hyn oll, a' digon o profedigaeth rhagorfraint, ac vchelder ymysc pa nasiwn bynac i ceffit hwynt) ac ny bydday anhawdd i mi roi trosof audurdot o hen lyfray cofion, ac ystoriay dilys, i gadarnhau a' gwirhau, fod y cyneddfay ar rhinwedday hynny oll yn amlach, ac yn helethach ar y Brytaniait yn yr hen amser nac ar nasiwn ac ydoedd yw cymdogaeth oy amgylch. Eithr nid ymyrhafi ar ddim or hain. Dwyn cof a wnaf am vn rhinwedd ragorawl a gydbwysa yrhei vchod oll, ath harddai gynt, ac a rodday yt ragorfraint a goruchelder, sef crefydd dilwgr, crystynogaeth bur, a ffydd ffrwythlon ddiofer. Can ys dowait *Sabellius* historiawr ddarvot i ynys Prydain dderbyn ffydd Christ yn gyntaf vn or oll ynysoedd, ac nid heb achos: o blegit yn y ddecfet flwydyn ar vgain ar ol derchafiad Christ i doeth ir deyrnas hon y Senadur anrhydeddus Ioseph o Aramathya discybl Christ ac eraill discyblon crystynogaidd dyscedic gidac ef: y gwyr hynn megis ac i derbyniasont wy'r ffydd a'r crefydd ar crystynogaeth can Christ i hun, ay Apostolion, felly y pregethasont, ac i dyscasant yn y teyrnas honn. Nit bychan y goruchafiaeth hynn, cael cenadwyr dyscedic ffyddlon i 'osot sail a' dechreuad sprydol edeiladaeth ffydd Christ ym-plith pobyl. Y cynnyrch hwn a ffrwythawdd ac a chwanegawdd rhyd y teyrnas hon o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn bigilydd, eithr heb i gadarnhau trwy gymeriad cyffredinawl a' chyfraith y teyrnas hyd yn amser Lles vap Coel, rhwn a eilw y Lladinwyr Lucius, hwn a teyrnasai pan oedd oed Christ 180. Amryw 'storiau a a ddoydant i Lucius yn i amser ef yn gynta *Clxxx.*
dderbyn ffydd Christ ir deyrnas, a danfon *rei i Rufain at *Eleutherius* ** Eluan.*
Escop yno, i ddisyfu cenadwyr i roi Bedydd ac i osot y Crystynogaeth. *Meduin.*

A

578009

** Fagan Damian*

A dyfot Faganus a' Damiamus a' bedyddio y Brenin a' gosot y Crystynogaeth yn yr oll teyrnas. Peth or stori hon y ddichin fod yn wir, sef danfon or Brenin i Rufain eithr nid am nat oedd Crystynogaeth yn y deyrnas, ond herwydd mwy o sicrwydd wrth i chael yn gytun a chrefydd Rufain, rhon oedd enwog a mawr y audurdot (ac nit heb achos) can ys iach a' Chrystynogaidd ydoedd crefydd a dysceidieth Rufain yn hyny o amser, heb chwaith llawer o chwynn dychymmig dyn yn tyfu etto y mysc gwenith gair Duw. Hyn hefyd allay fod yn wir cymryt or Brenhin Lucius bedydd can y cenaday hynny, a' thrwy gyngor yr hein troi eisteddfay yr Archfflaminiait, a'r fflaminiait paganaidd, i fod eisteddfay Archescopion ac escopion chrystynogaidd. Ac yno cynyscauddu or Brenin yn gynta yr Eglwysi ac amryw fowyt, braint, ac anrhydedd bydol, a' gosot reoledigaythay a' threfn ar wasnaythu Christ trwy nerth cyfraith ac awturtot Breninol. Hyn i gyt nit amheua i fod yn wir o' 'storia Lles vap Coel. Eithr troi o Faganus a Damianus yr oll teyrnas mewn byr amser megis i dowait yr hystoria, a' hynny yn ddianot, ddirwystyr, ddiwrthwyneb, od oedent paganiait or blaen heb wybot oddiwrth Christ, nit mor hawdd i gredu. Can ys cyd bei ffydd Christ rhodd Duw, er hyny o wrandaw gair Duw i tyf trwy waith yr Yspryt glan, trwy fawr boen, a' gwastadawl ddiwdrwydd y gwyr llen, y peryglorion, ar eglwyswyr: ac nid gwaith vn-dydd vnnos, yw enill teyrnas vaith poblog i ffyddd Christ. (Yr hynn mwia a allesont apostolion Christ, pa wlad bynac i delent, oedd 'osot sail a' chynnyrch crefydd Christ, rhwn mewn espeit o amser a helethai ac ae ar llet tros wyneb yr oll teyrnasoedd a'r gwledydd.) Ac eto ir hynn cyd bo achos i ammau llawer o 'stori Lucius, am hyn i ddym ni yn y geisio yn bennaf yn y rhysymmay hynn, ni ddawr pa vn or 'storiay vchot a grettoch: can ys ym hob vn yddym yn gwelet cael or Brytaniait Crefydd Christ yn ddilwgr ac yn perffaith. Can ys (mal i doydais uchot) iach ydoedd dysceidiaeth Rufain ar hynny o amser, a' chytun ar scrythyr 'lan, ac Evangel Christ. Am hynny, gwir grefydd Christ, a gair Duw a hardday y Brytaniait gynt, ac a ddygay uddynt ragorfraint a goruchelder. Ac os ammay neb fod hynn o rinwedd ar wir grefydd Christ a' gair Duw: mi a atteba iddo trwy audurtot yr yscrythr 'lan. Val hynn i dowaid Moyses wrth plant Israel, *VVelvveh mi a ddiscais i chvvi ddeddfay a' Chyfreithau megis i gorchmynavvd Duvv i minay, mal i bo i chvvi i cadvv hvvynt yn y tir i ddych yn mynet yvv 'orescyn. Cedwch-hwynt am hynn a gvvnevvch. Can ys hynn yvv ych doythineb ach dyall yngolvvc y pobloedd gan glovvet am y deddfay hynn oll, ac a ddoydant, Y bobl yma sydd vnic synhwyrol, a' dyallus, a chenetlaeth favvr. Can ys pa nasiwn sy cymaint a rhain i davv y dyvviae cyn agoset attunt, ac i may yr Arglwydd cyn Duw ni yn agos attom ymbob peth ar i galwom attavv amdano. A' pha nasiwn sy cymaint, a bod iddi ddeddfay a chyfreithay cyn gyfiawnet ac ydynt yr oll gyfreithay hynn i ddwy yn i gosot gaer dy fron di heddivv?* Yn y geiriae hyn y mae 'n hawdd gwelet pa ragorfraint a goruchelder a ddwg cyfraith Dduw ir cenetlaethay derbynio, ac ai catwo. Y Brytaniait a dderbyniasont attunt gyfraith Dduw, gwir crefydd Christ, a'r Efengel fenigedic, a' hynny yn cyfagos at amser Christ ay Apostolion ymlaen yr ynysoedd oll, ac ae cadwasont yn bur ac yn ddilwgr yn hir o amser yn 'lew ac yn ffynnedic. Can ys cyd byddai terfysc drablin ac ymlit creulon ar y Chrystynogion yn amser Dioclesianus yr Emerodr, rhwn a gymhellodd lawer Christion ym hob gwlad i wadu'r Chrystynogaeth. Ir gallu or Emerodr trwy waith i gaptayn Maximianus Herculeus wneuthyr llawer or Brytaniait yn verthyron yn gweryl Christ, a' distrowio 'r eglwysi, a' llosci'r Biblae: ni allodd ef ir hynny na diffoddi na gwyraw i ffydd hwy. Gwaed y merthyron, yn wyr, yn wragedd, yn veibion, yn verchet, yn wyr-llen yn llygion (yr hei yn dorfoedd o offrymmae eu cyrph ir tan ir ymddifin y Chrystynogaeth) a 'orchfygai greulonedd y dygasoc paganiait, ac a gatway'r ffydd yn gyfan, ac ae hennynnae

*Deut.* 4. 5-8

yn eglurach. Ni allodd chwaith gaulith ac heresi Pelagius penadur y vanachloc fawr ym*angor gynt (cyd bai ef arfog o bob dysc a' chelfyddyt, a mawr eu audurtot ae gymeriat yn i wlad) anrheithio 'r Christynogaeth ymhlith y Brytaniait. O ymgoledd Duw vdyntwy ac ir oll Chrystynogaeth i codai S. Austin, Cyryll, Ieron, Orosius, Benadius, Innocentius, ac eraill gyfryw 'oleuadae, a' philerae 'r grystynogaeth ae pinnae ae tafodae i wrthladd gaulith ac heresi Pelagius. Or vnrhwy ymgeledd Duw ir Britaniait i codai Dewi Archescop, ac eraill ddycsedigion y Deyrnas trwy 'ofalus a' dyfal pregethu ac yscrifenu i ddiffoddi'r fflamm ar gwenwyn. Ac i deuai hefyd ir dyrnas hon Escopion gwynfydedic a' phregethwyr teilwng. Garmon Escop Altisidor, a Lupus Trecensis, a chleddyf gair Duw centhynt, i wahanu 'r amhuredd a lithrasai i mewn ir Chrystynogaeth trwy waith yr vnryw Pelagius ae blait, a' thrwy waith cydymdeithas y Sayson, rhain y prid hynny oeddent paganiait, a' ddarfodd i Gwrtheyrn Brenin y Brytaniait i cynwys ai derbyn ir deyrnas y ryfelä trostaw yn erbyn i 'elynion. Ysbys ydyw i bawb syn darllain historiay beth fu ddiwedd yr ymdynnu rhwng y Sayson ar Brytaniait: y Brytanieit a' orfu arnynt gilio i gyrau ac eithawoedd yr ynys, i Gymru, ac i *Gernyw: y Sayson a 'orchfygasant, ac a wladychasont Loygr. Ac fal hyn i digwyddodd fod yn hir o amser Paganieit a Chrystynogion yn yr vn teyrnas, ar vnwaith, hyd pan oedd oed Christ 600. neu ynghylch hynny, i danfonodd, Gregor Escop Ruuain Awstin i droi'r Sayson ir ffydd. (Nit Awstin ddyscedig yr Athro mawr, eithyr Awstin vanach, rhwn a elwir Apostol y Sayson.) Trwy waith hwn i troed y Sayson hwyntwthae ir Chrystynogaeth. Ac velly ir aeth Chrystynogaeth tros wyneb y deyrnas, cyd bai wahan mawr rhwng Chrystynogaeth y Brytaniait, a'r eilun chrystynogaeth a dduc Awstin ir Sayson. Y Brytaniait a gadwasai eu Christynogaeth yn bur ac yn ddilwgr, heb gymysc dechmygion dynol mal i derbyniesynt gan Ioseph o Aramathya dyscipl Christ, a' chan Eglwys Ruuain pan ydoedd bur yn glynu wrth rheoledigaeth gair Duw. Y Chrystynogaeth a ddug Awstin ir Sayson a lithrasai beth o ddiwrth puredd yr Efengel, a' thervynay 'r hen Eglwys, ac ydoedd gymyscedic a llawer o arddigonedd, gosodigaythay dynion, a ceremoniae mution, anghytun a natur teyrnas Christ. Croeseu a' delway, crio ar y saint meirw, pendefigeth Escop Ruuain, dwr a' halen swynedic, a chyfryw oferedd anhebic i ysprydoldep Evengil Christ a gymyscai Awstin a'r Chrystynogaeth a osodai ef ymhlith y Sayson. Chwith oedd can y Brytaniait welet y cymysciat, ar difwyniant hynny ar grefydd Christ. Ac am hynny ar ol ir Sayson dderbyn cyfryw amhur Chrystynogaeth a hynn attunt, nit oedd teilwng can y Britaniait gyfarch gwell ir vn o honynt, cyd bai fodlon centhynt or blaen tra oeddent paganiait, cydbrynnu a gwerthu, cyt dyddio, cytfwytta ac yfet, a chydhelyntio ac wynt. Ac nyd eb awdurtot yr yscrythur lan i gwnai 'r Brytaniait hynny: can ys mal hynn i dowait Pawl Apostol. 1. Corinth. 5. *O bydd neb a elwir yn fravvd yn puteinivvr, neu cybydd, neu addolvvr delvvay, neu 'oganvvr: neu feddvv, neu travvs, na chytfvvyttevvch vnvvaith gida'r cyfryvv.* Am hynn i galwodd Awstin attaw saith ‡ Escop y Brytaniait, ac eraill oi gwyr dyscedic ay crefyddwyr i geisio centhynt dderbyn atunt yr vn drefn ar Chrystynogaeth ac a ddygasai ef ir Sayson, a chydnabot pendevigeth Escop Rhufain goruwch oll Escopion y byt, ac ymddarostwng yddaw. Gwrthod yn llwyr o Escopion y Brytaniait hwy ae dyscedic hyny gytuno ac ef. Ac am Escop Rufain eu hattep oedd, na wyddentwy achos i ymddarostwng i Escop yn y byt onit i Archescop Caer lleon ar wys. Yr hyn attep a wnai Awstin yn orddic. Ac am hyny mynet a wnaeth i gynnell, ac i annog Ethelbert Brenhin Cent, a' thrwyddaw yntau Elffrit Brenhin Northwmberland, yr hai a ddoythant yn ddiannot am ben y Brytaniait, ac a laddasont vil a deucant o grefyddwyr Bangor a dyscedigion y Brytaniait, rhain mal i dowait rhai or historiae a ddeuent yn ddiarfay yn bennoeth droednoeth i ddisyfu heddwch can y ddau

* *Bangor ym Maylor.*

*Dewi archescop Menevv*

*Garmon*

* *Cornvvel*

*D.C.*

‡ Sef, Henfordd, Taf, Patern, Bancor, Elwy, wic. Morgan.

*Ethelbert*

*Alphred*

Vrenin. Ar ol hynn, o amser bigilidd i gwanhaywyt y Brytaniait, ac y duc min y cleddyf hwynt or diwedd i gytuno a ffydd y Sayson, ac i ymadaw a phuredd a' chowirdeb y cynefyn Chrystynogaeth eu hunain. Ti a glowaist hyd yn hyn modd i buost anrhydeddus gynt o ran crefydd Christ, ar ffydd catholic. Weithiau i manegaf yt yr iselder, ar gostyngiat a ddigwyddodd ir Brytaniait. O hyn allan leilai fu ey rhwysc, a mwyfwy eu gorthrymder ay caethiwet ym hob helhynt bydol. Ac am faterion ysprydol, wedi yddynt cytcordio ar Sayson mewn crefydd a gau ffydd, cytsuddo gidac hwynt ddwfnach ddwfnach a wnaythont o oes bigilidd mewn pob gauddywiaeth, delw-addolaeth, arddigonedd, ofergoel, a' gau-ffydd. Ac erbyn attunt dychmygion, traythiaday, a gosodigaythay dynion, yn lle cyfraith Dduw, ac Evengil Iesu Christ: ceremoniae aflafar ac amryw vunydiae hudolaid, yn lle llafarwch pregethu gair Duw. Sef fal hynn i digwyddawdd cymyscu Chrystynogaeth y Brytaniat, ac amhuredd crefydd y Sayson. Yn nesa at hynn galw ith cof y gollet a gavas y Cymru am eu llyfray beth bynac faynt, ay celfyddyt, ay historiae, ay Achay, ay Scrythur 'lan: ys llwyr ir anrheithiwyt oll Cymru o honynt. Can ys pan 'oystynget Cymru tan goron Loygr trwy nerth arfeu, di-ammay ddistrowio llawer oy llyrfray hwynt yn hynny o trin. Ac or hei a ddihanghasont, medd y Beirdd, Pendifigicn Cymru a ddygwyt i fot yn carcharorion tragowydd ir Twr gwynn a gasclasont o honynt cymaynt ac allasont yw dwyn gidac hwynt, ac yw darllain ir diddanwch vddynt yn i carchar, a rhein or diwedd a loscwyt yn y Twr gwynn: am hynny i canodd y prydedd, *Ysceler oedd i Scolan, fwrwr twrr llyfray ir tan.* Pa ddestriw ar lyfray a gavas Cymru o ddiwrth rhyfel Owain Glyndwr, hawdd yw i ddyall wrth y trefi, Escoptae, manochlogydd, ar tem'leu a loscwyt trwy oll Cymru y pryt hynny. Dyma gyflwr gresynawl ar pobl, i dinoithi a' dwyn eu goleuni o i canthynt, ae gadael megis yn ddeillion i ymddaith ac i siwrneio trwy wylltineb y byt hwnn. Val hynn i digwyddawdd na bu nasiwn irioed mor anafus am lyfray a' gwybodaeth yn ey iaith i hun a'r Cymru. Mawr ywr goleuni a ddoeth ir byt, a' mawr i cynyddodd ac i chwanegawdd pob celfyddyt, a' gwybodaeth sprytawl, a corphorawl, ym hob iaith ym hop gwlad, ac ym hop teyrnas ir pen ddychmycwyt celfyddyt Printio. Eithr mor ddiystyr fydday iaith y Cymro, a chyn bellet ir esceulusit, ac na allodd y print ddwyn ffrwyth yn y byt yw gyfri ir Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydic cyn hyn i gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r epystelay, a arferit yn yr Eglwys tros y flwyddyn, yn Gymraeg yn print, a' * Syr Ihon Prys yntay y Pader, y Credo, a'r. .x Gorchymyn. Gwrandaw etto y sy cenyt ith coffau amdanaw. Wrth ystyriaeth cwrs crefydd y byt, o Adda hyd at Christ, ac o Christ hyt heddiw, nit heb achos i gellit ey gyfflybu i ardd lysiae: 'rhon oi phalu ai chweirio, oi diwallu o blanigion a' haad, oi threfnu, ay chwnny yn ddiwit: teg fyddai, llyosawc a' ffrwythlon o pob bath ar lysiay aroglber, gwrthfawr, rhinweddawl. Eithr oi esceuluso, heb nai diwill nai threfnu, nai ymgleddu nai hau, nai chwnnu: diffaith fyddai ac anhardd, ac a fagai ddanadl ac yscell, drain, drysi, meri, ac anialwch. Velly crefydd y popl yn y byt hwnn, yr amseray i bydday prysur y gwyr llen yn pregethu gair Duw, diwit a dyfal y gwilwyr sprydol, ar peryglorion yn hau ac yn plannu cyfraith Dduw, ac Efengil Christ, ynghalonay 'r popl, ac amyl darlleydd gair Duw: pur a dilwgr ac iach fydday 'r crefydd. Duw, rhwn a wnaeth nef a dayar, yn vnic addolit ac a wasneithit, ffrwythlon fydday ffydd gobaith a' chariat perffaith, ac amyl pob rhinwedd dda. Yn-gwrthwynep i hynny pan fydday esceulus, a' diofal, neu anyscedic yr Escopion, pan fai segurllyt a deillion yr effeiriait, pan fai'r eglwyswyr, ar peryglorion yn fut ac heb vngair iawn ddysc oi pen, a' thrachwant y byt wedi dwyn i lleferydd, ac attal eu llais (a' mynychaf y sywaeth y ceit yn y byt y cyfryw hynn) ac yn bring cael vn darlleydd gair Duw, yno i tyfai ac i tyrnasai pob gau ddywicth, delwaddoleth, arddigonedd, ofergoel, rriuieu,

* *Marchog vrddol*, 1555

swynion, diffawdd ffydd, magwreth pob rhin ddrwg, ac any wolaeth. Yno ir esceulusit gorchmynion a rheoledigeth gair Duw, ac i mawrheit dechmygion, gorchmynion, a' gosodigaythay dynion. Am hynny mawr fu drugaredd Duw ym hob oes o Adda hyt Christ, can ys ni bu nac oes nac amser, nas danfonai ef prophwyti, athrawon a' phregethwyr, i ddwyn goleuni ir byt, i grio yn erbyn gauddywieth, anheilyngtot, delw-ddolaeth, a' drug fuchedd, ac i rybuddio'r byt i ymchwelyt ir iawn, ac i reoledigaeth cyfraith Dduw, ay orchmynion. O amser Christ hyt heddiw ni bu ddim llai ey drugaredd. Can ys amyl ymhob oes i danvonodd ef genaday dyscedic, a' phrophwydi ffyddlon i geryddu gauddywieth, arddigonedd, a dychmygion dynion, a buchedd anywiol, a' thrwy awdurtot gair Duw i adnewddy'r hen ffydd, ac i edrych crefydd Christ ar ol rheoledigaeth gair Duw, ac hen athrawon dyscedic, ac arfer yr hen Eglwys nesa at Christ, ae Apostolion a'r oesoedd nesa at hynny. Eithyr yn benddifaddae mawr fu eu drugaredd yn eyn amser ni ofewn y trugain mhlonedd hynn: o herwydd llawer o genadau dyscedic, a' phrophwydi nerthawl ym hob dysceidiaeth, celfyddyday, ieithoedd a gwybodaeth ysprydol. Trwy waith yrhain i may oll teyrnasoedd Cred o fewn Europa eysus wedi egoryt eu llygait, ac yn craffu i ble i dycpwyt hwynt, a phle i buont gynt, ac yn gwelet eu dyvot adre, a' chael yr hen fford, a' dymchwelyt ir iawn, sef gwir crefydd Christ, a'r ffydd catholic sy ai gwreiddyn yn gair Duw, ac Efengel Christ. Etto (gwae fi o hynny) nit wytti'r Cymro gyfrannoc o ddim hapach or goleuni mawr hwnn sy tros wyneb y byt. Can ys nit escrifennodd ac ni phrintiodd neb o honynt ddim yn dy iaith di. Wele, mi a ddangosais bellach yt dy vchelder ath fraint gynt, ath ostyngiat, ath yspeil wedi. Am hynny, o iawn ystyryaeth a chydnabot a thi dy hun ti a ddylyt fod yn llawen, ac yn fawr dy ddiolch i Dduw, i ras y Vrenhines, i vrddas, ac i gyffredin y deyrnas, sy yn adnewyddu dy fraint ath vrddas (vrddas tragwyddawl a ro Duw yddynt am hyny) Cans trwy eu awdurtot, ae gorchymyn hwynt i may dy Escopion trwy gymhorthwy William Salsbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yscrythyr 'lan, (dy genefin gynt) a gynhwisir ofewn corph y Bibl cysegredic. Dyma r naill ran yn barot, rhon a elwir y Testment newydd, tra vych yn aros (trwy Dduw ni bydd hir hynny) y rhan arall a elwir yr hen Testment: etto or hen may r psalmay cenyt eysus yn gymraeg yn llyfr y gwasanaeth Nid gair oth iaith di ydiw Testament: can ys Deddyf, neu ammot, neu lythyr cymmyn i gellit i alw yn ein iaith ni. Gwell ir hynny o lawer o achosion (modd i gwnaeth ieithoedd eraill) yw benthygio y gair yma Testament, megis y gwnaeth ein hynaif ni yr hen Vrytanieit wrth dderbyn y ffydd y waith gyntaf, mal y tystia y pennill hwn (y gant rryw prydydd cyfrwyddach na llawer o 'ffeiriait yn oes ni)

*Testament pa yvv.*

Erchais doe val Arch Estefn
Ey dda adref ai ddodrefn.

*Arca testamenti restituta 1. Reg. 6.*

Ac o herwydd bot y gair hwn Estefn gwedy treulo cymeint gan davodae'r bopul anllythyrenoc, a' heddyw yn ancydnabyddus gan escaeluster y gwyr Eglwysic, nineu a gymerwn eilchwyl y gair yn vwy cyfan, vegis canmwyaf y mae oll nasioneu Cred yn ei arver: a' phoet da y treulier eto rhac llaw. A' thrwy Dduw ny bydd ny-mawr o vlynyddeu nes eto myned y gair Testament yn ddigon sathredic, cyffredin, Cymroaidd, ac yn gwbl ddyallus ei iawn arwyddocaat. Testament gan hynny a arwyddocaa weithie yn yr scrythyr 'lan llywodraeth, neu ordinhaad, a' hynny trwy ymadrodd ar ddammeg, a benthygio cyfflybrwydd o i wrth yr hei a font yn mynet i farw: arfer yr heini yw gwneuthyr testament: sef testlaythy i wollys ar llywodraeth a fynnot i fod ar i hol ar ey da ae dynion. Weithiau arwyddocau a wna y peth a cymuner, ac a wollyser trwy figur a elwir trawsgymeriat: ac felly i gellir galw maddeuaint y pechodae, testment. Y trydydd modd ai cymer yn lle rhwym neu ammot sy rhwng Duw a dyn. Can ys Duw ai

*Arvvyddocat Testament*

*Ysprytavvl vvyniant y Testament*

rhwymawdd ef i hun i ni mewn ammodae, yr hai a fynnawdd ef i bot yn gyhoedd, ae hespesu: lle mae i ni welet beth sy i ni yw gael canthaw: pa ymwared, pa ymddiffin, pa ytifeddiaeth, pa ymgeledd, a' pha ddayoni. Ac or tu arall, beth sy i ni yw wneuthur tra fom mewn pererintot y byt hwn: beth i mae Duw yn y ofyn cenym, pa wasanaeth ae boddhaa, pa fuchedd ai bodlona, ac fydd cymradwy cantho. Dyn herwydd llwgr i natur ni wyr ddim o ddiwrth Dduw, onis cyrch or Testament hwn. Yma yn vnic i ceir gwybodaeth am ordinhaad, llywodraeth, a' thragwyddawl wollys Duw: pa anrhydedd, addoliant, a' gwasanaeth a fynn, pa grefydd, pa 'orchmynion, a' pha fuchedd a eirch. Duw nit oes ynthaw newidiat, nac anwadalwch. Yr vn Duw yn yr hen Testment, ac yn y Newydd. Ac am hynny vn Testment ywr Hen a'r Newydd, ar ran devnydd, sylwedd ac ansawdd. Galw a wneir yr hynny cymmaint oll a ddangosawdd Duw oi wollys, ae lywodraeth, oi 'ofynion, ae 'orchmynion, ir pobl hen cyn geni Christ, yr hen Testment. Heb wahan yn y byt ir hynny rryngthynt a phobl y testment newydd, onit cymaint a fyddai rhwng dau ddyn i rhoit cnau vddynt, ir naill i rhoit hwynt yn i cibae: ir llall yn barawt wedi i gwiscio. Y cyfflybrwyd hwn a ddwc yn eglurach beth dyall it i ar y gwahanieth rwng y ddau pobl (cymer hynn gida thi: ni pherthyn estyn cyfflybrwydd yn rhybell) velly gan hynny nit o ran y crefydd, ond o ran y modd ir adroddit, ac i dyscit y crefydd i mayr gwahan. Yr hen pobl i rhoit crefydd Duw, a' Christynogaeth Christ attunt tann elfenay bydol, tann ffyguray, cyscoday, arwyddion, ac amryw ceremoniae, ac ymweini corphorawl. Yn yr hein, a' thann yr hein oi dosparth ai deongl, oe egori ai esponio i ceid pwyll, ac arwyddocaat sprydol am tracwyddawl wollys Duw ay gyfraith, a' dyfodiat Christ mewn cnawt, eu ddioddefaint a' phrynnedigaeth y byt. Pobl y Testament newydd herwydd dyfodiat Christ a gowson rhydit a' gollyngtot o wrth oll ceremoniae, ffyguray, ac eraill, y rhac ddoydedic arwyddion, ac a roir attunt tracwyddawl wollys Duw, y crefydd, ar Christynogaeth yn agoret, ddiymgudd, mewn ysprydolaeth a' gwir yn i rhith eu hun. Yn y Testment newydd yr arwyddion ar oll ceremoniae corphorawl a giliasont, a ddarfuont, ac a ddiflannasont. Dau arwydd heb fwy a ordinhaodd Christ i bobl y testment newydd: Bedydd a' Chymmun, ne val y gailw S. Paul Swper yr Arglwydd. Hefyt yr hen testment a' ordinhaodd Duw tros amser i vn genedl, sef ir Iddewon yn vnic: y testment Newydd a gyrydd atto oll genhedloedd y byt, heb wahan rhwng nasiwn ai gilied. Bellach may cenytti amcan pam i gelwir y naill yn Hen, ar llall yn Newydd: yn hen am i fot yn dyscu tracwyddawl wollys Duw, y gwir crefydd a' christynogaeth yr hen pobl cyn geni Christ: yn newydd am i fot yn dyscu yr vn peth ir pobl wedy geni Christ: yn hen am i fot yn dyscu vn genhedlaeth yn vnic, sef yr iuddewon: yn newydd, am i fot yn dyscu oll genhedloedd y byt yn ddiwahan. Yn hen am i fot yn dyscu trwy arwyddion elfenay bydol, a' ceremoniae corphorawl: yn newydd am i fot yn dyscu yn 'olau ddiymgudd trwy ysprydolaeth a' gwir yn i ritth i hun. Cymer ef ith law, symrawd, a' darllain: yma i cei welet ple i buosti gynt, yma i cei ymgydnabot ath hen ffydd, ar Christynogaeth ganmoladwy oedd cenyt gynt. Yma i cei'r ffydd a ymddiffynaist hyd at tan a'r cleddyf, ac i merthyrwyt dy crefyddwyr ath rei dyscedic gynt yn i chweryl. Ti ond antur, dierth yw cenyt glowet fot dy hen ffydd di ay hanes or Testament, a' gair Duw: can ys ni welaist irioed y Bibl neu'r Testament yn Gymraeg nac mewn scrifen, nac mewn print. Yn lle gwir ni ffynnodd cenyfi irioet gael gwelet y Bibl yn gymraeg: eithr pan oeddwn fachcen cof yw cenyf welet pump llyfr Moysen yn Gymraeg, o fewn tuy *ewythyr ym 'oedd wr dyscedic: ond ni doedd neb yn ystyr y llyfr, nac yn prisio arno. Peth amheus ydiw (ir a wnn i) a ellit gwelet yn oll Cymru vn hen Bibl yn Gymraeg ir penn golledwyt ac i speliwyt y Cymru oi oll lyfray, mal i doydais or blaen. Eithr diammay yw cenyf fot cyn hynny y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg. Perffeithrwydd ffydd y merthyron,

*Cyfflypiat y ddau Testament*

Popul y Testament newydd

Dau sacrament neu arwydd yn y Testament newydd yn vnic.

*Hen.*

*Nevvydd*

Cyffelip mae Gruff. ap Ieuan ap Lln. Vachan y mae ef yn ei veddwl

eglwyswyr a lleigion a sonnais vchot amdanut, sy brawf cadarn fot yr Scrythyr 'lan centhynt yn i iaith eu hunain. Can ys nid oes dim cyn ablet i siccrhau ffydd mal i bo gwiw can ddyn ddyoddau marfolaeth yn i chweryl ac ydiw gair Duw i bo dyn yn i wybot, ac yn i ddyall y hun. Val hynn hefyt i dowait *Eusebius de preparatione Euangelica, lib.* 9. *Predicatum est itaque Euangelium breui temporis spacio in toto orbe terrarum, et Greci et Barbari quæ de Iesu scripta erant patrijs literis patria que voce exceperunt.* Yr efengil (medd ef) a bregethwyt mewn byr amser yn yr oll fyt, ar Groegwyr ar barbariait a erbyniasont yr hyn a scrifennit am Iesu, yn llythrenae, ac yn iaith y wlat. Wrth y geiriay hyn i gallwn ddyall fot y Testament nit yn vnic yn iaith y Brytaniait, eithr hevyt yn iaith pob gwlat a gretai i Christ. Y trydydd rheswm yw hwn, may cenym ni yn Gymraeg amryw ymadroddion a' diharebion yn aros fyth mewn arfer a' dynnwyt o berfedd yr scrythyr 'lan, ac o ganol Efengil Christ. Yr hyn sy profedigaeth digonawl vot yr Scrythyr 'lan yr gyffredin ym hen pob bath ar ddyn, pan i dechreuwyt hwynt, a phan i dycpwyt i arfer gyffredinol. Myfi a nota ac a ddyga ar gof yt rai o honynt. Yn sathredic i doydir, *A' Duvv a digon: heb Dduvv heb ddim.* O ble i cad hynn o ddysceidieth, ple i mae i wreiddin ae warant? onit hyn yw gyriat a' chloedigaeth yr oll Scrythyr 'lan? onit hynn i mae 'r prophwydi, a'r psalmae, a'r Testament newydd trwyddo yn i ddyscu i gristion o ddyn? Nid rhaid yma fanwyl chwilio am testiolaeth: rheitiach, yw can i bot mor amyl, edrych pa rai a ddewiser, a pha rai, i geisio byr hau'r traythawt, a adawer. Mal hynn i dywait y prophwyt Dauyd,

*Yr Arglvvydd sy bigail ym, ni bydd arnaf eisie.* *Psalm.* 23.

*Ef a bair ym orphovvys mevvn porfa 'las, ac am arvvain gar llavv dyfredd arafaidd.*

*Ef a ymadfertha vy enait, ac am tovvys rhyt llvvybray vnion ir mvvyn eu Envv.*

*A' phe rhodivvn rhyt glynn cyscot angae, nit ofna ddrwg, am dy vot ti gyda mi: Dy wialen ath ffon hwy am eysurant. &c.* Chwi a welwch yn y psalm yma vn o wraidd: y ddihareb sy cenym, ac a glowch yr vn bwyll yn y psalm ac syn y geiriae hynn. *A Duvv a' digon. &c.* darllain y rhan ddiwaytha or pumet penn o Evangel Mathew, lle i mae Christ Arglwydd yn erchi i ni na bom gofalus am beth yw fwyta, ac yw yfet, ac yw wisco: ac yn eichi y ni cymeryt siampl o adar yr wybr a lili'r meysydd: rhain i mae Duw yn i diwallu o borthiant a gwisc. Ac am hyny i perthynae i ddyn nad amheue ymgeledd a' gallu Duw, a' chredu i cowira ef i addewid, sef i bydd pob peth yn ddiandlawt ir neb a ofalo yn gynta am teyrnas Duw ae chyfiownder. Ac am hyny gwir yw'r ddihareb, *A Dvw a digon.* Ystyria yma hefyt hyn a ddowait Christ yn y. ix pen o Evangel Luc, *Beth a dal i ddyn ynill yr oll fyd ae ddistrowio i hun, neu i golli i hun? Canys pvvy bynac a gvvilyddio om pleit i, am geirie: o bleit hvvnvv i cvvelyddia Mab y dyn pen ddelo yvv 'ogoniant. &c.* ac velly rhagoch. Yn yr ymadroddion hyn, ac yn y geirie sy nesa o vlaen yr hain yn y penn doydedic, i gweli gadarnhau y ddarn arall ir ddihareb, sef *Heb Dduvv, heb ddim.* Tro bellach at yr. viii. pen o 'pystel Pawl abostol at y Ruueniait. *Beth ddoyddvvnn i gan hynny vvrth y pethae hynn? O bydd Duvv gida ni, pvvy a all fod eyn herbyn? Rhwn nid arbedodd i Vab y hun, eithr ae rhoddes trosom ni, pa fodd nas rhydd ef hefyt pob peth y-ni gidae ef?* Nid rhaid ym boyni ymhellach i ddwyn ar ddyall yt o ble i tyfodd dihareb y Cymro. *A' Duw a digon: heb Dduw, heb ddim.* Yn yr Scrythr 'lan i mae i gwraidd, ey hanas, ae dechreuad. Ond (y sywayth) cyd bo'r ddihareb yn aros y mysc y Cymru, ar geiriae 'n gyffredinawl, etto hi a golles yn llwyr i ffrwyth. Edrych ar ddull y byd, yno i cei brofedigaeth. Mae 'n gymaynt trachwant y byd heddiw i tir 'a dayar, y aur, ac arian, a' chowaeth, ac na cheir ond yn anamyl vn yn ymddiriet i Dduw,

*Luc.* 9. 25.

*Ru.* 8. 31.

Ei ddolur tros ei wlad.

Bot y Cembru wedy digenedlu y wrth ddywolder eu hynaif

ac yw addaweidion. Trais a lladrad, anudon, dichell, ffalster, a' thraha: a rhain megis a chribynae mae pob bath ar ddyn yn casclu ac yn tynnu atto. Ni fawdd Duw y byd mwy a dwr diliw; eithr mae chwant da'r byd wedi boddi Cymru heddiw, a' chwedi gyrru ar aball pob ceneddfae arbennic a rhinwedd dda.

*Yn erbyn camarver traws swyddogion a' chyfraithwyr hocedus.*

Can ys beth yw swydd ynghymru heddiw ond bach i dynu cnu a chnwd ey gymydoc attaw? beth yw dysc gwybodaeth a' doythineb cyfraith ond drain yn ystlys y cymedogion i beri yddynt gilio hwnt? Amyl ynghymru, ir nas craffa cyfraith, i ceir neuadd y gwr bonheddig yn noddfa lladron. Maddeuwch i mi hyn o gaswir: herwydd precethu'r caswir ys y yn siars y precethwr: am hyny pe rryngwn vodd dynion ny vyddwn wasnaethwr Christ, yr hwn y glywaf ey lef yn im clust yn wastat yn sonio, *Llefa yn gtoeh, nac arbet: dyrcha dy lais val trwmpet, a' manec im popul eu henwiredd ai pechoteu:* nyd ynteu molach, nyd gweniaith, nyd petheu bodlon. Am hyny y dywedaf, oni bai fraych ac adain y gwr bonheddig ni bydday ond ychydig ladrad ynghymru. Mi a wn fod boneddigwn o wyr da ac yn cashau lladrat, ac yn difa lladron: nid wyfi yn doydet dim yn erbyn yr heini. Ni chafi o ennyt yma fanegi yr anrhaith a wnaeth chwant da byd, ac angrhedinieth i addaweidion Duw ar bob rryw ddyn ynghymru o eisie dysceidieth yr ysctythr 'lan, a' chydnabod a' chowirdeb a grymm y ddihareb sy gyffredinol yn i mysc, *A' Duvv a' digon heb Dduw heb ddim.* Yn nesa at hyn, ni a gymerwn yr ymadrodd hwn, sef *A' gair Duw yn veha:* ymadrodd cyffredinawl ydyw yn yngwlad i, pann amcano dyn ddoydet, gwneuthyr, neu fyned y
*Iaco.* 4. 15. vnlle, val hynn i dowait, Mi a wna, mi a ddoyda, neu mi af ir man a'r man a gair Duw yn vchaf. Evengelaidd a' chrystynogaidd yw 'r ymadrodd hwn a' chytun ar scrythyr 'lan or lle i ganed ac i magwyt. Can ys vellyn e dowaid y prophwyt Dauyd, *Vnion yw gair yr Arglwydd, ae oll weithredoedd ef y sy ffyddlon*, ac ychydig rhag llaw. *Trwy 'air yr Arglwydd i gwnaethpwyt y nefoedd ac oll byddinoedd hwy, trwy yspryt eu enau.* Psalm. 33. A'r prophwyt Esai yntau. *At y gyfraith ar prophvvydi, oni ddoydant hwy 'ar ol y gair hwn: hyny fydd am nad oes goleuni ynthunt.* Esai. 8. Christ yn y. xxiiii. pen o Mathew. *Nef a dayar a gerddant, eithr fyngeiriau i nid ant heibio.* A' chrachefn *O car neb fi, ef a geidw fyngair i.* Io. 14. yn y mannae hyn i mae hawdd gwelet o ble ir hanoedd yr ymadrodd hwn, *A' gair Duw yn vcha.* Pan ddechreuwyt a' phan ddycbwyt yr ymadrodd hwn i arfer gyffredinawl i rydoedd gair Duw yn anrhydeddus, ac yn fawr y bri arno. Can ys pan ddoyto dyn, *A' geir Duvv yn veha*, cymeint yw a' phe doydei, Trwy na bo yn erbyn gair Duw, neu, a gair Duw yn caniadu: neu trwy i vod yn gytun a gair Duw mi a wnaf, neu mi a ddoyda hynn neur llall. Wrth hyn credu i royddynt yn yr amser hwnw nad oedd iawn yddynt wneuthr, na doydet dim yn erbyn gair Duw. Dyna ffydd a chrefydd y Cymru gynt a ddyscent wy or scrythyr 'lan, o 'air Duw, ac o Evangel Iesu Christ. Eithyr i ble y tynnodd Eglwys Ruuain hwynt wedy hynny? Yn wir nid i adael gair Duw yn vcha, ond yw ddistyru ae fychanu. Gair Duw a ddowait, *Na vvna y tyhun ddelvv gerfedig, na llun dim y sy 'n y nef vehod, neu yn y ddayar isod, nae yn y dvvr dan y ddaayar: nae ymostvvng vddynt, ac na addola hvvynt.* Ni allesit rhag cwilidd ddwyn delwae ir Eglwys ai addoli hwynt (megis i mae arfer Eglwys Ruuain) pe gadowsit gair Duw yn vchaf.

Can ys vn or deg gorchymyn Duw ydyw, *Na vvna y ty hun ddelw. &c.* yma i cei di weled dichell Antichrist. Ar ol y Senedd neu'r gymanfa yn Constantinopol tan ‡ Constantinus yr Emerodr lle i roedd. 330. o escopion pan oedd oed Christ saith cant a'. xxxix. ac ar ol ir escopion hynny trwy awdurdot gair Duw wahardd delway tros yr oll Chrystynogaeth, wedi marw Constantin ynghylch pan oedd oed Christ saith cant a. lxxiii. Elen y vam ef a alwodd cymanfa o. 330. Escopion yn Nicea, a' thrwy eiriol Elen yr escopion hynny a ymddiffynnasont ddelway yn erbyn gair

** Cwstennin Constin o cccxxx. o Eseyp, Elen vereh Coel Godeboc*

Duw, ac a parasont trwy awdurtot gosot delway yn yr Eglwysi, ai addoli hwynt. A' rhac cael or oll fyd vai arnynt hwy neu ey plait, hwynt a barasont tynnu vn or dec gorchymyn ymaith, sef hwn oedd yn gwahardd delway, ac i gadw y rhifedi hwy dorasont vn gorchymyn yn ddau, sef y gorchymyn diwaytha. Ni allasont wy wneuthyr hynny ynghorph y Bibl ond am y Copiae or. x. gorchymyn a roid allan, ac a ddyscit yn yr Eglwysi, ac i yscolheigion: ni cheit yn vn or heini yr ail gorchymyn sy'n gwahardd delway. Y mae cenyfi hen copiae i brovi bot hynn yn wir. Hefyd pan oeddwn i yscolhaig val hynn i dyscay'r effeiriait y. x. orchymyn.

*Vnum crede Deum, ne iures vana per ipsum.* *Decalogus a' pp. decurtatus*
*Sabatha sanctifices, habeas in honore parentes.*
*Ne sis occisor fur, moechus, testis iniquus.*
*Alterius nuptam, non rem cupies alienam.*

Dyma adael allan yr ail gorchymyn Duw yn gyfan, rhac cael cwilidd am i gwaith yn ymddiffin delwae, os goddefit ir pobl wybot a' gwelet, vod gorchymyn Duw yn erbyn delwae Val hyn i rhoddai Antichrist ae weision air Duw yn isa, ac nid yn vcha mal i roedd ffydd y Cymro gynt yn doydet. *A' gair Duw yn vchaf.* Y geiriae hyn pwy bynac ae cymer hwy cantho megis canwyll yn i law, hwy a gyhuddan, ac a ddangosan lawer o frynti, ac o oferedd crefydd Ruuain, yr hwn nyd oedd ddim amgen, val ymae'r ddiareb, onid siomi Duw a manach marw: ond ni chafi dario, rhaid i mi dalvyrru 'r araith rhac bod yn rhyhir.

Y trydydd ymadrodd cyffredinol y mysc y Cymru a dynnwyt or *Ioan* 1.
yscrythr 'lan yw hwn, *Y mab rhad* nid oes yma onid tri gair byr o vn silla bob gair, etto maynt yn cynhwyso llawer o synwyr ac o addisc sprydol, yr hyn i mae 'r trydydd penn ar pedwerydd o epystl Pawl at y Ruueiniait, yn benna yn i ddyscu, a llawer man or scrythur 'lan heb law hynny. Yr vn addysc a gei di yn y geiriau hynn *Y Map rhad* oi chwilio ai gorofyn: Map rhad i gelwir Christ Iesu am i vod ef trwy'r pridwerth a wnaeth ef trosom ni ar pren Croes, yn purcasu i ni trugaredd y Tad or nef i faddan i ni eyn pechodae yn rhad heb i ni ryglyddu dim, heb na thal na gwerth ond yn rhad. Nid am eyn gweithredoedd ni i cyfiownir ni gar bron Duw: eythyr yn rhad trwy trugaredd Duw a purcasodd y
map rhad i ni. Fydd a dycia i ni gan hynny gar bron Duw: can ys *Ephes.* 2.
ffydd a gymer afael, ac a dderbyn attei, y trugaredd a pnrcasodd y Map
rhad i ni. Am hynn i dowait Pawl Abostol, *Barnu i ddym i cyfiownir* *Ru.* 3.
*dynn trwy ffydd heb vveithredoedd y gyfraith.* Nid oes dyn ac ni bu irioed a ddichin ymddiriait yw weithredoedd y hun. Can ys llygredic yw natur dyn ac amperffaith yw i weithredoedd ie mal i dowait y proph-
wyt Esai mal y cadach budyr ydyntwy gar bron Duw. Ac am hynny i *Esa.* 64.
dowait Christ, *Pan ddarffo yvvch vvneuchyr cwbl a 'orchymynyt yvvch doydvvch ych bod yn vvasnaethwyr amproffidiol.* Luc. 17. Fydd a dderbyn drugaredd Duw trwy Christ Iesu yn cyfiowni ni gar bron Duw, ac nid gweithredoedd. Ir hynny lle bo ffydd, e fydd gweithredoedd: can ys ffrwyth ffydd yw gweithredoedd. O blegit mal na bydd tan heb wres: velly ni bydd ffydd heb weithredoedd da. Eithr er hynny y gyt llwyr ith twyllwyti os wytti yn tybait i dichin dy weithredoedd dy gyfiowni di gar bron Duw: ymwrthot ath weithredoedd, cydnebydd ath amhuredd, ath anallu, ymddyro yn gwbl i drugaredd Dduw. Cyfadde yn dy golon a' chred yn gry, yn ffrwythlon, ac yn ddiammau: hyn yw cyrch a chloediggeth yr scrythyr 'lan trwyddi: purcasu o Christ i ti faddenant dy bechodau yn rhad. Ac am hynny gwir yw gair y Cymro a dynnodd ef gynt or scrythyr 'lan, pan alwodd ef Christ, *Y Mab rhad.* Nid oedd rhaid i ti arf well yn dy law i ymladd yn erbyn Pelagius, ar gaulith ar heresi a osodes ef allan ynghylch puredd natur dyn oi enedigaeth, a' gallu dyn i ymgyfiowni gar bron Duw, trwy gyflewni 'r gyfraith ai weithredoedd i hun: neu yn erbyn Athraweth llygredic Eglwys Rufain, a'r yscol awdurion, yn dyscu i ddyn ymgodi or pechawt a wnaeth

ef wedi bedydd, trwy benyt, sef dolur calon, cyffes genau, a' thaled-
igeth gweithred, (nid wyfi yn gwrthot yr vn or tri hyn yn i iawn ddyall,
ond yn i ddyall hwyntwy) i wrthladd yr hain oll nid rhaid arf well nor
ddysc a gynhwysir yn y byr eiriae hynn, *Y Mab rhad*, ac yn yr
scrythyr 'lan lle i cafas y geiriau hyn i dechreuad ai tadogaeth. Mae
cenyf lawer heb law hynn o ddiharebion ac ymadroddion arferedic ymysc
y Cymru, sy ae dechreuad, ae hanes o 'air Duw. Ac am hynny yn
dystion vod yr scrythyr lan, a' gair Duw yn gyffredinol gynt gidar
* *Gen.* 3. 19. Cymru mal i mae 'r hain. *Ni * lafur ni weddia, nid teilwng yddo y*
*Tobi.* 2. 13. *fara. Eglwys pawb yn i galon. Cyn ‡ wiried ar Evangel. * Pan nad*
2. *Thessa.* 3. 10 *rryvedd na thyf posc aur trwy ven ty yr enwir? Drwg i ceidiw diawl*
‡ *Ioan.* 21. 24. *y was. I Ddvw i diolchwn gael bwyt gallu i vwytta. Onid pechot gan*
* *Psal.* 10. 5. *Ddyw y mi. &c. Rhad tuw ar y gwaith*, ac eraill or fath hynn. Brys
sy arnafi i fynd ir penn rrac sevrdanu 'r darlleydd, ac am hyny nid
wyf yn tynnu o hyd, ac yn egori yr hain megis i gwneuthym am y rhai
vchot. Llyfr braisc a ellit i wneuthyr o honyn, a' roe wybodaeth a'
goleuni, am hen ffydd y Brytaniait, ac am pob pwnc ac y sy heddiw
mewn ymryson rhwng y Rhufenyddion ar Evangelyddion. Hefyt, nyd
cwbl anghysson vyddei gymeryd yma destolaeth or Enwe arveredic cynt
ar y Cymbru, megis Abraham, Escop Menew: Adda Vras, vn or Beirdd:
Aaron, vn o bennaethe gwlad Vorgan: Asaph, Escop llan Elwy, 590.
Daniel, yr Escop cyntaf ym-Bangor, 550. Dauid, neu Ddewi, yr Escop cyntaf
ym Menew. 640. Iaco ap Idwal: Ioseph Escop Menew: Matusaleh: Samuel
Beulan, offeiriat dyscedic, 640. Samson, y chwechet Archescop ar higen ar
dywethaf ym-Menew, 560. Sele: Susanna, a'r cyfryw eraill, yr rain y geffir
yn vynech yn llyfru Achey a' Chronic, hen Recordeu, Registreu, a' Siartereu.
A' mi vedwn ddangos ychwi mewn carp o Siarter hen ddyhenydd, y sydd
Noe Brenh. yn perthyn im Escopawt i yma Venew, vot vn ai enw Noe, yn Vrenhin
Dyvet neu Dyvet. Ac na bei ond wrth hynn y mae yn ddigon credadwy gan pwy pynac
swydd Penvro. a wyr yr arver heddyw ar enwy plant yn yr Eglwysi cywair-grevydd, vot
yr Scrythur 'lan yn wybodedic iawn gan eyn Henafieit ni gynt. O
blegit yr vn modd oedd ey devot hwy yn y hamser a'r enwy eu
plant ar henweu a ddarlleynt yn yr yscrythur 'lan, ac y mae 'r
bobloedd yn awr lle mae'r Scrythur 'lan wedy ei thynnu yn
y hiaith y hunain. May cenyfi hefyd ddarn o waith Taliessin ben
beirdd, a ddychin goffay iti beth or hen fyd a fu gynt: ac efe oedd yn
amser Arthur, ac yn amser Maylgwyn Gwynedd wedi Arthur rhwn
ydoedd frenin Bryttayn pan ydoedd oed Christ ynghylch. 550: val hyn i
* *argyedda,* dowait ef. *Gwaer offeiriat byt, nis * angreifftia gvvyt, ac ni phregetha.*
*cerydda, veia* *Gwae ni cheidvv cu ‡ gail, ac ef yn figail, ac nis areilia. Gvvae ni*
‡ *gorlan* *cheidvv i ddefait, rhac bleiddie Rhueiniait ai ffon glvvpa.* Ir nad wyfi
yn amcanu dosparth y penillion hynn ae cyfflybu hwynt at 'air Duw yn
fanylaidd mal i gellit yn hawdd, etto mi a nota i ti ddeubeth ynthynt wy.
Vn peth yw hyn: ymarn Taliessin, swydd yr effeiriat yw ceryddu pechot
a phregethu. Yn sicr velly i dowait yr scrythyr 'lan hefyd. Darllain y
lviii. pen o Esai yr Prophwyt, a darllain yr xvi. pen o Evangel Marc lle
i dowait Christ wrth i ddyscyblon, a' thrwyddynt wy wrth effeiriait y
byd. *Evvch ir oll fyd a' phregethwch yr Evangel i pob creadur*, ac velly
*Ebr.* 10. rhagoch. Ni dowot Christ wrthynt, Ewch ac aberthwch tros y byw ar
mairw. Christ i hun a aberthodd i gorph ar pren croes tros pechodau
'r byt, a' thrwy vn vnic offrwm ac aberth i perffeithiodd ef yn dragwyddol
yr hai a santeiddier: ny ellir i aberthu ef drachefn: o bleit yno i byddae
raid iddo ef farw drachefn. Ac am hynny mae effeiriait Ruuainol yn
espelio Christ am i foliant ae 'ogoniant, pan gymront wy arnynt aberthu
tros y byw ar mairw. Yr yscrythyr 'lan syn gwahardd yddynt
wy hyn, ac yn gorchymyn yddynt wy pregethu. Hwynt wythe a
wnant yr hyn a waharddwyt yddynt, ac nid ymyrant ar hyn a
orchmynwyt yddynt. Yr ail peth a nottafi i ti yn y pennillay vchot yw
hyn, nad yrowran gynta i bu gwyn yn erbyn traha, a' balchder Ruuain.

Can ys y mae Taliesin, yn doydet yn i amser ef, *Gwae ni cheidw i ddefait rhac bleiddiau Ruueniait.* Ond mi, mi wn er hyn y gyd o dravel beth y ddywet rrai rryngthyn ac y hunain, a' pha beth ond dywedyt mae newydd yw pop peth a draethir heddyw ynghylch y ffydd neu'r crefydd, ac nad oedd dim ymyd or cyfryw son y to aeth heibio. Wele ynteu gwrandawet y rreini pa ddywait vn or hen Veirdd Cymbru (os hen bot ynghylch mil o vlynyddeu) nyd amgen Merddin Wyllt yn atep ei chwaer Gwenddydd, yr hon a syganei wrtho ef val hyn,

*Gorchymynnaf vy * eirioes vrawt ir ‡ Ren*
** Rwy goreu : cymmer Gymmun cyn angheu.*

Atep Merddin,

*Ny chymeraf gymmun gan escymmyn*
*veneich, ac ei ‡ twygeu ar eu clun :*
*am cymmuno Duw ehun.*

* *tec*
‡ *Tad Arglwydd*
‡ *hugeu*

Ar vn Bardd mewn mytr arall, lle mae ef (megis ac y perthyn ywr dyscedic mal yr oedd ef yn argyweddu y beieu oedd yn benaf yn ei amser, y sef yn y gairieu hyn,

A vallen beren bren addveinus.
Gwascatvot glotvawr buddvawr brydus
Yd wnant wyr ramant ryt rwyuanus
celwyddoc byteic beius
A' meneich geuawc, bwydiawc, gwydus:
A' gwesionein ffraeth byt arvaethus. &c.

Velly ynteu nyd gwyr dyscedic yr oes hon a ddechreuodd dywedyt yn erbyn anllywodreth y meneich. Paham gan hynny y buant mor hwyr heb eu cospi? *Quia nou dum completæ sunt iniquitates eorum*, Am nad oedd y henwiredd hwy eto wedy eu gyflawni neu yn aeddfedd ac (val y mae'r ddiereb) am may hwyraf dial, dial Duw. Paam y divawyt hwy mor llwyr or dywedd? Am gyflewni y henwiredd hwy, ac am may llwyraf dial, dial Duw. Ond am Escop Ruuain (yr hwn y elwir hefyt Pap, val y gelwit gynt * Escopion Escopaetheu eraill) nyd oes (mi wn yn dda) ny-mawr yn credu vot cam ymwreddiat yn y byt arno, ac na wnaet onyd pigo querel arno yn ddiachos ac yn hwyr o amser: yr hwn pe scrivenwn ganved ran yr iawn achosion y sydd yn y erbyn ef, vo dyvei yn vwy ei swmp na'r ddarn arall ir llyfr hwn. Ac am hyn rrait y mi yma ymattal yn 'lew rrac mynet ymplith datcuddio y guddfa hono ar hyn o amser. Ac adolwyn ywch ond digon o achos y lefen yn y erbyn oedd na bei ond hyn a graffodd y Prydydd, nac ef y Bardd neu yn hytrach y Prophwyt Cymro, yr vn a ganoedd y penill hwn,

* *Ciprian. Epist.* 89.

Y Pab, val am yr aberth,
Ameu'r gwir y mae er gwerth

Vban, modd vn, nyd oedd hynn yn hanvot o yspryt iawn ganthaw. Nyd oedd? Onyd oedd y penillion y wnaethoeddoedd ef yn nesaf ym blaen hwn yn hanvot o Ysspryt iawn, nyd amgen yrrein,

E wnaethpwyt y pennill hwn cyn bot yngan yn Lloecr yn erbyn y Pap.

Tydy'r gwan, taw di a'r gwir:
Arian da a wrandewir.
Ny chair y dwr uch Caer dyf
Eisieu arian y Sieryf
Nobl (o bai yn abl o bwys)
A wna'r cam yn wir cymwys.
Nyd cyfled gweled y gwir
Ar yr wyneb ar anwir.

Ond da a' dwywol oedd yr hwn a gynghaneddodd y dywediadau hyn? Ac y mae yn espes genyf mae'r vn gwr (cyd nad yw mor espes genyf ei gosodiat) wnaeth y pennillion hyn ar llall. Ef all vot yn espes hefyt gan bawp aei darlleno, may'r vn yspryt a ddatcuddiodd yddo vai 'r Pap a'r beieu eraill. Ac nyd egwan nac annerthawl (Duw eu gwyr) oedd y yspryt ef pan veiddiai ef y pryd hyny geryddu pen Sieryf gwlat, ac yn ben ddivaddeu y Pap yr hwn y alwe deilliait eraill yr oes hono (val y

Diareb popl ei wlad am y pap, yw, y vot ym vwy no dyn, ac nyd cystal a Dyw a gwaeth no diavol.

mae vyth y sywaeth) yn Dduw daiarol. Ac na bo y nep vwrw yn vwy yscafnder arna vi ymarddel o benillion Bairdd vyngwlad nag ar S. Paul yn eu breceth yn dinas Athen, sef ymperfedd y gwyr dyscedic pennaf yn yr oll vyt, yr hwn y ddywedei yr yr ymadrodd hynn—*sicut et quidam vestratium Poetarum dixit*, Megis ac y dywedent rrei och Beirdd chwi ychunain. Ie a' chredu 'r wyf nad mawr anghymesurach y mi adrodd pennill y prydydd hwn a 'alw ef yn prophwyt nac y S. Paul 'alw y Groec vardd *Epimenides* yn prophwyt, ac adrodd gwers ney odl oi waith mewn mytr val hyn,

*Titus. i.*

Κρητὲς ἀεὶ ψεῦςαι, κακα θηρία, γαςέρες ἀργαι.

Yr hon wers, er nad ydyw onyd saith 'air, odid vydd ei gwneuthur yn llai no phenill yn Cymraec, Eithyr y pwyll 'air yn ei gylydd allan o vydr sydd val hyn,

Y Cretaniet byth celwddoc, yscrublieit drwc, bolie muscrell.

Nid afi ymhellach ar hyn o amser i son am y gwrantrwydd y geffir gan ymadroddion Cymru, yrrei sy gysson a'r scrythyr 'lan. Prawf dilys ydyntwy ir neb ai ystyrio a chalon ddianhydyn, fod hen ffydd y Brytaniait ai gwreiddin yngair Duw, ai hanes o ganol yr scrythyr 'lan. Hon oedd mor gyffredinol yn y mysc hwynt, ac i tyfai ddiharebion, ac ymadroddion trefnus, dyscedic, a gynhwysai ynthynt ergit yr oll scrythyr 'lan ac athrawaeth iachus am lawer pwnc o crefydd Christ. Madws bellach yw tynnu tuar terfyn, a' dibennu. Galw ith cof dy hen fraint ath anrhydedd mawr herwydd ffydd Christ a' gair Duw a erbyniaist o flaen ynysoedd y byt. Crefydd Christ ath harddai am yt i gael yn gowir ac yn bur mal i dyscawdd Christ yw Abostolion ae ddyscyblon: ac yt i gadw yn berffaith ac yn ddilwgr, a' phris gwaed dy ferthyron gwynfydedic. Ni ddigwyddodd hyny ir Sayson gynt (yr hei sydd heddiw ar yr iawn gwedy yddynt trwy 'ras dderbyn yr Efangel yn groysawus) hwyr ir erbyniasont wy ffydd Christ, ac am hur a' llygredic i cowsant, y tro cyntaf i cowsant. Meddylia faint y cwymp a gefaist o gytuno ar amhuredd a ddug Awstin vanach ir Sayson: ac mal i cydfoddaist gidac wynt mewn towyllwg a' gauddywieth o amser bigilid: Duw o ro yt ras i ddilit cy vrddas ae anrhydedd hwynt heddiw, trwy ymchwelyt ir iawn mal i gwnaythont wy eusus. Hefyt cyt byddai i bop nasiwn beth goleuni, herwydd trigo ey llyfray gidacwynt etto tydy a ddinoythwyt ac a espeliwyt yn llwyr. Cwympa ditheu, ar dy liniay am hynny a diolch i Dduw sy heddiw yn ymwelet a thi yn drugaroc, ac yn dechre dy godi ith hen fraint ath vrddas pennaf gynt, trwy dy wneuthyr yn gyfrannog oi 'air bendigedic ef, a' danfon yt' y Testment cysegredic, rhwn a ddengys dy ddiarebion ath ymadroddion vchot i vot yn hen gynefin yt gynt. Am hynny dos rhagot a' darllain. Llyfr yw hwn y bowyt tragwyddol, 'rhwn a dreiglwyt yt yn Gymraeg yn ffyddlon, ac yn gowir, trwy 'ofal a diwdrwydd. Etto o digwydda yt gyfwrdd ac ymbell fai allay ddiainc, naill ai ar orgraph, ai camosodiat gair, neu lythyren, neu yn ymryfus gadael gair, neu sillaf allan neu'r cyfryw: madday hynny: hwn yw'r Testment cyntaf a fu irioet yn Gymraeg yn, a'r printwyr eb ddyall vngair erioed or iaith, ac am hyny yn anhawdd yddynt ddeall y Copi yn iawn. Rhoddet Duw yt wollys da: can ys yma i cei ymborth yr enait, a' chanwyll i ddangos y llwybyr ath ddwg i wlat teyrnas nef. Yr hon a geniatto Duw iti ac i minay, trwy eyn Arglwydd Iesu Grist, ir hwn ynghyd ar Tad a'r Yspryt glan i bo mawl a' gogoniant yn oes oesoedd, Amen.

Atcof talgrwn am yr ymadroddion or blaen.

*Apophthegma illius D. Asaphi, a quo postea Episcop. sedes Eluiensis, dicta est Asaphensis.* 590.

*Quicunque verbo Dei aduer santur, saluti hominum inuident.*

Yr araaith y vyddei yn vynech yn-geneu Sanct Asaph Episcop llan Elwy, DXC.

Y sawl a wrthladdant 'air Dew, cenvigenu y maent wrth iechyd eneit dyn.

## AT YR OLL CEMBRU YS YDD YN CARU FFYDD EI HEN DEIDIAU Y BRITANIEIT GYNT:

Rat, a' thangneddyf gan Dduw Tat ein Arglwydd Iesu Christ.

MEGIS y mae yn ddiareb gan y metelwyr may goreu aur yw'r hen, ac mal y dywet yr ein ys sydd yn trino hanas popul y byt, mae goreu cydymaith yw'r hen gydymaith: velly yr vn modd yr ei ys y yn dyval ymdreiglo yn yr Scrythur 'lan, sy yn dywedyt hwytheu may goreu ffydd yw'r ffydd hen, ys yr vn y Prophwytodd y propwyti o hanei, yr hon a ddyscawdd Christ ai Apostolion ir popul yn eu hamser, a'r hon gwedy, a gadarnhaodd y Merthyron ai gwaed, gan testio gyd a hi, a' dyoddef pop artaith yd angeu. Ac am hyny gwae'r nep ailw hon yn newydd, o ba vodd bynac y gwnel, ai o anwybod ai trwy wybot, yw dwyllo y hun ac y hudo 'r bopul. At y ffydd hon yn ei Epistol yma vchot y maer anrrydeddus Dat D. R. D. ail Dewi Menew yn yn ceisio eich gohawdd, eich llwybro, ach arwein oll am yr eneit. Nyt gwiw gwedy ef, yn enwedic y vn cyn eiddilet ei ddysc a myvi yngan dim yn y devnydd y traethawdd ef o hanaw. Can ys pwy all cael dim bai arnaw, o ddieithr am yddaw yn ol arver S. Paul, ac ymadrodd goisel cydnabyddus megis a llaethwyt ych porthi chwi (yr ei yn wir nid ydych eto anyd 'rei bychein yn yr iawn ffydd) neu o ddyeithr yddaw yn ol addysc S. Chrysostom eich bwydo chwi mor vanol a mamaeth naturiol yn bwydo hi phlentyn bop ychydic ac ychydic val y gwelo hi ef ei vwynhau. Eithyr a's chwychwi trwy rat y gan vaethddrin cyfryw laethpwyt a gynnydwch y allu treulo bwyt a vo dwysach a' ffyrfach, bid diau y cewch y roddy gar eich bron y cantho ef a i vroder eich Escyp eraill, trwy nerth Duw, yr hwn ach gwnel yn adds, yn barawt, ac yn wyllyscar y ymborth arno, Amen.

*Eich car o waet yn ol y cnawt, ach brawt ffydd in Christ Iesu,*
*WILLIAM SALESBURY.*

---

## D. IO. CHRISTOST. ARCHIEPISCOP. CONSTATINOPOL. IN 3 CAP. COL. 405.

AVDITE *obsecro seculares. Comparate vobis Biblia, animæ pharmaca. Si nihil aliud vultis, vel Nouum Testamentum acquirite, Apostolum, Acta, Euangelia continuos ac sedulos doctores. Si accedit mæstitia, huc veluti apothecam introspice. Hinc tibi sume solamen mali, siue damnum euenerit, siue mors, siue amissio domesticorum. Imo non introspice solum, sed omnia iterum atqæ iterum versa, menteqæ illa contine. Hoc demum malorum omnium causa est, quod Scripturæ ignorantur.*

ewch, a' diogelwch val y gwyddoch. Ac wy aethan,
ac a ddiogelesant y bedd ‡y gan y wiliadwriaeth, ac a   ‡ drwy'r
*in*selieson y *llech.   * maen

## Pen. xxviij.

Cynodiat Christ. Broder Christ. Yr Archoffeiriait yn gobrio 'r *milmyr.   * *savvdwyr*
Christ yn ymddangos yw ddiscipulon, ac yn ei danfon ymaith i pre-
cethy, ac i vatyddio, Gan addaw yddyn borth 'oystadol.

YNO *yn-*d*iwedd y sabbath, a'r *dydd* centaf o'r   * gan yr hwyr
wythnos yn dechrae ‡gwawrio, y daeth Mair   ‡ dyddhay,
Magdalen a'r Vair arall i edrych y bedd. A' nycha,   cleisio
y bu dayar-gryn mawr: can ys descen*dodd* Angel yr
Aaglwydd o'r nef, a' dyvot a' threiglo y llech y wrth y
drws, ac eistedd arnei. A' ei ‡ddrych oedd val *mellten,   ‡ wynepryd
a' ei wisc yn wen val eiry. A' rac y ofn ef yd echryn-   * lluched
awdd y ceidweid, ac aethon val yn veirw. A'r Angel y
atepawdd ac a ddyvot wrth y gwragedd, Nac ofnwch:
canys gwn mai caisio ydd ych yr Iesu yr hwn a *grog-   * groeshoelwyt
wyt: ny*d* ef yma*n*, can ys cyfodawddd, megis y dyvot:   a roed ar y
dewch, gwelwch y van lle y doded yr Arglwydd, ac   groes
ewch a'r ffrwst, a' dywedwch y'w ddiscipulon gyfody
o hanaw o veirw: a' ‡nycha ef yn ych racvlaeny i   ‡ wely
Galilea: yno y gwelwch ef: nycha *ys* dywedais y'wch.
Yno ydd aethant yn ebrwydd o'r *vonwent gan ofn   * beddrod
a' llawenydd mawr, ac a redasan i venegy y'w ddiscipu-
lon. Ac a 'n hwy yn myned y venegy y'w ddiscipulon
*ef*, a' ‡nycha 'r Iesu yn cyhwrdd ac wynt, gan ddy-   ‡ wele
wedyt, *Dyw ich cadw. Ac wy a ddaethant, ac a   * Hyn bych-
ymavlesont yn ei draet, ac ei addolesont. Yno y dyvot   well, Dydd da
yr Iesu wrthwynt, Nac ofnwch. Ewch, *a'* dywed-   ywch.
wch im broder ‡yn yd elont i Galilaea, yno y gwelant   ‡ val
vi.

A' gwedy y myned hwy, *nycha y daeth yr ei o'r   * wele

wiliadwriaeth i'r dinas, ac venegesont i'r Archoffeiriait,
*yr* oll a'r wnethesit. Ac wy a yngynullesont y gyd
‡ Henafieit — a'r ‡ Henyddion, ac a ymgyggoresont, ac a roesou
* sawdwyr — arian lawer ir * milwyr, gan ddywedyt, Dywedwch,
E ddaeth ei ddlscipulon o hyd nos, ac y lladratesont
‡ Raglaw — ef a ni yn cyscu. Ac a chlyw y ‡ llywiawdr hyn, ni
* ymneheddwn — a * ei dygwn ef i gredy, ac ach cadwn chwi yn ‡ ddi-
‡ ddiogel — gollet. Ac wy a gymeresont yr arian*tae*, ac a wnaeth-
ant val yr addyscwyt wy: ac y gyhoeddwyt y gair
hwn ym-plith yr Inddaeon yd y dydd heddy*vv*.

Yno yr aeth yr vn discipul ar ddec i Galilaea, i'r
* trefnesei — mynyth lle y * gosodesei'r Iesu yddwynt. A' phan
‡ ameuesant, dowtiesont — welsant ef, yr addolasont *ef:* a'r ei a ‡ betrusesant.
* veddiant, allu — A'r Iesu a ddaeth, ac a ymadroddawdd wrthwyn,
* ar — gan ddywedyt, E roed i mi oll awturtot yn y nef ac
* yn ddaiar. Ewch gan hyny, a' dyscwch *yr* oll genetl-
oedd, gan ei batyddio hwy yn Enw y Tad, a'r Map,
a'r Yspryt glan, gan ddyscy yddwynt gadw bop peth
‡ wele — a'r a 'orchymynais y chwy: a' ‡ nycha, ydd wyf vi
* yr oll ddyddiau — gyd a chwy*chvvi** yn 'oystat y*d* diwedd y byt. *Amen.*

---

# LLYMA CYSSECRSANCT

# EUANGEL IESU CHRIST,

* erwydd, y gan — * YN OL

# M A R C.

## Pen. j.

Swydd, dysc, a' buchedd Ioan Vatyddiwr. Batyddiaw Christ. Ei demtio ef. Ef yn praecethy. Ef yn calw 'r pyscotwyr. Christ yn iachay 'r dyn a'r yspryt aflan. Dysc newydd. Ef yn iachau chwegr Petr. Bot y cythraulieid yn ei adnabot ef. Ef yn glanhay 'r gohangleifion, ac yn iachay ereill lawer.

DECHRAE 'r Euangel Iesu Christ vap duw: mal
* Wele — ydd yscrifenir yn y Prophwyti, * Nycha vi yn
‡ arlwy — *d*anvon vy-cenat rac dy wynep, yr hwn a ‡ paratoa
* rhagot, yn-dywydd — dy ffordd * oth vlaen. Llef yr vn yn l'efain yn y
diffaith, *yvv*, Paratowch ffordd yr Arglwydd: vnion-
wch y lwybrae ef. Ioan oedd yn batyddyaw yn y

‡diffaith, ac yn precethy betydd *emendaat buchedd, er maddeuant pechotae. Ac e daeth allan attaw oll wlad Iudaia, ac wy o Caesusalem, ac ei bedyddiwyt oll ganto yn afon Iorddonen, can y*dd*wynt cyffessy ei pechotae. Ac e wiscit Ioan o vlew camel, a' gwregis croen o *dd*yamgylsh ei *lwyni: ac ef a vwytaei ‡locustae a' mel gwyllt, ac a precethei gan ddywedyt, *Ys* daw ar vy ol i, vn cadarnach no mi*vy*, yr hwn ni*d* wyf deilwng i *grymy a' datod carrae ei ‡escidiae. Diau *yvv* mi*vi* ach batyddiais chwi a' dw*fr*: ac efe a'ch betyddia *chvvi* a'r Ysprt glan.

Ac e ddarvu yn y dyddiae hynny, **ys* daeth Iesu o Nazaret *dinas yn* Galilaia: ac ei betyddiwyt y gan Ioan yn Iord*d*onen. Ac yn ebrwydd gwedy iddo ddyvot i vyny*dd* o'r dw*fr*, y gwelawdd *Ioan* y nefoedd wedy 'r ‡hollti, a'r Yspryt glan yn descen*d* arnaw me*g*is colomben. Yno y bu *llais o'r nefoedd, *yn dyvvedyt*, *ys* Ti yw vy-caredic*ol* Vap, yn yr hwn im ‡bod*d*lonir. Ac yn y man y *gyrr*odd* yr Yspryt *glan* ef ir diffeith*vvch*. Ac ef a vu yno yn y diffeith*vvch* dauugain die*rnot*, a' Satan yn ei ‡demptio: ac ydd oedd ef y gyd a'r *bwystviledd, a'r Angelion vyddent y'w ‡weini *ef*.

A' gwedy darvot rhoddy Ioan *yn-carchar*, y daeth yr Iesu i'r Galilaea, gan precethy Euangel teyrnas Duw, a' dywedyt: *Ys* cyflawnwyt yr amser, ac y mae teyrnas Dhuw geyrllaw: edifarhewch, a' chredwch yr Euangel.

Ac val y rhodiei ef wrth vor Galilaea, ef a welawdd Simon, ac Andreas ei vrawt, yn bwrw rhwyt ir mor, (can ys pyscotwyr oeddynt.) Yno y dyvot yr Iesu wrthynt, *Dewch ar vo'l i, ac ich gwnaf yn pyscotwyr dynion. Ac yn y van y maddeuosont ei rhwytae, ac y dylynesont ef. A' gwedy iddaw vyned ychydic *ympellach* o *dd*yno, ef a welawdd Iaco *vap* Zebedeus, ac Ioan ei vrawt, val ydd oeddynt yn y llong yn cyweirio ei rhwytae. Ac yn yman y galwodd ef wy: ac wy a adawsant ei tad Zebedeus yn y llong y gyd a'ei gyflocddynion, ac aethant ffwrdd ar y ol ef.

Yno ydd aethont y *mevvn y* Capernaum, ac yn ebrwydd ar y dydd Sabbath ydd aeth ef y mewn ir Synagog ac y dyscawdd *ef vvynt*. Ac *aruthro a wnaethant wrth ei ddysc*eidaeth* ef: can ys ef y dysc-

‡ anialwch
* gwellad
* llwyfenni
‡ ceilogot rhedyn
* estwng
‡ wadnae
* ddyvot o
‡ agori
* llef
‡ boddheir, digrifir
* dyr, gwthia
‡ Brovi
* aniuelieit gwyltion
‡ wasanaethi
* dylynwch vi
* irdangy

awdd wy mal vn ac awturtot cantaw, ac ny*d* mal y Gwyr-llen.

Ac ydd oedd yn y Synagog wy ddyn ac ynthaw yspryt aflan, ac ef a lefawdd, gan ddywedyt, Och, pa beth 'sy i ni a wnelom a thi r Iesu o Nazret? *A* ddaethost *ti* in ‡colli *ni?* Ith adwaen pwy wyt, *nid amgen* y Sanct *eiddo* Duw. A'r Iesu a ei *ysdwrdiodd, gan dywedyt, Ystaw, a' dyre*d* allan o hanaw. A'r yspryt aflan y rhwygodd ef, ac a wae ddawdd a llef ‡vawr, ac a ddeuth allan o hanaw. Ac wy oll a *dd*echrynesont, y ny*d* ymofynnent yn ei plith, gan ddywedyt, Pa beth yw hyn? pa *ryvv* ddysc newydd yw hon? can ys gorchymyn ef ir ysprytion aflan trwy *awturtot, ac *vvy* uvyddant yddaw. Ac yn ebrwydd ydd aeth son am danaw dros yr oll wlat yn-cylch Galilaea.

(‡ dinistry, diva? * ceryddodd, coddawdd; ‡ vchel; * veddiant)

Ac ‡er cynted yd aethant allan o'r Synagog, myne*d* a orugant *y mevvn* i duy Simon ac Andreas, y gyd ac Iaco ac Ioan. Ac ydd oedd *chwegr Simon yn gorwedd yn glaf o'r ‡haint-gwres, ac yn lleigys y dywedesont wrthaw am denei. Ac ef a ddaeth ac ei cymerth hi *erbyn hei llaw, ac ei dyrchafodd i vyny*dd*, a'r haint-gwres *h*ei gada*vv*odd eb 'ohir, a hi aeth y weini yddynt. Ac wedy yhwyrhay hi, a' myned haul i *lawr, y ducesont ataw *bavvp*oll a'r oedd*ent* yn gleifion, a'r ei oedd yn gythreulic*ion*. A'r oll ddinas a ymgasclodd *yd* wrth y drws. Ac ef a iachaodd lawer a'r oeddent yn gleifion o amrafael heintiae: ac a vwriodd allan lawer o gythreulicit: ac ny'*s* gadawdd i'r cythraelieit ddywedyt ydd adwaenent ef. Ac yn dra borae ar y cynddydd y cyfodes *yr Iesu*, ac aeth allan ac y dynnodd i le ‡ar ddieithr, ac yno*vv* y gweddiawdd. A' Simon, a'r ei oedd*ent* gyd ac ef, ei dylynesont, *ef*. A' gwedy yddwynt ei gahel, y dywedesont wrthaw, Y mae pawp yn dy gaisiaw. Yno y dyvot ef wrthynt, Awn ir trefi nesaf, val y precethwyf yno hefyt: can ys er *mvvyn* hyn y daethym allan. Ac ef a precethawdd yn y Synagogae hwy trwy'r oll Galilaea, ac a vwriodd allan gythraulicit.

(‡ cy; * mam gwreic; ‡ cryd; * teirtron, twymyn.; * ymachlud, i lywenydd; ‡ diffaith, dirgel disathr, didreigl ddyn; * gohanglaf)

Ac e ddaeth ataw *ddyn* clavr*llyt* gan *weddiaw arnaw, a' myned ar liniae iddaw, a' dywedyt wrthaw, A's ewyllysy, gelly vy-‡glanhau. A'r Iesu a dosturiawdd, ac a esten*d*awdd ei law, ac y cyhyrddawdd ef,

(‡ adolwyn iddo; * phenlino; ‡ carthy)

ac a ddyvot wrthaw, Ewyllysaf: *glanhaer di. Ac * carther
er cynted y dyvot ef *hyn*, yr ymadawodd y ‡clefri ‡ clwyf gohan ai'r clwy mawr
ac ef, ac y glanhawyt. A' gwedy gorchymynyn o
hanaw iddo yn *ddirfing, ef ei *d*anfones ymaith eb * galet
oludd, ac a ddyvot wrthaw, Gwyl na ddywetych ddim ‡ ac
i nep, and tyn ymaith, ‡a' dangos dy hun ir Offeiriat, * ymddangos
ac offrwm dros dy 'lanhat y pethae a' orchymynawdd
Moysen, er testiolaeth yddwynt. Yntef wedy iddo
vyned ymaith, a ddechreawdd venegi llawer o bethae,
a' chyhoeddy y *chwedyl: val na allai 'r ‡Iesu * peth
mwy vyned yn amlwc i'r dinas, eithyr ydd oedd ef ‡ *Groec*, ef
allan yn lleoedd diffaith: a' daethant attaw o *bop * bop ban, bop-parth
man.

## Pen. ij.

Christ yn iachay yr dyn o'r parlys. Ef yn maddae pechotae. Ef yn galw Leui yr amobrydd. Ef yn bwyta gyd a phechaturieit. Ef yn escuso ei ddiscipulon, am vmprydio a' chadw'r dydd Sabbath.

GWEDY *ychydic* ddyddiae, ef aeth y mewn i
Capernaum dragefyn, ac a glypwyt y vot ef yn
tuy. Ac yn y man, yr ymgasclent llawer ygyt yd
na *anen mwy*ach*, nac *yn y lloedd* wrth y drws: ac * weddyn bellach
ef a precethawdd y gair yddwynt. Yno y daeth
attaw 'r ei yn dwyn vn claf o'r parlys, a ddygit y
gan petwar. A' phryt na allent ddyvot yn nes ataw
gan y ‡dorf, *didoi y to a wnaethant lle ydd oedd ‡ ymsang
ef: a' gwedy yddwynt ei gloddio trwyddaw, y gellyng- ‡ dynoethi
esont y lawr *vvrth raffe* y ‡glwth yn yr hwn y gor- ‡ gwely
weddei 'r dyn a'r parlys arnaw. A' phan weles yr
Iesu y ffydd wy, y dyvot wrth y claf o'r parlys, *ha*
Vap, myddeuwyt yty dy pechotae. Ac ydd oedd yr
ei o'r Gwyr-llen yn eistedd yno, ac yn *ym*resymy yn
ei calonae, Paam y dywait hwn gyfryw gabl? pwy a
*ddygon vaddae pechotae any Duw y ‡hun? Ac * all
yn ebrwydd pan wybu 'r Iesu yn ei yspryt, yddwynt ‡ yn vnic
veddwl val hyn ynthyn y unain, y dyvot wrthynt,
Pa 'r a ymrysymy ydd ych ‡ar y pethae hyn yn ‡ am
eich calonae? Pa vn hawsaf ai dywedyt wrth y claf
o'r parlys, Maddeuwyt yty dy pechote? ai dywedyt,
*Cyvot, a' chymer ymaith dy ‡lwth a' rhodia? Ac * Cwyn
val y gwypoch, vot i vap y dyn *awturtot yn y ddaiar ‡ wely veddiant
i vaddae pechotae (eb yr ef wrth y claf o'r parlys)
Wrthyt y dywedaf, cyfot, a' *chymer ymaith dy * chyvot

‡ wely / * i vyny — ‡'lwth, a' thynn ffwrdd ith duy *dy vn.* Ac yn y
man y cyfodes, ac y cymerth ei 'lwth ymaith, ac aeth
allan yn y gwydd wy oll, yn y sannawdd a'r bawp, a'
* chlodfori — *gogoneddy Duw, gan dywedyt, Er ioed ny welsam
*ni* cyfryw beth.

* tu — ¶ Yno ydd aeth ef drachefyn *parth a'r mor, a'r
oll popul a dynnawdd ataw, ac ef a ei dyscawdd *hwy.*
Ac val ydd aeth yr Iesu heibio, ef a' welawdd Levi
*vap* Alphaeus yn eistedd wrth y ‡dollfa, ac a ddyvot
wrthaw, dylyd vi. Ac *ef* a godes, ac ei dylynawdd ef.

Ac e ddarvu a'r Iesu yn eistedd i vwyta yn y duy
ef, Publicanieit lawer, a' phechaturieit a eisteddesont
a gyd a'r Iesu, a' ei ddiscipulon: can ys yr oedd llawer
ac yn y ddylyn ef. A' phan welawdd y Gwyr-llen a'r
Pharisaieit, y dywedesont wrth ei ddiscipulon ef, Paam
yw iddaw vwyta ac yfet y gyd a Publicanot a' Phec-
aturieit? A' phan ey clypu 'r Iesu ef a ddyvot
* physigwr — wrthynt, Nid rait ir ei iach wrth y *meddic, ‡amyn
‡ ond — i'r clefion. Ny daethy mi y alw 'r ei cyfion, amyn
* ar iawn — y pechaturieit *i edifeirwch. A' discipulon Ioan a'r
Pharisaieit y ymprydynt, ac a ddaethant ac a ddywed-
esont wrthaw, Pa*am* yr vmpridia discipulon Ioan ar
* ddiscipulon — *ei y* Pharisaieit ath rei di eb vmprydio? A'r Iesu
a ddyvot wrthynt, A eill plant yr ystafell-briodas vm-
pridiaw, tra vo'r Priawt cyd a hwy? tra vo'r Priawt
y canthwynt, ny'*s* gallant vmprydiaw. Ac *ys* daw'r
‡ arnynt — dyddiae pan ddycer y Priawt y ‡canthynt, ac yno ydd
vmprydiant yn y dyddiae hyny. Hefyt ny wni*a* nep
* dilledyn — lain o vrethyn newydd mewn *gwisc hen: ac ‡any*d*
‡ os amgen / * wrth — ef y *llain* newydd a dyn ymaith y cyflawnder y * gan
yr hen, a gwaeth vydd y rhwygiat. Ac ny ddyd nep
‡ potennae, potelae — win newydd mewn ‡llestri hen: ac any d e y gwin
newydd a ddryllia 'r llestri, a'r gwin a ‡gerdd allan,
‡ ddyneuir, dywelltir — a'r llestri a gollir: eithyr gwin newydd a ddodir mewn
llestri newydd*ion.*

* llafnr — Ac e ddarvu ac ef yn myned trwy 'r *yd ar y *dydd*
‡ y fford — Sabbath, vot ei ddiscipulon wrth ‡ymddaith, yn dechrae
tyny 'r tywys. A'r Pharisaieit a ddywedesont wrthaw,
‡ Wely — ‡Nycha, pa*am* y gwnant ar y *dydd* Sabbath, yr hyn
* rydd — ny*d* *cyfroithlon? Ac ef a ddyvot wrthynt, A ny
ddarllenesoch er ioed pa *beth* awnaeth Dauid, pan
oedd arno eisie, a' newyn, ef*e*, a'r ei *oedd* gyd ac ef?
Po'dd yr aeth ef i duy Dduw yn-*d*yddiae Abiathar yr
‡ gosod, dodi, — Archoffeiriat, ac y bwytaodd y bara ‡dangos, yr ei

nyd cyfreithlon ei bwyta n'amyn ir Offeiriait *yn vnic*, ac *ei* rhoes hefyd ir ei oedd gyd ac ef? Ac ef a ddyvot wrthwynt, Y Sabbath a wnaed er *mvvyn* dyn, ac nyd dyn er *mvvyn* y Sabbath. Erwydd paam Map y dyn 'sy Arglwydd *ac ar y Sabbath.

* ys

## Pen, iij.

Christ yn gwaredy y dyn ar llaw ddiffrwyth: Yn ethol ei Ebestyl. Popul y byd yn tybied bod Christ wedy *gorphwyllo. Ef yn bwrw allan yr yspryt aflan, yr hyn a daera yr Pharisaieit ey vot drwy nerth y cythrael. Cabledigaeth yn erbyn yr Yspryt glan. Pwy brawd, chwaer, a' mam Christ.

* *y maes oi gof*

AC ef aeth y mywn drachefyn ir synagog, ac ydd oedd yno ddyn ac iddo law wedy gwywo. Ac wy ei *d*ysawyliesont a iachai *ef* hwnw ar y dydd Sabbath, val y caffent achwyn arnaw. Yno y dyvot ef wrth y dyn a'r llaw 'wyw, Cyvot, *a' sa* yn y *cenol. Ac ef a ddyvot wrthwynt, *Ai* cyfreithlawn gwneythy *tvvrn* da ar y *dydd* sabbath, ai gwneiythy drwc? ‡cadw enaid ai lladd? Ac wyth*eu* a *dd*ystawsont. Yno ydd edrychawdd ef o y amgylch arn*add*ynt yn dddigllawn can *gyd-doluriaw ‡rrac caledrwydd y calon*ae* hwy, ac a ddyvot, wrth y dyn, Esten*d* dy law. Ac ef ei estend-awdd: aei law a *adverwyt yn iach val y llall.

* pervedd
‡ achup einioes
* gwynofain
‡ o bleit, gan

A'r Pharisaieit aethon ymaith, ac yn y man ydd ymgygoresont gyd a'r Herodiait yn y erbyn ef, pa vodd y ‡collent ef. A'r Iesu ef a ei ddiscipulon a *en*ciliawdd i'r mor, a' lliaws mawr y dylynawdd ef o' Galilaea ac o Iudaia, ac o Gaerusalem, ac o Idumaea ac o'r tuhwnt i Iorddonen, a'r ei o gylch Tyrus a' Sydon, pan glywsont veint a wnaethei *ef*, a ddaethant attaw yn lliaws mawr. Ac ef a ddyvot wrth ei ddiscipulon ‡am vot llong*an* yn parat iddaw, o bleit y dyrfa, rac yddyn y wascy ef. Can ys llawer a iachaesei *ef*, yn yd oeddent yn pwyso *arnaw, er ei gyhwrdd cynnifer ac oedd a ‡phlae arnynt. A'r ysprytion aflan pan welsant ef, a gwympesont i lawr geyr ei vron, ac a *waeddesant, gan ddywedyt, Ti yw 'r Map Duw. Ac ef ei ysdwrdiawdd yn ‡ddirvawr, rac yddyn y *gyhoeddy ef. Yno yr escennawdd ef ir mynyth, ac a alwodd attaw yr ei a ewyllysiawdd ef, a' hwy a ddaethant ataw. Ac ef a 'ossodes ddauddec, y vot o hanwynt y gyd ac ef, val yd anvonei ef wy i precethy, a' bod yddwynt veddiant i iachay heintiae, ac y vwrw

‡ difaent, difethent
‡ ar
* ato
‡ heiniae
* lefasant
‡ dost
* amlygy

allan gythraelieit. A'r cyntaf *oedd* Simon, ac ef a ddodes i Simon enw, Petr. Yno Jaco *vap* Zebedaeus, ac Ioan, brawt Iaco (ac a ddodes enwae yddwynt Boanerges, yr hyn yw meibion y *daran) ac Andreas, a' Philip, a' Bartholomeus, a' Matthew, a' Thomas, ac Iaco, *vap* Alphaeus, a' Thaddaeus, a' Simon y Cananeit, ac Iudas Iscariot, yr hwn ‡ac ei bradychawdd ef, a' hwy a ddaethant *edref. A'r dyrfa a ymgynullawdd drachefyn, val na allent gymmeint a bwyty bara. A' phan glypu ei ‡gyfnesafsieit, wy aethan allan y ymavlyd ynthaw: can ty bieit y vot ef *o ddyeithr ei bwyll.

‡ trwst
‡ hefyt
* ir tay
‡ gereint
* ymaes oei gof

A'r Gwyr-llen a ddaethent o Caerusalem, a ddywedesont, vot Beelzebub gantaw, ac mai trwy pennaeth y cythraelieit y bwrei allan gythraelieit. Yno ef y galwodd wy ataw, ac a ddyvot wrthwynt *ymparabolae. Pa vodd y gall Satan ‡vwrw allan Satan? Can ys a bydd teyrnas wedy r' ymranny yn y *h*erbyn ehun, ny*d* all y deyrnas houo sefyll. Ac a's ymranna tuy yn y erbyn ehun ny ddychon y tuy hwnw *sefyll. Velly a's cyfyt Satan yn y erbyn hun, ac ymranny, ny all ef barhay, amyn bod tervyn iddo. Ny ddygon nep vyned y mewn i tuy yr cadarn a' dwyn ymaith *ei* *lestri, dyeithr iddo yn gyntaf rwymo yr cadarn hwnw, ac yno ‡yspeilio ei duy.

* mewn damegion
‡ yrry
* barhay
‡ tranc, dywedd dyben
* dda
‡ cribdeilio

Yn wir y dywedaf y chwi, y maddauir oll pochotae i blant dynion, a' pha gablae, bynac y cablant: an'd pwy pynac a gabl yn erbyn yr yspryt glan ny chaiff vaddeuant yn dragyvyth, any'd bot yn euoc y varn dragyvythawl, can yddyn ddywedyt, vot ‡ganthaw yspryt aflan.

‡ iddo, yntho

Yno y daeth ei vrodur a' ei vam, a' safasant allan, ac a *dd*anvoneson ataw, ac a' alwason arnaw. A'r popnl a eisteddawdd oei amgylch ef, ac a ddywedesont wrthaw, *Nycha, dy vam, a'th vroder yn dy geisiaw allan. 'Ac ef y atepawdd wy, gan ddywedyt, Pwy yw vy mam a'm broder? Ac ef a edrychawdd o y amgylch ar yr ei, 'oedd yn eistedd yn y gylchedd yn ei o gylch, ac a ddyvot, ‡Nycha vy mam a'm broder. Can ys pwy pynac a wnel ewyllys Duw, hwnw yw vy*b*rawt, a'm chwaer a' mam.

* Wele
‡ Wele Llyma

## Pen. iiij.

Wrth barabol yr had, a'r gronyn mustard, y mae Christ yn dangos braint teyrnas Dduw. Dawn ragorawl gan Dduw cahel gwybot dirgeledigaethae y deyrnas ef. Ef yn goystegy temrestl y mor, yr hwn a vvyddhaodd iddo.

AC ef a ddechreawdd drachefyn precethy yn-glan y mor, a' thyrfa vawr a ymglascawdd ataw, yn ydaeth ef y long, ac eistedd yn y mor, a'r oll popul oedd ar y tir wrth y mor. Ac ef a ddyscawdd ydd-wynt laweredd *ym-parabolae, ac a ddyvot wrthwynt yn y ddysc ef. Gwrandewch: Nycha, ydd aeth heywr allan y *he*heu. Ac e ddarvu val ydd oedd ef yn *he*heu, cwympo o ‡beth wrth *vin* y ffordd, ac a ddaeth ehediait *y nef ac ei ‡difasont. A' pheth a gwympodd ar *dir* caregawc, lle nid oedd iddo vawr ddaiar, ac yn y van yr eginawdd, can nad oedd iddo ddyfnder daiar. A' phan godaw haul, y *gwresogwyt ef, a' chan nad oedd yddo wreiddyn, y *tra* gwywawdd. A' pheth a gwympiawdd ymplith ‡y drain, a'r drain a dyfeson ac ei tageson, val na roddes ffrwyth. A' pheth arall a gwympiodd mewn tir da, ac a roddes ffrwyth ac a eginawdd i vyny*dd*, ac a dyfawdd, ac a dduc, peth ar *ei* ddecfed ar vgain, peth ar *ei* drugainvet, a' pheth ar ei ganvet. Yno y dyvot ef wrthwynt, Y nep 'sy ganthaw glustiae i wrandaw, gwrandawet. A' phan ytoedd ef *vvrtho* y hun, yr ei oedd yn y gylch ef y gyd a'r dauddec, a *ym*ovynesont iddaw am y parabol. Yno y dyvot wrth-wynt, Y chwi y rhoddwyt gwybot dirgeledigaeth teyrnas Dduw: an'*d* ir ei' n 'sy*dd* allan, y gwnair yr oll pethae *hyn* drwy parabolae, pan yw yn gwel*e*d, y gwelant, ac ny chanvyddant: ac yn clywed, y clywant, ac ny ddyellant, rac *bod* yddyn byth ymchoelyt a *chael* maddae yddyn *e*y pechotae. Ac ef a ddyvot wrthyn, Any wyddoch*vvi* y parabol hwn? a' pha wedd y *gwybyddech*vvi* yr oll parabolae *ereill?* Yr heuwr *hvvnvv* a heuha yr gair. A'r ei hyn yw'r sawl *a dderbyniant yr had* wrth *vin* y ffordd, yn ei yr heuwyt y gair: ac 'wedy y clywont, y daw Satan yn y man, ac a ddwc ymaith y gair y heuesit yn y calonae wy. Ar vn ffynyt yr ei a *dd*erbyniant yr had yn y *tir* caregawc, yw 'r ei hyny, y sawl gwedy yddyn glywed y gair, yn y man y*d* erbyniant ef ‡gyd a llewenydd, ac nid nes yddyn wraidd ynthyn y *h*unain, ac velly dros amser

* ar ddamegion, cyffelypwraethae
‡ vn, rei
* yr awyr
‡ bwyteson, ysyson
* diwrydywyt yr
‡ yr yscall
* dyellech synnyech, ystyriech
‡ yn llawen

ydd ynt: yno pan goto *gorthrymder ac ymlit o bleit y gair ‡eb ohir y *rhwystrir wy, A'r ei a *dd*erbyniaut yr had ynghyfrwng y drain, yw'r sawl a wrandawant y gair: and *bot gafalon y byd hwn, a' ‡somiant golud a' chwantae pethae ereil' yn dyvot y mewn ac yn tagy 'r gair, ac ei gwneir ef yn ddiffrwith. A'r ei a *dd*erbyniasont had mewn tir da, yw'r sawl a wrandawant y gair ac ei *d*erbiniant, ac a ddugan ffrwyth, vn *gronyn* ddec ar vgain, aral' drugain, ac arall gant. Hefyd e ddyvot wrthynt, A *ddaw canwyll yw gesot y dan ‡vail a y dan y vort, ac ni*d* yw gesot ar *gannwyll-bren? Can nad oes dim cuddiedic, a'r na's amlyger: ac nid oes dim dirgel, a'r ny*d* el yn ‡'olau. Ad oes *ir vn glustiae i glywet, clywet. Ac ef a ddyvot wrthynt, ‡Gwiliwch pa *beth* a glywwch. A pha vesur y mesuroch, y mesurir y chwi*the:* ac y chwi yr ei a glywch y rhoddir y chwanec. Can ys i hwn ysy gantho, y roddir yddaw, a' chan hwn ny'*d* oes, y dugir y arno, *meint* ac ysy ganthaw.

Hefyd e ddyvot, Velly ytyw teyrnas Dew, val pe bwriai ddyn had i'r ddaiar, a' chyscu, a' chody nos a' dydd, ac eginaw o'r had a' thyvu i vyny*dd*, ac efe eb wybot pa vodd, Can ys y ddaiar a ddwc ffrwyth o hanei y hun, yn gyntaf yr egin*in*, yn ol hyny yr *grawn *yn* llawn yn y tywys*en*. Ac er cynted yr ymddangoso 'r ffrwyth, ‡eb 'ohir y dyd ef y cryman *ynthavv*, can *ys* dyvod y cynayaf.

Ef a ddyvot hefyt, I ba *beth* y *tybygwn deyrnas Dyw? ai a pha gyffelyprwydd y cyffelypwn hi? Cyffelyp *yvv* i 'ronyn mustard, yr hwn pan hauer yn y ddaiar, yw'r lleiaf o'r oll hadae y sy yn y ddaiar: eithyr gwedy yr hauer, e dyf i vyny*dd*, a' mwyaf yw o'r oll llysae, ac e ddwc gangae mawrion, y'n y allo ‡ehediait y nef nythu y dan y wascawt ef. Ac a llawer o gyfryw barabolae y precethawdd ef y gair yddwynt, me*g*is *ac* y gallent ei wrandaw. Ac eb parabolae ny'*d* ym adroddawdd ef *ddim* wrthynt: ac ef a *esponiawdd *yr* oll *bethe* y'w ddiscipulon ‡wrthyn y hunain.

A'r dydd hwnw gan yr hwyr, y dyvot ef wrthynt, Awn trosawdd ir 'lan arall. A' gady y dyrva a wnaethant, a ei gymeryd ef val ydd oedd yn y llonga*n:* ac ydd oedd hefyd llongae eraill y gyd ac ef. Ac e gyfodes *cawod vawr o wynt, a'r tonac a

* blinder
‡ yny man
* trwckian
‡ prydece
* twyll, hud cyvoeth
* oleuir
‡ hob, vwisel
* gyhoedd
* i neb
‡ Gwelwch
* y yd, llafur
‡ yn y van, ar hynt, y rhydd
* dyvalwn
‡ adar yr awyr
* ddeonglodd a ddatododd, a agorodd
‡ o'r neilltu
* ystorm

daflasant ir llong, y'n yd oedd hi 'nawr yn llawn. Ac ydd oedd ef yn y pen-ol-ir-llong, yn cyscu ar ‡'obenydd: ac wy ei *dihunasont, ac a ddywedesont wrthaw, Athro, ‡Anyd gwaeth genyt er ein colli *ni?* Ac ef a gyfodes y vyny*dd*, ac a *ysdwrdiodd y gwynt, ac o ddyvot wrth y mor, *ys* Taw, nag yngan. Yno y goystegawdd y gwynt, ac hi aeth yn *daweel*vvch* mawr. Yno y dyvot ef wrthwynt, Paam ydd ych mor ofnus? ‡pa vodd *yvv* na'd oes ffydd genych? Ac wy a ofnesont yn ddirvawr, ac a ddywed*e*sont wrth y gylydd, Pwy yw hwn, can vot y gwynt a'r mor yn ‡vwyddhay iddaw?

‡ glustoc, ysmwythfa
* diffroesont
‡ Ai
* geryddodd
* galm goystad
‡ podd
‡ gwrando arno

## Pen. v.

Yr Iesu yn bwrw 'r cythraulieit allan o'r dyn, ac yn goddef yddynt vynd i mewn y moch. Ef yn iachay 'r wraic ywrth y clefyt gwaed. Ac yn cody merch y capten.

AC wy ddaethant drosodd ir 'lan arall i'r mor, y wlat y Gadarenieit. A' gwedy y ddyvot ef allan o'r llong, yn y man y *cyfarvu ac ef o'r monwenti ddyn yn yr hwn ydd oedd yspryt aflan: yr vn oedd ai drigfa yn y monwenti, ac ny allei nep y rwymo ef, na'g a chadwynae, can yddo pan rwymit *ef* yn vynech a lleffetheirie a chadwyni, ef a *vyscei 'r cadwy ni *yn ddrylliae*, ac e dorei 'r lleffetheiriae yn *chvvilfrivv*, ac ny allei nep y ‡warhay ef. Ac yn 'oystat nos a' dydd ydd oedd ef yn llefain yn y mynydde*dd*, ac yn y monwenti, ac yn ei *guro ehun a main. A' phan ganvu ef yr Iesu o hirbell, y rhedawdd ac yr a ddolawdd ef, ac a lefawdd a llef ‡vchel ac a ddyvot, Beth 'sy i mi a *vvnelvvyf* a thi Iesu vap *y* Duw goruchaf? ith *tyn*ged*af *trvvy* Dduw na phoenych vi. Can ys ef a ddywedesei wrthaw, Dyre*d* y maes o'r dyn yspryt aflan.) Ac ef a ovynawdd iddo, Pa enw *'sy* iti? Ac ef a atepodd, gan ddywedyt, Lle*n*g *'sydd* enw i mi: can ys *llawer ym. Ac ef ei gweddiawdd yn ‡vawr, na *dd*anvonei ef ddim hanynt allan o'r wlat. Ac ydd oedd yno yn y mynyddae genvaint vawr o voch yn pori. A'r oll *gythraelieit atolygesant iddaw, gan ddywedyt, *d*Anvon nyni i'r moch, val y gallom vyned oei mewn *vvy*. Ac yn y man y rhoes yr Iesu gennad yddwynt. Yno ydd aeth yr ysprytion aflan y maes, a' myned y mewn ir moch, a' rhedec o'r *genvaint bendro-mwnwgl o *dd*iar

* cyhyrddodd
‡ beddae
* ddrylliei
‡ ddofi
* drychy, ffusto
‡ groch, vawr
* gorchymynaf
* lliosawc
‡ daer
* ddieifyl
* cadw

‡dyffwys, dibin
*llyn
‡a chythrael yntho
*ynghylch
‡tervynae, ffiniae
*cheniadodd
‡adcref
*taudi, dwylwyth
‡yspysy, honny, ddatcan
*yn y ddectref
*reolwyr
‡cwympodd
*gesot
‡gydac ef
‡phisigwyr
*yn
‡dycio
*waethwaeth
‡ol
*ddillad
‡rhediat
*wybu
‡wialenot, ffrewyll
*rhinwedd
‡ymsang, vyddin

y ‡gaulan i'r mor, (ac ydd oeddent yn-cylch dwyvil *ovoch)* ac eu bodwyt yn y *mor. A'r meichieid a ffoesont, ac a venagesont *hyny* yn y dinas, ac yn y wlat, a' wy a ddaethant at yr Iesu, ac a welsant yr vn a vesei ‡yn gythraelic, ac a lle*n*g ynddaw, yn eistedd ac yn wiscedic, ac yn ei iawn synwyr: ac ofny a wnaethant. A'r ei a *ei* gwelawdd, a venegawdd yddwynt, pa beth a wneithit i'r vn y bysei 'r cythrael ynthaw, ac *am y moch. Yno y dechreysont y weddiaw ef, ar vyn*e*d ymaith oei ‡goror wy. A' gwedy iddo vyned y mewn llong, y gweddiawdd arnaw yr hwn a vesei'r cythrael yntho, ar gael bot y gyd ac ef. A'r Iesu ny *oddefawdd yddaw, eithyr dywedyt wrthaw, Dos ymaith ‡ith tuy, at *yr ei ‡*sy* i ti, a' menag yddynt pa ueint bethae a wnaeth yr Arglwydd y-ty, a' *phodd* y trugarhaodd wrthyt'. Ac ef aeth ymaith, ac a ddechreawdd ‡gyhoeddy *in Decapolis pa bethe eu meint a wnaethoedd yr Iesu yddaw: a' phawp a ryvedd*e*sont.

A' gwedy myned yr Iesu trosodd mewn llong i'r tu arall, ydd ymgasclawdd tyrfa vawr ataw, ac ydd oedd ef wrth *'lan* y mor. A' nycha y deuth ataw vn o *benaethieit y Synagog, a' ei enw *oedd* Iairus: a' phan y gwelawdd ef, y ‡dygwyddawdd i lawr wrth ei draed, ac adolwyn yn vawr yddaw, gan ddywedyt, Y mae vy merch ym-bron marw: *adolvvyn yty* ddyvot a *dody dy law arni, val ydd iachaer hi, a'i byw. Yno ydd aeth ef ‡cantho, a' thorf vawr ei dilynawdd, ac y gwascasont ef. (Ac ydd oedd ryw wraic ac arnei waed-lif *es* dauddec blynedd, ac a ddyoddefesei lawer*edd* gan lawer o ‡veddigon, ac a drauliesei gymeint ac oedd *ar ei helw, ac eb ‡lesy dim iddi, 'namyn y myned hi yn *vwy gwaeth. Pan glypu hi *son* am yr Iesu, y hi a ddaeth yn y dyrfa y tu ‡cefyn, ac a gyfyrddawdd *a*y wisc ef. Can ys hi ddywed*e*sei, A's caf gyfwrdd a y *wisc*oedd* ef, im iacheir i. Ac yn ebrwydd y sychawdd ‡ffynnon*ell* y gwaet hi, a' hi a *synniawdd yn hei chorph *dd*arvot *h*iachay o'r ‡pla honno. Ac yn y man pan wybu r' Iesu yn *d*aw ehun vyned *nerth o honaw allan, ef a droes o yamgylch yn y ‡dyrfa, ac a ddyvot, Pwy a gyfyrdawdd a'm dillat? A' ei ddiscipulon a ddywedesont wrthaw, ti wely y dyrfa yn dy wascy, ac a ddywedy *d*i, Pwy a gyfyrddawdd a mi? Ac ef a edrychawdd o yamgylch, y weled hon a wnaethsei hyn. A'r wreic gan ofny a' chryny;

can ys-hi a wyddiat beth a wnathesit ynthei, a ddaeth
ac a gwympodd geyr y vron ef ac a ddyvot iddo yr oll
wirionedd. Ac ef a ddyvot wrthi, *Ha* verch, dy ffydd
ath iachoadd ‡cerdda yn tangneddyf, a' bydd iach *oth ‡da y delych
pla.) Ac ef etwa yn ymaddrodd, y deuth *rei* y wrth *ywrth
*duy 'r pennaeth y Sinagog gan ddywedyt, E vu varw ‡volesty
dy verch : pa ‡aflomydy a wnai *di* mwy ar *y Dyscodr *yr athro
‡Er cynted y clypu 'r Iesu adrodd y gair hwnw, y ‡Cy
dyvot ef wrth bennaeth y synagog, Na*d* ofna : cred yn
vnic. Ac ny adodd ef ynep yw ei ddilyn, amyn i Petr
ac Iaco, ac Ioan brawt Iaco. Yno y daeth ef i duy
*pennaeth y Synagog, ac y gwelawdd y twrwf, a'r ei *Reolwr
oedd yn wylo, ac yn ‡ochain yn vawr. Ac ef aeth y ‡irad
mywn, ac a ddyvot wrthynt, Pa dyrfu, ac wylo ydd
ych ? ny bu varw yr *dyn-bach, ‡amyn hunaw y mae. *vachcenes
Ac wy a y gwatworent ef: ac ef y *rhoes wy oll y ‡ond cyscu *bwriodd
maes, ac a gymerth dad, a' mam ‡y dyn-bach, a'r ei ‡yr lodes, grynfastes
oedd y gyd ac ef, ac aeth y mywn lle *dd*oedd yr ‡enaeth
yn gorwedd, a 'chan ymavlyd yn llaw yr enaeth, y
dyvot wrthei, Talitha cumi, yr hyn yw oei ddeongyl,
Yr *enaeth (wrthyt' y dywedaf) cyvot. Ac yn eb- *vorwyn
rwydd y cyfodes yr enaeth, ac y rhodiawdd: canys dau-
ddec blwydd *oed* ytoedd hi. A' ‡braw anveidrawl aeth ‡irdang, sannedigaeth
ynddynt. Ac ef a 'orchymynawdd yddwynt yn gaeth
na chae neb*un* wybot hyny, ac a ddyvot am roi bwyt
iddi.

## Pen. vj.

Pawedd yd erbynir Christ a'r eiddo yn ei wlad y un. Commission ac awdurdod yr Ebestyl. Amravel varn am Christ. Lladd Ioan, a'ei gladdy. Christ yn rhoi gorphwysfa yw ddisciplion. Y pemp torth bara a'r ddau pyscodyn. Christ yn gorymddaith ar y dwr. Ef yn iachay llawer.

AC ef aeth ymaith o *dd*yno, ac a ddeuth yw wlad
yhun, a' ei ddiscipulon ei *canlynesont. A' *dy
gwedy dyvot y Sabbath, y dechreawdd ef *ei* dyscy yn
y Synagog, a' ‡brawychy a wnaeth l'awer a'r y clyw- ‡sanny
sent ef, gan ddywedyt, O b'le *y cafas* hwn y pethae
hynn ? a' phar*a* ddoethinep yw *hyn a roed iddaw, can *hon, hwn
ys gwnair cyfryw ‡nerthoedd trwy y ddwylo ef ? ‡wyrthiae
Any*d* hwn yw'r saer map Mair, brawd Iaco, ac Ioses
ac Iudas a' Simon ? ac any*d* yw *y* chwiorydd ef gyd a
*ny*ni ? Ac wy rwystrit ynthaw *ef*. Yno y dyvot yr

Iesu wrthynt, Nyd *yw Prophwyt yn ddianrydedd any'd yn ei wlad y un, ac ym-plith y genedl y vn, ac yn y duy *h*un. Ac ny allei ef yno wneythy 'r *neb* vn ‡nerth yn amyn gesot ei ddwylo ar y chydic gleifion a' *ei h*iachay. Ac ef a ryveddawdd *am y ancredin-iaeth wy, ac ef a gylchynawdd y trefi o ‡bop-parth, gan *ey* dyscu.

Ac ef a alwodd y dauddec *atavv*, ac a ddechreuawdd y *d*anvon wy *bob* ddau a' dau, ac a roddes yddwynt *auturtot yn erbyn ysprytion aflan, ac a 'orchymyn-awdd yddwynt, na chymerent dim ‡y'w *h*ymddeith amyn ffon yn vnic: na'c y screpan, na bara, nac *efydd yn ei gwregysae. Any*d* yhescicidiay hwy a' ‡sandalae, ac na wiscent dwy ‡bais. Ac ef a ddyvot wrthynt, Ymp'le bynac ydd eloch y mywn i duy, yno*vv* ydd aroswch y 'n yd eloch o *dd*yno*vv*. A' pha'r ei bynac ny 'ch *d*erbyniant, ac ny' ch *clywant, pan eloch i ffordd o *dd*yno, escutwch y llwch ysy dan eich traed ‡yn testiolaeth yddwynt. Yn wir y dywedaf y chwi, y bydd esmwythach i Sodoma ai Gomorrha yn-*d*ydd *brawd, nac i'r dinas hono.

Ac wy aethan ymaith ac a procethesant, ar wella*y* o *ddynion* ei buchedd. A' llawer o gythraelieit a vwriasant wy allan: ac wy a ‡ eneiniesant ac oleo lawer o gleifion, ac ei *h*iachesont.

Yno y clypu 'r Brenhin Herod *am danavv* (can ys eglaer oedd y enw ef) ac y dyvot, Ioan Vatyddiwr a g*yf*odes o' veirw, ac am hyny y gweithredir *nerth-oedd trwy *dd*aw *ef*. Ereill a ddywedesont, *mai* Elias *yt*yw: ac ereill a ddywedesont, *mai* Prophwyt yw, ai vegis vn o'r Prophwyti. A' phan glypu Herod, y dyvot, Hwn yw Ioan yr hwn a ‡dorreis i ei ben: ef e a *godes o veirw. Can ys Herod y *h*un a *dd*anvonesei *genadon*, ac a dyaliesei Ioan, ac ei rhwymesei ef yn-carchar o bleit Herodias, *yr hon oedd* 'wraic Philip y vrawd ef, can iddo y phriody hi. Can ys Ioan a ddywedesei wrth Herod, Nyd cyfreithlon ‡y ti gael gwraic dy vrawt. Am hyny ydd oedd Herodias yn dal*ha gvvg* iddo, ac yn chwenychy y ladd ef, ac ny's gallei. Can ys Herod a ofnei Ioan, o bleit iddo wybot y *vot* ef yn 'wr cyfiawn, ac yn *sanct, ac y parchei ef, ac wrth y glywet ef, y gwnai *ef* lawer *o pethe*, ac ei gwrandawei yn ‡ewyllysgar. A' phan oedd yr amser yn *tem*p*oraidd, a' Herod ar ei ddydd geni*digeth* yn

*Marginal notes:*

* bydd
‡ miragl, rhinwedd
* erwydd, o bleit, achos
‡ gwmpas
* veddiant allu
‡ gosymddaith, taith, siwrnai,
* arian yn i pyrse
‡ ryw escidiae
* siacked
* gwrandawant
‡ er
* varn
‡ eliesont, angenesant, iresant
* cyhoedd honeid
* gwyrthie
‡ laddeis
* godwyt
‡ vot i ti, gadw
* ddwywol
‡ llawen
* luyddwyr

gwneythy*r* gwledd y'w bendeuigion a' ei ‡gaptenieit a' goreugwyr Galilaea: a' gwedy y verch yr vn*ryvv* Herodias ddyvot y mewn a *dawnsio, a' ‡bod*d*loni Herod a'r ei oedd yn cyddeistedd wrth y vort, y dyvot y Brenhin wrth y *vor wyn*nic*, Arch y ‡mi beth bynac a vynnych, a' mi ei rhoddaf yty. Ac ef a dyngawdd iddi, Beth bynac a erchych i mi, *mi* ei rhoddaf yty, *pe h*yd haner vy-teyrnas. Ac yhi aeth allan, ac a ddyvot wrth ei mam, Peth a archaf? Hithe a ddyvot, Pen Ioan Vatiddiwr. Yno y daeth hi yn y *lle ‡mewn awydd at y Brenhin, ac a archawdd, gan ddywedyt, Wyllyswn roddy o hanot i mi *sef* yr awrhon mewn descyl ben Ioan Vatyddiwr. Yno *myned o'r Brenhin yn athrist: *eto* er mwyn y llw, ac *er mvvyn* yr ei oedd yn cyd eistedd ‡ar y vort, ny mynnodd ef y *gommedd hi. Ac yn y man yd anvones y Brenhin grogwr, ac 'orchmynawdd ddwyn y ben ef. Ac yntef aeth ac a ‡laddawdd y ben ef yn y carchar, ac a dduc y ben ef mewn descyl, ac ei roes i'r *vorwyn, a'r vorwyn ei rhoes ‡y'w mam. A' phan *y* clypu y ddiscipulou ef, y daethant, ac y cymer*es*ant ei *gorph, ac ei dodesont ‡ym-monwent.

A'r Apostolion ymgynullesont *ynghyd* at yr Iesu, ac a venegesont iddo *oll, *ac* ar a wnaethent, ac a ‡ddyscesent-i-ereill. Ac ef a ddyvot wrthwynt, Dewchwi ych unain o'r neilltu ir diffeithwch, a' gorphwyswch ‡y chydig*in:* can ys ydd oedd l'awer yn dyvot ac ac yn myned: val na chaent *encyd i vwyta. Am hyny ydd aethant mewn llong *o'r neilltu i le ‡anial. Eithyr gweled o'r werin wy yn myned ymaith a' bot llawer yn y adnabot ef, ac yn rhedec ar draet yd yno o'r oll ddimasoydd, ac y rhacvlaenesont wy *yno*, ac a ymgasclasont, ataw. Yno ydd aeth yr Iesu allan, ac a welawdd dyrva vawr, ac a dosturiawdd wrthwynt, can y bot wy val deuaidd eb yddyn vugail: ac a ddechreawdd ddyscy iddyn laweroedd. Ac yr *awrhon pan ddaroedd llawer o'r dydd, y daeth eu ddiscipulon ataw, gan ddywedyt, Llyma le diffaith, ac y hi yr owon yn llawero'r dydd: Gellwng wy ymaith, val y gallon vyned ir pentrefi a'r trefi o yamgylch, a' phryny ydddyn vara: can nad oes ‡yddyn ddim y'w vwyta. Yntef a atepodd ac addyvot wrthwynt, Rowch chwi yddynt *beth* y'w vwyta. Ac wy a ddywedesont wrthaw, *A* awn ni a' phryny dau-cant ceiniogwerth o vara, a' ei roi

‡ dains
‡ boddhay
* vachcenes
‡ genyf
* man, ar ffrwst
‡ yn diwyd
* bot
* wrth y bwrdd
* gwrthot, throsgwyddo, phallu,
‡ dorodd
* vachcenes
‡ yddy
* gelain
‡ mewn bedd
* bop peth
‡ dangosesent
‡ encyd, wers
* enhyt, arvod
* yn ohanrhedawl
‡ diffaith
* ynawr
‡ ganthyn

yddyn yw ywyta? Yno y dyvot ef wrthynt, Pa sawl torth' sy genwch? ewch ac edrychwch. A' phan wybuont, y dywedesont, Pemp, a 'dau byscodyn. Ac ef a 'orchymynawdd yddwynt beri-yddwynt oll eistedd, yn vyrddeidiae ar y *gwellt glas. Yno ydd eisteddesont yn y ‡garvanae, o *vesur* can*t*oedd a'dec a' dau geiniae. Ac ef a gymerawdd y pemp torth, a'r ddau pysco*dyn*, ac a edrychawdd y vyny*dd* ir nefo*edd*, ac a ddiolchawdd, ac a dorawdd y bara, ac a ei rhoes at ei ddiscipulon, yw *gesot geyr y bron wy, a'r ddau pysco*dyn* a ranawdd ef yn y plith wy oll. Velly bwyta o hanynt a' chael ei ‡gwala. A' hwy gymeresant ddau ddec bascedeit o'r briw *ion, ac o'r pyscawt. A'r ei a vwytesynt, oedd yn-cylch pem*p*-mil o wyr. Ac yn y man y parawdd ef yw ddiscipulon vyn*e*d ir llong, a 'rhacvlaeny trosawdd ir 'lan arall *h*yd Bethsaida, tra *dd*anvonei ef y *werin ymaith. A' gwedy iddo y *d*anvon wy ymaith, y tynnodd ef ffwrdd ir mynydd i weddiaw. A' gwedy y myn*e*d hi yn hwyr, yr oedd y l'ong yn-cenol y mor, ac yntef ‡y hun ar y tir. Ac ef ei gwelawdd yn *dra vaelus arnyn wrth rwyfo, (can vot y gwynt yn wrthwynep yddynt) ac yn-cylch y bedwared ‡wylfa o'*r* nos, y daeth ef atwynt, yn *gorymddaith ar y mor, ac ef a vynesei vyn*e*d eb y llaw hwy. A' phan welsant wy ef yn ‡gorymddaith ar y mor, y tybiesont may *ellyll ytoedd, *ef* ac a 'waeddesant. Can ys wy oll y gwelsont ef, ac a dechrenesont: an'*d* ar y chwaen yr ‡ymddiddanodd ac wynt, ac y dyvot wrthint, Cyssiriwch, myvi yw, nac ofnwch. Yno yr escen*d*odd ef atwynt ir llong, ac y peidiawdd y gwynt, ac aruthrol dros ben yr aeithei *braw ynthynt y vnain, a ryveddy a orugant. O bleit nad ystyriesent *yr hyn a vvnaethesit* ynghylch y tortheu *hyny*, can ddarvot caledy eu calonae.

A' dyvot trosawdd a wnaethant, a myned i dir Genezaret, a' ‡dyvot ir 'lan. A' gwedy yddyn ddyvot o'r llong, yn y man ydd adnebuont ef, ac a *gylch*redesant trwy 'r oll vro hono o y amgylch *ogylch*, ac a ddechreysont ddwyn *hwnt ac yma mewn ‡glythae y sawl oll, oedd yn gleifion, ir lle clywent y vot ef. Ac y b'le bynac ydd elei ef y mewn i drefi nei ddinasoedd, ai i bentrefi, wy ddodent ei cleifion yn *yr heolydd, ac ei gweddient ar gael o hanynt gyhwrdd ys haychen y *wisc ef. A' chyniuer ‡a ei cyvyrddawdd, a iachawyt.

* glaswellt
‡ vyrddeidieu
* dodi
‡ digon
* vwyt
* bobul
‡ yn vnic
* vlin
‡ gadwadwriaeth
* rhodio
‡ rhodio rhyd
* yspryt, drychioleth
‡ chwedleyodd
* sannedigeth
‡ thirio
* oddyamgylch
‡ gwelyae
* y marchnatoedd
* na bai and
‡ a gyfyrddawdd ac ef

## Pen. vij.

Y discipulon yn bwyta a dwylo eb 'olchi. Tori gorchymyn Dew gan athraweth dyn. Pa beth a haloga ddyn. Am 'wraic o Syrophaenissa. Iachay yr mudan. Y werin y yn moli Christ.

YNO ydd ymgasclawdd y Pharisaieit attaw, a'r ei o'r * Gwyr-llen *ar* a ddaethent o Gaerusalem. A' phan welsant 'r ei o'r discipulon yn bwyta bwyt a dwylo ‡ cyffredin (ys ef yw hyny eb *ei g*olchi) yr * achwynesont. (Can ys y Pharisaieit a'r ol' Iuddeon, dyeithr yddynt 'olchy ei dwylo yn ‡ 'orchestol, ny vwytaant, gan ddal*h*a athraweth yr ‡ Hena*ifeit*. A' phan *ddelont* o'r * varchnat, o ddyethyr yddyn ymolchy, ny vwytant: a' llawer o bethae eraill ynt, a'r a gymersant *vry* arnynt ei cadw, *vegis* golchi*adae* ‡ cwpanae, ac ysteni, * ac evyddenneu a' ‡ byrddae. Yno y govynodd y Pharisaieit a'r Gwyr-llen iddaw, Paam na rodia dy ddiscipulon *di* * *h*erwydd athraweth yr Henaif*ieit*, any*d* bwyta bwyt a dwylo eb olchi? Yno ydd atebei ac y dywedei *ynt*ef wrthynt, *Can* ys da y propwytawdd Esaias am dano-chwi ‡ hypocritae, vegis ydd escrivenir, Y popl hyn am anrydedda i aei gwefusae, a' ei calon 'sy pell * hwnt o *dd*ywrthyf. Ac ouer im anrydeddant i, gan ddyscy yn lle dysc*eidaeth* 'orchynynae dynion. O bleit ydd ych yn rhoi gorchymyn Duw heibio, ac yn cadw athraweth dynion, *vegis* golchi*adae* ysteni a' chwpanae, a' llawer o gyffelyp bethae ydd ych yn ei 'wneythyr. Ac ef a ddyvot wrthynt, *Ys* da *iavvn*, y * gomeddwch chwi 'orchymyn Duw, val y catwoch eich athraweth eich un*ain*. Can ys Moysen a ddyvot, Anrydedda dy dad a'th vam: a' Phwy pynac a velltithia dad nei vam, bid varw ‡ o'r varwoleth. A' chwi ddywedwch, A'*s* dywait *vn*dyn wrth dad nei vam, Corban, ys ef yw hyny, Trwy 'r rhodd a *offrymir* genyfi, y daw lles yty, *rhydd vydd ef*. Ac ny * edwch iddo mwy*ach* wneythy'r dim *lles* y'w dad na ei vam, gan ychwi ‡ ddirymio gair Duw, can eich athraweth *eich hunain* yr hwn a * 'osodesochwi: a' llawer o ryw gyffelyp pethae hyny a wnewch. Yno y galwodd ef yr oll dyrfa ataw, ac a ddyuot wrthynt, Gwrandewch*vvi* oll arnaf, a' dyellwch. Nid oes dim allan o ddyn, a ddychon y halogy ef, pan el oei vewn: eithyr y pethae a ddaw allan o hanaw, yw'r ei a halogant ddyn. A's oes gan nep glustiae y ‡ glywed, clywet. A' phan

* Scriuenydd-ion
‡ budron
* cwynesont
‡ vynech
‡ Henaif
* varcet
‡ phiolae, diot llestri
* a'llestri efydd, pres ne elydn
‡ borde,
* gwelye ar ol
‡ ffuantwyr, truthwyr
* draw
* gwrthod
‡ ar, yr ange
* addefwch
‡ ddiawdur-dodi
* ordinesoch
‡ wrando, gwrandawet

* popul ddaeth ef ymywn i duy o y wrth y * werin, y gouynodd
‡ ddamec ei ddiscipulon iddo o bleit y ‡ parabol. Ac ef a ddyvot
wrthwynt, Velly a y tych chwithe hefyt yn ddiddyall?
* am A ny wyddoch * pan yw pop peth o *dd*yallan a el o
vewn dyn, na all y halogy ef, can na*d* yw yn myn*e*d o
vewn ei galon, *yn* amyn ir bol*y*, ac yn myn*e*d allan i'r
gauduy yr hwn yw carthiat yr oll vwydydd? Yno y
dyuot ef, Y peth a ddaw allan o ddyn, hyny a haloga
* daw ddyn. Can ys y *dd*ymewn *'sef* o galon dynion y
‡ drwc * deillia meddyliae ‡ mall, tori-priodasae, godinebae,
* trachwant lladd-celain, llatrata, * cupydd*d*ra, ‡ scelerdra, dichell,
‡ enwiredd, atlendit haerllycrwydd * llygad drwc, cabl-air, balchedd, am-
* cenvigen *p*wyll. Yr oll ysceleroedd hyn a ‡ddon o *dd*ymywn, ac
‡ ddawan a halogan ddyn.

Ac o yno y cyfodes ef, ac ydd aeth i gyffinydd Tyrus
a' Sidon, ac aeth y mewn y duy, ac ny vynesei y neb
gael gwybot: an'd ny allei ef vot yn guddiedic. Can
* merchan, bachcenes ys gwreic, yr hon oedd ei * merch-vach ac iddi yspryt
aflan, a glypu *son* am danaw ac a ddaeth ac a
‡ 'roeges gwympodd wrth y draed ef (A'r wreic oedd ‡ Groec,
a' Sirophenissiat o genedl) a' hi ervyniawdd iddo vwrw
allan y cythrael o hei merch. A'r Iesu a ddyvot
‡ iawn wrthei, Gad yn gyntaf borthi y plant: can nad ‡ da
* cianot, cw nach, cwn bychain cymeryd bara 'r plant a' ei davly i'r * cynavon. Yno
ydd atepodd hi ac y dyuot wrthaw, Diau, Arglwydd:
eto eisioes e vwyta 'r cynavon y dan y vord o vriwson
y plant. Yno y dyuot ef wrthi, Am yr ymadrodd
hwn dos ymaith: ef aeth y cythrael allan o'th verch.
‡ ydref A' gwedy y dyuot hi adref y'w thuy, hi a gavas y
cythrael gwedy ymadel, a' *ei* merch yn gorwedd ar y
gwely.

*Yr Euangel y xij. Sul gwedy Trintot.* Ac ef aeth drachefn ymaith o ffiniae Tyrus a' Sidon,
ac a ddaeth yd vor Galilea trwy pervedd cyffiniae y
*Decapolis * Dectref. Ac wy a dducesont attaw vn byddar, ac *ac*
attal dywedyt arnaw, ac a atolygesont iddaw ‡ 'osot ei
law arno. A' gwedy iddaw ei gymeryt ef or neilltu
allan o'r tyrfa, ef a estennawdd ey vyssedd yn ei glustiae,
ac a boyrawdd, ac a gyfyrddawdd a ei davot ef. Ac
ef a edrychawdd ir nef, can vcheneidiaw, ac a ddyvot
‡ Hipatha wrthaw, ‡ *Ephphatha* ys ef yw, ymagor. Ac yn y man
ydd ymagorawdd ey glustiae, ac ydd ymellyngawdd
* llinyn *rhwym ei davot, ac ef a ddyvot yn ‡ eglur. Ac ef a
‡ groyw, iawn, lawnllythr 'orchymynawdd yddwynt, na ddywedynt i nep: an'd
pa vwyaf y goharddei yddwynt, mwy o lawer y

*manegynt, a' brawychy eb wedd a wnaethant, can *cyhoeddent
ddoedyt ‡Tec y gwnaeth ef pop peth: ir byddair y ‡Da
*gwna ef glywet, ac ir mution ddywedyt. *par

## Pen. viij.

Miracl y saith torth. Y Pharisaiait yn erchi arwydd. Surdoes y Pharisaiait. Y dall yn derbyn ei 'olwc. Ei adnabot gan ei ddiscipulon. Ef yn ceryddy Petr. Ac yn dangos mor angenraid yw bot ymlid a'blinderwch.

YN y dyddyae hyny, pan oedd tyrva dra-mawr ac *Yr Euangel y*
eb gantwyut ddim yw vwyta, yr Iesu a 'alwawdd *vij. Sul gwedy*
ei ddiscipulon ataw, ac a ddyvot wrthwynt, Ydd wyf *Trintot.*
yn tosturiaw wrth y tyrfa, can ys yddwynt aros y gyd
a mi *er* ys tri-die, ac nid oes Ganthwynt dim yw
vwyta. Ac a's ‡anvonaf wy ymaith *eb vwyt y'w ‡gellyngaf
teie ehunain, wy ‡loysygant ar y ffordd: can ys yr ei maddeu af
o hanaddynt a ddeuthant o bell. Yno ydd atepawdd *ar ei cythlwnc
ei ddiscipulon iddo, *Pawedd y dychon dyn borthy ‡ffaintian
'r ei hynn a bara yma yn y diffeith? Ac ef a o vyn- *O ble
nawdd yddwynt, Pasawl torth ys ydd genwch? Ac
wy a ddwedesont, Saith. Yno y gorchymynawdd ef
yr tyrfa eistedd ar y ddaear: ac ef a gymerawdd y
saith torth, ac wedy iddo ddiolvvch, eu torawdd, ac *eu*
rhoddes *y'w ddiscipulon yw ‡gesot geyr *eu* bron, ac *yddy
wy *ei* gesodesont geyr bron y popul. Ac ydd oedd ‡dody
ganthwynt ychydic pyscot bychain: ac wedy iddo *bendico,
*vendithiaw, ef archawdd yddwynt hefyd ei gesot
geyr eu bron. Ac wy a vwytesont, ac a gawsont digon, *ddiolch
ac wy a godesont o'r briwvwyt oedd yn-gweddill, saith
basgedeit, (a'r ei vysent yn bwyta, oedd yn-cylch
pedeir-mil) ac *velly* ef *yd* ‡anvonawdd wy ymaith. ‡gellyngawdd

Ac *ar hynt ydd aeth ef i long gyd ei ddiscipulon, *ar y chwaen
ac y ddaeth i ‡barthae Dalmanutha. A'r Pharisaiait ‡randiroedd
a ddaethan *allan*, ac a ddechreusont *ymddadle ac ef, *ymofyn
gan geisiaw gantaw arwydd o'r nef, a' *chan* ei ‡demptio. ‡brovi
Yno yr *vcheneiddiodd ef yn ‡ddwys: yn ei yspryt, *a roes ebwch
ac y dyuot, Pa geisio arwydd y mae'r genedleeh hon? ‡drwm
Yn wir y dywedaf y chwi, ‡na's rhoddir arwydd ir ‡a's
genedlaeth hon.

Ac ef y gadawodd wy, ac aeth i'r llong drachefyn,
ac a dynnodd ymaith dros y dwfr.

Ac anghofio a wnaethent gymeryd bara, ac nid oedd

ganthwynt amyn vn dorth yn y llong. Ac ef a orch-mynawdd yddynt gan ddywedyt, Gwiliwch, ac ym-ogelwch rac *leven y Pharisaieit, a' rac leven Herod. A' resymy a wnaethant wrth ei gylydd, gan ddywedyd, *Hyn 'sy can* Nyd oes *ddim* bara genym. A' phan ei gwybu 'r Iesu, y dyvot wrthwynt, Pa resymy *dd*ych *velly*, can na'd oes genwch vara? a ny*d* ych*vvi* yn ‡synniaw etwa, nag yn deall*y*? A ytyw eich calonae eto genwch wedy 'r *argaledu? Oes llygait genwch ac ny chanvyddwch? ac oes i chwi glustiae, ac ny chlywch? Ac any ddaw yn eich cof? Pan doreis y pemp torth ym-plith pem*p*mil, pa sawl bascedeit o vriwvwyt a ‡godesoch? Dywedesont wrthaw, Dau-ddec. A' phan doreis saith ymplith pedeir mil, pa sawl bascedeit *gvveddill* o vriwfwyt a godesoch? Dywedesont wythae, Saith. Yno y dyvot ef wrth-wynt, P'wedd *yvv* na *ydyellwch? Ac ef a ddaeth i Bethsaida, ac wy a ddueesont ataw ddall, ac a ‡ei gweddieson ar iddo y gy*f*wrdd ef. Yno y cymerawdd ef y dall *erbyn, ei law, ac ei ‡tywysawdd allan o'r dref, ac a boyrawdd yn ei lygait, ac a *'osodes ei ddwylaw arno, ac a ovynaw*d*d iddaw a welei ef ddim. Ac ef a ‡edrychodd i vyny*dd*, ac a ddyuot, *Mi* welaf ddynion: can ys gwelaf wy yn *gorymddaith, ‡mal *petyn* breniae. Gwedy hyny, y gesodes ef, ei ddwylo drachefyn ar y lygait ef, ac y parawdd iddo ‡edrych-drachefn. Ac ef a edverwyt *iddo ei olvvc*, ac ef a welawdd *bavvp* oll o bell *ac* yn ‡eglaer. Ac ef a ei *d*anvonawdd ef a-dref y'w duy, gan ddywedyt, Ac na ddos ir dref, ac na ddywait i nep yn y dref. A'r Iesu aeth allan, ef a ei ddiscipulon i Caesarea Philippi. Ac ar y ffordd yr ymovynnawdd ef a ei ddiscipulon, gan ddywedyt wrthynt, Pwy'*n* medd dynion *yt*wy vi? Ac wy a atebesont, *yr ei a ddvvvait mai* Ioan Vatydiwr: a'r ei, Elias: a'r ei *mai* vn o'r Propwyti. Ac ef a ddyvot wrthynt, A' phwy'*n* meddw-chwi *yt*wy vi? Yno ydd atepawdd Petr ac y ddyuot wrthaw, Ty*dy* yw'r Christ. Ac ef a 'orchymynawdd yn *gaeth yddynt na vanegent *hyny* i nep am danaw. Yno y dechreawdd ei dyscy y byddei ‡ddir y Vap *y* dyn ddyoddef llawer o *bethæ*, a' ei *argyweddy y gan yr Henaif*ieid*, a *chan* yr Archoffeiriait a'*r* Gwyr-llen, a' ‡*chael* ei ladd, ac o vewn tri dic-yfody *drachefyn*. Ac ef a adrodes y *peth hyny yn ‡'olae. Yno y cym-

* swrdoes
‡ ystyriaw
* ddallu
‡ gymresoch
* synniwch
‡ ddeisyfesant
* erwydd
‡ arwenws y maes
* ddodes
‡ dremiodd
* rhodio
‡ malphe
* dadedrych
‡ eglur
* dynn
‡ angenrad
* gwlio, goddi
‡ ddiva, ddyvetha
* gair
‡ ddiledlef

erth Petr ef *or ailltu*, ac a ddechreodd *roi iddo sen. *ei geryddy,
Yno ydd *ad* ymchoelawdd ef, ac ydd edrychawdd ar ragy arno
ei ddiscipulon, ac yrrhoes-sen i Petr, gan ddywedyt,
Tynn *ar *ol i Satan: can na ‡synny bethae Duw, *o ywrthyf
eithr pethae dynion. ‡ddyelly,
A' gwedy iddo 'alw y *werin attaw gyd aei ddis- ystyry
cipulon, a' dywedyt wrthynt, Pwy pynac a wyllysa *bobyl, y
ddyvot ar v'ol i, ymwrthodet ac *ef* yhun, a' chymered dyrva
*i vyny* ei ‡groc, a' dylynet vi. Can ys pwy pynac a
ewyllysa gadw ei einioes, ei cyll: a' phwy pynac a
gyll ei *einioes er vy mwyn i a'r Euangel, ef ei ca*i*dw.
Can ys pa les i ddyn, er enill yr oll vyt, a 'cholly ei
enaid? ‡Ai pa peth a rydd dyn yn **ym*dal dros ei ‡groes
eneit? Can ys pwy pynac a ‡wrido om pleit i, n'am ‡ond, eithyr
geiriae ym-plith yr 'odinebus a'r bechadurus genedl- *enaid, hoydyl
aeth hon, o bleit *yntef y ‡gwrida Map *y* dyn hefyt, ‡Neu
pan ddel yn-gogoniant ei Dat y gyd a'r Angelion *gyngwerth, werthyd
saincti*us*. ‡gwiliyddio
*hwnw y cywilyddia

## Pen. ix.

Ymrithiat Christ. Bot yn iawn y wrando ef. Bwrw allan yr yspryt mut. Grym gweddi ac vmpryd. Am varwoleth a' chyuodiat Christ. Y ddadl pwy a vyddei vwyaf. Na rwystrer ar rediat yr Euangel. Gohardd camweddae.

AC ef a ddyvot wrthwynt, Yn wir y dywedaf
wrthych, *pan yvv* bot r'ei o'r sawl 'sy yn sefyll
yma*n*, a'r ny's *archwayddant o angae ‡yd pan *chwaithant
welont. Deyrnas Duw, yn dyvot *yn *ei* nerth. Ac ar provant
*ben* chwe*ch* diernot gwedy y cymerth yr Iesu Petr, ac ‡nes gweled
Iaco ac Ioan, ac aeth a' hwy i vyny*dd* i vonyth vchel *mewn, gyd a
or *n*ailltu wrthyn y hun*ain*, ac ef a ‡ymrithiodd geyr gallu meddiant
y bron wy. A' ei ddillat a *ddysclaeriawdd, *ac oedden* ‡llailltu
dra channeit val *yr* eiry, mor ganneid na vedr ‡*neb* *dywynodd
pannydd ar y ddayar ei gwneythy *'r*. Ac a ymddang- ‡vn pannwr
oses yddynt Elias *ef a Moysen, ac ydd oeddent yn *gyd
‡ymddiddan a'r Iesu. Yno ydd atepodd Petr, ac y ‡chwedleua
dyuot wrth yr Iesu, *Rabbi, da yw i ni vot yma*n:* llavaru
a' gwnawn i ni dri ‡phebyll, vn y ti, ac vn i Voysen, ac *Athro
vn i Elias. An'd na wyddiat ef beth yr oedd yn ei ‡lluest
ddywedyt: can ddarvot yddyn ddechryyny. Ac ydd
oedd *wybren a'r y gwascodawdd wy, a' llef a ddeuth *cwmwl rhwn
*allan* o'r wybren, gan ddywedyt, Hwn yw vy Map
caredic: ‡clywch ef. Ac yn ddysyvyt ydd edrycheson ‡gwrandewch
o *dd*amgylch, ac ny welsont mwy*ach* neb*un*, o ddyeithr

syrthiawdd, ar dir da, ac eginawdd, ac a dduc ffrwyth, ar ei ganvet. Ac val ydd oedd ef yn dywedyt pethae hyn, y llefawdd. Y nep ys y a chlustiae yddo i *glywet clywet. A' ei ddiscipulon a 'ovynnodd iddo, gan ddywedyt, pa ryw barabol oedd hwn? Ac ef a ddyvot, I *chvvy*-chwi y rhoddet gwybot dirgeloedd teyrnas D*d*uw, anid i eraill trwy ‡parabolae, er yddyn yn gwelet, na welant, ac er yddynt yn clywet, na ddyallant. Hynn y'w r parabol. Yr had, yw gair Duw. A'r ei ar *emyl ffordd, ynt yr ei a *glywant: yno y daw ‡diavol, ac a ddwc y gair allan oei calonae rac yddyn gredy, a' bot yn gatwedic. A'r ei ar y garec, *yyn yr ei* pan glywant, a ddebyniant y gair trwy lawenydd: eithyr ir ei hyn nyd oes gwraidd, yr ei a credant tros amser, ac yn amser *prouedigaeth a giliant. A'r hwn y syrthiawdd ym-plith ‡drain, hwy yw'r ei glywsant ac a aethant ymaith, a' chan 'ovalon a' golud, a' *bodd buchedd a dagwyt, ac ny dducant ffrwyth. A' hyn *a gvvympavvdd* ar y tir da, ynt yr ei mewn calon ‡syber'-dda, a glywant y gair ac ei catwant, ac a ffrwythant trwy *anmynedd.

Nyd *ennyn neb gannwyll, ac yno y *gor*chuddiaw hi a llestr, ac ny'*s* ‡gesyt y dan y vord, eithyr ar y *canwyllbren y gosyt, val y bo ir ei a ddel y mywn, 'weled y goleuni. Can nyd oes *dim* dirgel a'r ny'*s* gwnair yn amlwc, na *dim* cuddiedic a'r na'*s* *g*wybydder ac *n*a ddaw i'r ‡amlwc. Gwelwch can hyny *pa-ddelw y clywoch: can ys pwy bynac ys y ganthaw, iddo y rhoddir: a' phwy pynac ny*d* oes ganthaw, ys yr hyn a dybir vot canthaw, a dducir y arnaw.

Yno y daeth ataw y vam a' ei vroder, ac ny allent ddyuot *yn agos* ataw gan y ‡dorf. Ac e vanegwyt iddaw, *gan 'rei* a ddywedynt, Mae dy vam a'th vroder yn sefyll all an, yn ewyllysiaw cael dy weled. Ac ef a atepawdd, ac a ddyuot wrthynt, *Y mam i, a'm broder, yw yr ei hyn a glywant 'air Duw, ac ei ‡gweithredant. Ac *ys* darvu ar ryw ddiernot, ys ef y ddaeth i long y gyd ai ddiscipulon, ac y dyuot wrthynt, Awn ir tu *hwnt ir *mer*llyn. A' mordwyaw *rhacddyn* a wnaethant. Ac val ydd oeddent yn hwyliaw, yr ‡hunawdd ef, ac a ddescenawdd cavod o wynt ar y *mer*llyn, ac y cyflawnwyt *vvy o ddvvfr*, ac ei periglwyt. Yno ydd aethant ataw, ac ei diffroesant, gan ddywedyt, *Y llywiawdr, y llywiadr, ‡e a'n collet *ni*. Ac ef a

* wrando &c
‡ ddamegion, cyffelybion
* vin
* wrandawant
‡ cythrael
* prawf
‡ yscall
* boddus vuchedd
‡ bur
* ymaros, ddiodef
* ole
‡ ddyd
* gwely, canwyllhern
‡ golae
* po'dd
‡ ymsaug
* Mam a broder i mi
‡ gwnant cyflawnant
* draw, arall
‡ dygyscawdd
* Y meistr, y meistr
‡ ddarvu am danam

gyfodes, ac a geryddawdd y gwynt a 'thonnac 'r dw*f*r :
a' *vvy* peidiesont, a' hi aeth yn *arafhin. Yno y dyuot *dawel
ef wrthynt, P'le may eich ffydd *chvvi?* ac ofny a'
rhyueddy, a' orugant yn ei cyfrwng, gan ddywedyt,
Pwyn '*n* yw hwn a 'orchymyu ‡ac ir gwyntoedd a'r ‡ys
dw*f*r, a' hwy yn vvyddhau yddo?
Yno hwyliaw o hanynt i *vro y Gadarenieit, yr hon *'or wlat
'sy drosodd ‡gyferbyn a Galilaia. A gwedy iddaw ‡ar gyfor
vyn*e*d i dir, y cyfarvu ac ef *ryw wr o'r dinas, yr hwn *neb
oedd ‡perchen cythrael er *ys* hir amser, ac ny wiscai ‡gantho, iddo
ddillat, ac ny aro*s*ei yn tuy, any*d* yn y *monwenti. A' *bedrode, beddae
phan welas ef yr Iesu, y dolefawdd, ac a gwympawdd
y lawr ger y vron ef, ac a llef vchel a ddyuot, Beth
'sy i mi *avvnelvvyf* a thi, Iesu vap Duw, y goruchaf?
Atolwg yti na'm ‡poenych. Can ys-gorchymynesei ef ‡arteithych
ir yspryt *haloc ddyuot allan o'r dyn: (can ys llawer *aflan lydr
gwaith y daliesei ef: am hyny y rhwymit *ef* a chad-
wyni, ac y cedwit mewn ‡hualae: ac ef a ddrylliai y ‡llefetheirie
rhwymae, ac a *ddugit gan y cythrael ir diffeithiae.) *yrrit, wthit, cymhellit
Yno y govynawd yr Iesu iddaw gan ddywedyt, Beth
yw d' enw? Ac ef a ddyuot, Lle*n*g, can ys cythreul-
iait lawer aethent ynddaw. A' hwy ‡atolygesont ‡er vyniesont
iddaw, na orchymynei yddynt vyned ir *gor*ddwf*y*n. Ac
ydd oedd yno *geir*llaw genvaint o voch lawer, yn pori
ar *y mynyth, a'r *cythraelieit* atolygesant iddaw, *ar* *vryn, lann
‡adel o hanaw yddyn vyn*e*d ynthynt *vvy.* Ac e adaw- ‡gamhady
odd yddynt. Yno ydd aeth y cythraelieit allan o'r
dyn, ac yn aethon ir moch: a'r genvaint a *ddy* gyrch-
awdd y ar *ddibin i'r *mer*llyn, ac a degit. Pan wel- *le syrth
awdd y meichiait *yr* hyn a wneithit, y ‡ffoesont: a' ‡ciliesont
gwedy yddyn vyn'd ymaith, y manegesont ‡ir dinas a'r *yn y
'wlat. Yno y deuthant allan i 'wel*e*d *beth a wnaeth- ‡hyn
*es*it, ac y daethant at yr Iesu, ac a gawsant y dyn o'r
hwn yr aethai allan y cythraelieit, yn eistedd, wrth draet
yr Iesu, yn wiscedic, ac yn ei *iavvn*bwyll: ac *vvy* ofnent. *ddilledic
A'r ei a 'welsent, a vynegesant yddynt pa vodd yr
iachesit, y cythraelic. Yno yr oll lliaws y wlat o *am*-
gylch y Gadare*n*it a atolygesant iddaw, vynd ymaith y
wrthynt: can ys ‡delhit wy ac ofn mawr: ac ef aeth ‡ofn mawr oedd yw dalha
ir llong, ac a *ddad*ymchwelawdd. Yno 'r gwr, o'r hwn
y madawsei 'r cythraelieit, a atolygadd iddaw gael o
hanaw vot y gyd ac ef: a'r Iesu y **d*anvonawdd ef *gellyngodd maddcuodd
ymaith, gan ddywedyt, Ymchwyl ith tuy *dy hun*, a'
datcan vaint bethae a wnaeth Duw yty. Yno ydd aeth

ef ffwrdd, gan ‡precethu trwy'r oll ddinas *pa* veint bethae a wnaethesei 'r Iesu iddaw.

‡ espysy, adrodd, honni, cyhoeddi

A' darvu pan ddaeth yr Iesu drachefyn, bot ir bopul y dderbyn ef: can ys wy oll a ddysgwylynt am danaw. A' nycha y daeth *nebun* gwr a ei enw Iairus, ac efe oedd yn llywodraethwr y Synagog, ac ef a gwympodd wrth draet yr Iesu, ac atolygawdd iddo ddyuot *y mevvn* yw duy *ef.* Can ys vn verch oedd yddaw yn-cylch deuddec*bl*wydd *oet*, a' hon oedd ar varw (ac ef yn myned y gwascei 'r bopul ef. A' gwreic rhon oedd arnei waedlif er ys dauddec blynedd, yr hon a dreuliesei i holl *vywyt ar ‡veddigon, ac ny'*s g*allei gael i hiachau y gan neb*un:* pan ddeuth hi y tu cefyn iddo, y cyvurddawdd hi ac emyl*yn* y wisc ef, ac yn ebrwydd y *safawdd llif y gwaet hi. Yno y dyuot yr Iesu, Pwy *'n yvv* a gyffurddawdd a mi? Ac a phawp yn gwadu, y dyuot Petr, a'r ei oedd y gyd ac ef, Y ‡llywiawdr y mae'r dorf yn dy wascu, ac ith *sathru, a' dywedy. Pwy *'n yvv* a gyfyrddodd a mi? A'r Iesu a ddyvot, E gyfurddawdd ryw vn a mi: can ys mi a wn vynet ‡nerth *allan* o hanof. Pan welas y wreic nad oedd hi *yn guddiedic, hi ddaeth dan ergrynu, ac a syrthiawdd geyr y vron ef, ac a vynegawdd iddaw rhac bron yr oll popul, er pa achaws y cyvwrddesei hi ac ef, ac val yr iachesit y hi yn ebrwydd. Ac ef a ddyuot wrthei, Cymer confort, verch: dy ffydd ath iachchaodd: dos ‡yn-tangweddyf) Ac ef eto yn ymadrodd, y daeth vn *ywrth lywodraethwr y Synagog, gan ddywedyt wrthaw, Marw vu dy verch: na ‡phoena *ddim* o'r Athro. Pan glybu 'r Iesu, yr atepawdd iddaw, gan ddywedyt, Nag ofn*a:* cred yn vnic, a' hi a *iachëir. A' phan aeth ef i'r tuy, ny adawdd ef y nep ddyvot y mewn y gyd ac ef, ‡amyn Petr, ac Iaco ac Ioan, a' that a' mam y *vacheues. Ac wylo oll ac irad a wnaent am denei: ac ef a ddyuot, Na*g* wylwch: can na*d* marw hi, anyd hunaw y mae *hi.* Ac wy y gwatworesont ef, can yddyn wybot y marw hi. Yno y gwthiodd ef wy oll y maes, ac y cymerth hi *erbyn hei llaw, ac a lefawdd, gan ddywedyt. Y vachcennes, cyvot. A' ei h'ysspryt a ddaeth drachefyn, a hi a gyuodes yn ebrwydd: ac *ef* a 'orchmynawdd roi yddi vwyt. Yno ‡aruthr vu gan i *rhieni: ac ef a orchmynawdd yddynt na ddywedent i neb*un* ‡hyn a wnaethesit.

* da byt
‡ physigwyr
* attaliodd, ystopodd rhediat
‡ meistr
* vysseing
‡ rhinwedd
* ynghudd
‡ gyd a heddwch
* o duy
‡ vlina
* waredir
‡ anyd
* vorwyn, enaeth
* erwydd
‡ sann, cwrth
* thad ai mam
‡ pa, beth

## Pen. ix.

**Ef yn anvon y dauddec Apostol ymaith i precethu. Herod yn clybot son am danaw. Ef yn porthi pemp-mil popul a phemp, torth a' dau bysc. Amrafael opinion am Christ. Ef yn ymrithio ar y mynyth. Ef yn gwared y dievlic. Ac yn dyscu ei ddiscipulon vot yn 'ostyngedic. Wyntwy yn erchi dial, ac yntef yn ei gohardd.**

YNO y galwodd ef y dauddec discipul y*n*g*h*yd, ac a
roes yddynt veddiant ac auturtot ar *ucha* yr oll
cythraelieit, ac y iachau heintie. Ac y *d*anvonawdd
hwy i precethu teyrnas Duw, ac i iachau 'r cleifion. Ac
ef a ddyuot wrthynt, Na chymerwch ddim ich *taith, *gossym-
na *gvviail*ffyn, nac yscrepan, na bara, nac arian, ac na ddeith, ffordd
bo ychwy, ddwy ‡bais. A' pha tuy pynac ydd eloch ‡siacet
iddo, yno yr aro*s*wch, ac o *dd*ynaw yr ymadewch. A'
pha 'rei pynac ny'ch *d*erbyniant, pan eloch allan o'r
dinas hono, escutwch ys y llwch y wrth eich traet yn
testiolaeth yn y herbyn hwy. Ac wy aethant allan, gan
vyned trwy bop tref *ac Euangelu, ac iachau ym-pop *a phregethu
lle. Yno clybot o Herod y Tetrarch *son am* yr oll 'r Euangel
pethae a wnethesit canthaw: a' ‡phetruso, can ys ‡amheu dowto
dywedyt gan 'r ei, *ad*gyvodi *o* Ioan o veirw: a chan 'r
e*iae*, ymddangos o Elias: a' c*h*an ereill mai vn o'r hen
Prophwyti a *ad*godesei. Yno y dyuot Herod, Ioan a
*doreis i ei ben: pwy yntef yw hwn y clywaf gyfryw *laddeis,
bethae am danaw? ac ef a geisiawdd y wel*e*d ef. drycheis

A' gwedy *ad*dychwelyd yr Apostolon, y manegesont
iddaw ‡veint bethae a wnaethoeddynt. Yno y cymerth ‡pa
ef wynt, ac y *tynnawdd o'r neilltu i le diffaith *geir* *enciliawdd
*llavv* dinas a elwit Bethsaida. *A'* phan 'wybu 'r popul,
*ys* dilynesont ef: ac ef y *d*erbyniawdd wy, ac a ‡lavar- ‡ddyvot,
awdd wrthyn am deyrnas Duw, ar ei oedd arnyn eisiae draethodd
y hiachau, a iachaodd *ef*. A' phan ddechreawdd y
dydd *ddarvot, y daeth y dauddec, ac y dywed*e*sont *dreulio
wrthaw, ‡Gellwng ymaith y popul, val yr elont ir trefi ymaith
a 'r pentrefi o *dd*amgylch, a' lletuya, a' chael bwyt: ‡Anfon
can ys yma ydd ym yn lle diffaith. Ac ef a ddyuot
wrthynt, Ro*vv*-chwi yddynt *beth* yw vwyta. Ac wy*the*
a ddywed*e*sont, Ny*d* oes genym *ni* *tros pemp torth a' *vwy
dau bysc*odyn*, o ddyeithr i ni vyned a' phrynu bwyt i'r
oll bopul hyn. Can ys ydd oedd*ent* yn cylch pemp-mil
*o g*wyr. Yno y dyuot ef wrth ei ddiscipulon, ‡Perwch ‡Gwnewch
yddyn eistedd *y lavvr*, bop dec wyr ad'augain mewn Rowch yn hwy
eisteddfa. Ac velly y gwnaethant, ac ei gesodesont i eiste

*vry* y eistedd oll. Yno y cymerth ef y pemp torth. a'r ddau pyscodyn, ac a edrychodd y vynydd *ir nef, ac ei bendigawdd, ac *ei* ‡torawdd, ac *ei* rhoes ir discipulon y'w gesot *rac bron y popul. Yno bwyto o hanynt bawp, a' chael digon: ac e godwyt a'r a weddillesci ganthynt, dauddec bascedeit o vriwvwyt.

* tuar
‡ drylliodd
* gar, drach

A' darvu, wrth y vot ef *y hun* or neulltu yn gweddiaw, yr oedd ei ddiscipulon y gyd ac ef, ac ef a 'ovynnawdd yddynt, can ddywedyt, Pwy '*n* medd y populoedd yw vi? Wythe atepesont ac a ddywedesont, Ioan Vatyddiwr: a' rei a *ddyvvait mai* Elias: ac ereill *a ddyvvait* mai vn ‡o'r Prophwyti gynt a godes *drachefyn.* Ac ef a ddyuot wrthynt, A' phwy '*n* medd-y chwi *yt*yw vi? Petr a atepawdd ac a ddyuot, Y Christ *y* Duw. Ac ef *y* rubyddiawdd ac a 'orchymynawdd yddynt, na ddywedynt hyn wrth neb*un*, gan ddywedyt, **Can ys* dir yw i Vap y dyn *ddy*oddef llawer ‡oedd a'ei *argyweddu y gan yr Henaifi*eit*, a' chan yr Archoffeiriait, a'r Gwyr-llen, a' ei ladd, a'r trydydd dydd *ad*gyuody.

‡ orhen. &c.
* Rait
‡ o bethe

Ac ef ddyuot wrth*yn* oll, A's ewyllysa nep ddyuot ar v'ol i, ymwadet ehun, a *chymeret ei groc beunydd a' dylynydd vi. Can ys pwy pynac a ewyllyso cadw ei einioes, ei cyll; a' phwy pynac a gyll ei einioes ‡om pleit i, hwnw ei caidw. Can ys pw *les*hat* i ddyn, ‡pe's enillei'r oll vyt, a' ei golli ehun, neu ddarvot am dano ehun? Can ys pwy pynac a gywilyddio om pleit i, *am gairiae, o bleit hwnw y cywilyddia Map y dyn, pan ddelo yn ei 'ogoniant, ac ‡*yn gogoniant* y Tat, a'r sainct Angelon. A' dywedaf wrtwych 'yn *ddiau, Y mae r' ei yn sefyll yma, a'r ny's ‡'orchwaeddant *o* angae, nes yddyn weled teyrnas Duw. Ac e ddarvu yn-cylch pen wyth diernot gwedy y gairiae hyny, ac e gymerth Betr, ac Ioan, ac Iaco, ac a *escen*d*awdd ir mynyth i weddiaw. Ac val yr oedd ef yn gweddiaw, y ‡newidiwyt gwedd y wynep*ryd* ef, a' ei wisc *oedd yn* wen, *ac yn* *ysplen*d*ydd. A' nycha, ddau 'wr yn cydymddiddan ac ef, yr ei oedd Moysen ac Elias. Yr ei a ymddangosent yn-gogoniant, ac a ddywedesont am ei ‡drancedigaeth, yr vn a *gyflawnei ef yn-Caerusalem. A' P*h*etr a'r ei oeddd y gyd ac ef, oedden drymion gan *hunaw, a' phan ‡ddihunesont, wy welsant y' ogoniant ef, a'r ddau wr yn sefyll y gyd ac ef. Ac *ys* darvu, a' hwy yn ymadael ywrthaw, Petr a ddyuot wrth yr Iesu,

* chodet i groes
‡ er vy mwyn
* well
‡ er enill
* ne vy-
‡ vn
* wir, ddien
‡ vlasant
* aeth i vyny
‡ ysmutwyt arallwyt, ffurf gosgedd
* ddys claer
‡ ddiwedd, varwoleth
* gwplai
* guscy
‡ ddiffroesont

Y ‡llywiawdur, *ys* *tec yw i ni vod yman, gwnawn gan hyny dri phepyll, vn i ti, ac ‡vn i Voysen ac vn i Elias, ac ny wyddiat pa *beth* a ddywedei. Ac ef yn ymadrodd val hyn, y daeth ‡wybr*en* *ac y gwascotawdd hwy, ac wy a ofnesont pan oedd yr ei hyn yn myned y mewn ir *wybr*en*. Ac e ddaeth llef allan o'r wybr*en*, yn dywedyt, Hwn yw vy Map ‡y caredic, *clywch ef. A' gwedy darvot y llef hono, y cahad yr Iesu *yn vnic: ac wy ny*d* ynganesont, ac ny vanegesont i neb*un* ‡yn dyddieu hyny ddim o'r pethae a' welsynt.

A' darvu ar y dydd nesaf, ac wy yn dyuot y war*e*d o'r mynyth, yr oedd llawer o popul yn ‡cyfarvot ac ef. A' nycha, 'wr o'r dyrfa a *ddo*lefawdd, gan ddywedyt, Athro, adolwyn yty, *edrych ar vy map: can ys vy vn-map *y gyd* ydyw. A' nycha, yspryt y cymer ef, ac yn ddysumwth y llefa, ac ef ei rhwyg, y ny valo-ewyn a' *braidd yr ymedy ac ef gwedy iddaw ei sigo, A *mi* adolygais ith ddiscipulon y vwrw ef allan, ac ny allent *vvy*. Yno yr atepawdd yr Iesu, ac y dyuot, ‡A genedleth amffyddlawn a' throvaus, pa hyd *bellach y byddaf y gyd a chwi, ac ich dyoddefaf? Dwc yma*n* dy vap. A' thra ytoedd ef yn dyuot, y rhwygawdd y cythraul ef, ac y ‡drylliawdd: a'r Iesu a gerydawdd yr yspryt aflan, ac a iachaodd y bachcen, ac y rhoes ef at ei dat.

A' *brawychy a wnaethant oll gan ‡vawredic veddiant Duw: ac a '*n* wy oll yn ryveddu am yr oll pethe a wnethesei 'r Iesu, y dyuot wrth ei ddiscipulon, *Clustymwrandewch y gairiae hyn: can ys-dervydd y, rhoddir Map y dyn yn-*d*wylo dynion. Eithyr ny ‡ddeallesont wy '*m 'or* gair hwn*vv:* can ys cuddietic oedd racddynt, val na *synnient *ddim* hano: ac ofnent ymofyn ac ef y ‡peth hwn.

Yno y cyuodes *dadl yn y plith wy, pwy '*n* o han*add*ynt vyddei '*r* mwyaf. Pan welas yr Iesu veddyliae y ca*l*onae, ef a gymerth vachcenyn, ac ei gesodes yn ei emyl, ac a ddyuot wrthynt, Pwy pynac a *dd*erbyn y bachcenyn hwn yn vy Enw i, 'sy im *d*erbyn i: a' phwy pynac am *d*erbyn i, a *dd*erbyn hwn am *d*anvones i: can ys hwn 'sy leiaf yn eich plith *chvvi* oll, hwnw a vydd mawr.

Ac atepodd Ioan, ac a ddyuot, Y llywiawdur, *ni* welsam vn yn bwrw allan gythraelieit yn dy Enw *d*i,

‡ meistr
* da, mad
‡ arall
‡ cwmwl
* rhon
‡ yr anwyl
* gwrandwch
* ehun, wrtho yhun
‡ y pryd
‡ cyfwrdd
* sylla
* anhawdd
‡ O
* weithan
‡ carpiodd
* sanny, aruthro
‡ nerthawc
* Ystyriwch Synwch
‡ wyddent beth oedd
* ystyrient
‡ gair
* resymy
* wrtho, geyr ei law

* ganlyn
‡ iddo

ac ei goharddesam, can nad yw *ith* *ddilyn y gyd a ni. Yno y dyuot yr Iesu wrthaw, Na *'vv* 'oherddwch ‡*ef ddim:* can ys yr hwnn *a'r* ny*d* yw yn ein erbyn, y sy y gyd a ni.

* dyuot yr amser
‡ pryd
* ymgadarnhaodd yntho yhun
‡ agwedd
* vynny
‡ i ddistryw eneidie

Ac e ddarvu, gwedy *cyflawny y dyddiae ‡ val y cymerit ef y vyny*dd*, ef a **ddir*gyfeiriodd ei wynep i vyn'd i Gaerusalem, ac a *dd*anvones genadon oei vlaen: ac wy gerddesont, ac aethont i dref y Samarieit, y baratoi iddo *letuy*. A' hwy*the* ny'*s* derbynynt ef, can vot y ‡wyneb*iat* ef *val* yn myned i Gaerusalem. A' phan welawdd ei ddiscipulon Ioan ac Iaco *hyny*, y dywetsont, Arglwydd a *ewyllysy *di* 'orchymyn o hanam *ar* ddescen*d* tan o'r nef, a' ei difa hwy, me*g*is y gwnaeth Elias? A'r Iesu a droes, ac y ceryddawdd wy, ac a ddyuot, Ny wyddoch o ba yspryt ydd ychwi. Can na ddeuth Map y dyn i y ‡golly einioes*oedd* dynion, eithyr *y'vv* cadw. Yno ydd aethon i dref arall.

* cadnawot
‡ ffaue
* ehediait
‡ orwedd
* Canlyn
‡ gad
* ac ymiachay
‡ gymesur

Ac e ddarvu a' hwy yn myned rhyd y ffordd, y dyuot *neb*un wrthaw, *Mi* ath ddilynaf, Arglwydd, i b'le bynac ydd elych. A'r Iesu a ddyuot wrthaw, Ir *llwynogot y mae ‡dayerydd, ac i *adar y nef *y mae* nythot, ac i Vap y dyn ny*d* oes lle i roi *ei* ben i ‡lawr. Ac ef a ddyuot wrth *vn* arall *Dilyn vi. Ac *ynt*ef aysyganei, Arglwydd, ‡goddef i mi yn gyntaf vyn*e*d a' chladdu vy-tad. A'r Iesu a ddyuot, wrthaw, Gad ir meirw gladdu ei meirw *hvvy:* a' do's ti*the* a' phrecetha deyrnas Duw. Yno eb *yr vn* arall, Dylynaf di, Arglwydd: and gad i mi yn gyntaf vyn'd *a' chanu yn iach ir ei sy i'm tuy. Ac wrtha y dyuot yr Iesu, Nid oes neb*un* a'r a ddyd ei law ar yr aratr, ac a edrycho *ar bethe* y tu cef*y*n yn ‡*gyf*addas i deyrnas Duw.

## Pen. x.

Ef yn anfon y dec a' thrucain oei vlaen i precethu, ac yn ei rhybuddiaw py wedd yr ymddugant. Ef yn bygwth yr ei ayhydyn. Ef yn diolwch yw Dad nefawl. Ef yn gwrthep y Gwr-llen ai prorawd ef, Ac wrth exempl y Samarit y mae ef yn dangos pwy'n yw cymydawc dyn. Martha yn derbyn yr Arglwydd yw thuy. Bod Mair yn chwanoc y wrando y' air ef.

*Yr Euangel ddie gwyl Luc*
* rac ei wynep

YN ol y pethae hyn yr 'ordeiniawdd yr Arglwydd ddec a thr'ugain ereill, hefyt ac ei danvones wy pop ddau a' dau *geyr ei vron i pop dinas a' lle, ac

ydd oedd ef ar ddyvot iddo. Ac ef a ddyvot wrthwynt, Y cynayaf y sy ‡ampl, a'r gweithwyr yn *anaml: gwediwch gan hynny ar Arglwydd y cynayaf, ar *dd*anvon gweithwyr y'w gynayaf. Cerddwch ymaith: *nycha mi ach *d*anvonaf mal wyn ymysc bleiddiae. Na ddygwch *vn* ‡god nac yscrepan, nac escidiae, ac na chyverchwch well i nep ar y ffordd. Ac i pa duy pynac ydd eloch, yn gyntaf dywedwch ‡Tangneddyf ir tuy hwnn. Ac a's bydd yno *vn* map tangneddyf, e a 'orphwys eich tangneddyf arno: ac anid ef, atoch yd adymchwel. Ac yn tuy hwnw aroswch *yn 'oystat* *gan vwyta, ac yvet gyfryw bethrae *a ddodant geir eich bronn:* can ‡ys teilwng ir gweithwr ei gyfloc.

*Na cherddwch o duy y-duy. Ac y ba ddinas bynac ydd eloch *ymevvn*, a's wy a'ch *d*erbyniant, bwytewch cyfryw bethe *ac* a *osoter geir eich bron, ac iachewch y cleifion a vo yn*dd*ei, a' dywedwch wrthynt, Nesaodd teyrnas Duw atoch. Eithr i ba ddinas bynac yd eloch *ymyvvn*, ac *a*ny 'ch *d*erbyniant, ewch ymaith allan ‡yw heolydd *hi* a' dywedwch, Ys *ef* y llwch, yr vn a 'lyn wrthym o'ch dinas, a *ddy*sychwn *o *dd*ywrthym yn eich erbyn *chvvi:* ‡er hyny gwybyddwch hyn, ddarvot i deyrnas Duw nesau atoch. Can ys dywedaf wrthych, mai esmwythach vydd yn y dydd hwnw ir ei o Sodoma, nac ir dinas hono. Gwae *dy*di Chorazin: gwae *dy*di Beth-saida: can ys pe'*s* gwneythesit yn-Tyrus a' Sidon y *gwyrthiae a wnaethpwyt yn y-chwi, hwy gynt oll a ediveiriesent, gan eistedd mewn *lliain*sach a' lluto. Am hyny y bydd esmwythach i Tyrus a' Sidon, yn y ‡varn, nag i chwi. A' thi *thef* Capernaum, yr hon a*th* *dd*er*u*chefir *yd* y nef*oedd*, a *ddescen*d*ir i lawr *yd yn* yffern.

Y nep a'ch clyw *chvvi*, a'm clyw i: a'r nep a'ch ‡gommedd *chvvi*, a'm gommedd i; a'r nep a'm gomedd i, a' ommedd yr vn am *d*anvnawdd i.

A'r dec a' thrucain a *ddad*ymychwelesont y gyd a llewenydd, gan ddywedyt, Arglwydd, *ys y cythraulieit a ddarystyngir i ni ‡yn dy Enw *di*. Ac ef a ddyuot wrthynt, *Mi* *welais Satan ‡me*g*is lluchet, yn cwympo *y lavvr* o'r nef. Nycha, vi yn roddy y-chwy veddiant y sathru ar seirph ac y *scorpionae, ac ar bop ‡meddiant y gelyn, ac ny's ‡briw dim chwi. Eithyr, yn hyn na lawenhewch, can *ys* darystyngir ysprytion

‡vawr, liosoc
*ychydigin
*wele
‡cwd
‡Heddwch
*yn bwyta
‡taladwy
*Nac ewch
ddoder
‡yddy
*ddiarnam
‡hagen
*miracle
‡vrawd
*drancwyddir, dynnir y lawr
‡dirmygo, ddiystyro
*a'r
‡wrth, gan, trwy
*ddrychais, dremiais
‡mal mellten
*pryfed tra gwenwynllyt
‡nerth
*clwyfa, eniweidia

ychwi: and llawenhewch yn *vwy, achos yscrivenwyt eich enwae yn y nefoedd.

Ac yn yr awr hono yr ymlawenychawdd yr Iesu yn *yr yspryt, ac y dyuot, Cyffessaf yty, Dad, Arglwydd nef a' dayar, can ys cuddiaist y pethae hynn ‡rac y doethion, a'r ei *dyallus, ac ei ‡*d*adgudiaist ir ei bychain: *do, Dad, can ys velly y rhyngei bodd i ti. *Yno y troes ef at ei ddiscipulon, ac y dyuot,* ‡Oll pethe a roddwyt i mi y gan vy-Tad: ac ny wyr nep pwy 'yw'r Map, **odd*yeithyr y Tat: na phwy 'n yw'r Tat, *oddy*eithr y Map, a'r hwn a ewyllysio'r Map y ‡egluraw *ef* iddo.

Ac ef a droes at ei ddiscipulon, ac a ddyuot yn ddirgel, Gwyn ei byt y llygait a welant y pethae a wel-ychwi. Can ys dywedaf y chwy, may llawer o Prophwyti a' Brenhinedd a *vysei dda gantynt weled y pethae a welw-chwi, ac ny's gwelsant: a' chlywed y pethae a glywch, ac ny'*s* clywsant. Ac, vn o'r cyfreithwyr yn cody yn ei sefyll, ac yn y ‡demtiaw ef, can ddywedyt, Athro, pa beth a wnaf er etiveddu bywyt tragyvythawl? Ac ef a ddyvot iddaw, Pa beth a escrivennwyt yn y *Dddeddyf? pa wedd y darlleny? Ac ef atepodd ac a ddyvot, ‡Car dy Arglwydd dduw ath oll calon, ac ath oll enait, ac *ath oll nerth, ac ath oll veddwl, ath cymmydawc mal tuhun. Yno y dyvot ef wrthaw, Atepeist yn vniawn: gwna hynn, a' byw vyddy. Eithyr ef yn ewyllsiaw ymgyfyawnhay *y hun*, a ddyvot wrth yr Iesu, A' phwy yw vyg-cymydoc? A'r Iesu a ‡atepawdd ac a ddyvot, Ydd oedd ryw ddyn *a ddescenawdd o Gaerusalem i Iericho, ac a syrthiawdd ymplith llatron, ac wy ei espeiliesant oei ddillat, ac ei archollesont ef, ac aethant ymaith, can ei ady yn *lledvarw. Ac o ddamwain y daeth y wared y ffordd hono ryw Offeiriat, a' gwedy iddaw ei ganvot, ef aeth heibiaw o'r tu arall. A'r vn modd y Leuit, gwedy ddyvot yn agos at y lle, aeth ac a edrychawdd *arnavv*, ac aeth heibiaw or tu arall. Yna ryw Samarit, wrth ‡ymddaith, a ddeuth *yn agos attaw, a' phan ei canvu, e dosturiawdd wrthaw, ac aeth attaw, ac a rwymodd ei *archollion, ac a dywalldawdd ynthwynt oleo a' gwin, ac ei dodawdd ar ei ‡yscrupl ehun, ac ei duc y letuy-cyffredin, ac ei ymgleddawdd. A' thranoeth wrth vyned ymaith, ef a dynnawdd allan *ddwy geiniawc, ac ei rhoddes ir lletuywr, ac a ddyvot wrthaw, Cymer ei gur ef, a 'pha beth pynac a draulych angwanec, pan ddelwyf drachefyn

‡ bytrach
* eiveddvvl
‡ ywrth
* dyscedic, pwylloc, disyml
‡ didoaist, agoreist
* ie
‡ Pop peth
* anyd, amyn
‡ ddigaddio ddangos
*Yr Euangel y xiij. Sul gwedi Trintot.*
* chwenychesent
‡ brovi
* Gyfraith
‡ Cery
* oth
‡ wrthepodd
* aeth i wared
* amadvyw
‡ siwrniaw
* welieu
‡ anival
* yr hyn oedd ynghylch naw ceinioc o'n bathni.

mi ei talaf y-ty. Velly pwy vn o'r tri hynn, ith tyb *di*, oedd gymmydawc y hwn a syrthiawdd ymplith y llatron? Ac ef a ddyvot, Hwn a wnaeth drugaredd ‡ ac ef. Yno 'r Iesu a ddyvot wrthaw, Cerdda, a' gwna di*the* yr vn ffynyt. ‡ iddaw

Yno y darvu a hwy yn *ymddaith ac ef aeth i ryw dref, a ‡ryw wreic ai *h*enw Martha y *d*erbyniawdd ef y'w thuy. Ac *yddi yr oedd chwaer a elwit Mair, yr hon hefyt a eisteddawdd wrth draet yr Iesu, ac a glywei i breceth ef. A' Martha a drallodit yn cylch am*p*l wasanaeth, ac a ddeuth attaw, ac a ddyuot, Arglwydd, any*d* oes *nes* ‡gofal genyt, can im chwaer vy-gadael vy *h*unan i wasanaethu? Arch yddi gan hyny, yn y *chymportho vi. A'r Iesu a atepawdd ac a ddyuot wrthei Martha yddwyt yn *gofalu ac ith tral'odir yncylch llawer o pethae. Ac vn-peth 'sy anghenreidiol, a' Mair a ‡*dd*etholes y rhan dda, yr hyn ny ddugir *odd* y arnei. * myned, oerddet ‡ neb * y hon ‡ a'ir, ymadrodd * our, pryder, ystyr ‡ ddirprwyo * pryderu ‡ ddewysodd

## Pen. xj.

Ef yn dyscu ir discipulon weddio, Ef yn tavlu allan gythreul Ac yn ceryddu y Pharisayeit cablgar. Ef yn gadu y gerenydd ysprydawl yn vwy rhagorawl. Hwy yn erchi argoelon ac arwyddon. Ef yn bwyta y gyd a'r Pharisaieit, ac yn beio ar ffuc sancteiddruydd y Pharysai, y Gwyr-Llen, ar Hipocriteit.

A' DARVU, val yr oedd ef yn gweddiaw mewn *nep lle, pan peidiawdd, y dyvot *ne*bun oei ddiscipulon wrthaw, Arglwydd, dysc i ni weddiaw, megis ac y dyscawdd Ioan ei ddisipulon *yntef*. Ac ef a ddyuot wrthynt, Pan weddioch *chvvi*, dywedwch, Ein tad yr hwn yw-ti yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw: Dauet dy deyrnas: Gwneler dy 'wyllys ‡ys *ef* yn y ddaiar me*g*is y *mae* yn y nef: Ein bara beunyddiol *dyrho* i ni *dros heddy*vv*: A' maddae i ni ein pechotae: canys nyni a vaddeuwn i bop ‡dyn *sy yn ein dled *ni:* Ac nac arwein ni ‡i temptation: eythyr rhyddha ni rac drwc. * ryw, vn ‡ ar * beunydd, bop dydd ‡ vn * ydd ym ni yn dylu iddo

Hefyt, ef a ddyuot wrthynt, Pwy o hanoch a vydd iddaw *gar, ac a el attaw am haner nos, ac a ddywait wrthaw, Y car, Moes i mi yn echwyn dair torth. Can ys car*vvr* i mi a ddaech *y ar y ffordd ataf, ac ny*d* oes genyf *ddim* y'w ddodi geyr ei vron: ac ef o *dd*ymywn atepai,ac a ddywedei, Na volesta ddim hanof: y mae 'r ‡ ymprovedigaeth * garwr, ffrind * wrth ymddaith

‡ yrowan — drws ‡ynawr yn-gayad, a'm plant y gyd a mi yn y
* gody — gwely: ny 'allaf *gwnnu a*i*' rhoddy yty. Dywedaf
‡ er nas codei — wrthych, ‡cyd na*s* cwnnei ef a' rroi iddaw, o bleit y vod
* gwyn, ddi gywilydder, dyvalder — ef yn gar iddo, eto yn sicr am ei *daerdeb, e gyfodei,
ac a roei iddaw gynniner a vyddei arno y *h*esiae. A'
mi a ddywedaf wrthych, Govynnwch, ac ei rhoddir y-
‡ ffustwch — chwy: caisiwch, a' cheffwch: ‡curwch, ac agorir y-
chwy. Can ys pop vn a' ovyn, a *dd*erbyn: a' hwn a
gais, a gaiff: ac i hwn a guro ir a gorir. A'*s* govyn
map vara gan yr vn o hanoch ysy dad, a rydd ef iddo
* garec — *vaen? ne *a's gofyn ef* bysc*odyn*, ai yn lle pysc*odyn* y
‡ neidr — rydd ef ‡sarph i ddaw? Neu a gofyn ef wi, a rydd ef
iddo scorpion? A's *chvvi* chwi gan hyny yr ei ych
* wyddoch — ddrwc*ion*, a *vedrwch roi rhoddion da i'ch plant, pa
veint mwy y bydd i'ch Tad nefawl roddy yr Yspryt
* ganthaw — glan ir ei eu govynan ‡yddo?

*Yr Euangel y trydydd Sul yn y Grawys.* — ¶ Yno y bwriawdd ef gythrael allan yr hwn oedd *yn*
vut: a gwedy ir cythrael vyn'd allan ‡yr ymadrodd-
‡ y dyuot — awdd y mudan, ac y rhyueddawdd y popul*oedd*, A'r
ei o hanynt, a ddywedesant, Trwy Beelzebub y pennaf
o'r cythraelieit y mae ef yn bwrw allan gythraelieit. Ac
yr eill er ei brovi ef, a gaisiesant gantaw arwydd o'r nef.
Ac ef gan wybot ei meddiliae, a ddyvot wrthynt, Pop
‡ yn erbyn — teyrnas 'ohanedic ‡oei mewn ehun, a *diffaithir, a'
* anreithir, a ddestrowir — thuy *rhanedic* yny erbyn ehun a gwympa. Ac ad yw
Satan yn rhanedic yn y erbyn ehun, pa wedd y saif y
deyrnas ef? can y chwi ddywedyt vy-bot yn bwrw allan
gythraeliait trwy Beelzebub. Ac a'd yw vi yn bwrw
allan gythraulieit trwy Veelzebub trwy bwy y mae eich
plant chwi yn eu bwrw allan? Am hynny y byddant
‡ nerth, power — wy yn varnwyr arnoch. Eithr a's myvi trwy ‡vys
Duw 'sy 'n bwrw allan gythraulieit, diamau ddyvot o
deyrnas Duw atoch. Pan 'orchatwo cadarn-yn arvawc
* duy, lys — ei *nauadd, cymeint ac a vedd ef, ys y mewn ‡hedd-
‡ diogelrwydd — wch. Eithyr pan ddel arnaw a vo cadarnach nac ef, a'
* orvot — ei *'orchfygy, ef ddwc y arnaw ei oll arvae yn yr ei ydd
‡ neb — oedd ef yn ymddiriet, ac a ran yr yspail. Yr ‡hwn
nid yw gyd a mi, ys ydd im erbyn: a'r hwn ny chascla
gyd a mi, goyscary y mae. Pan el yr yspryt aflan
allan o ddyn, e rotia rhyt lleodd sychion, gan gaisiaw
llonyddwch: a' pryd na's caffo, ef a ddywait, *Mi* ym-
chwelaf im tuy or lle y daethum allan, a' phan ddel, ef
ei caiff wedy 'r yscupo a'i drwsiaw. Yno ydd aa ef, ac
a gymer gyd ag ef saith yspryt eraill gwaeth nag ef

ehun: ac y aant y mewn, ac a drigant ynow, ac *velly* y bydd diweddiat y dyn hwn yn waeth no ei ddechraeat. Ac e ddarvu ac ef yn dywedyt y pethae hyn, rryw wreic o'r tyrva a gyvodes ei lleverydd, ac a ddyvot wrtro, Gwyn ei vyt y groth ath *arweddawdd, a'r bronnae a sugnaist. Ac *ynt*ef a ddyvot, Ie **ychre* ‡gwyn ei byt yr ei a glywant '*air* Duw, ac ei catwant.

A' gwedy ir popul*oedd* ymdyrru yn-cyt, y dechreuawdd ef ddywedyt, Cenedl *ysceler yw hon: ceisio ‡sygn y mae*nt*, ac ny'*s* rhoir *vn* yddy*nt*, any*d* sign Ionas y Prophwyt. Can ys mal y bu Ionas yn sign ir Niniveit, velly y bydd Map y dyn i'r genetl*eth* hon. Brenhines y Deheu a gyvyt ym-*b*arn, y gyd a gwyr y genetl*eth* hon, ac y *barn wy *yn euoc:* can ys hi ddaeth o ‡dervynae *eithav* y ddayar y glywet doethynep Selef, *a' nycha vn mwy na Selef *y sy* yma*n*. Gwyr Niniue a godant ym-barn y gyd a'r genetl*eth* hon, ac y barn hi-yn-euoc: canys wy a gymersont etiveirwch wrth precethi*at* Ionas: a' nycha *vn mwy na Ionas *y sy* yma*n*.

Ny*d* enyn neb ganwyll a'i dodi ‡yn-cudd, nac y dan *vail: eithyr ar ganwyllbren, val y gallo yr ei a ddel y mywn, weled y llewych. ‡Canwyll y corph yw'r llygat: can hyny pan vo dy lygat yn *sym*p*l, yno y mae dy oll corph yn olae: eithr ‡pan vo *dy* lygat yn ddrwc, yno y *bydd* dy corph yn dywyl'. *Ystyria gan hyny, rac ir goleuni *y sy* ynot, vot yn dywyllwch. Wrth hyny a's dy oll corph *vydd* golau eb iddo vn ran dywyll, yno bydd *e* golau ‡ol', megis gan ith oleuaei cannwyll *di* a'r *discleirdep.

Ac val ydd oedd *ef* yn ymadrodd, yr atolygawdd ‡ryw Pharisai yddaw giniawa y gyd ac ef: ac ef aeth y mywn, ac a eisttddawdd y vwyta. A' phan welawdd y Pharisai, y rhyveddawdd can nad yn gyntaf yr ymolchesei *ef* o vlayn ciniaw. A'r Arglwydd a ddyuot wrthaw, Yn ddiau chwchwi 'r Pharisaieit a *gerthwch y tu allan ir ‡cwpan, a'r ddescil: a'r tu mywn ywch 'sy yn llawn o drais a *drigioni. ‡*A* ynvytion, any*d* yr hwn a wnaeth hyn 'sy oy al'an, a wnaeth hyn 'sy o*dd*y mewn hefyt? Can hyny rhowch eleesen o'r pethae ys y*dd* o y mewn, a' nycha pop peth oll vydd yn 'lan y chwy. Eithyr gwae chwy chwi y Pharisaieit: can ys-*chvvi* degymwch y mynt*ys* a' *rut, a' phop llyseuyn ac ewch dros varn a' chariat Duw: y

*dduc
*yn hytrach
‡dedwydd yw
*drwc, enwir
‡sein, arwydd, argoel
*ddienydda
‡ffinae, orae
*ac wele
*beth
‡ynghudd
*tel, hob, bwsiel
‡Goleuad
*sengl, ddiplic
‡tra, a's
*Synna, Goachel, Mogel
‡y cwbyl
*llewych
‡neb
*lanhewch
‡phiol
*scelerder enwiredd
‡Chwychwi ffolieit
*ruw

‡ sy ddir, sy rait
* edit y llaill
eb wueythur
‡ ac amerchim
‡ bedrodae beddae
* or Cyfreithwyr
‡ sarhay
* ladmerieit
‡ berchiae
* ar
‡ beddae
* Dwer
‡ beddeu
* gollwyt
elyngwyt
* wnaethuriat
* allwedd
‡ gwybodaeth
* ddirio arno
‡ dost

pethae hyn a ‡ddylit ei gwnauthur, ac *na vaddeuit y llaill. Gwae *chvvy* chwi 'r Pharisaiait: can yscerwch yr eisteddle*oedd* vchaf yn y Synagogae. *a' chael cyfarch-gwell *yvvch* yn y marchnatoedd. Gwae *chvvy* chwi'r Gwyr-llen a'r Pharisaieit, hypocriteit, can ys ych bot megis ‡monwenti a'r n'ymddangosant, a'r dynion a' rodian arnynt, ny wyddan *y vvrthynt*. Yno yr atepawdd vn *o esponwyr y Ddeddyf, ac addyuot wrthaw, Y dyscawdr, can dywedyt hyn ydd wyt in ‡gwarthay ni*ni* hefyd. Ac ef a ddyuot, Gwae *chvvy*-chwi hefyt, ‡esponwyr y Ddeddyf: can y chwi lwythao dynion a' llwythae anhawdd-ei-dwyn, a' *chvvi*theu ny chyfwrddwch *y llwythae ac vn o'ch bysedd. Gwae *chvyy* chwi: can ych bot yn adailiat ‡monwenti y Prophwyti a'ch tadae y lladdodd wy *Diau y testolaethwch*vvi* ac y cydsynniwch a gweithredoedd *e*ich tadae: can ydydnt*vvy* y lladd wy ac y chwi*theu* a dailiat y ‡monwenni hwy. Am hynny y dywedei doethinep Duw, Anvonaf atyn Brophwyti, ac Apostolon, ac o hanynt y lladdant *'rei*, ac *ereill* erlidiant, y'n y bo i 'waet y Prophwyti, a ‡ddinewyt o *sailiat y byt, gael ei 'ovyn y gan y genedl*aeth* hon, o waet Abel y*d* waed Zacharias, yr hwn a las *yn cyf* rwng yr all*t*ar ar Tem*pl*: yn ddiau y dywedaf wrthych, ei govynnir y gan y genetl*aeth* hon. Gwae *chvvy*chwi *es ponwyr-y-Ddeddyf: can ys dducesoch ymaith *egoriat y ‡gwybyddiaeth: nyd aethoch y mywn ychunain, a'r ei oedd yn dyuot y mywn, a 'oharddesoch. Ac ef yn dywedyt y pethae hyn wrthyn, y dechreuawdd y Gwyr-llen a'r Pharisaiait y *ddyludaw *ef* yn ‡ddrud, a' ei ddenu y ymadrodd am llawer o bethae, gan y gynllwyn ef, a' chaisiaw hela ryw beth o y ben ef, er cahel o hanynt achwyn arnaw.

## Pen. xij.

* dros
‡ cytundep

Christ yn gorchymyn ymochelyt rac hypocrisi a' ffuant. Na ddylyem ofny dyn amyn Dew. Cyffessy y Enw ef. Cabl yn erbyn yr Yspryt. Nad elom y *tyhwnt in galwedigaeth. Nad ymroddom i chwanoc 'oful y vuchedd hon, Eithyr i vniondap, eleeseni, gwiliaw, dioddefgarwch, doethinep a' ‡dyvndap.

* hyny
‡ ymsethrynt
* levein

YN *y cyfamser, yr ymdyrrawdd ynghyt lliaws aneirif o bopul, y'n yd ‡ymsengynt ar y gylydd: ac y dechreuodd ef ddywedyt wrth ei ddiscipulon yn gyntaf, Ymochelwch rac *surdocs y Pharisaiait, yr

hwn yw ‡hypocrisi. Can nad oes dim toedic, a'r ‡ ffucsanct-eiddrwydd
ny's didoer: na chuddiedic a'r ny's daw i wybodaeth.
Erwydd paam pa bethe bynac a ddywetsoch yn-ty-
wyllwch, ei clywir yn y goleuni: a' hyn a ddywed-
*e*soch yn y glust, mewn lleoedd dirgel, a bregethir
ar **vchaf* y tai. A' dywedaf wrthych vy-cereint, * ben
Nac ofnwch rac yr ei n a laddant y corph, ac wedy
hyny eb ‡yddyn gahel gwneuth 'r dim mwy. A' rhac ‡ ar ei llaw
ddangosafy-chwy, pwy '*n* a ofnwch: ofnwch hwn yr vn allu
gwedy lladdo, 'sy iddo veddiant i *vwrw i'*r* yffern: * tavly
‡dioer, y dywedaf wrthych, hwn*vv* a ofnwch. Any ‡ sicr
phrynir pempt o dar*ynot*-y-to er doy fferling, ac *eto*
ni*d* oes vn o hanynt yn angof geir bron Duw? Ie,
ac y mae oll wallt eich pen yn *gyf*rifedic: nag ofnwch
gan hyny: **ys ym*delwch mwy no llawer o adar*ynot* * gwell
yto. Hefyt y dywedaf y-chwy, Pwy pynac a'm ‡cy- ydych no
ffesso i geyr bron dynion, Map y dyn y cyffessa yntef ‡ addeso
hefyt geyr bron Angelion Duw. A' hwn a'm gwato i
geyr bron dynion, a wedir geyr bron Angelon Duw. A'
phwy pynac a ddywait *'air yn erbyn Map y dyn, ei * ddim
maddeuir iddaw: eithyr i hwn a gablo yr Yspryt Glan,
ny'*s* maddeuir. A' phan ich' dugant ir Synagogae, ac
at y llywyawdwyr a'r gwyr-o-*veddiant, na ‡ovelwch * awdurdot
pa vodd, nei pa beth a atepoch, nai pa beth a ddywet- ‡ phryderwch
och. Can ys yr Yspryt Glan a'ch dysc yn yr awr
hono, pa beth *sy rait *i chvvi* y ddywedyt. Ac vn o'r * a ddylech
dyrfa a ddyvot wrthaw, Athro, ‡arch i'm brawd rannu dywait
a mi yr etiueddiaeth. Ac ef a ddyuot wrthaw, *Y * Tiwr
‡dyn, pwy a'm gesodes i yn vrawdwr, neu yn rhannwr Hawr
arnoch? Erwydd paam ef a ddyuot wrthynt Edrych- ‡ cupydddot, angawrdep
wch ac ymogelwch rac trachwant: can ys *cyd* bot i
ddyn amlder *o dda*, *er hyny* nid yw i *einioes yn sefyll * bywyt,
o *nerth* ei dda. Ac ef adroddawdd barabol wrthynt, hoedyl
gan ddywedyt, ‡Tir ryw wr goludawc a ffrwythlon- ‡ Gwlad bro
awdd yn dda. Ac velly y meddyliawdd ynto ehun,
can ddywedyt, Beth a wnaf, am nad oes genyf *ehengder*
lle gallwyf ddody veu ffrwythae y gadw? Ac ef a
ddyuot, Hyn a wnaf, mi dynnaf veu yscuporiae i lawr,
ac a adailiadaf 'rei mwy, ac yddyn y casclaf veu oll
ffrwythae, a'm da*on*. A' dywedaf wrth vy enait, Enait, * goyscaraf
mae yti dda lawer wedy 'r roi y gadw dros lawer o dinistraf
vlyddynedd: gorph*y*wys, bwyta, yf, ‡ymddigrifha. ‡ cymer y bid
A' Duw a ddyuot wrthaw, *A* ynfyd, heno y cyrchant yn digrif
ymaith dy enait y cenyt: yno pwy biei-vydd y pethae

a arlwyaist? Velly am hwn a dresoro yddo ehun, ac ny_d_ yw 'oludawc *yn-_d_uw. Ac ef a ddyuot wrth ei ddiscipulon, Am hyny y dywedaf wrthych, Na ‡phryderwch am eich *einioes, beth a vwytaoch: nac am eich corph, beth a wiscoch. Mwy yw'r einioes na'r lluniaeth: a'r corph na'r ‡wisc. Ystyriwch _vvedd_ y cicvrain: can na heuant, ac na vetant: ac nid oes yddyn na *chell nac yscupawr, ac _er hyny_ y mae Duw yn y ‡l'uniaethy hwy: pa veint mwy ydd y-chwi well na 'r ‡ehediait? A phwy 'n o hanoch drwy ovalus-veddyliaw, a aill dodi wrth ei *gorpholaeth vn cuvydd? A'ny ellwch gan hyny wneythur y peth lleiaf, paam y pryderwch am y ‡llaill? Ystyriwch' y lili *mal y tyfant _vvy_ ny_d_ yyn yn ‡travaely, nag yn nyddu: a' dywedaf wrthych, na bu Selef y un yn ei oll *arderchawgrwydd, wedy 'r wiscaw val vn or ei hyn. Ac a's *amwisc Duw y gwellt_yn yr hvvn_'sy heddyw yn y maes, ac y voru a davlir ir ffwrn_ais_, pa vaint mwy _y dillada ef chvvy_chwi, _havvyr_vechan eich ffydd? Can hyny na vid y chwi ‡ymovyn, py beth a vwytaoch nei pa beth a yfoch, ac na *phedruswch. Can ys y pethae hyn oll a ymgais ‡populoedd y byd: a'ch Tat chwi a wyr vot arnoch eisie y pethae hynn. An_d_ yn *hytrach caisiwch-_vvi_ deyrnas Duw, a'r pethae hyn oll a ‡roddir y-chwy. Nac ofna, dydi gadw bach: can ys ryngawdd bodd i'ch Tad roddy y-chwy y deyrnas.

Gwerthwch ysydd y-chwy, a 'rhowch _yn_ eleeseni. Gwnewch y-chwy *amnerae a'r ny'_s_ hen _eiddi_ant, _yn_ dresawr ‡andefficiol yn y nefoedd, lle ny *nesa llaitr, ac ny lygra ‡pryf. Can ys lle y mae eich tresawr, ynaw y bydd eich calon hefyt. Bit eich *llwyni wedy 'r wregysu, a'_ch_ ‡cannwyllae wedy *'nynu, a' chwi_theu_ yn gyffelyp i *ddynion yn _d_ysgwyl am ei harglwydd, pa bryd y daw _ef_ o'r briodas, val pan ddel ef a' churo '_r drvvs_, yddyn agori iddo yn ebrwydd. _Ys_ gwynvydedic y gweision hynny, yr ei_n_ yr Arglwydd pan ddel ei caiff ‡yn-neffro: yn wir y dywedaf y-chwi, yr ymwregysa ef _ehun_, ac a-wna-yddyn eisted-i lawr-i-vwyta, ac a ddaw allan, ac y gwasanaetha hwy. Ac a'_s_ daw ef yn yr ail *wiliadwriaeth, ‡nei a'_s_ daw ef yn y drydedd wiliaduriaeth, a' ei cahel wy velly, gwyn ei byt y gweision hyny. *Yr owon gwybyddwch hyn, pe'_s_ ‡gwypei gwr y tuy pa awr y daethe_sci_'r lleitr, ef a wyliesci, ac ny adawsei gloddiaw ei duy trywodd, *A' byddw-chwi_theu_ am

* tu ac dduw
‡ ofelwch
* bywyt hoedl
‡ dillat
* Edrychwch ar
‡ ymogor
* porthy
‡ adar
* veint
‡ relyw
* podd
‡ poeni, ymddygwd, yn llafuriaw, ymluddedigaw
* reiolti, 'ogoniant, wychder
* dillada
‡ geisio, erchi
* ddowtiwch thremiwch, ymgodwch
‡ cenedloedd
* gynt
‡ dreiglir

* byrsae
‡ ny phalla
* ddaw
‡ gwyfyn
* llovynae
‡ goleuadae llugyrn yn
* cenneu
‡ wyr.

‡ gwiliad, gwilio

* gadwadwriaeth, wylfa
‡ ac
* Mawr
‡ gwypei
* Ac ymbaratowch

hyny barot: can ys daw Map y dyn *yn* yr awr a'r ny
thybioch. Yno dywedyt o Petr wrthaw, Arglwydd, ai
wrthym ni y dywedy y parabol hwn, ai *ynte* wrth *bavvb*
oll hefyt? A'r Arglwydd a ddyvot, Pwy *'n* sy ‡*dy-* ‡ benteuluwr
warcheidwat ffyddlawn, a' *phwyllawc, yr hwn a 'osyt * phwyllic,
yr Arglwydd *yn llyvvodraethvvr* ar ei duylu, y roddy phrudd, doeth
*yddyn ei* *cyfluniaeth yn *y* amser? Gwyn ei vyt yntef * cymmedr-
y gwas, yr hwn *ei* arglwydd pan ddel, ai caiff yn vwyt
gwneythu 'r velly. Yn wir*ionedd* y dywedaf wrthych,
y gosyt ef hwnw *yn llyvvodraethvvr* ar yr oll ac ys y
iddaw. Eithyr a'*s* dywait y gwas hwnw yn ei galon,
Ef a oeda vy arglwydd *ei* ddyuod*iat*, a' dechrae ‡curaw ‡ taro ffusto
y gweision, a'r morynion a' bwyta ac yfet, a' *meddwi. * brwysco
E ddaw arglwydd y gwas hwuw mewn dydd pryd na
thybia ef, ac mewn awr na wyr ef ywrthei, ac ei
trycha ef ymaith, ac a rydd iddo ei ran y gyd a'r
anffyddlonieit.

A'r gwas hwnw a wybu ewyllys ei arglwydd, ac ny*d*
ymbaratoawdd, ac ny wnaeth yn ol y ewyllys ef, a
vaiddir a llawer *gvvialennot*. Eithyr 'hwn ‡ny's gwybu, ‡ ny'w
ac a wnaeth bethae *teilwng o ‡wialenodae a vaiddir * haeddedic
ac ychydic *vvialenodæ:* can ys i bwy bynac y rhoddwyt ‡ vaethcenos
*llawer, l'awer a geisir ganthaw, ac y bwy bynac y * lliaws
dodant lawer, mwy a 'o vynnant ganthaw.

Taan a ddaethym i roi ar y ddaiar, a' pha *beth* yw
v'wyllys, a's cenneuwyt eisus? Eithyr *dir yw vy- * mae i mi yn
betyddiaw a betydd, a' phywedd im gwescir, y' ny ol, rhait
dervynir *hyn*. *A'* dybiwch ddyuot o hanovi y roddy
‡tangneddyf ar y ddayar? dywedaf y chwi, na*d* do ‡ heddwch
eithyr *yn hytrach* *ymryson. Can ys ‡o hyn allan y * goyscar,
bydd pemp yn yr vn tuy wedy'r ymranu, tri yn erbyn ancytundep
dau, a' dau yn erbyn tri. Y tat a ymranna yn erbyn y ‡ or awr hon, o'r prydhyn
map, a'r map yn erbyn y tat: y vam yn erbyn y verch,
a'r verch yn erbyn y vam: y ‡chwegr yn erbyn y ‡ vam ynghyf-
waydd, a'r waydd yn erbyn hei chwegr. Yno y dyuot raith
ef ir *werin, Pan weloch ‡wybren yn cyuodi o'r Gor- * dyrfa, bobul
llewin, yn y van y dywedwch, Y mae cavod yn dyuot: ‡ cwmwl
ac velly yw. A' phan *vveloch* y Deheuwynt yn
chwythu, y dywedwch, y bydd *hi* gwres*oc*, a *hi* vydd,
Hypocriteit, *chvvi g*wyddoch ‡ddyall wynep y ddayar, ‡ broui, varnu,
a'r nef: a' phaam na ddyellwch yr amser hyn? Ac dybyaw
paam na vernwch o hanoch eich hunain beth 'sy
*gyf*iawn.

Tra vych yn myned y gyd ath 'wrthnebwr at y

* swyddoc
‡ ymlewha
* barnwr
‡ porthawr,
* nes i ti daly

*llywyawdr, 'rhydd y ffordd ‡dyro *dy* waith ar gael dy ymwared y wrthaw, rac bot iddaw dy ddwyn at y brawdwr, ac i'r *brawdwr dy roddy at y ‡cais, ac ir cais dy davlu yn-carchar. Dywedaf yty, nad ai *di y maes* o *dd*yno yd y ny thelych yr *hatlin*g* eithav*v*.

## Pen. xiij.

Creulonder Pilat. Ny ddylem ni varnu vot yn enwir bawb oll ar a ddioddefo artaith. Christ yn annoc i edueirwch. Ef yn iachau y 'wreic grepach. Ef yn atep llywiawdr y Synagog. Drwy amryw gyffelybiethae y mae ef yn datcan pa beth yw teyrnas Duw. A' hefyd nad yw niver yr ei a vydd cadwedic, anyd ychydigyn. O'r dywedd y dengys na ddichon na meddiant bydawl na nerth rwystro na llestair rhin ac arvaeth Duw.

* creu
* ddewchwi ir iawn
‡ cwympodd
* ddyledwyr
‡ drigan
* na ddo
* ddamec
‡ nebun
* Wele
‡ tor, bwrw cymyna
* coegi, diffrwytho
‡ *Tec a' da yvv*
* cymyny
‡ blyddynedd
* gyd grebychu

YR oedd 'rei yn presennol yn yr amser hwnw, yn menegy iddaw am y Galilaiait, y sawl a gymyscesei Pilat ei *gwaed gyda ai h'aberthae hwy *hunain*. A'r Iesu a atepawdd, ac a ddyuot, wrthyn, *A* dybygwch wi vot y Galilaieit hyn yn bechadurieit mwy na'r oll Galilaieit *ereill*, can *ddarvot* yddyn ddyoddef cyfryw bethae? Dywedaf ychwy, na*d ynt:* eithyr any ‡wellewch eich buchedd ef ach cyfergollir oll yr vn ffynyt. Nei a dybygwch *vvi* am y daunaw hyny y *syrthiawdd y twr arnyn yn Siloam, ac ei lladdawdd, y bot hwy yn *pechaturieit y tu hwnt ir oll ddynion a ‡breswiliant yn-Caerusalem? Dywedaf yw'ch *nad *ynt:* eithyr any'wellewch-eich-buchedd, *ef* eich cyfergollir oll yr vn ffynat.

Ef a ddyuot hefyt y *parabol hyn, Yr oedd ‡gwr a' ffycuspren iddaw wedy 'r blanny yn ey 'winllan ac ef a ddaeth ac a geisiawdd ffrwyth arnaw, ac ny chafas *ddim*. Yno y deuot *ef* wrth y gwinllannwr, *Nachaf, y tair blynedd *hyn* y daethym ac y ceisiais ffrwyth ar y fficuspren hwn, ac ny*d* wyf yn cael *dim:* trycha e y lawr: paam y mae ef yn divwynaw 'r tir? Ac ef atepawdd ac a ddyuot wrthaw, Arglwydd, gad iddo 'r vlwyddyn hon hefyt, ne's i mi gloddiaw yn ey *gylch, a' *ei* deilo. Ac a's dwc ef ffrwyth, ‡*gad iddo:* ani*d* ef, gwedy hyny *y trychy e i lawr.

Ac ef *ei* dyscawdd yn vn o'r Synagogae ar y dydd Sabbath. A' nachaf, ydd oedd *yno* gwraic ac iddi yspryt gwendit, *er ys* da'unaw ‡blynedd, ac oedd wedy'r *gydgrymu, ac ny's gallei *ymdd*adgrymu mywn modd yn y byd. A' pan welas yr Iesu y hi, ef y gelwes hi

ataw, ac a ddyuot wrthei, *Ha*-wreic, ith ellyngwyt ywrth dy wendit. Ac ef a ‡ddodes ei ddwylo arnei, ac yn y man yr vniownwyt hi, ac y gogoneddawdd hi Dduw. Ac *arglwydd y Synagog a atepawdd yn sorredic, can i'r Iesu iachau ar y *dydd* Sabbath, ac a ddyuot wrth y popul, Y mae chwe*ch* die*rnot* ar yr ei y dylyir gweithio: ar yr y rhe'in gan hynny dewch, ac iachaer chwi, ac ny*d* ar y dydd Sabbath. Yno atep iddo o'r Arglwydd, a' dywedyt, ‡Hypocrit, any*d* yw pop vn o hanoch*vvi* ar, y *dydd* Sabath yn gellwng ei ych nei asin o'r preseb, a' dywys y yfed dw*f*r? Ac any ddyly yverch hon i Abraham, yr hon a rwymodd Satan, wele, *ys* daunaw blynedd, gahel hei gellwng o'r rhwym hwn ar y dydd Sabbath? A' phan ddywedei ef y pethae hyn, y *cywilyddit y oll wrthnepwyr ef: a'r oll popul a lawenhaei ‡wrth y pethae *rhagorawl a wnaethit y gantaw *ef*.

Yno y dyuot ef, I ba *beth* y mae teyrnas Dew yn gynhebic? ‡ne i ba *beth* y cyffelybaf y hi? Cyffelyp yw i 'ronyn *o had* mustard, yr hwn a gymerei ddyn ac a heuhei yn dy 'ardd, ac a dyvei, ac 'ai yn bren mawr, ac *ehediait y nef a nythent yn ey gangae

A' thrachefn y dyuot, I ba *beth* y cyffelypaf deyrnas Duw? Cyffelyp yw i ‡surdoes, 'rhwn a gymrei wreic, ac ei cuddiei mewn tri *chibened o vlawd, yn y surei oll.

Ac ef a ‡gerddawdd trwy '*r* oll ddinasoedd a' threfi, gan *ei* dyscu, gan *ymddaith tu a' Chaerusalem. Yno y dyuot vn wrthaw, Arglwydd, ‡Ai ychydig*ion ynt* a vyddant cadwedic? Ac ef a ddyuot wrthynt, *Ymdynnwch am vynet y mywn ‡i'r porth cyfing: can ys llawer*oedd*, dywedaf ywch, a gaisiant vyn*e*d i mywn, ac ‡ny byddant abl. Gwedy y *cyf*oto gwr y tuy i vyny*dd*, a' chau'r drws a' dechreu o hanoch sefyll allan, a' churo 'r drws, gan ddywedyt, Arglwydd, Arglwydd, agor y ni, ac ef a atep ac a ddywait wrthych, Nyd adwen chwi, o b'le ddych. Yno y dechrewch ddywedyt, Bwytesam ac a yfesam geyr dy vron, ac a ddysceist *y bobyl* *ar ein heolydd. Ac ef a ddywait, Dywedaf wrthych, ny*d* adwaen i chwi o b'le *dd*ych: ewch ymaith ywrthyf chwychwi weithredwyr ‡enwiredd. Yno y bydd wylofain a' rriccian dannedd, pan weloch Abraham, ac Isaac ac Iaco, a'r oll Prophwyti yn-teyrnhs Duw, a' chwi*theu* wedy ych *tavly allan. Yno y daw*ant llavver* o'r Dwyrein, a'r Gorllewin, ac

‡ 'osodes
* llywodr
‡ ffvantwr
* gwartheit
‡ ar, gan
* gogonedus, arbenic, arderchawc,
‡ ac
* adar yr awyr
‡ leven
* phecked, o ffiwr, bellieid
‡ dramwyawdd
* wneythyr taith, siwrneio
‡ A oes nymawr
ymrosenwch
* Ymorchestwch Ymorthrechwch
‡ trwy
* ny's gallant
* yn
‡ anghyfiawnder
* gwthio, bwrw y

o'r Gogledd ac *o'r* Deheu, ac a eisteddant-ar vord ynteyrnas Duw. A' nycha *yn* olaf *ydd* ynt, yr ei vyddant gyntaf, ac y mae yn gyntaf yr ei vyddant olaf.

Yn y die*rnot* hwnw y daeth yr ei or Pharisaieit, ac y dywedesont wrthaw, Cerdda ymaith, a' dos o *dd*yma: can ys Herod a *chwenych dy ladd di. Yno y dyuot ef wrthynt, Ewch a dywedwch ir ‡cadnaw hwnw, Nycha I bwriaf allan gythaelieit, ac *y gorphenaf iachau, heddyw, ac yvoru, a'r trydydd dydd mi ‡ddybennir. Er hyny rhaid i mi *orymddaith heddyw, ac evoru, a' threnydd: can ny 'all vot, y collir Prophwyt ‡allan o Caerusalem. *A* Caerusalem, Caerusalen, yr hon a leddy 'r Prophwyti, ac a lapyddy yr ei a *dd*anvonir atat, pa sawl gwaith yr ewyllyseis gasclu dy blant *di ynghyt*, yr vn modd ac *y cascl* yr iar *hi* *nytheid y dan y *h*adaned, ac ny's ‡mynnech? Nycha: y gedewir eich tuy y-chwy yn *ancyfannedd. ac yn wir y dywedaf y chwi, ‡na chewch-vy-gweled, yn y ddel *yr amser* y dywedoch, *Ys* bendigedic yr hwn 'sy yn dyuot yn enw yr Arglwydd.

* wyllysa
‡ llwynoc
* yr iachaf yn oystad
‡ dyweddir, gorphenir
* rodio
‡ oddieithr, y maes o
‡ chywdot,
* ewylysech
* ddiffaith
* nam gweloch nes dyuot

## Pen. xiiij.

Yr Iesu yn bwyta y gyd ar Pharisaiait. Yn iachau 'clwy'r dwfr ar y Sabbath. Yu dyscu i ni vod y estyngedic a' gohawdd y tlodion in bord. Ef yn manegi am y ‡cwynos mawr. Y mae ef yn y rhybyddiaw hwy ymblaenllaw yr ei y dylynant ef am amcanu ei cyfrif o'r blaen beth a gyst yddyn. Halen y ddaiar.

‡ *svvper*

AC e ddarvu pan oedd ef wedy myned i tuy vn or pharisaieit pennaf ar *y dydd* Sabbath, i vwyta *bara *h*wy y dysgwiliesant ef. A' ‡nycha, geir i vron ydd oedd ryw ddyn claf or *dropsi. Yno 'r Iesu a atepodd, ac a lafarodd wrth y ‡Cyfraithwyr, a'r Pharisaieit, can ddywedyt, Ae rhydd iachay ar y *dydd* Sabbath? A' thewy a wnaethant wy. Yno ef ei cymerth, ac ei iachodd, ac ei gellyngawdd ymaith, ac ei atepawdd hwy, gan ddywedyt, Pwy o hanoch a's ei asin ne i ych a syrth mewn pwll, ac yn y van ny's tyn ef allan ar y dydd Sabbath? Ac ny allesant *wrthep yddaw am y pethae hynn. Ef a ddyvot hefyt ‡parabol wrth y *gohaddwyr pan ‡ddaliawdd val ydd oeddent yn dethawl yr eisteddleoedd vchaf, ac a ddyvot wrthynt, Pan ith 'ohoddder gan nep i *neithior, nag eistedd yn y lle pennaf, rac bot vn anrydeddusach na thi wedi 'ohawdd y canto, a' dawot o hwn ath 'ohodd-

*Yr Euangel y xvij. gwedy Trintot.*
* bwyt
‡ llyma
‡ haint dwfr
‡ Latmerieit, ai Esponwyr y gyfraith
* gyfatep
‡ ddamec
* yr ei a elweist
‡ graffodd, gadwodd
* briodas

awdd ti ac ef, a' doedyt wrthyr, Dyro le i hwnn, ac
yno dechrae o hanot trwy gywilydd gymeryt y lle isaf.
Eithyr pan ith 'ohoddir, dos, ac eistedd yn y lle isaf,
y n y bo pan ddel yr hwn ath 'ohaddes, ddywedyt
wrthyt, Y car, eistedd yn uwch i vyny*dd:* Yno y
bydd *clod yt yngwydd yr ein a gydeisteddant a thi. ‡ erdduniant moliant
Can ys pwy pynac a ymddercha, ‡'ostynger, a' hwnn a * iselir
ymestwng, a dderchevir.

Yno y dyuot hefyt ef wrth hwn y gohaddesei ef, Pan
wnelych giniaw nei *gwynos, na 'alw dy gereint, n'ath * swper
vroder, na'th ‡ genedl, n'ath gymydogion goludawc, ‡ tylwyth, traseu
rac yddynt wy hefyd * dy 'ohawdd *dithe* drachefyn, a'
*chael o hanot* ad-talu *'r pvvyth* y-ty. Eithyr pan ‡ adwawdd di
wnelych 'wledd, galw y tlodion, yr efryddion, ‡ yr ei ‡ cloffion
anafus, a'r daillion, a' gwynvydedic vyddy, can na allant
*ad*-dalu 'r *pvvyth* y-ty*:* can ys * *ad*-telir *y pvvyth* y-ty * ith
‡ yn-cyuodiad*igeth* yr ei cyfiawn. ‡ ynghyfodiat

¶ A' phan glypu vn o'r ei oedd yn eistedd ar y bwrdd *Yr Euangel yr ail Sul gwedy Trintot.*
y pethae hyn, y dyuot wrthaw, *Ys* gwynvydedic *yr* hwn
a vwyty vara yn-teyrnas Duw. Yno y dyuot ef
wrthaw, Ydd *oedd* ‡ gwr a wnai * gwynos mawr, ac ‡ nev dyn
'ohaddawdd lawer*oedd*, ac a *dd*anvones ey was bryd * swper
‡ cwynos, y ddywedyt wrth yr ei gohawddedic, Dewch : ‡ swper
can ys bot *ys* awrhon pop peth oll yn parot. A' *hvvythe*
oll * o vn-*vryd* a ddechreusont * *ym*escuso*di:* Y cyntaf * o vn veddwl, o gydsynniet
a ddyuot wrthaw, *Mi* brynais ‡ dyddyn, ac mae'n ‡ wrthot
angen*rhait* i mi vyn'd allan a' gweled hwnw: atolwc
y-ty, cymer vi yn * escusodol. Ac arall a ddyuot, *Mi* * escusedic
brynais bemp ‡ iau o ychen, ac yddwyf yn myn'd i ‡ par
brovi*o* y 'rhe'ini : *adolwc y-ty, cymer vi yn escusedic. * adolwyn
Ac arall a' ddyuot, *Mi* briodas wraic, ac am hyny ny
allaf i ddyuot. *Ac velly* yr a*d*ymchwelawdd y gwas
hwnw, ac y menagawdd y'w arglwydd y pethae hynn.
Yno y ‡ digiawdd gwr y tuy, ac y dyuot wrth y gwas, ‡ llidiawdd
Dos allan ar * ffrwst, ir heolydd ar ‡ gwigoedd y dinas, * ar vrys
a' dwc y mewn yma y tlodion, a'r efryddon, a'r * anaf- ‡ ystrytoedd
uson, a'r daillion. A'r gwas a ddyuot, Arglwydd, e * cloffion
ddarvu val y gorchmynaist, ac eto y mae lle. Yno y
dyuot yr arglwydd wrth y gwas, Dos ‡ allan ir *prif-* ‡ ymaith
ffyrdd a'r caeae, a' chym*p*ell wy y ddyuot y mywn, yn
y lawnwer ‡ vy-tuy. Can ys-dywedaf wrthych na ‡ vynhy
bydd ir vn a'r gwyr hyny a 'ohawddwyt * chwaythy * orchwaeddu, dastio, brovi
*dim* om ‡ cwynos i. Ac ydd oedd torfae mowrion yn ‡ swper
myned y gyd ac ef, ac ef a droes ac a ddyuot wrthynt,

A's daw nebun at y-vi, ac eb gasau ei dat, a' y vam,
a' y wreic a' y blant, a 'broder a' chwioredd: ac eto y
enaid e hun hefyt, ny ddychon ef vot yn ddiscipul i mi.
* groes — A' phwy bynac ny ddwc ei * groc a' dyuot ar vyol, ny
‡ all — ‡ ddygon ef vot yn ddiscipul i mi. Can ys pwy o
* yu amcanu, yn meddwl — hanoch a vei * ar vedr adail*iad*twr, nid eistedd yn
‡ gost — gyntaf, a' chyffrif y ‡ draul, a oes ganthaw *ddigon* y'*vv*
* gwplau — * 'orphen, rac gwedy *darvot* iddo 'osot y ‡ sail, ac ef eb
‡ grwnd, grwndwal, sylvaeniat — vot yn able y'w 'orphen, dechreu o bawp oll aei
*h*edrych*o*, y watwar ef, gan ddywedyt, E ddechreuawdd
* dyn — y * gwr hwn adail*iat*, ac nyd oedd e abl y 'orphen?
* revela — Neu pa Vrenhin yn myned i * wneuthu rhyvel yn
erbyn Brenhin arall, nid eistedd i law 'r yn gyntaf, ac
ymgygcori, a vydd ef abl a dec mil, y gyfwrdd a hwn
's'yn dyuot yn y erbyn ef ac vcain-mil? Neu tra vo
*ynt*ef ym-pell y wrthaw, ef a *dd*envyn gennadwri, ac a
‡ heddwch — ddeisyf *arno* am*odeu* ‡ tangneddyf. Velly yr vn nodd,
pwy pynac o hanoch, ny*d* ymwrthoto ac *chymcint* oll
* sy iddo — ar * a vedd, ny aill ef vot yn ddiscipul i mi. Da yw
‡ blasheit — '*r* halen. eithyr a diflasa'*r* halen, a pha beth yr ‡ helltir
* gymmwynasol, dda yw ddodi. &c. — ef? Ny*d* yw ef * wrteithus nac i dir, nac i domen, *and*
ei davlu allan a wnant. Hwn 'sy iddaw glustiae i
‡ gwrando, gwrandawet — ‡ glybot clywet.

## Pen. xv.

Y Pharisaieit yn grwnach am vot Christ yn derbyn pechaturieit. Trugarogrwydd Duw a espesir yn eglaer yn y ddameo am y can llydn dauat. Llewenydd yn y nef am vn pechatur. Am y map haelburllawioc, a drauliawdd y cwbyl yn over.

*Yr Euangel y iij. Sul gwedi Trintot.* — YNO ydd oedd yr ol' Publicanot a'r pechaturieit,
yn cyniret ato y wrandaw arnaw. Am hyny
* grwcnach grwytho — * murmur a wnaeth y Pharisaiait a'r Gwyr-llen, can
ddywedyt, Ef a *add*erbyn bechaturieit, ac a vwyty y
‡ parabol — gyd ac wynt. Yno y dyvot ef y ‡ ddamec hon wrth-
* vn — wynt, gan ddywedyt, Pa * ddyn o hanoch a gantho gant
‡ anid, ond — o ddeveit, ac a chyll e vn naddwynt, ny ad ‡ y namyn
vn pemp-ucain yn y dyffeith, ac a gerdd yn ol yr hon a
golles, y'n y chaffo ehi? A' gwedy yddaw hi chahel,
* dyd — ef hei * gesyt ar ei escwyddae yn llawen. A' phan ddel
e-dref, ef a ailw ynghyt ei gereint a ei gymydogion, can
ddoedyt wrthwynt, Cydlawenhewch a mi, can i mi
gahel ve-davat y gollesit. *Mi* ddywedaf wrthych, mae
velly y bydd llewenydd yn y nef am vn pechatur a
‡ edifarha — ‡ ddel ir *iavvn yn vvy* nac am amyn vn pemp-ucain o

rei cyfiawn ar nyd rait yddwynt wellay ei buchedd. Ai pa wreic *ac yddi ddec ‡dryll o ariant, a chyll hi vn dryll, ni *olae gannwyll, ac a escup y tuy, ac a gais yn vanol y ny chaffo? Ac wedy yddi gahel, hi a ailw am hei charesae a' chymydogesae, can ddoedyt, Cydlawenhewch a mi: can ys cefeis y dryll a golleswn. Velly, y dywedaf wrthych, y mae llawenydd yn-gwydd Angelion Duw ‡am vn pechatur yn dyvot-ir-iawn.

Ef a ddyuot hefyt, Ydd oeddi *ryvv* wr ddau vap. A'r ieu*ng*af o hanynt a ddyuot wrth y dat, Tad, *Dyro i mi y rran o'r da a ddygwydd *i mi*. Yno y rhannawdd *ef* yddwynt y ‡vywyt. Velly *yn ol ny-mawr o ddyddiae gwedy, i'r map ieu*ng*af gasclu *pop peth* oll yng*h*yd, ef a wnaeth daith i wlat bell, ac yno y goyscarawdd ef ei ‡dda gan vyw *yn afradlawn. A' gwedy yddaw draulio *y gyd* oll, y codes drudaniaeth ‡mawr trwy 'r *vro hono, ac yntef a ddechreuawdd vot arno ‡ddeffic. Yno ydd aeth ef ac a 'lynawdd wrth vn o ddinaswyr y wlad hono, ac ef y *d*anvonawdd ef yw vaerdref y *bescy moch. Ac ef a chwenychei lenwy ei vol*a* a'r ‡cibe, a *ysei 'r moch: ac ny'w roei neb iddaw. Yno y daeth ef ataw y hun ac y dyuot, Pa sawl cyfloc*ddyn gyd a'm tat 'sy yn cahel ei ‡llawn ddigon o vara, a'mynef yn marw o newyn? Mi a godaf ac af at vy-tad, ac a ddywedaf wrthaw, Tad, pechais yn erbyn y nef a' ger dy vron *di* ac ni*d* wyf mwy*ach* deilwng im galw yn vap yti: gwna vi val vn o'th gyflog-ddynion, ac ef a gyuodes *i vyny* ac aeth at ei dat, a' phan oedd ef yn hir-bell *y vvrthavv*, ei dat y canvu ef, a chan drugarhau, ef a redawdd, ac a gwympawdd *yn y vwnwg ef, ac ei cusanawdd A'r map a ddyuot wrthaw, Tad, *mi* pechais yn erbyn y nef, a' cher dy vron *di*, ac nid wyf mwy*ach* deilwng ‡i'm galw *er* yn vap yty. Yno dywedyt o'r tat wrth ey 'weison, Dygwch allan y wisc ‡orae, a' gwiscwch am danaw, a' dodwch vodrwy am ei law, ac escidiae am ei draet, a' dugwch y y llo bras, a' lleddwch, a' bwytawn a' byddwn lawen. Can ys hwn vy map a oedd varw, ac ys y *vyw drachefn: ac e gollesit, ac ei cahad *ef*. A' *vvy* dechreusont vot yn llawen. Yn hyn ydd oedd ey vab hynaf yn y maes, a' phan ddaeth ef, a *dy*nesau at y tuy, e glywei ‡gygcanedd a charolae ac a alwodd ar vn o ei 'weision, ac 'ovynnodd pa beth ydoedd *y pethe* hyny. Ac ef a ddyuot wrthaw, Can ys dy vrawd a ddaeth, a'th dat a ladd-

* a'chanthi
‡ pemp cemioo Lloecr pop dryll
* ennyn
‡ aruchaf
* Moes
‡ dda, olud
* gwedy ychydic oamser
‡ olud
* mewn gloddest
‡ newynodd
* wlad, artal
‡ eisiae
* borthi
‡ code
* vwytaei, borei
* was
‡ gwala
* ar ucha
‡ val. &c.
‡ benaf
* ailvyw
‡ gerdd, gydlais, a dains, ganu, a'chware dawns, chorae

‡ bras — awdd y oll pascedic, can iddo y *dd*erbyn ef yn iach *adref*. Yno y sorawdd ac nid ai y mewn: am hyny
*ymneheddodd — yd aeth ey dat allan ac a *dretiawdd ac ef. Ac *ynt*ef a
‡ Wely, synna ny thorais — atepawdd, ac a ddyuot wrth ei dad, ‡ Nycha cynniuer o vlyddynedd ith wasnaethais, ac nyd aythym vn amser dros dy 'orchymyn, ac erioed ny's roist i mi vynn, val y gallwm wnaethur yn ll awen y gyd a'm cereint. And
* ddifaodd — pan ddaeth dy vap hwn, yr vn a *ysawdd dy ‡ dda y
‡ vywyt * budroget — gyd a *phutenieit, ‡ *ys* lleddaist yddaw *ef* y llo pascedic.
‡ ti leddaist — Ac ef a ddyuot wrthaw, *Ha* vap ydd yw ti yn oystat y
* a chyment a vtddafi¦dydi blae — gyd a mi, *ac oll meu *vi*, 'sy daudi. ‡ Raid oedd i ni sirio, a' gwneuthu'*d* yn-llawen: can ys marw oedd dy
‡ Iawn — vrawt hwn, *a' byw ydyw, drachefn: ac ef a gollesit, ac
* ac ailvyw a wnaeth — ei cahad ef.

## Pen. xvj.

* *pentuylu* — Christ yn annoc yr ei ef ar ddoethinep a' haelioni, wrth esempl y *goruchwilwr. Ny ddychon nep wasanaethu dau arglwydd. Ef yn argyweddu trachwant a' ffuc sancteiddrwydd y Pharisaiait. Am dervyn a' grym y Ddeddyf. Am 'lan gyflwr priodas. Am y goludawc a' Lazarus.

*Yr Euangel y ix. Sul gwedy Trintot.* — AC ef a ddyfot hefyt wrth ei ddiscipulon Ydd oedd rryw 'wr goludoc, ac yddo oruchwiliwr, ac ef a
* athrotwy — *guhuddwyt wrthaw, ddarvot iddaw ‡ afradloni y dda
‡ oyscary, afrady, diwlltranu — ef. Ac ef a alwadd arno, ac a ddyuot wrthaw, Peth *yvv hyn* a glywaf am danat? dyrho gyfri o'th *orch-
* tuylywodraeth — wyliaeth: can na elly gahel mwy oruchwiliaw. Yno y dyvot y goruchwiliwr ynthaw ehun. Pa beth a wnaf: can ys bot vy arglwydd yn dwyn yr oruchwiliaeth y
‡ gywilyddus — arnaf? Cloddiaw ny allaf, a' chardota 'sy ‡ wradwyddus genyf. Gwnn beth a wnaf, pan im bwrier or 'orch-
* yddy — wylieth mal im *d*erbyniont *y'w tai*e*. Yno gwedy iddaw alw ato pop vn o ddyledwyr ei Arglwydd, y dyvot wrth y cyntaf, Pa veint a ddyly vy Arglwydd
‡ tunnell * oyl, yyl — yty? Ac ef a ddyvot, Cant ‡ mesur o *oleo. Ac ef a ddyvot wrthaw, Cymer dy escriven, ac eistedd yn ebrwydd, ac escrivenna ddec a' deucain. Yno y dyvot ef wrth *vn* arall, Pa gymeint o ddlet 'sy arna ti? Ac
‡ crynoc — ef a ddyvot. Cant ‡ mesur o wenith. Yno y dyvot ef wrthaw, Cymer dy escriven, ac escrivenna petwar-ucain. Ac a ganmolawdd yr Arglwydd y goruchwyliwr an-
* brudd, gall, gymmen, bwolloc — cyfiawn, am iddaw wneythy*d* yn *synhwyrol. Can ys synwyrolach yw ‡ plant y byt hwn yn ei cenetlaeth na
‡ meipion — phlant y golauni. A' mi addywedaf yw'ch. Gwnewch

y-chwy *gereint ‡a golud enwiredd, val pan vo eisiae arnoch, ich *d*erbyniant i'r *trigvae tragyvythawl.

Hwn 'sy ffyddlawn yn ‡y lleiaf, ysy ffyddlawn hefyd yn llawer: a' hwn 'sy ancyfiawn yn *lleiaf ys y ancyfiawn hefyt ‡yn llawer. Can hyny any a'*s* buoch ffyddlon*ion* yn y *golud enwir, pwy a gred y chwy yn y gwir '*olud?* Ac any'*s* buoch ffyddlon*ion* yn-*da vn* arall, pwy a rydd y-chwy, yr hyn 's ydd ‡ywch'? *Nyd oes neb gwas a ddychon wasanaethu dau arglwydd: can ys ai '*n aill ai* ef a gasaa vn, a' charu 'r llall: ai ef a 'lyn wrth y naill, a' ‡thremygu 'r llall. Ny ellwch wasanaethu Duw a' *golud. A'r *pethae* hyn oll a glybu y Pharisaiait hefyt, yr ei oedden ‡gubydd*ion*, a gwatworesont ef. Yno y dyuot wrthynt, *Chvvy*chwi yw 'r ei ai cyfiawna*vvch* yc*h* hunain *yn-gwydd dynion: a' Duw a 'wyr eich calonae: can ys y peth 'sy *mevvn* vchel*fri* gyd a dynion, y sy *ffiaidd ‡yn-gwydd Duw. Y Ddeddyf a'r Prophwyti *a barahodd yd* Ioan: ac er y pryd hyny y *precethwyt teyrnas Duw, a' phawp *dyn* '*sy'n* ‡tori y mewn y-ddei. A' haws yw i nef a' daiar *vyned heibio, nac *y bydd* i vn titul o'r Ddeddyf gwympo.

Pwy pynac a' *dd*ellwng ei 'wraic y maith, a' phriodi arall, mae'n ‡tori priodas: a' phwy pynac a brioto hon a ollyngwyt ymaith ywrth y gwr, a dyr briodas.

¶ Ydd oedd *ryw 'wr goludawc a oedd yn gwisco ‡porphor a *lliein-main, ac yn cymeryd ei vyt yn ddaentethol ac yn voethus peunydd. Ac ydd oedd ryw gardotyn a' ei enw Lazarus, yr hwn a vwrit wrth y borth ef yn gornwydlyt, ac yn chwenychy cahel ei ‡borthi a'r briwsion, a syrthient y ar vort y *gvvr* goludawc: eithyr a' dawot o'r 'cwn a' llyfu y gornwydedd ef. Ac e ddarvu, bot i'r cardotyn varw, ac ef dducpwyt can yr Angelon i vonwes Abraham. A' marw o'r gwrgoludawc, a' ei gladdy a wnaethpwyt. Ac ef yn yffern mewn poenae, y cyfodes ei *olygon, ac a weles Abraham ym-pell o yno, a' Lazarus, yn ei vonwes. Yno y llefawdd, ac y dyvawt, Y Tat Abraham, trugarha wrthyf, a' *d*anvon Lazarus, y ‡drochy blaen ei vys mewn dwfyr, ac oeri vy-tafawd: can ys im poenir yn y flamm honn. Ac Abraham a ddyvot *Ha* vap, *coffa yt gymeryt dy wynwyt yn dy vywyt ‡yn gyffelip ac y cymerth Lazarus advyt: ac yr awrhon y confforddir ef, ac y poenir ti*thef*. Ac eb law hynn oll, y rhyngom ni

* geredigion.
‡ or
* lluestai, pepyll
‡ yr ychydicaf
* yr ychydicaf
‡ mewn
* mamon, cyfoet, hancyfiawn
‡ eiddoch
* Nid oes gwas. &c.
‡ diystyru, escaeluso,
* *mamon*, chyvoeth
‡ ariangar, angor, chwangogion, vewydus
* geyrbron
* ddygas
‡ yngolwc, geyrbron
* yr evangelwyt
‡ ymyrru, ymsengi, ymwthio, ymdynu,
* drengi
‡ gwneuthwr godinep
* neb gwr
*Yr Euangel y Sul cyntaf gwedy Trintot.*
‡ purpur,
* sidan
‡ pori
* lygait
‡ wylwch
* meddwl
‡ yr vn siwt

* diffwys a' chwiy mae *gagen*dor* ddirvawr wedy 'r 'osot, mal yr
ei a ewyllysient vynet o ddyma ato-chwi ny allant, nac
‡ yma o *dd*yna ddyvot ‡atam ni. Yno y dyvot ef. Can hyny
‡ adolwyn ‡atolygaf y-ty dat, y ddanvon ef y duy vy-tat (o bleit y
mae i mi pemp broder) val testolaetho ydd-wynt, a' rac
* hynn ydd wynt wy dawot ir poenva *hon. Abraham a
ddyvot wrthaw. Mae ganthwynt Moysen a'r Pro-
phwyti, gwrandawant arnynt wy. Ac ef a ddyvot,
Nag e, y tat Abraham: eithyr pe dauei vn attwynt y
‡ edifarhaent wrth y meirw, wy ‡wellaent ei buchedd. Yno *Abraham*
a ddyvot wrthaw. Any wrandawant Voysen a'r Pro-
* adgyfodei phwyti ny's credent *chvvaith*, pe's *cyvodei vn ‡y wrth
‡ o ueirw y meirw.

## Pen. xvij.

Christ yn dyscu ei ddiscipulon i 'ochelyd achos rhwystr. Bot y vn vaddae ir llall. Dyly o hanam weddiaw am angwanegu ffydd. Ef yn mawrygu rhinwedd ffydd. Ac yn dangos anallu dyn. Ef yn iachau dec or clwyf gohan. Yn traethu o'r dyddiae dyweddaf, ac o ddywedd y byd.

YNO y dyuot ef wrth ei ddiscipulon, Ny aill bot
* sclandron, tranewydde amgen, na ddaw *rhwystrae, an'd gwae ef drwy
'r hwn y dauant. Gwell oedd yddaw *ef* pe crogit maen
‡ wddwf melin *mavvr* yn-cylch ei ‡vwngl, a'i davlu i'r mor, na
bod iddaw rwystraw vn or ei bychain hyn.
* pechot, camwedd Cedwch arnoch eich hun: a'*s* gwna dy vrawt *sarhad
yn dy erbyn, cerydda ef: ac a'*s* *yvv* ediuar gantaw
maddae y-*dd*aw. A' chyd pecho ith erbyn saithwaith
yn y dydd, a' seithwaith yn y dydd troi atat, gan
ddywedyt, Mae'n ediuar genyf, maddae y-*dd*aw. A'r
Apostolon a ddywedesont wrth yr Arglwydd, Ang-
wanega ein ffydd. A'r Arglwydd a ddyuot, Pe bai
genwch ffydd *cymmeint* ac *yvv* gronyn o had mustard,
ac *a* dywedech ymblann*a* yn y mamin hwn, Ym-
‡ ffousfor *dd*adwraidd*ia*, ac wrth y pren ‡sycor, ys uvyddhay *ef*
y-chwy.

Pwy o hanoch hefyt ac iddo was yn aredic neu yn
porthi da, a ddywait wrthaw yn y van, yn ol dyuot o'r
maes, Dos, ac eiste 'i lawr y vwyta? ac ny ddywait yn
* Paratoa, Ar lwy, Trwsia *hytrach* wrthaw. *Cyweiria *hyn* a swperwyf, ac ym-
wregysa, a' gwasanactha vi, nes i mi vwyta ac yfet, ac
wedy hyny bwyta, ac yf di*the*? *A* ddiolch ef ir gwas
hwnw can wneythyd o hanaw hyn a 'orchmynesit y-
*dd*aw? nyd wy'n tybiet. Ac velly chwi*theu*, gwedy

gwneloch *pop perh* oll, ar a orchymynwyt y-chwy, dy-
wedwch, *Paam*, Gweision ‡ anvuddiol ym: *can ys* hyn ‡ aflesol
a ddylesem ey wneuthy*d*, a wnaetham.

¶ Ac velly y darvu ac ef yn mynet i Gaerusalem, *Yr Euangel y*
ac ef a ddeuth trwy * genawl Samaria a' Galilea. Ac *xiiij. Sul*
mal ydd oedd ef yn myned y mewn i ryw *ben*-tref, y *gwedy Trintot.* * bervedd
cyvarvu ac ef ddec-wyr ‡ gohanglaf, yr ei a safesant o ‡ clafwr
hirbell. Ac wy godesont ei llefae, can ddywedyt, Iesu,
*y* Llywydd, trugarha wrthym. A' phan welawdd ef
wy, y dyvot wrthynt, Ewch, ymddangoswch ir Offeir-
iait. Ac e ddarvu, ac wy'n yn mynet y glanhawyt
hwy. Yno vn o hanwynt, pan welawdd ddarvot ei
iachay, a ymchwelawdd, ac a llef vchel e roes 'ogoniant
y Dduw, ac a gwympawdd ar ei wynep wrth y draet
ef, can ddiol*vv*ch yddaw: a' hwn oedd Samarit. A'r
Iesu a atepawdd ac a ddyvot, A ny 'lanhawyt dec?
a'ph'le *mae'r* naw? Ny chahat ar a ddelynt i roi go-
goniant i Dduw, *odd*eithr yr estrawn hwn. Ac ef a
ddyvot wrthaw, * Cyvot, does ymaith, dy ffydd ath * Cwyn
iachaawdd.

A' phan ‡ yr ymofynit yddo y gan y Pharisaiait, pa ‡ yr holit
bryd y * dauei teyrnas Duw, yr atepei yddynt, ac y * delei
dywedei, Ny ddaw teyrnas Duw wrth *i* ‡ *d*ysgwyl. Ac ‡ chadw, gwilad
ny's dywedant, * Wely, yma, ne wely yna: canys wely * Synna, Eiti
y mae teyrnas Duw o'ch mewn. Ac ef a ddyuot wrth
y discipulon, E ddaw 'r ‡ amser pan ddeisyfoch 'weled ‡ dyddiae
vn o ddyddiae Map y dyn, ac ny's gwelwch. Yno y
dywedant wrthych, * Wele yma*n*, nei wele ‡ yna: * Nychaf
*eithyr* nag ewch yno, ac na ddylynwch wy. Can ys ‡ accw
me*g*is y * vellten a velltenna o *yvvrth vn van* y dan y * lluchet yn-
nef, a dowyn i *van* arall y dan y nef, velly y bydd Map discleirio
y dyn yn y ddydd ef. Eithyr yn gyntaf ‡ dir yw iddo ‡ rait
ddyoddef llawer *o bethæ*, ai * argyweddy y gan y * ddiystyru
genedl*eth* hon. A' me*g*is y darvu yn-*d*yddiae Noe,
velly y bydd yn-*d*yddiae Map y dyn hefyt. Bwytaent,
yfent, gwreicaent, a' gwr*h*aent, yd y dydd ydd ai Noe
i'r ‡ Arch: a' daeth y * diliv, ac ei ‡ *cyfer*collawdd *vvy* ‡ llong
oll. Yr vn modd hefyt, mal y darvu yn-dyddiae Lot: * ddilif, llif
bwytaent, yfent, prynent, gwerthent, plan*t*ent, adailent. mawr
Eithyr y dydd ydd aeth Lot allan o Sodoma, y ‡ dinistroedd
* glawiodd *hi* tan a' brwmstan o'r nef, ac y dinistrawdd * glawiwyt
*vvy* oll. Erwydd *yr esemplæ* hyn y bydd *yn* y diernot
yr ‡ ymddengys Map y dyn. Yn y dydd hwnw yr ‡ ymadoudd y didoir, eglurir
hwn ys ydd ar*ucha* y tuy, a' ei * ddodrefn yn tuy, na * lestri

ddescen*d*et yw gymeryd allan: a' hwn 'sy yn y maes yr vn ffynyt, na *dd*adymchweled at yr hyn *a adavvodd* ar ol. ‡Cofiwch 'wreic Lot. Pwy pynac a gais gadw ei enait, *ef* ei cyll: a' phwy py pynac ei cyll, ei bywocaa. Dywedaf y-chwy, y nos *hon* hono y bydd dau mewn-vn gwely: vn a *dd*erbynir, *a'r llall a edewir. Dwy vyddant yn malu ‡yn yr vn-lle: y naill a gymerir, a'r llall a edewir. Ac *vvy* a atebesont, ac a ddywedesont wrthaw, P'le, Arglwydd? Ac ef a ddyuot wrthynt, P'le *bynac* y *bo'r* *corph yno hefyt yr ymgasel yr eryrod.

‡ Coffewch Meddyliwch Mefyriwch
‡ pair
* ar all, ac arall
‡ ynghyt
* gelain

## Pen. xviij.

Wrth esempl y 'weddw, a'r Publican y dysc Christ pa wedd y mae gweddiaw. Wrth esempl y plantos yr eiriol ef vsylldot. Am y ffordd y byddir cadwedic, a' pha bethae a 'rwystrant. Y gwobyr addawedic ir ei yddo ef, Ac am y groes.

AC ef a ddyuot hefyt barabol wrthynt, *ys ef* i hyn, y *dylynt weddiaw yn 'oystat, ac eb ‡ddefficiaw, gan ddywedyt, Ydd oedd brawdwr yn-ryw ddinas, yr hwn nid ofnei Dduw, ac ny pharchei ddyn. Ac ydd oedd *gvvraic*-gweddw yn y dinas hono, yr hon a *ddoy attaw, gan ddywedyt, *Gwna i mi gyffiawnder yn erbyn vy-gwrthnebwr. Ac ny'*s* gwnai ef dros *hir* amser: ac wedy hyn y dyuot yntho ehun, Cyd nad ofnaf Dduw, ac na pharchaf ddyn, eto can vot y 'weddw hon yn vy ‡molestu, gwnaf iddi gyfiawnder, rac o'r dywedd y ddi vy *sevrddanu. A'r Arglwydd a ddyuot, Clywch pa *beth* ddywait y brawdwr ‡ancyfiawn. Ac a ny ddial Duw ei **dd*etholedigion, ysy yn llefain arnaw ddydd a' nos, ‡cyd bo ef yn **o*hirddig drosdynt? Dywedaf ychwy, taw y dial ef hwy yn glau. Eithyr pan ddel Map y dyn, a gaiff ef ffydd ar y ddaiar?

* bydd rait, y bydd dir
‡ vuscrellu
* ddawei
* Dial vi
‡ blino, ysmalhau
‡ myddaru
* enwir
‡ ddewysedigion
* er y vot yn odei ei ddigofeint amdanynt
‡ hwyrddio

¶ Ef a ddyuot y *parabol hwn wrth y'r ei oedd ei ‡ymddiriet arnyn ehunain ey bot yn gyfiawn, ac yn *diystyry yreill, Deu-wr a escenesont ir Templ i weddiaw: vn Pharisai, a'r llall ‡Publican. Y Pharisai oei sefyll a weddiawdd val hyn wrthaw ehun, Duw, diolchaf y-ty nad wyf mal *y* dynion ereill, yn *gribdeilwyr yn ancyfiawnion, yn 'odinebwyr, ai mal y Publican hwn. Ydd wyf yn vmprydiaw ddwywaith yn yr wythnos: ddwyf yn decemy cymeint ‡oll a veddaf. Anid y Publican yn sefyll o hirbell, ny

* ebrwydd, ar vrys
*Yr Euangel y xi. Sul gwedy Trintot*
* damec
‡ coel
* tremygy
‡ Tollwr, Cais
* drawsion
‡ ac ys y ar vy elw

dderchavei na ei *'olygon tu ar nef, an'd curo ey ddwy- *lygait
vron can ddywedyt, Duw, trugarha wrthyf bechatur.
*Ys* dywedaf wrthych, e ddescennawdd *y dyn* hwn y'w
duy wedy ei gyfiawnhay, yn vwy na'r llall: Can ys
pwy bynac a ymdderchaif, a ‡'oystynger, a' hwn a ‡iselir
ymestwng, a dderchefir,

Ac wy dducesont ataw *'r 'ei bychein, val y bei yddo *plantys
ei cyvwrdd. A' phan *ei* gwelawdd, ei ddiscipulon, ei
ceryddu *aorugant. A'r Iesu ai galwawdd wy ataw, *wnaethant
ac a ddyuot, Gedwch i'r ‡bechcenot ddyuot atafi, ac na ‡rei bychein,
'oherddwch wy: can ys ir cyfryw *y mae teyrnas plantos *biae
Duw. Yn wir y dywedaf wrthych, pwy bynac ny
*dd*erbyn*io* deyrnas Duw val bachcenyn, ny bydd iddo
vyned oei mywn hi. Yno y gofynnawdd ryw lywiawdr
iddaw, gan ddywedyt, Athro da, pa *beth* ‡'sy imi y'w ‡a ddylywn
wneuthur, i veddu bywyt tragyvythawl? A'r Iesu a
ddyuot wrthaw, Paam y*m* gelwy vi yn dda? ny*d* da
neb*un* *dy*eithr vn, *'sef* Duw. Y gorchmynnion
awyddost, Na *wna obineb: Na ladd *gelain:* Na lat- *thor briodas
rata: Na ddwc ffalstestiolaeth: Anrydedda dy dat a'th
*vam.* Ac ef a ddyuot, Hyn oll a gedweis o'm ieunctit.
Gwedy clybot o'r Iesu hyn, y dyuot wrthaw. Etwo
mae yti vn peth yn ‡eisiae. Gwerth cymmeint oll ac ‡ol
ys-y * ar dy helw, a' *chyf*rana i'r tlodion, a' *thi* gai *yn
dresawr yn y nef, a' ‡dyre*d*, dilin vi. An'd pan glybu ‡dabre
ef *y pethe* hyny, bod yn **dra*thrista or ug *ef:* can ys- *dristiawn awnaeth
goludawc aruthr y doedd. A' phan y gwelas yr Iesu
y *vot* ef yn *dra*thrist, y dywedawdd, *Pa'nd anhawdd ‡Pond, Mor,
ir ei 'sy a golud yddynt vyned i deyrnas Duw? Can
ys-*haws*ach* i gamel vyn*e*d trwy grau nodwydd *ddur,* *hawddach
nag i 'oludawc vyned i deyrnas Duw. Yno y dywed-
ynt yr ei a*i* clybu, A phwy *ynte* a a*i*ll vot yn gatwedic?
Ac ef a ddyuot, Y pethae ys-y *ampossibil *y* gyd a ‡analluoc
dynion, 'sy possibil y gyd a Duw.

Yno y dyuot Petr, ‡Nacha, *ys* gadawsam ni *y cvvbl* *Wely
oll, ac ath ddylynesam di. Ac ef a ddyuot wrthynt,
Yn wir y dywedaf wrthych, Nid oes vn a'r a adawodd
duy, neu rieni, neu vroder, neu wreic, neu blant, *o *er mwyn
bleit teyrnas Duw, a'r ny'*s* *d*erbyn vwy o lawer yn y
byd hwn, ac yn y byd a ddaw buchedd dragyvythawl.

¶ Yno y cymerth yr Iesu ataw y deuddec, ac a *Yr Euangel ar*
ddyuot wrthynt, Nycha, ni yn mynet i vyny i Caeru- *Sul Quinqua-*
salem, ac a gyflawnir i vap y dyn bop peth, ys y yscriv- *gesima.*
enenedic *can y Prophwyti. Can ys ef a roddir ir *trwy

Cenetloedd, ac a ef watworir, ac a geblir, ac a boerir arnaw. A' gwedy yddynt y yscyrsiaw ef, wy ei lladdant: anid ef a gyvyt y trydydd dydd drachefyn. Ac wy ny ni ddyallesont ddim or pethae hyn, ac ydd oedd ‡y gair hwn yn guddiedic rhacddynt *vvy*, ac ny wybuont y pethae a ddywedesit. Ac e ddarvu, ac ef yn dynesay at Iericho, bot ryw ddyn dall yn eistedd ar emyl y ffordd, yn cardota. A' phan glywodd ef y popul yn myned heibio, e ymovynodd beth oedd hynny. Ac wy a ddywedesont yddaw, mae'r Iesu o Nazaret oedd yn mynet heibio. Ac ef a lefawdd ac a dyuot, Iesu vap Dauid, trugarha wrthyf. A'r ei oedd yn mynet o'r blaen, y ceryddent ef, y dewi a son. Ac ef a levawdd vwyvwy, Map Dauid, trugarha wrthyf. A'r Iesu a savodd, ac a 'orchymynawdd ei ddwyn ef attaw. A gwedy y ddawot ef yn nes, e ovynnawdd ydd-aw, can ddywedyt, Beth a vynny imi wneythy*d* y ty? Ac ef a ddyvot, Arglwydd, cahel-vy-golwc. A'r Iesu a ddyvot wrthaw, Cymer dy olwc: dy ffydd ath iachaawdd. Ac yn ebrwydd y cavas ei olwc, ac y *canlynawdd ef, gan roddy gogoniant y Dduw: a'r oll popul, pan welsont *hyn* a roesont voliant i Dduw.

‡ yr ymadrodd, y peth

* dylynoedd

## Pen. xix.

Am Zacchaius, Y dec darn bath. Christ yn marchogeth i Caerusalem, ac yn wylaw drostei. Ef yn ymlid y marsiaind y maes. Ai 'elynion yn caisiaw y ddifetha ef.

A' GWEDY dyuot yr Iesu y mywn a' myned trwy Iericho, wely'wr a elwit *ei envv* Zacchaius, *a hwn oedd ben-cais-y deyrnget, a' goludawc *yd*oedd. Ac ef a geisiai weled yr Iesu, pwy vn ydoedd, ac ny's gallai ‡gan y dorf*a*, can nad oedd any*d* bychan o gorph*oleth*. Yno y *rac*redawdd ef o'r blaen ac a ddringiawdd i fficuspren-gwyllt, y *gahel* y weled ef: can ys *ffordd* hono y dawei. A' phan ddaeth yr Iesu ir lle, *ydd edrychawdd y vyny*dd* ac ei gweles ef, ac y dyuot wrthaw, Zacchaius, ‡descen*d* ar vrys: can ys heddyw 'mae yn *ddir i mi aros yn dy duy *di*. Yno y descen*d*awdd *ef* ar ffrwst, ac y *d*erbyniawdd ef yn llawen. A' phan ei gwelsant *vvy* oll, ‡murmuro a wnaechant, gan ddywwedyt, vyned o hanaw y *letuyaw at 'wr ‡pechaturus. A' Zacchaius a safawdd *racddavv*, ac a ddyuot wrth yr Arglwydd, Wely, Arglwydd, haner vy-da a roddaf *yn avvr* ir tlodion: ac a's dugym

* yr

‡ rac yr, ymsang
* isel

* ytremioed
‡ dyre i lawr yn glau
* raid
‡ grwgnach
* leteuy
‡ anvuchedol

*ddim* y ar nep trwy hocced, *mi* ei talaf yn bedwar *plyc. A'r Iesu a ddyuot wrthaw, Heddyw y daeth ‡iachyd*urieth* i'r tuy hwn, o herwydd *iddo ef *ddy*uot yn vap *i* Abraham. Can ys-daeth Map y dyn y gaisiaw, ac y gadw ‡yr hyn a gollessit. Ac a'n hwy yn clywet y pethae hyn, y paraodd yn dywedyt parabol o bleit ei vot yn *gyf*agos i Gaerusalem, ac o bleit *hefyd* ey bot yn tybiet mai eb ohir yr ymddangosei teyrnas Duw. Ef a ddyuot gan hyny, Ryw wr *boneddic ai *y ymdaith* y wlat bell, y *dd*erbyn iddo deyrnas, ac a ‡dauei drachefyn. Ac ef a alwei *am* ei ddec gwas*ion*, ac a roddes atyn ddec *darn o ‡vath, ac a ddyuot wrthynt, *Marchnatewch y'n y ddelwyf. Eithyr ei ddinaswyr y caseynt ef, ac a *dd*anvonesont genad*vvri* ar y ol ef, gan ddywedyt, Ny vynnwn *ni* vot hwn yn teyrnasu arnam. Ac e ddarvu, pan adchwelawdd, a' *d*erbyn ei deyrnas, yno y gorchymynawdd 'alw ei weision ataw, at yr ei y roddesei ei arian, val y cay wybot beth ‡elwesei pop vn. Yno y daeth y cyntaf, gan ddywedyt, Arglwydd, dy ‡darn a *elwodd ddecdarn. Ac ef a ddyuot wrthaw, ‡Oi was da: can ys-buost yn ffyddlawn yn echydig*yn*, cymer *veddiant ar ddec dinas. Ac e ddaeth yr ail, gan ddywedyt, Arglwydd, dy darn a ‡elwodd bemp darn. Ac wrth hwnw y dyuot, A'bydd di*the* lywiawdr ar *ucha* pem*p* dinas. *Ac arall a ddaeth, gan ddywedyt, Arglwydd, ‡nycha dy darn, yr hwn oedd genyf wedy ddody *y gadvv* mewn *ffunen. Can ys-ith ofnais, o bleit dy vot yn wr ‡dirfing: *ti* gymery *i vyny*, yr hyn ny ddodeist *i lavvr*, ac a vedi 'r hyn ny heuaist. Yno y dywedawdd wrthaw, Oth enae *dyhun* ith varnaf, was ‡drwc. Gwyddyt' vy-bot i yn 'wr dirfing yn cymeryd *i vyny* hyn ny ddodwn *i lavvr*, ac yn meti hyn ny heuwn. Paam gan hyny na ro*ddy*t' vy arian *i'r vord, val y gallwn pan ddelwn, ei gofyn y gyd ac ‡elw*ant?* Ac ef a ddyuot wrth yr ei a sefynt geyr-llaw, Dugwch y ganto y ddarn, a' rhowch i hwn'sy a'r dec darn ganthaw. (A' *hvvytheu* a ddywedesont wrthaw, Arglwydd, y mae ganto ddec darn.) *Eb yntef*, Can ys dywedaf wrthych, *taw i bawp y may gant*ho*, y rhoddir: ac y ar hwn nyd ‡yw gant*ho*, ys yr hyn 'sy ganto, a ddugir o *dd*yarnaw. A'hefyt vy-gelynion hyny, a'r ny *vynnent deyrnasu o hanof arna*dd*ynt, dugwch yma, a' lleddwch wy geyr vy-bron.

* cymmeint
‡ iachawdurieth
* i ti
‡ y peth
* cenedloe
‡ ddadymchwelei
* dryll
‡ vonei, arian
* Marsiadenwch, Masnechwch, Bargeniwch
‡ amlhesei, enillesei
* ddryll
* amylhaodd
‡ Oian, wi, Divai, Tec
* awdurdot berchenogeth
‡ amylhodd
* Ar llall
‡ wely
* pilyn, cadach, napcyn, cwrsi
‡ cyfing, gwrthnawsic, cynnil, anynad
* mall
* ynybanc, at yr arianwyr
‡ vsur, ocr, mantais
* may
‡ oes
* ewyllysent

A' gwedy y-ddaw ddywedyt val hyn, ef *aeth _y_ ym_dd_aith o'r blaen, gan escen_d_ i Gaerusalem. Ac e ddarvu gwedy nessau o hanaw ‡at Bethphage, a' Bethania, *wrth y mynyth a elwir _myn ydd_ yr ‡olewwydd, e ddanvonawdd ddau o ei ddiscipulon, gan ddywedyt, Ewch i'r *dref 'sy ‡gyferbyn a _chwi_, ir hon, gwedy y deloch, y ce_ff_wch ebol *wedy rwymo, ar yr hwn nyd eisteddawdd ‡dyn erioed: gellwngwch ef, a' dugwch _yma_. Ac a's gofyn neb y chwi, paam y gillwngwch _ef_, vellhyn y dywedwch wrthaw, O bleit bot ar yr Arglwydd ei eisiae. Yno yr ei a _dd_anvonit, aethant ymaith, ac a gawsant me_g_is y dywedesei _ef_ wrthwynt. Ac a'n hwy yn gellwng yr ebol, y dywedawdd ei berchenogion wrthynt, Paam y gel'yngwch 'yr ebal? Ac wy a ddywedesant, Y mae ar yr Arglwydd ey eisiae.

* ai cerddodd hi, ai tynnodd hi
‡ i
* ger llaw
‡ olivar
* wic
‡ gyfeiryd
* ynrhwym
‡ vn

Yno y *duc_e_sont ef ‡at yr Iesu, ac y bwriesont ei dillat ar yr ebal, ac y dodesont yr Iesu *aruchaf. Ac a'n hwy yn myned, y tanent ei dillat 'rhyd y ffordd. A' gwedy yddaw ‡_dd_ynesau at *ddescenfa mynydd yr olewwydd, y dechreawdd oll lliaws y discipulon ‡lawenhau, a' moly Duw a llef uchel dros yr oll *veddiannae a wel_e_synt, gan ddywedyt _Ys_gwynvydedic y Brenhin 'sy yn dyuot yn Enw yr Arglwydd: ‡tangneddyf yn y nef, a' gogoniant yn y _lleoedd_ vchaf. Yno 'r ei o'r Pharisaieit o'r dorf_a_ a ddywedesont wrthaw, Athro, *cerydda dy discipulon. Ac ef a atepawdd, ac a ddyuot wrthwynt, Dywedaf y-chwy, pe'_s_ tawei ir ei-hyn, _ys_ llefai y'r ‡main.

* twysesont
‡ ir
* arnaw
‡ ddyuot yn agos at droet
* gorywared
‡ lawenychu
* wyrthiae
‡ heddwch
* argywedda ysdwrdia
‡ ceric

¶ Ac wedy iddo ddyuot yn agos, ef edrychawdd ar y dinas, ac a wylawdd *drosdei, gan ddywedyt A' phebysei i ti wybot, or lleiaf yn dy ddydd _di_ hwn yma y pethae hyny a _perthynant_ ith ‡dangneddyf, onid yr awrhon wy guddiwyt y wrth dy lygait. Can ys e ddaw 'r dyddiae arnat, ac y bwrw dy 'elynion glawdd yn dy 'ogylch, ac ith amgylchynant, ac ith 'oarchaeant o popparth, ac a'th wnant yn *gyd oystat ar ddaiar, ath plant 'sydd ynot, ac ny adant ynot vaen ar ‡vaen, can na adnabuost amser dy *ofwy. Ac ef aeth y mewn ir Templ, ac a ddechreawdd, ddavly allan yr ei 'n oeddent yn yn gwerthy ynthei, a' rei oedd yn pryny, can ddoedyt wrthwynt, Escrivenuwyt, Y tuy meu vi yw tuy gweddi, a' chwi ei gwnethoch yn 'ogof llatron. Ac ydd oedd ef yn _eu_ dyscu beunydd yn y Templ.

_Yr Euangel y x. Sul gwedy Trintot._
* am denei
‡ heddwch
* yn llawr vaes
‡ ei gylydd
* ymweliat

A'r Archoffeiriait, a'r Gwyr-llen, a phenaethae 'r ‡popl a geisiesont y *ddifa ef. Ac ny chefynt beth a wnaent iddaw: can ys yr oll popul *ymlynent wrthaw, pan glywent ef.

‡ plwyf
* golli, ddidetha
* ymgrogant oedd ai coel arnaw

## Pen. xx.

Christ yn goystegu ei wrthnebwyr a' *gorchest arall. Yn dangos y dinistriat wy drwy ar ddamec. Awturtot Llywyawdwyr. Y cyuodedigaeth a ei ddwywol veddiant. Ef yn beio ar vocsach a'rryvic y Gwyr-llen.

* *chvvestion*

AC e ddarvu ar vn o'r dyddiae hyny, ac ef yn dyscu 'r popul yn y Templ, ac yn Euangelu, yr Archoffeiriait, a'r Gwyr llen a ddaethant *arnaw y gyd ar Henaf*ieit* ac a lafaresont wrthaw, gan ddywedyt, Dyweit i ni wrth pa awturtot y gwnai *di* y pethe hyn, *n*ai pwy a roes i ti yr awturtat hyn? Ac ef atepodd ac a ddyuot wrthwynt, A' mi*nef* a 'ovynaf i chwi*the*, vnpeth: dywedwch ymy gan hyny: Betydd Ioan ai o'r nef ydd oedd, ai o ddynion? A' hwy a resym*e*sont ynthyn y hun*ain*, gan ddywedyt, A's dywedwn ‡mai or nef, ef a ddywait, Paam gan hyny na chredeeh y-ddaw? Ac a's dywedwn *Mai* o ddynion, yr oll popul a'n llapyddia *ni:* can ys-‡diogel *yvv* ganthwynt *mai Prophwyt oedd Ioan. Am hyny yr atebesont, na wyddent o b'le ydd oedd. Yno y dyuot yr Iesu wrthynt, Ac nys' d*d*ywedaf vi*nev* y chwi*thev*, trwy pa awdurdot y gwnaf y pethae hyn.

* ar ei ucha
‡ taw
* honeit, credadwy
‡ vot. &c.

Yno y dechreawdd ef ddywedyt wrth y ‡plwyf y parabol hyn, Gwr oedd a blannei winllan, ac y llocawdd hi y *dir-ddiwylliawdwyr: ac aeth i wlat dieithr, dros amser mawr. Ac ar ryw ‡bryd, *yd* anvones ef was at y tir-ddiwylliawdwyr val y rhoddent y-*dd*aw o ffrwyth y winllan, eithyr y tir-ddiwyllyawdwyr y bayddent ef, ac eu *d*anvonent ymaith yn *wac. Ac eilwaith y*d* anvonawdd ef was arall: a hwn*avv* a gurasont wy, ac ei ‡am*p*archesont ac ei *d*anvonesont y ffordd yn wac. Trache e ddanvonawdd *y* trydydd, a hwn, a archollesont ac a *vwriesont allan. Yno y dyuot Arglwydd y winllan, Pa *beth* a wnaf? Anvonaf y ‡caredic vap mau*vi*: *ef allei y parchant, pan y gwelont ef. A'r tir-ddiwilliawddwyr pan wel*e*sont ef, ymrysymy ai gylydd a 'orugant, gan ddywedyt ‡Hwn yw'r y tifedd: dewch, lladdwn ef, y'n y bo yr tiveddiaeth yn *eiddom. A' hwy y tavlesont ef allan o'r winllan, ac ei lladdesont.

* popul, werin
* lafurwyr
‡ amser
* ddiddim,
‡ gwarthwysont
* gyresont
‡ yr anwyl
* a gat vydd, ond odit
‡ Llyma'r aer
* i ni

Pa *beth* gan hyny a wna Arglwydd y winllan yddwynt? Ef a ddaw ac a destryw y tir-ddiwilliawdwyr *hyn*, ac a ‡ddyd ey winllan y eraill. A' phan glywsant *hyn*, y dywedesont Na *bo *hyny*.

Ac ef a edrychawdd arnynt, ac a ddyvot, Beth ynteu yw hyn a esceivenwyt, Y ‡maen y wrthodent yr adailwyr, hwnw a wnaethpwyt yn ben *ir* congyl*vaen?* Pwy pynac a syrthio ar y maen hwnaw, a *ddryllir: ac ar pwy pynac y syrthio *ef* ei mal yn ‡chwilfriw. Yno yr Archoffeiriait a'r Gwyr-llen yn yr awr hono a geysynt ddodi dwylo arnaw: (anyd bot arnyn ofn y popul) can ys gwybuont may yn y erbyn hwy y dywedesei ef y parabol hwn. A' hwy *ei d*ysgwyliesont, ac a *dd*anvonent *gynllwynwyr a ‡symlent ey bot yn gyfion, y graffu ar y ymadrodd ef, ac y'w roddy ef ym-meddiant ac awturtot y President. Ac y a 'ofynesont y-ddaw, gan ddywedyt, Athro, gwyddam y dywedy *di* ac y dyscy *yr vnion, ac na *dd*erbyny *vvy*neb *ond val ygylydd*, 'eithyr ‡dyscu yddwyt *i bavvp* ffordd D*d*uw yn-*gwirioned. A*i* cyfreithlawn i ni roddy teyrnget i Caisar ai ny*d* yw? Ac ef a ddyallawdd y ‡dichell wy, ac a ddyuot wrth-wynt, Paam y temptiwch vi? dangoswch i mi geiniawc. Pwy biae 'r ddelw ar *graipht 'sy ‡arnei. Atep o hanynt a 'dywedyt, Caisar. Yno y dywedei ef wrthynt, Rowch am hyny yr eiddo Caisar, i Caisar, a 'r eiddaw Duw, y Dduw. Ac *velly* ny allesont veio ar y *eiriae ef geyr bron y popul: any*d* ryvedd vu ganthynt y atep ef, a' thewy a son a wnaethant Yno y daeth ataw 'r ei o'r Zadduceit (yr ei a wadant vot cyuodedigaeth) ac a 'ovynent iddaw, gan ddywedyt, Athro, Moysen a yscrivennawdd i ni, A's bydd marw brawd nep ac iddaw wreic, a' marw o hanaw yn ddi-blant, bot y'w vrawt gymeryd ei wreic, a' chody had y'w vrawd. Ac yr oedd saith broder, a'r cyntaf a gymerth 'wraic ac a vu varw yn ddi blant. A'r ail a gymerth y wreic, ac *ynt*ef a vu varw eb plant. Yno y trydydd y cymerth hi: a'r vn modd y bu veirw y saith eb adu plant. Ac yn ddywethaf oll marw o'r wreic hefyt. Can hyny yn y cyuodedigaeth, gwraic i bwy vn o hanynt vydd hi? can ys ir saith y bu hi yn wreic. Yno ydd atebawdd *yr* Iesu, ac y dyuot wrthynt, Plant y byd hwn a wreicaant ac a'wrant. Any*d* yr ei a deilyngir y veddy ar y byd hwnw, a 'r cyuodiat o veirw, ny wreicaant, ac ny

‡ rydd, osyt
* ato duw
‡ garec
* yscytir
‡ ddryllie, gato
* lechiaeit, spienwyr, vilwyr
‡ ymredent, a gymren arnyn
* vn
‡ dangos
* gywir
‡ chwiongl
* yscriven
‡ yddi
* argyweddy oganu ragu
‡ ymodrodd
* dystewi

*wrhant. Can na allant varw mwy*ach*, o bleit eu bot yn ‡gymetrol a'r Angelon, ac ynt *yn* Veibion Duw, ac wy*ntæ* yn blant y cyuodedigaeth. A' bod ir meirw *ad*gyuodi, 'sef Moysen ei *racdd*angoses *yn y *dyrys*-llwyn, pan ddyvot ef, *Mai* yr Arglwydd *yvv y* Duw Abraham, a'r Duw Isaac, a'r Duw Iaco. Can na*d* yw ef Duw 'r meirw, anyd ir ei byw: can ys byw *ynt* oll iddo ef. Yno ydd atepawdd 'r ei o'r Gwyr-llen, ac a ddywedesont, Athro, da y dewedeist. Ac ar ol hyny, ny veiddiesont ymofyn ac ef ddim *oll*.

Yno y dyuot wrth-wynt, ‡Pa-vodd y dywedant vot y Christ yn vap Dauid? Ac *ynt*ef Dauid yn dywedyt yn llyver y Psamae, Dywedawdd yr Arglwydd wrth vy Arglwydd, eisted ar vy-deheulaw, Y n y *wnelwyf vy-gelynion yn droedfainc y-ty. Can y Ddauid y alw ef yn Arglwydd, a' pha wedd y mae ef yn vap iddaw.

Yno ‡a'r popul yn clywet, y dyuot ef wrth ei ddiscipulon, Ymogelwch rac y Gwyr-llen, yr ei a ewyllysiant *vyned mewn dillat llaision, ac a garant ‡gael cyfarch gwell yddyn yn y marchanatoedd, a'r eisteddvae vchaf yn y Synagogae, a'r lleoedd pennaf yn yn y ‡gwleddoedd: yr ei a lwyr ysant dai y *gvvragedd*-gweddwon 'sef yn rhith hir weddiaw: yr ei hyn a *dd*erbyniant varn drymach.

* phriodir
‡ ogyfuwch, gystad
* geyrllaw, wrth
‡ P'odd
* osotwyf, ddodwyf
‡ ar 'oysteo y popul
* rodio
‡ anerchion
‡ gwestvae

## Pen. xxj.

Christ yn canmol y weddw dlawd. Ef yn rac rybyddiaw am ddinistriat Caerusalem. O'r precethwyr gauawc. O'r arwyddion a'r trallodae ar ddyuot. O ddywedd y byd, Ac oei waith diwarnodawl.

AC val *ydd* oedd ef yn edrych, y gwelas ef yr ei goludawc yn bwrw ei rhoddion ir *tresorfa. Ac ef a welawdd hefyt ryw *vvreic*-weddw dlawd, yr hon a vwriawdd y mywn yno ‡ddwy hatling, ac ef a ddyuot, Yn ddiau y dywedaf ychwy, *ddar*vot ir weddw dlawt hon *vwrw ymywn vwy nac wyntwy oll. Canys wy oll o ei ‡gormodd*der* y bwriesont ymplith y'r offrymae Duw: a' hon oi *phrinder a vwriawdd y mywn yr oll vywyt oedd y-ddei. Ac a'r ei yn dywedyt am y templ, val yr addurnesit a main pryderth, ac a *chyssegredic bethae, ef a ddyuot, *Ai* 'r pethae hyn ydd ych yn ei ‡tremio? e ddaw 'r dyddiae yn yr ei ny ede*vv*ir maen ar vaen, a'r ny's ‡goyscerir. Yno y gofynnesont y-ddaw, gan ddywedyt, Athro, and pa

* cyff yr offrwm
‡ dau vitym dau dipin, dryllyn, getyn
* ddody, vwrw
‡ gweddill
‡ heisie diddimder, angenoctit
* rroddion anregion
‡ hedrych
* dinistrir

‡arwydd, sein — bryd y bydd pethae y hyn? a 'pha 'r ‡argoel *vydd* ar
ddawot hyn i ben? Ac ef a ddyuot, Mogelwch rac
cael eich twyllaw: can ys daw llawer yn vy Enw *i*,
gan ddywedyt, Mi yw *Christ*, ac mae'r amser yn *dy*-
nesau: ac am hyny nac ewch ar y *h*ol hwy. A' phan
glywoch *son am* ryveloedd a' thervyscoedd, nac ofner
chwi: can ys dir yw ir pethae hyn *ddy*vot yn gyntaf,
‡diben, diwedd — eithyr na*d oes* ‡tervyn yn y man. Yno y dywedei
* nasion — wrth-wynt, E gyuyt *cenedl yn erbyn cenedl, a'
theyrnas yn erbyn teyrnas, a' dayar-grynfaë mowrion
‡amryw — vyddant yn ‡amrafael leodd, a' newyn, a haint y
* chwaren — *cornwyt, a' dychrynedigaethae, a ‡signedd mawrion
‡arwyddion — vyddant o'r nef. Eithyr cyn na hyn oll, y dodant ei
dwylo arnoch, ac *ich* erlynant, gan *ych* roddi ir Syna-
gogae, ac i garcharae, a'ch dwyn geyr bron Bren-
hinedd, a' llywyawdwyr o bleit vy Enw *i*. A' hyn a
dry i chwi, yn testoliaeth. Dodwch gan hyny yn eich
calonae, na vefyrioch, beth a atepoch. Can ys my*vi*
a roddaf y-chwy 'eneu a 'doethineb, yr hwn ny ddychon
eich oll wrthwynebwyr ei wrthddywedyt na ei wrth-
* tad ach mam — ladd. Ys bradychir chwi y can eich *rieni, a' *chan eich*
‡trasae tylwyth — broder, a'*ch* ‡cydgenedl a*ch* cereint, a'r *ei* o hanoch a
ront y varwolaeth. A' dygasoc vyddwch gan *bavvb*
‡er mwyn — oll ‡o bleit vy Enw *i*. Eithyr *vn* blewyn o'ch penn
* dyoddefgarwch — ny's collir. Trwy eich *ammynedd, meddiannwch
eich eneidiae.

A' phan weloch Caerusalem wedy 'r amgylchynu
‡luoedd, vilwyr — gan ‡vyddinoedd, yno gwybyddwch vot y diffeithiat hi
* pherfodd — yn agos. Yno ciliet yr ei 'sy yn Iudaia, ir mynydd-
e*dd:* a'r ei 'sy yn y chenol, tynnan y maes: ac nac aed
yr ei or *or*wlad, y mywn yddi. Can ys dyddiae dial
yw '*r* ei hyn, y gyflawny *yr* oll *bethæ* a '*r* yscrivenwyt.
‡dal — A' gwae yr ei beichiogion, a'r ei yn ‡rhoi-bronnae yn y
* angenoctit — dyddiae hyny: can ys-bydd **cyf*ing*dra* mawr yn y tir
‡arwartha — *hvvn*, a' llid ‡arucha y bopul hyn. Ac wy a gwymp-
* gan — ant ar *vin y cleddyf, ac eu tywysir yn gaith*ion* *ir oll
* i blith — genetloedd, a' Caerusalem a vysengir *dan draed* *y gan
*y* Cenetloedd, y n y chyflawner amser*e* y Cenetloedd.
* arwyddion argoelion — Yno y bydd *sygnedd yn yr haul, ac yn *y* lloer, a'r ser,
ac a'r y ddaiar trallot *ymhlith* y cenetloedd, *gyd* a
‡tonhedyfredd — chyfing gycor: y mor a'r ‡weilgi a ruant. *Di enait
* Digalon — vydd dynion gan ofn, a'dysgwyl *am* y pethae a ddawant
ar *vvartha* 'r byd: can ys nerthoedd y nefo*edd* a yscyt-
wir, ac yno y gwelant Vap y dyn yn dyuot yn wybren,

*y* gyd a meddiant a' gogoniant mawr. A' phan ddech-
reuo y pethae hyn *ddy*vot, ‡tremiwch i vyny*dd*, a ‡ edrychwch
darchefwch eich pene, can ys-bot eich prynedgaeth yn
*dy*nessau. Ac ef a ddyvot wrthynt *y* parabol *hvvn*,
Gwelwch y fficuspren, ‡a'r oll breneu, pan darddant * ar
ynawr gan ei gweled, y gwyddoch o hanoch eich una*in*
bot yr haf yn awr yn gos. Ac velly chwi*the*, pan
weloch *ddy*vot y pethae hyn, adnabyddwch vot teyrnas
Duw yn agos. Yn wir y dywedaf y-chwy, na bydd i'r
‡oes hon vyned heibio, y n y wneler *y pethe hyn* oll. ‡ to
Nef a' daiar a ant *heibio, and y gairie meuvi nid ant * nes gwneyth-
dim heibio. Edrychwch arnoch eich hunain, rac bot ur
vn amser trymhau eich calonhae gan ‡gloddest a' ‡ vrwysc sur-
meddot, a' *gofalon y vuchedd hon, a' rac dyvot y dydd ffet
hwnw ar ych vchaf ‡eb wybot. Can ys val *magl y * gwartha
daw ar ucha *pavvb* oll a'r a ‡breswiliant ar *wynep yr ‡ yn ddysym-
oll ddayar. Gwiliwch gan hyny a' gweddiwch yn wth
'oystat, ar gahel bot yn deilwng y ddianc rac y *pethe* * hoynyn
hynn oll ar ddyvot *i ben*, ac ar allu o hanoch sefyll ‡ drigiant
geyr-bron Map y dyn. * glawr

Ac yn hyd y dydd y dyscei ef *y bobyl* yn y Templ,
a'r nos ydd ai allan, ac yr arosei yn y mynyth a elwir
*mynydd *yr* olew-wydd. A'r oll popul a ddeuent yn * olivar
vorae ataw, y'w ‡glywet yn y Tem*pl*.

## Pen. xxij.

Bwriad yn erbyn Christ. Wyntwy bwyta 'r Pasc. Gosodedigaeth Swper yr Arglwydd. Hwy yn ymryson pwy vydd mwyaf, ac ef yn ei ceryddu. Ef yn gweddiaw ar y mynyth. Brad Iudas. Wy yn ei ddaly ef, ac yn ei ddwyn i duy yr Archoffeiriat. Petr yn y wadu ef dairgwaith, ac yno yn ediuerhau. Dwyn Christ gar-bron yr Eisteddvot, ac yntef yn gwneythur ynaw gyffes liosawc.

AC ydd oedd gwyl y bara *croyw yn agos, yr hon a *Yr Euangel y*
elwir ‡Pasc. A'r Archoffeiriait ar Gwyr-llen *merchur cyn y*
oedd yn ceisiaw pa wedd y lleddynt ef: o bleit ydd oedd *Pasc.*
arnynt ofn y bobl. Yno ydd aeth Satan y mewn Iudas, * crei
yr hwn a elwit Iscariot, ac y oedd o rif y dauddec. Ac ‡ y Mynediat
ef aeth ymaith, ac a ymddiddanawdd a'r Archoffeiriait, trosodd
a'r llywodraethwyr *y Templ*, pa wedd y gwnai ei vrad
ef yddwynt. Ac ydd oedd yn llawen ganthwynt, ac
a gytunesont roddy arian iddaw. Ac ef a gytunodd,
ac a gaisiawdd amser addas yw vradychy ef yddwynt,
yn absen y popul. Yno y daeth y dydd y bara *croyw, * crai
pan oedd angenrait ‡aberthy'r Pasc. Ac ef a ddan- ‡ lladd

vones Petr ac Ioan, can ddywedyt, Ewch, a pharatowch y ni y Pasc, val y gallom ei vwyta. Ac wy a ddywedesont wrthaw, P'le y myny di ei baratoi? Ac ef a ddyvot wrthwynt, *Nycha, gwedy yd eloch y mewn i'r dinas, y cyfervydd a chwi ‡ddyn, yn dwyn steneit o ddwfr: cynlynwch hwnw ir tuy ydd el y mewn, a' dywedwch wrth wr y tuy, Yr Athro a ddywait wrthyt, Pl'e mae'r ystauell lle bwytavwyf vy-Pasc y gyd a'm discipulon? Ac ef a ddengys ywch 'goruch ystavell vawr wedy'r drwsiaw: ynovv ei paratowch. Yno ydd aethant ac y cawsant mal y dywedesei ef wrthynt, ac wy a paratoesant y Pasc, A' gwedy dyvot yr awr, ydd esteddawdd, a'r daudec Apostol gyd ac ef. Yno y dyvot ef wrthynt, Mi a gwbl ddesyfais vwyta'r Pasc hwn gyd a *chvvy*chwi, cyn dioddefwyf. Can ys dywedaf wrthych, na vwytawyf o hano mwy o hyn allan, yd y ny chyflawner yn-teyrnas Duw. Ac ef a gymerth y *cwpan ac a ddiolches, ac a ddyvot, Cymerwch hwn, a rhannwch yn eich plith. Can ys dywedaf wrthych, Nid yfaf o ffrwyth y winwydden, yd y 'n y ddel teyrnas D*d*uw. Ac ef a gymerth vara, a 'gwedy iddo ddiol*vv*ch, ef *ei* tores, ac a roddes yddwynt, can ddywedyt, ‡Hwnn yw vy-corph: yr hwn a roddir trosoch: gwnewch hyn er cof am danaf. Yr vn modd hefyt wedi iddo swpery *e gymerth* y *cwpan, can ddywedyt, Y cwpan hwn yw'r Testament newydd ‡yn vy gwaet, yr hwn a ellyngir y trosoch. Eithyr *nycha, llaw hwn am bradycha, ys y gyd a mi ar y ‡vort. Ac yn wir Map y dyn a gerdda megisy darparwyt: eithr gwae'r dyn hwnw trwy'r hwn y bradychir ef. Yno y dechraesont ymofyn yn ei plith ehun, pwy o hanwynt vyddei a wnei hyny. Ac e gyvodes ymryson yn eu plith, pwy o hanaddynt a debygit ei vot yn vwyaf. Ac ef a ddyvot wrthynt, Brenhinoedd y Cenedloedd a deyrnasant arnynt, ar ei ai h'arglwyddiaethant a elwir yn Bendevigion ‡da. Eithyr na *vydd y* chwi velly: anid byddet y mwyaf yn eich plith chwi megis y lleiaf: a'r pennaf, megis yr hwn a vo yn *gweini. Canys pa-vn vwyaf, ai hwn ys a'n eistedd ar-y-vort, ai 'r hwn ys y'n ‡gweini? Anyd *mvvyaf* yr vn a vo yn eistedd-ar-y-vort? Ac ydd wyf vi yn eich mysc mal vn yn ‡gweini. A' chwychwi yw'r ei'n arosesoch gyd a mi yn vy-provedigaethae. Am hyny y gosodeis y chwi deyrnas, megis y gosododd vy-Tad i mi*nef,* mal y

* Wely
‡ wr
* phiol
‡ Hynn
* phiol
‡ trwy
* wele
‡ bwrdd

*Yr Euangel ar ddydd S. Bartholomeus.*

‡ vrdasawl
* gwasanathu
‡ gwasanaethy

galloch vwyta, ac yfet ar vy-bort yn vy-teyrnas, ar eisteddvae, a' barny dauddecllwyt yr Israel. Ar Arglwydd a ddyvot, Simon, Simon, nycha, Satan a'ch ddeisyfawdd, er eich nithiaw megis gwenith. An'd mi a weddiais trosot, na dddefficiai dy ffydd. Can hyny pan ith ymchweler *ir iavvn*, cadarnha dy vroder. Ac ef a ddyvot wrthaw, Arglwydd, ydd wyf yn parat y vynet gyd a thi y garchar ac angae. Eithyr ef a ddyvot, *Ys* dywedaf wrthyt, Petr, ny chan y ceiliawc heddyw, ‡cyn y ti wady deirgwaith vy adnabot. Ac ef a ddyvot wrthwynt, Pan eich anvoneis eb *gwd, ac yscrepan, ac yscidiae, a vu arnoch eisiau dim? Ac wy a ddywedesont, Na ddo ddim. Yno y dyvot ef wrthynt, Eithr yr awrhon y neb ys y gantaw gwd, cymeret, a'r vn ffynyt yscrepan: a'r nep ny bo ganthaw yr vn, gwerthet ei ‡bais, a' phrynet gleddyf. Can ys dywedaf ychwi, pan yw eto hyn ys y escrivennedic, ys angenrait ei gyflawni yno vi, *Ac y gyd ar ei enwir y cyfrifwyt ef: can ys diamau bod diben yr awrhon am y pethae *a yscrifenvvyt* ohano vi. Ac wy a ddywedesont, Arglwydd, *nycha, ll'yma ddau gleddyf. Ac ef a ddyvot wrthwynt, Digon yw. Ac ef a ddeuth allan, ac aeth (megis ‡ydd oedd ef gynefin) i *vonyth yr olewydd, a'ei ddiscipulon ei canlynesont. A' gwedy y ddawot ef ir van, e ddyvot wrthwynt, Gweddiwch nad eloch ymprovedigaeth. Ac ef a dynnawdd y wrthynt, yn-cylch ergit carec, ac a ‡roes ei 'liniae ar lawr ac a weddiawdd, can ddywedyt, Y Tad a's ewyllysy, ys mut y *cwpan hwn y wrthyf, eithyr nid vy ewyllys i, namyn dy ewyllys di a gyflawner. Ac a ymddangoses yddaw Angel o'r nef, yn ei confforddiaw ef. Eithyr ac ef mewn ‡cyfingdra *meddvvl*, ef a weddiawdd yn *ddyvalach: a' ei chwys ef ytoedd megis ‡deigreu gwaet, yn treiglo i lawr yd y ddaear. Ac ef a gyfodes o weddiaw, ac a ddauth at *ei* ddiscipulon, ac ei cafas wy yn cyscy gan dristit. Ac ef a ddyvot wrthwynt, Paam y cyscwch? Cyfodwch a' gweddiwch nad eloch ym-provedigaeth. A thra oedd ef etwa yn ymddiddan, *nycha dorfa a'r hwn a elwit Iudas vn or dauddec, aeth o ei blaen wy, ac a nesaodd at yr Iesu y'w gusany. A'r Iesu a ddyvot wrthaw, Iudas, a vradychy *di* Vap y dyn a chusan? A' phan welawdd yr ei oedd yn y gylch ef, beth a ddelei: wy ddywedesont wrthaw, Arglwydd, a drawom ni a chleddyf? Ac vn o hanwynt a drawodd was yr

‡ nes
* god, amuer, pwrs
‡ siacet
* Ys ef
* wely
* y gnotai
* vynydd oliuar
‡ benlinioedd
* sef ei ddyoddefaint ai angeu
‡ ymdrechechryd
* ddyvrifach yn ddwysach
‡ dafne
* wele

Archoffeiriat, ac a dorcs i glust ddehen ymaith. Yno
'r Iesu atepawdd, ac a ddyvot, Goddefwch *hvvy* yd
hynn. Ac ef a gyfurddawdd a ei glust, ac ei iachaodd
ef. Yno y dyvot yr Iesu wrth yr Archoffeiriat ac wrth
* oapteinieit *lywodraethwyr y Templ, a'r Henurieit yr ei a ddauth-
esei attaw, A ddaetho-chwi allan megis at leitr a
chleddyfae ac a ffynn? Pan oeddwn paunydd gyd a
chwi yn y templ, nyd estenesoch ddwylo ym erbyn:
eithyr hon yw eich gwir awr, a' gallu yr tywyllwc*h*.
‡ daliesont Yno y ‡cymersont ef, ac yr arwenesont, ac ei ducesont
i duy 'r Archoffeiriat. Ac Petr ei canlynawdd o hirbell.
Ac wedy yddynt gynnae tan yn cenawl y llys, a' chyd-
eistedd i lawr, ydd eisteddawdd Petr hefyt yn ei plith.
A' rhyw vorwyn *vveini* a y canvu ef val ydd oedd e yn
eistedd wrth tan, ac wedy iddi edrych yn graff arnaw,
hi ddyvot, Ac ydd oedd *y dyn* hwn y gyd ac ef. Ac
* verch ef y gwadawdd ef, can ddywedyt, *Ha* *wreic, nid ad-
waen i ddim hanaw. Ac ychydic yn ol, y gwelawdd
*dyn* arall ef, ac y dyvot Ac ydd wyt ti*thef* yn vn o
‡ Ha-wr, tiwr, tias hanwynt. An'd Petr a ddyvot, ‡*Ha*-ddyn, nag wyf.
Ac yn cylch awr yn ol hynny, vn arall a gadarnhaodd,
gan ddywedyt. Yn wir ac ydd oedd *y dyn* hwn gyd ac
ef: can ys Galileat ytyw. Ac Petr a ddyvot, *A* ddyn,
ny wn pa ddywedy. Ac yn y van ac ef eto yn ymddi-
ddan, y canawdd y ceiliawc. Yno yr Arglwydd a
ymchoelawdd, ac a edrychawdd ar Petr: ac a ddaeth
* gair yn-cof Petr *ymadrodd yr Arglwydd py wedd y dy-
wedesei wrthaw, Cyn canu 'r ceiliawc, tu a 'm gwedy
dairgwaith. Ac Petr a aeth allan, ac a wylawdd yn
‡ dost ‡chwerw. A'r gwyr a ddaliesent yr Iesu, ei watwor a'
* vugydy ei vaeddu a wnaethant. A' gwedy yddwynt *guddiaw
‡ ffustiesont ei lygait, y ‡trawsont ef ar y wynep, ac y govynesont
yddaw, gan ddywedyt. Prophwyta pwy ath trawodd.
A' llawer o gabl 'airie eraill a ddywetesont yn y erbyn
* cy ef. Ac *er cynted ydd oedd hi yn ddydd, ydd ym-
gynullawdd Henurieit y popul, a'r Archoffeiriait a'r
‡ y ducesont gwyr llen, ac ‡yr arwenesont ef y'w Seneddr hwy, can
* Consti ddywedyt. Ai tu yw'r Christ? dywait i ni. Ac ef a
ddyvot wrthwynt, P'es dywedwn y chwy, ny's credech.
* govynaf A' phe hefyt ydd *holaf, nim atepwch ac ni'm gellwng-
wch ymaith. Gwedy hynn yr eistedd Map y dyn ar
‡ bawp ddeheulaw gallu Duw. Yno y dywedesont *oll, Yw-ti
can hynny yn Vap Duw? Ac ef a ddyvot wrthynt,
Ydd yw chwi yn dywedyt vy-bot. Yno y dywedesout

wy, Pa reid i ni mwy wrth testoliaeth? canys clywsam ein hunain o ei enae ehun.

## Pen. xxiij.

Dwyn yr Iesu rac bron Pilat a' Herod. Am Barabbas. Am Simon Cyren. Y gwragedd yn cwynvan. Croeshoelio Christ, Ef yn gweddiaw dros ei 'elynion. Ef yn troi 'r lleitr ac ereill lawer ar amser ei varwoleth. Ei gladdedigeth.

*gyfer*gollwyt, y mae hi yn guddiedic. Ym-pa 'rei * Duw y byt hwn a ddallawdd y meddyliae, 'sef ir anffyddlonion, rac towynnu yddynt ‡ llewyrch y gogoneddus Euangel Christ, rhwn yw delw Dduw. Can nad ym yn *ym*precethu ein hunain, anyd Christ Iesu yr Arglwydd, a' ninheu yn weision ywch er mwyn Iesu. Can ys Duw'rhwn a 'orchymynnawdd ir golauni lewyrchu *allan* o dywyllwc*h yvv ef* yr hwn a lewyrchawdd yn ein calonae, y *roddi* golauni'r gwybodaeth y gogoniant Duw yn wynep Iesu Christ. Eithr y tresawr hwn 'sy genym mewn llestri pridd, val y byddei ardderchowgrwydd y meddiant hwnw o Duw, ac nyd o hanom ni. Ydd ys in gorthrymu o bop ‡ parth, er hyny nyd ym mewn cyfyngder: ydd ym mewn * cyfing gyngor, er hyny nyd ym yn * ddigyngor. Ydd ys yn ein ymlid, and ny'n gedir eb ‡ *navvdd: ydd ym* wedy ein tavlu y lawr, eithr ny'n collir. Ym pop lle ydd ym yn arwedd o y amgylch yn ein corph * varwoleth yr Arglwydd Iesu, val yr eglurer hefyt vywyt Iesu yn ein corph*e*. Can ys *ny* ni 'rei sydd yn vyw, a roddir yn wastat y angeu er mwyn Iesu, val yr eglur*h*aer hefyt vywyt Iesu yn ein marwol gnawd. Ac velly angeu a weithia ynam *ni*, a' bywyt yno-chwi. A chan vot i ni yr vn Yspryt ffydd, erwydd y mae yn scrifenedic, Credais, ac am hyny * y llavarais, ac ydd ym ni*nheu* yn credu, ac am hynny * y llavarwn, can wybot y bydd y hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu, eyn cyfodi ni*nheu* hefyt trwy Iesu, ac a'n gosyd *ni* y gyd a chwi. Can ys pop peth *oll ys yd* er eich mwyn chwi val yr amylhao yr helaethaf rat gan ddiolchiat llawer*oedd* er ‡ gogoniat y Dduw. Am hyny nyd ym ni yn * ymellwng, eithyr cyd llygrer ein dyn o ddyallan, er hyny y dyn o *dd*ymewn a adnewyddir beunydd. O bleit yscavnder ein gorthrymder ‡ rhwn ny phara ddim hayach*en*, a * bair y ni dra ardderchawc *a'* thragyvythawl bwys *o* ogoniant, pryd na*d* edrychom ar y petheu hyn a welir, anyd ar y petheu, ny welir *ddim hanynt:* can ys y petheu a welir, 'sy dros amser: a'r petheu ny welir, 'sy tragyvythawl.

[Margin: * sef Satan; ‡ 'oleuni, 'oleuad; ‡ tu; * tlodi; * dlawd, anobaith; ‡ *ymgeledd*; * varwhad; ‡ yr adroddais, dywedais; * yradroddwn, dywedwn; ‡ moliant; * deffygiaw, llipau, myscrellu; ‡ trangedic; * weithia; ‡ amserol]

## Pen. v.

Paul yn myned rhacddaw y venegy y budd a ddaw y wrth y * groc. Pa wedd y ddylyem ni ymparatoi yddei. Drwy bwy, Ac er pa dervyn. Ef yn espesu am rat Christ, A' swydd gweinidogion yr Eccles, a'r oll ffyddlonion.

[Margin: * *groes*]

CAN ys gwyddam *pe* a's ein dayarol d*uy* y *pebyll hyn a ddinistrir, vot i ni adail*at vvedy roddi* gan Duw, *nid amgen*, t*uy* ny*d* ‡o waith llaw *ddyn*, anyd tragyvythawl yn y nefoedd. Can ys am hyny ydd ym yn vcheneidiaw, gan ddeif*u* cael ein gwisco a'n t*uy*, rhwn'sydd or nef. O bleit a's gwiscir-ni, ny'n ceffir yn noethion. Can ys yn ddiau *ny*ni'r ei 'sy*dd* yn y *pebyll hynn, *yd*ym yn vcheneidio, ac yn llwythoc, can nad wyllysem ein ‡diosc, any*d cahel* ymwiscaw am danom, val y *dar*llyncid marwolaeth gan vywyt. A' hwn a'n creawdd ni i'r peth hyn *ydy* Duw, yr hwn hefyt a roddes y-ni *ernes *o* yr Yspryt. Am hyny ydd ym bop amser yn ‡hyderus, cyd gwypom *mae* tra ydym *gartref yn y corph, eyn bot *yn* ym*dd*eith ywrth yr Arglwydd. (Can ys wrth ffydd y rhodiwn, *ac* nyd wrth ‡'olwc) er hyny ydd ym yn *hyderus ac a vynnem yn hytrach ‡ysmutaw allan o'r corph, a' *thrigiaw y gyd a'r Arglwydd. Am hyny hefyt y ‡chwenychem, a ni yn trigo gartref ac yn mudo o ddygartref, vot yn gymradwy ganto ef. Can ys *dir yw y ni oll ‡ymddangos geyr bron *brawdle Christ, val y*d* erbynio pop vn y petheu *a vvnaethpvvyt* yn *ei* gorph, erwydd yr hyn a wnaeth, *pa vn bynac* ai da ai drwc. Velly can *y ni* *wybot ofn*had* yr Arglwydd, ydd ym yn peri y ddynion gredu, ac in eglurhawyt i Dduw, ac yddwy yn gobeithio hefyt *ddarvot* ein egluraw *ni* yn eich cydwybodae *chvvi*. Can na*d* ym yn ymganmol drachefn wrthych, anyd rhoddy ywch achos ‡gorvoledd am danom, val y caffoch *beth y atep* yn erbyn yr ei 'sy ai gorvoledd *yn yr wynep, ac nyd yn y galon. Can ys *pa vn bynac* ai am*p*wyllo ydd ym, y Dduw *ydd ym:* ai *ynteu* bot yn ein *iavvn*pwyll, y chwi *ydd ym*. Can ys cariat Christ a'n cym*p*ell: can y ni varnu val hyn, o bleit a's bu vn varw tros*am* **bavvp* oll yno *ys* meirw ‡oeddynt oll, ac ef vu varw dros *bavvp* oll, val y bo ir ei byw, na vyddant vyw rhac llaw yddyn y hunain, anyd i hwn a vu varw drostwynt, ac a *adgyv*odes. Ac velly, ar ol hyn nyd ym yn adnabot neb*un* *erwydd y cnawt, a' chyd adnabysem *ni* Christ erwydd y cnawt, er hynny o hyn allan nyd ym yn y adnabot *ef* mwy. Can hyny a'd *oes* neb*vn* yn-Christ, *byddet ef* yn creatur newydd. Yr hen betheu aethan heibio: wely, yr oll petheu ‡sy wedy gwneuthur o newydd. A'r oll petheu *ynt* o Dduw, hwn a'n *cysiliawdd *ni* yddo ehun, trwy Iesu Christ, ac a roddes i ni weinidogeth cysiliat. Can

* lluest, trigva
‡ gwneuthuredic gan ddwylo
* pabell hwn
‡ dihatry
* wystleidelh
‡ hyf, ehovn
* ddyvodieit, ddyeithreit
‡ edrychiat
* hyf, eovn
‡ vudo
* phreswilio
‡ ddamunem puchem
* rait
‡ apero
* gorsedd
* adnabot, arynaio
‡ llawenhau
* ar
* *ni*
‡ ydym
* yn ol
‡ aethon yn
* cymmododd cytunddd

‡ gyfrif
* cymmot
‡ ervyn

ys Duw *yt*oedd yn Christ, ac a gysiliawdd y byt yddo yhun, eb ‡liwio yddynt ei pechotae, ac a ddodes i ni 'air y *cysiliat. Wrth hynny ydd ym ni yn genadwri dros Christ: megis pe bai Duw ‡*ich* adolwyn trywom ni, atolygwn *yvvch* yn lle Christ, bot ych cysilio a Duw. Can ys gwnaeth ef hwnw *y vot* yn bechot trosam, yr vn nyd adnabu *ddim* pechot, val in gwnelit yn gifiawnder Duw ynddo *ef*.

## Pen vj.

* *eiddol-addol-iat*

Eiriol i vuchedd Christianoc, Ac ar vot gantyn gyffelyp serchvryd yddaw ef, ac ys y ganto ef yddyn hwy. Hefyd ar ymgadw o hanynt y wrth oll halogrwydd *delw-addoliat yn-corph ac enait, ac na bo cyfadnabot a delw-addolwyr.

*Yr Epistol y ddydd cyntaf yn y Grawys.*
* wrandawais
* y pryd
‡ cwymp, rhwystr
* coddi
‡ ymosot, ymddangos
* mewn
‡ trwy
* hwyrddigio,
‡ vwynder
* vniondeb
‡ aseu
* bodedic
‡ trwmve-ddylio
* bop amser
‡ goludogi
* y cwbl, oll
‡ lydanwyt
* vy-plant
‡ chwplyser
* anghyfelypol
‡ gyfeillach
* gyffredin-rwydd, gyfran-iat
‡ gydvot

VELLY ni*neu* can hyny megis yn gydweithwyr a atolygwn *yvvch*, na *dd*erbyniochv*vi* rat Duw yn over. Canys dywait ef, Yn amser cymradwy ith *erglywais, ac yn-*d*ydd iachyd*vvrieth* ith ganhorthwyais: wely'r awrhon *yr amser cymeradwy wele'r awrhon ddydd *yr* iechedv*vrieth*. Nyd ym ni yn rhoi vn achos ‡tramcwydd yn-*d*im, rac *cael bei ar ein gweinidogaeth. Eithyr ym-pop peth ydd ym yn ‡eiu provi ein hunain val yn wenidogion Duw, *yn amynedd mawr, yn gorthrymderae, yn ang*h*enion, yn-cyfyngderae, yn-gwialenodae, yn-carcharae, yn-tervysce, yn-travaelion, ‡gan wiliaw, gan vmprydiaw, gan burdep, gan wybyddieth, gan *hir*dd*yoddef, gan ‡diriondeb, gan yr Yspryt glan, gan gariat diffuantus gan' air gwirionedd, gan nerth Duw, gan arvae *cyfiawnder ar ddeheu ac ‡aswy, gan barch, ac amparch, gan glod ac ac anglod, megis twyllwyr, ac *er hyny* yn gywir: megis yn anadna-*byddus, ac *er hyny* yn adnabyddus: megis yn meirw, ac wele ni yn vyw: megis wedy ein cospi, ac ny*d* wedy 'n lladd: megis yn ‡dristion, ac *eto* *yn 'oestat yn llawen: megis yn dlodion, ac *eto* yn *cyfoethogi llawer: megis eb ddim cenym, ac *eto* yn meddy*annu* *pop dim. *Chvvi* Corinthieit y mae ein geneu yn agoret ychwi: ein calon a ‡ehengwyt. Ni' ch cadwyt yn cyfing ynom *ni*, eithr ich cadwyt chwi yn gyfing yn eich ymyscaroedd eich vnain. Yrowon yn lle tal*iad*, y dywedaf vegis wrth vy *meibion. Ehenger chwi*the* hefyt. Nac ‡iauer-chwi yn *ancym*p*arus gyd a'r anffyddlonion: can ys pa ‡gymddeithbas 'sydd i wiredd ac anwiredd? a' pha *gommun 'sydd y 'oleuni a thywyllwch? a' p*ha*

gyssondeb ys ydd *i Christ a Belial? neu pa ran'sydd *rrwng
i hwn a gred gyd a'r ‡ hwn '*sy* eb ffydd? a' pha gydfot *anffyddlon
'sydd i Te*mpl* D*d*uw *ac eiddoleu? can ys *chwi yw ‡a delweu
Tem*pl* Dduw byw: val y dyvod Duw, ‡ Preswiliaf *ydywch ‡Mi adrigaf
ynthwynt, ac a rodiaf yn y mewn: a' byddaf *yn* Dduw
yddwynt, ac hwy vyddant *yn* popul y mi. Can hyny
dewch allan oei plith wy, ac ymohanwch, medd yr
Arglwydd: ac na chyhwrddwch ddim aflan, a' mi ach
*d*erbyniaf *chvvi.* A' byddaf ywch yn Dat, a' chwi vydd-
*vvch* yn veibion ac yn verchet i mi, medd yr Arglwydd
oll *gyvoethawc. *alluawc

## Pen. vij.

Eu heiriol y mae ef gan addeweidion Duw yd cadw y hunain yn bur, Gan eu diogelu am ei gariat arnyn, Ac nyd yw yn escuso galeted ei awdurtot tu ac atynt, anyd ymhofli wrthaw, gan ystyried pa vudd a ddaeth ywrth hyny. Am ddauryw * dristit. * *drymvryd*

WEITHION can vot i ni yr a ddeweidion hyn,
*vy*-garedion, *ymgarthwn y wrth oll ‡ vrynti y ‡ymlanhawn
*cnawt ac yspryt, gan ymgwplau i saincteiddrwydd yn ‡vndreddi, halogrwydd
ofn*i* Duw. ‡ Derbyniwch ni: ny wnaetham gam*vvedd* *corph ac enaid
i neb*un:* ny*d* anreithiasem neb*un:* ny ‡ siomcsem neb*un.*
Nyd er *ech* barnedigaeth y dywedaf: can ys rac ddy- ‡Cynwyswch
wedais, ych bot chwi yn ein calonheu *ni,* y gyd varw a' ‡vy-diragreithwch,
byw. Y mae *hyfder vy ymadrodd wrthych: y mae ehovnder
genyf ‡'orvoledd mawr ynoch: im cyflawnir o ddiddan- ‡ymhoffedd
wch, ac ydd wyf yn dra llawen yn ein oll *orthrymder. *vlinvyd
Can ys gwedy ein dyvot i Vacedonia, ny chai *ein* cnawd
ni ddim *llonydd, eithr in gorthymid o bop parth, *gan* *heddwch
ymladdae o*ddy* allan, *ac* ofn*ion* o*ddy* mywn. Eithr
Duw, yr hwn a ddiddan yr ei cystuddedic, a'*n* diddan-
awdd ni *gan ddyvodiat Titus: ac ny*d* gan y ddy- ‡gonfforddia
vodiat ef yn vnic, anyd hefyd y gan y diddanwch y *wrth trwy
diddenit ef genychwi pan venagawdd ef i ni *eich*
awydd*vryd* chwi, eich ‡ galar, eich *anwylserch i mi,
mal y llawenhawn yn vwy o lawer. Can ys c[illegible]
tristeais i chwi a llythyr, nyd edivar yw geny[illegible],
‡ byddei ediuar genyf: can ys *gweled ydd wy[illegible]
ir llithyr hwnw ych tristau chwi, cyd be[illegible]
amser. Yr awrhon yr wy'n llawen nyd c[illegible]
chwi, anyd am ych tristau i edweirwch: can ys tristau
a wnaethoch yn ‡ dduwiol, val na chawsoch enwed ‡herwyd Duw
yn-dim y genym ni. Can ys duwiol dristit a *bair *weithia
edeuerwch er iechyd*vvrieth* diedivar*us:* eithr bydol

dristit a bair angeu. Can ys wely, hyn yma am
‡ 'ofal, care — dduwiol dristau o hanoch, pa ‡astudrwydd ei veint a
* ymiachad, ymgliriad — weithiodd ynoch: anyd pa *amddeffen: any*d* pa gilwc: any*d pa* ofn: any*d pa* 'oglyd: anyd *pa* wyn-vyd: any*d pa* ddial: ac ym pop peth yr ymddangos-
‡ helhynt mater, gwaith — asoch ych bot yn pur yn y ‡devnydd hwn. Er wydd paam, er scrivenu atoch, nyd scrivennais oi bleit ef yr hwn a wnaethoed*oedd* y cam*vvedd*, nac o bleit yr
* am danoch — hwn a ga*f*as y cam*vvedd*, and er bod y gofal *tu ac atoch chwi yngolwc Duw yn eglur y chwi. Am hyny in diddanit *ni*, achos ych diddany*ad* chwi: eithr llawen-
‡ byt — ach o lawer ‡mwy oeddem ni am lawenydd Titus, can
* esmwytho — *lonni y ‡yspryt ef genwch 'oll. Can ys a's ffrostiais
‡ glaan — ddim wrthaw am danoch, ny'm cywilyddiwyt: eithr megis y dywede*isam* wrthych bop dim yn-gwirionedd,
* gorvoledd bost — velly hefyt ydd oedd ein *ffrost ni wrth Titus yn gywir.
‡ ymyscaroedd — Ac y may y ‡galondit ef yn helaethach tu ac atoch*vvi*,
* ymddires hydery — pan goffaeych vvydddot chwi oll, *a*' pha wedd *gyd ac ofn ac echryn yd erbyniesoch ef. *Am hyny* llawen wyf can i mi allu ymddiried ynoch ym-pop dim.

## Pen. viij.

Wrth esempl y Macedonieit, A' Christ y mae ef yn cygori i barhau i gymporth y Sainct tlodion, Gan ganmawl yddyn ddechreu yn dda. Gwedy hyny mae ef yn gorchymyn Titus a'i gydymddeithion yddwynt.

YDD ym ni hefyt yn espesu ywch, vroder, y r*h*at Duw a roddwyt i Ecclesi Macedonia, can ys ym-mawr brovedigeth gorthrymder yr amylhaodd y llawenydd hwy*nt* ai l'wyr eithaf dlodi a amylhaodd y'w eheaeth haelioni. Can ys yn ei gallu (ddwy 'n test-
* tuhwnt — io*laethu*) ac *uchlaw *ei* gallu, ydd oddent yn 'wyllysgar,
‡ archesant — ac a ‡weddiesant arnam a mawr ervyn ar *dd*erbyn o hanam y rrat, a' chymddeithas y weinidogaeth ysydd ir Sainct*œ:* A' *hyn a vnaethant vvy*, ny*d* mal ydd oeddem *ni* yn edrych am danaw: any y rhoi y hunain yn gyntaf ir Arglwydd, ac yno y nin*heu* gan ewyllys
‡ eiriol — Duw, er bot i ni ‡annoc Titus, pan-yw yddaw val y
* gwplau — dechreawdd, velly ac yddo *'orphen yr vnryw rat yn eich plith *chvvi* hefyt. Can val ydd ych yn amylhau
* mewn — ym-pop dim, *yn ffydd a' gair, a' gwybod*aeth*, ac
‡ tu ac atom — ym-pop astudrwydd, ac yn eich cariat ‡i ni, *bot i chvvi yr vn modd* amylhau yn y rhat hyn hefyt. Ny ddy-wedaf *hyn* wrth 'orchymyn, anyd o bleit astudrwydd

’*rei* eraill: am hyny ydd wyf, yn provi *rywiowgrwy*dd* eich cariat. Can ys adwaenoch ‡rat ein Arglwydd Iesu Christ, ’sef am iddo ac ef yn *gyvoethawc, vynet er eich mwyn chwi yn dlawt, val ‡can y dlodi ef y cyfoethogit chwi. Ac ydd wyf yn ddangos *vy* meddwl *yn hyn; can *ys* da vyddei hyn ychwi, yr ei a ddechreusoch nyd yn vnic gwneuthur, anyd hefyt wyllys-y*avv*, er es blwyddyn. Ac yr awrhon gorphenwch wneuthy ’*d* hyny hefyt, val megis *ac ydd oedd* ‡awydd y wyllysy*avv*, velly bot y-chwy hefyt eu o’rphen ‡o hynn ’sy genych. Can ys a’s bydd yn gyntaf ’wyllysgarwch, cymradwy yw *erwydd yr hyn ’sy gan *dd*un, ac ny*d* erwydd yr hyn nyd yw gant*h*o. Ac ny*d yvv* er esmwytho ar eraill, ‡a’ch gorthrymu chwi*theu*. Eithr dan yr vn ambot, *bot* y pryt hyn ’ich *helaethrwydd chwi *ddivvallu* y ‡eisieu hwy, val y bo hefyt y helaethrwydd hwy *tu ac at eich eisieu chwi, val y bo cymmedroldep: megis y mae yn escrivenedic, Yr *huu*n *a gasclavvdd* lawer, nyd oedd gant*h*o ‡vwy, a’r *huu*n *a glascavvdd* ychydic, nyd oedd gant*h*o lai. Ac y Dduw *y bo’r* diol*vv*ch, yr hwn a ddodes yn-calon Titus yr vnryw *’ofal *y* trosoch. Can iddo gymeryd ‡yr eiriol, and ydd oedd ef mor *astud ac ydd aeth ‡oi vodd yhun *yd* atoch. A’ *ni* a *dd*anvonesam hefyt y gyd ac ef y brawd, rhwn s’y a moliant iddo *yn yr Euangel trwy’r oll Ecclesi, (ac nyd *hyny* yn vnic, eithr hefyt ef a ddywyswyt gan Ecclesi*dd* yn gydymddeith*vvr* y-ni ‡erwydd y rhat hyn a wasanaethwyt genym er gogoniant yr vnryw Arglwydd, ac *amlygiat* eich ewyllysgarwch *chvvitheu*) gan ymochely*d* hyn, ‡rac y neb veio arnam yn yr helaethrwydd yma rhyn a ‡wasanaethir genym, *yr ei ddym* yn racparatoi petheu *syber*vv*, nyd yn vnic rac bron yr Arglwydd, an’d hefyt rac bron dynion. Ac anvonesam y gyd ac wynt ein brawt, yr hwn a brovesam yn vynech o amser y vot yn ‡ddiwyt, yn llawer o betheu, ac yr owrhon yn ddiwytiach o lawer, am y mawr ymddiriet ’*sy genyf* ynoch. Neu a’s *gofyn neb* am Titus, *efe yvv* vy-cyfaill a’ chydweithydd tu ato-chwi: neu am ein brodur, *y maent* yn ‡gennadae yr Ecclesi*dd*, ac yn ’ogoniant Christ. Can hyny dangoswch tu ac yddynt wy, a’ rac bron yr Ecclesi brovedigeth o’ch cariat, ac ‡o’n gorvoledd ’sy cenym *o hanoch.

* naturioldep,
‡ ddawn
* oludoc
‡ trwy
* ar
‡ parodrwydd
* gwplau
‡ or caffaeliat
* yn ol, wrth
‡ a phwyso
* ehengder,
‡ deffic, digondap
‡ yn borth
* ddim dros ben
‡ gur gark
* y cygcor
‡ ofalus
* ar ei am
‡ sef am precethu
‡ am, o bleit y rhodd hon
* val na
‡ weinir
* honest
‡ aud, stddyscaetus ddyval
* Apostolon
‡ o’r
* am danoch

## Pen ix.

Achos dyuodiat Titus ef ai gymddeithion atynt wy. Mae et yn eiriol rhoi elusen yn dirion, Gan ddangos pa ffrwyth a ddaw o hyny.

CAN ys *tuac at* am y weinidogeth ir Saint*æ*, afraid yw i mi scrivenu atoch. Can ys adwaen eich *ewyllysgarwch chwi, 'rhwn ydd wyf yn ymffrostio am danoch wrth yr ei o Macedonia, *gan ddyvvedyt*, bot Achaia gwedi hi pharatoi er ys blwyddyn, ach *awyddvryd chwi a annogodd lawer. A' mi a *dd*anvoneis y broder, rac y ein gorvoedd *ni* am danoch vot yn ‡over, yn y rhan *hon, val (vegis y dywedais*ym*) y boch parot: rac a's y Macedonieit a ddawan gyd a mi, a'ch cahel chwi yn amparot, *yno* bot i ni nyd wy 'n dywedyt vot y chwi gael cywilydd ‡yn yr hyderus 'orvoledd hyn *veuvi*. Erwydd paam *mi* a dybiaisvod yn angenrait annoc y brodur y ddyvot yn y blaen atoch, a' chwplau eich *bendith rac ddarparedic, a' bot yn parat, *a' ddyuot* megis o ‡vendith, ac nyd megis *o gympel'. A' hyn *bid ich cof*, may hwn a heua yn ‡eiriachus, a ved hefyt yn eiriachus, a hwn a heuo yn *ehelaeth, a ved hefyt yn ehelaeth. Megis y ‡damuno pop *d*un yn ei galon, *velly may iddo roi*, nyd yn *athrist neu ‡wrth yr ing: cans Duw a gar roddiawdr tirion. Ac y mae Duw yn abl y beri ir oll rat amylhau ‡arnoch, val y bo ywch ac oll ddigonoldeb genych ym-pop dim, allu amylhau ym-pop gweithret da, megis y mae yn scrivenedic, *Ys* tanodd ef ar lled a 'rhoddes ir tlodion: ei *giried *ef* a erys yn ‡oes *oesoedd*. Hefyt yr hwn a bair had ir heuwr, a bair eisioes vara yn ymborth, ac a ‡liosoca eich had, ac a angwanega ‡ffrwyth eich ciried, val o bop ran ich cyuoethoger y ‡bop calondit-dda, yr hyn a weithia trwy*dd*om ni ddiol*vv*ch y Dduw. Can ys gwenidogeth y y gwasanaeth hwn nyd yw yn vnic yn *cyflanwy angenreidiae 'r Saint*æ*, anyd y mae hefyt yn aml gan ddyolch llawero*edd* y Dduw, (yr ei wrth broviad y weinidogaeth ‡hon a volant Dduw dros eich *cydsynniol ym*ddar*ostwng*edigaeth* ir Euangel Christ, a' thros eich dibrin gyfraniat yddynt wy, ac y bawp *oll)* a' chan ei gweddi trosoch, gan ych *deisyf*u* chwi yn vawr, am ‡yr ardderchawc-rat Duw '*sy* ynoch. Ac y Dduw *bo'r* diol*vv*ch dros ei *antraethawl ddawn.

‡ astudrwydd
* *zelus*
‡ vyned yn wac
* hyn
‡ am y gwastadol vost
* ymporth, elusen
‡ galon erwydd, giried
* yn gribddail,
‡ arbedus, yn brin
* hael, yn dirion, mewn ciried
‡ pucho
* vgus
‡ o ddir, ne gymmell, ne angen
‡ ywch
* gyfiawnder, elusen, haelder
‡ dragwyddol, ei oes ef
* amylha
‡ doreth ych elusen
‡ haelioni
* diwygio, ddiwallu, cuplau
*cyfarch, trachwenychu
‡y rhagorawl ras
* anveidrol rodd

## Pen. x

Mae ef yn cyhwrdd a'r gauprophwyti, ac yn amddeffen y awdurdot ef, gan y hanoc hwynt i vvydddot. A' mae yn dangos pa yw y veddiant ef. A' pha wedd y mae yn ei arfer.

WEITHION ‡mi vi Paul 'atolygaf ywch er *gwarder a' chymesurdap Christ, yr hwn *vvrth vot* ‡wydd-yn-gwydd yn eich plith, *vvyf* *ddiystyr, ac yn absen yr wyf yn ‡hyderus arnoch: A' *hyn* archaf, na 'orvid ym vot yn hyderus pan ytwyf presen*t*ol, a'r vn ryw ymddiried. ac ydd wyf yn meddwl bot yn hyderus ar ryw 'r ei, y sawl 'sy in cymeryd *ni*, val pe rhodiem *erwydd y cnawt. A' chyd bom yn rhodio yn y cnawt, *er hyny* nyd ym yn rhyfelu ‡erwydd y cnawt. (Can ys arvae ein *milwriaeth nid ynt cnawdol, anyd nerthoc drwy Dduw, y ‡vwrw cayrydd ir llawr) can vwrw i lawr ddychymygion, a' phob vchelbeth a dderchefir yn erbyn gwybodaeth Duw, a' chan gaethiwo pop meddwl i vvydddawt Christ, a' chenym yn parot *y* ddial*e* ar bop anuvydddot, gwedy cyflanwer eich uvydd dot chwi. *A* edrychw-chwi ar betheu *erwydd golwc? A's ymddiriet neb ynt*ho* yhun y vot ‡*ef yn perthyn* i Christ, *ystyried hyn drachefn am dano ehun, can ys val y mae *e yn perthyn* i Christ, ac velly *ydd ym* ni*ne* ‡*yn perthyn* i Christ. O bleit pe'*s* ffrostiwn beth mwy am ein awdurtot, yr hwn a roes yr Arglwydd y ni er adail*ad*, ac nyd er dinistr*ad* y'wch, ny chywilyddiaf. *Dyvvedyt ydd vvyf hyn* rac *bot im* tybiet megis ‡ichofni chwi a llythyrae. Can ys llythyrae, medd ef, 'sy drymion a' chedyrn, eithyr ei gorph*oleth* *gydrychiol *ys* gwan *yvv*, a'i ymadrodd 'sy ‡ddielw. Tybiet y cyfryw *vn val* hyn, mae'r vn *ryvv* rei ac ydym *yn-gair trwy lythryae, a ni yn absen*t*, y cyfryw rei *vyddvvn* hefyt yn-gweithret a' ni *vvydd*-yn ‡gwydd. Can ys na vaiddiwn *ymgynwys, nau ymgyffelypu a *ryvv* rei ys y yn eu canmol *yh*vnain: eithyr nyd *y*yn yn dyal' eu bot yn mesuro vnain ‡wrthyn y vnain, ac yn *cyffelypu y vnain ac yn hwy y vnain. Eithyr nyd ymhoffwn ni am betheu, nyd *y*yn o vewn *ein* mesur, any*d* erwydd *mesur y ‡Reol, rhon y rhanawdd Duw i ni hei mesur y ‡ymgyrhaeddy*d* ac yd atoch. Can nad ym *ni* yn ymestyn *y tuhwnt *in* mesur, vegis pe na'*s* ymgyraeddesem yd atoch: can ys ac ato-chwi y daetham ni *dan precethu* Euangel Christ,

‡minef myhun
* tirion-rwydd a' bneddigeidd-rwydd,
‡ geyrbron
* wr gwael, llesc, coec, bychan &c.
‡ hyf ehofn, can neiown
* ar ol
‡ ar ol
* rhyfel
‡ ddinistro
* yn ol
‡ eiddo, ydo
* meddyliet, bwriet
‡ yddaw
‡ gyru ofn arnoch
* bresennol
‡ ddiddim, ddibris
* ar air
‡ presennol
* ymsengi ymgyfrif
‡ ac ynwy
* compario
‡ *Gr. medr*
‡ llinyn
‡ ddyvot, ymdirwyn, ymdreiglo
* dios
‡ lafuriae, boenae

nyd yn *ym*ffrostio o petheu divesur *i ni: 'sef* am dravaelion *rei* eraill: a' gobeithiwn, gwedy 'r angwanego eich ffydd, gael ein mawrygu genny-chwi *erwydd ein rheol yn ehelaeth, ac *i mi* Euangely*avv* yn y *gvvledydd* hyny yr ei *sy* y tu ‡hwnt y chwi: ny*d y ni* y ymhoffy yn rheol *vn* arall, *sef* yn y petheu gwedy y paratoi eisioes. Eithyr yr hwn a ymhoffo, ymhoffed yn yr Arglwydd. Can ys nyd yr hwn y canmol y hun*an*, ys ydd gymradwy, any*n* yr hwn y mae 'r Arglwydd yn ei ganmol.

* yn ol ein llinin
‡ draw

## Pen xj

Mae yn dangos mor wyllysgar ydyw ef yddynt. Ardderchawgrwydd ei weinidogeth ef. A'i astudrwydd ynddei. Hoccedion y gau ebestyl. Trawsfarn y Corinthieit. A'i volianneu yntef.

OCH na 'oddefech ‡y chydic ar vy ynfydrwydd, ac yn ddilys ydd ywch im goddef. Can ys eiddigus wyf am danoch, *ac eiddigedd Duwiol: can ys darperais chwi i vn gwr*a* y'ch ‡gosot *vegis* *morwyn bur i Christ: ac ydd wyf yn ofni rac megis y twyllawdd y *serph Eua trwy hei ‡challter, velly bot eich meddyliae chwi*theu* yn l'ygredic *a'* ‡*diryvvio* ywrth y *semlrwydd ys ydd yn-Christ. O bleit a's hwn a ddaw, a precetha ‡amgen Iesu na'r vn a precethesam *ni:* neu a' *d*erbyniwch *amgen yspryt nac a *dd*erbyniesoch: neu amgen Euangel, nac a *dd*erbyniesoch, *tec y gallesech y *dd*yodde *ef.* Can ys im tyb nyd oeddwn yn is*elach* na'r gwir bennaf Apostolon. A' chyd *bvvyf* ‡drwscl *o* ymadrodd, er hyny nyd *vvyf velly* yn-gwybodaeth, eithr yn eich plith chwi in eglurhawyt yn ollawl, ym-pop dim. A wneuthum i ar vai, can i *mi* *ymestwng vy hun, val y derchefit chwi, a' chan i mi ‡precethu y chwi Euangel Christ yn r*h*at? Ecclesi*dd* ereill a espeliais, gan gymeryd cyfloc *ganthynt* er *mvvyn gvvnenthur* gwasanaeth y chwi? A' phan oeddwn *yn* presennol y gyd a chwi, ac *arnaf eisieu, ny vu vy-diogi yn ‡ammorth i neb*un:* can ys hyn a vyddei arnaf ei eisieu, a *gwplay 'r brodur a ddelynt o Macedonia, ac ym-pop dim ‡ydd ymgedwais ac ydd ymgadwaf yn ddibwys arnoch. Y mae gwirionedd Christ ynof, na 'oarchëir y gorvoledd hyn yn v'erbyn yn-*gwledydd Achaia. Paam? *ai* *can na charaf chwi? ‡Duw *ei g*wyr. Eithr yr hyn r'wyf yn ei wneuthur, hyny a wnaf: val y torwyf ymaith *achos

Duw
‡ ychwaen, oric
* gan, trwy
‡ dodi
* wyry
* neidr
‡ dichell
‡ *digenedly*
* gwiriondep
‡ arall
* da
‡ gwladaidd
* mychany, isely
* euangelu
* ac mewn
‡ ormes
* ddywallei
‡ yr
* am
‡ E wyr Duw, Ys gwyr duw
* anach, echlysur

ywrth yr ei a ddeisyfent _gael_ achos, val y ceffit hwy yn
gyffelip i ni yn yr hyn y maent, yn ymhoffy. Can ys
cyfryw ‡geu ebestyl, gweithwyr twyllodrus ynt, wedy
'r ymrithiaw yn *Ebes yl_ieit_ Christ. Ac nyd rhyvedd:
o bleit yntef Satan a ymrithia yn Angel _y_ goleuni.
Can hyny nyd mawr yw, cyd ymrithio y wenidogion ef,
val _peten_ wenidogion cyfiawnder, yr ei vydd ei dywedd
‡erwydd y gwaithredoedd _h_wy. Trachefn y dywedaf,
na thybiet neb vy-bot _i_ yn *ynfyd: neu _ynte_ cymerwch
vi val _vn_ ynfyd, val y gallwy vi_nef_ hefyt *ymffrostio
ycydig. Yr hyn a ddywedaf, ny ddywedaf ‡erwydd yr
Arglwydd: eithr val o ynvydrwydd, yn y vawr-ffrost
hon _veuvi_. Can vot llawer yn *ymhoffy erwydd y
cnawt, mi_nef_ a ymhoffa hefyt. Can ys _chwi ddy_oddef-
wch yn llawen ‡vn ynvyt, *a chwychwi yn ‡ddoethion.
Can ys goddefwch pe caethiwei vn chwi, pe bei vn _ich_
*ysu, pe bei vn yn dwyn _y arnoch_, pe bei vn yn
ymdderchafu, pe trawei vn chwi ar _eich_ wynep. *Am
warth_ad_ ydd wyf yn dywedyt: megis pe bysem yn
weinion: eithr ym-pa beth bynac y bo neb ‡hyderus
(dywedaf yn ynfyt) hyderus yw vynef hefyt. Ebraieit
ynt, velly vi_nef:_ Israelieit ynt, velly vi_nef:_ *had
Abraham ynt, velly vinef: gwenidogion Christ ynt
(dywedaf val ynwyt) mwy ‡yw vi: mewn travaelion
ym amlach: mewn ffonodiae *dros vesur: yn carchare
yn amlach: yn _bron_ angeu_e_ yn vynych. Can yr
Iuddeon pem_pg_waith ‡yd erbyniais ddauugain _gvvial-
ennot_ *anyd vn. Teirgwaith im baydwyt a gwiail: vn
waith im llapyddwyt: teirgwaith y tores llong arnaf:
‡nos a'dydd y bum yn y dwfn-vor. Yn *ymddeith
_y bum_ yn vynych, ym-periclon llifeiriaint, ym-per-
iclae llatron, ym-periclon _vy_ genetl_eth vyhun_, ym-
periclon gan y Cenetloedd, ym-periclon yn y dinas,
ym-periclon yn _y_ ‡diffeith_vvch_, ym-periclon yn _y_ mor,
ym-periclon ym-plith *gauvrodur, ‡ym-blinder a'
lluddet, *yn-gwiliae yn vynech, yn newyn a'sychet, yn
vmprydie yn wnech, mewn anwyt a' noethi. Eb law y
petheu a _ddygvvydd_ o ‡_dd_yallan, y mae arnaf *gymelri
mawr beunydd, _nid amgen no_ gofal tros yr oll Ecclesi.
Pwy 'sy wan, ac nyd yw vi_nef_ wan? pwy ‡a dram-
cwyddir, na loscwy vi? A's *dir _ymi_ ‡ymhoffy, _mi_ a
ymhoffa o betheu vy-gwendit. Y Duw, 'sef Tat ein
Arglwydd Iesu Christ, yr hwn 'sy *vendiged_ic_ yn _oes_
oesoedd, a wyr nad wyf yn dywedyt ‡cel-wyd. Yn
Damasco llywiawdr y popul y dan Vrenhin Aretas a

‡ ffalsapostolieit
* Apostolion
‡ yn ol
* ffol
‡ yn ol
* ymffrostio
‡ ampwillog
* pwylloc
_Yr Epistol ar y Sul Sexagesima_
‡ can ych bot chwi
* llyncu,
* Erwydd
‡ hyf, eon
* hil, epil, gohelyth
‡ wy
* y tuhwnt, yn ddivesur
‡ y cefais
* amyn
‡ nosdyddiais yn yr eigiawn
* siwrneio
‡ anialwch
* brodur ffeils ne dwyllodrus
‡ mewn poen govit
* mewn anhunedd
‡ ddieithr, o yvaes
* vaich, prysurdep, ympenbleth, cyni
* rwystrir
‡ gorvydd arnaf
* rait
‡ ffrostio, ryvygu
* volaniedic
‡ teu

barawdd wilio dinas y Damascieit, ac a vynesei vy-dal*ha* i. A' thrwy ffenestr im gellyngwyt y *lawr mewn cawell trwy'r ‡vagwyr, ac a ddiengais rrac *ei ddwylaw.

* vascet
‡ -ddaw

## Pen. xij

Y mae yn ymhoffi yn ei gymeriat, Eithr yn bennaf yn ei uvydddot, Ac yn dodi achos ei ymffrostiat ar y Corinthieit. Mae yn dangos ddaed ei ewyllys ef yddwynt. Ac yn addaw dyvot atwynt.

NYD lles y mi yn ddiau ymhoffy: can ys dauaf ar weledigaethae a' datcuddiedigaetheu yr Arglwydd. *Mi* adwaen ddyn yn-Christ er ys rhagor i bedair *blynedd ar ddec, (*pa vn oedd* ai yn y corph, ny wn, ai allan o'r corph, ny wn: Duw a wyr) yr hwn a ‡gymerwyt-y-vyny*dd* yd y drydedd nef. A' *mi* adwaen gyfryw ddyn (ai yn y corph, ai allan o'r corph, ny wn: Duw a wyr) ‡y gymeryd ef y vyny*dd* i Paradwys, ac *iddo* glybot geiriae *an*d*ywedadwy, yr ei ny*d* ‡rrydd i ddyn ei llavaru. O'r cyfryw *vn* yr ymhoffaf, o hanof vyhun nyd ymhoffaf, oddieithr o'm gwendid*æ*. Can ys pe 's *ymhoffwn, ny vyddwn ynvyt: can ys dywedaf y gwir*ionedd*, eithr eiriachaf, rac y neb dybiet am danaf uch law *hyn* a wyl *vod* ynof, neu a glyw genyf. A' rrac ‡tra ymdderchaf*ael* o hanof gan *arbenigrwydd y datguddiegaethae, ‡e roddwyt i mi *bingyn *yn* y cnawt, cenad Satan im cernodio, rac tra ymdderfaf*æl* o hanof. Am y peth hwn *mi* a atolygais yr Arglwydd dair glwaith, ar *vot* iddo ymadael a mi. Ac ef a ddyvot wrthyf, Digon yti vy rhat *i:* can ys vy-nerth i a *berffeithir trwy wendit. Llawen iawn gan hyny yr ymhoffaf *vi* yn hytrach yn vy-gwendid*æ*, val y trico nerth Christ ynof. Can hyny ydd ymddigrif*ha vi* yn-gwendid*æ*, mewn am*p*archion, mewn ang*h*enion, yn ymlidiae, yn-cyfyngder*æ* er mwyn Christ: can ys pan wyf wan, yno ddwyf gadarn. Ynfyd oeddwn ymffrostio: chwi*chwi* am cym*p*ellawdd: can ys ‡dylyeswn i gahel vy-canmol genychwi: can ys yn-*d*im nyd oeddwn is*elach* na'r gwir bennaf Apostolion, cyd nad wyf ddim. *Arwyddion Apostolieit a weithredwyt yn ych plith chwi ‡gan vawr *ammynedd, gan arwyddion, a' rhyveddodae, a' ‡nerthoc-weithredoedd.

Can ys pa beth yw, ar oeddech*vvi* yn is*elach* nac Eccles*idd* eraill, odieithr na vum *ddiogswrth-arnoch? maddeuwch i mi hyn o * gam*vvedd*. Wely, y drydedd waith *vy*vi yn parot y ddyvot atoch, ac *eto* ny byddaf-

* blwydd, blyddynedd
‡ gyvodwyt Gr. draisiwyt
‡ bot ei
* anrhaethawl
‡ possibl i ddyn ei hadrodd
* rhyfygwn ffrostiwn
‡ ymgyfodi
* ragorieth-odieth, amylder
‡ Gr. *scolpen*, aseth, picell, pric
* gwpleir
‡ dirpreswn
* Argoelion
‡ trwy
* ymaros doyoddefgarwch
‡ meddianteu, galluoedd, gwyrthieu
* 'ormesol
* sachaed

ddiog-ormesol-arnoch: can na cheisiaf yr *pethe sydd* yddoch, anyd *chvvy*chwi: can na ‡ ddylyei y plant * ascly *da* ir tadeu, anyd y tadeu ir plant. A' my*vi* yn llawenaf olla ‡ draulia, ac a ymdrauliaf dros eich eneidieu: * cyd po vwyaf ich caraf, lleiaf im cerir. Eithr ‡ bid na phwyseis arnoch: er hyny can vy-bot yn * gall mi a'ch delhiais a ‡ dichell. A * hudais i chwi am ych da drwy neb or ei a *dd*anvonais atoch? *Mi* ddesyfais ar Titus, a chyd ac ef yd anvonais vrawt: a hudodd Titus chwi am ddim och da? any * rodiesam yn yr vnryw yspryt? any *rodiesam* yn yr vn ryw * lwybrae? Trachefn, *a* dyby*g*wch*vvi* may ymguso*di* ydd ym ni wrthych? ydd ym yn dywedyt rac bron Duw yn-Christ. Eithyr *gvvneuthur ydd ym* bop peth, *vy*gcaredigion, er adailadaeth i chwi. Can ys ofny 'rwyf rac pan ddelwyf, na'ch caffwy yn gyfryw rei ac a ‡ vynnwn: ac im ceffir inheu y chwi*theu* yn gyfryw *vn* ac ny vynnech, a' rrac *bot* ymryson, cenivgenu, * dig*ofein* cynnenneu, ‡ goganeu *ym*hustinge*u*, ymchwyddo *ac* ancydvot. *Mae arna vi ofn* rrac pan ddelwyf drachefn, vot i'm Duw * vyngestwng yn eich plith, a' dwyn galar dros lawer yr ei a bechasant eisius, ac ny chymer*e*sont ediueirwch am yr aflendit, a'r godinep, a' ‡ nwyfiant, a wnaethant.

‡ dderperei
* dresori, ystorio, roi i gadw
‡ waria,
* er
‡ perhan
* ddichellus, gyfrwys
‡ ddespinais
* cherddesam
* olion
‡ ewylyswn
* llid
‡ absen eiriue drwc
* vy iselu
‡ andiweirdep, anlladrwydd, drythyllwc

## Pen xiij.

Mae ef yn bygwth yr ei anhydyn, Ac yn datcan beth yw y veddiant ef wrth ei testiolaeth hwy hunain. Hefyd y mae yn dangos beth yw effect yr epistol hwn. Yno gwedy darvod iddo y bannoc y wneuthur a ddylyent, y mae yn damuno yddynt lwyddiant yn gwbl.

LLYMA 'r drydedd waith i mi y ddyvot atoch. Yn-geneu dau neu dri o testion y bydd safadwy pop gair. Racddywedais ywch, a' racddywedaf ywch: megis be bawn * wydd-yn-gwydd yr ail-waith, velly yr scrivenaf yn absen wrth yr ei ym blaen llaw a bechasant, ac wrth bawp ereill, *can* a's dawaf drachefn ny*d* arbedaf. Can y-chwy geisio profiat o Christ, yr hwn a ymadrodd ynofi, yr hwn tu ac ato-chwi nyd yw wan, eithr nerthoc *yd*yw ynoch. Can ys cyd crogit ef ‡ o *ran ei* wendit, er hyny byw ydyw trwy * nerth Duw. A' diau *yw* ein bot ni*nheu* yn weinion ynt*ho* ef: eithr byw vyddwn y gyd ac ef, trwy nerth Duw *tu ac at* y chwi. Profwch eichunain a ytych yn y ffydd ‡ ecsamnwch

* Hon ywr
‡ yn presennol, yn gynnyrchiol
* prawf
‡ herwydd
* allu
‡ Ymbrofwch, ymsillwch, ymgreffwch

ychunain: anyd *adwaenwch eichunain, *'sef* y'r Iesu Christ vot ynoch, a ddyeithr ychwy vot yn ancymeradwy? A' gobeithaf y gwybyddwch nad ym ni yn ‡ancymeradwy. A' *mi* archaf y Dduw na wneloch ddim drwc, nyd er *cael* eyn *egluro ni yn gimradwy, anyd er y chwi wneuthur yr hyn 'sy ‡syber*vv*, cyd bom ni megis yn *rei* ancymeradwy. Can na allwn *ni vvneuthur* dim yn erbyn y gwiri*oned*, amyn tros y gwiri*onedd*. Can ys llawen yym pan *yd*ym ni yn weinion, a'ch bot chwi*theu* yn gryfion: hynn hefyd a ddamunem *'sef* eich perfeithrwydd *chvvi*. Am hyny ydd wyf yn *eich* absen yn scrivennu y petheu hynn, rrac ymy *pan vvyf* ‡wydd-yn gwydd, arver o vot yn dost, *wrth y meddiant a roes yr Arglwydd y-my er adail*ad*, ac nyd er dinistr*ad*. Bellach vrodr, ewch yn-iach: byddwch perfeicth: ‡ymgofforddiwch: ymgydsynniwch: byddwch vyw yn dangneddefus, a' Duw y cariat a'r tangneddyf a vydd gyd a chwi. Anerchwch eugylydd a chusan sanct*aidd*. Y mae 'r oll Sainct*æ* yn *erchi* ych anerch. Rat ein Arglwydd Iesu Christ, a' chariat Duw, a *chommun*deb* yr Yspryt glan *a vo* gyd a chwi oll, *Amen*.

> * wyddoch
> ‡ anvad, drwc
> * gweled, dangos
> ‡ honest
> ‡ yn presennol, yn gydrychiol
> * erwydd yr awdurdot
> ‡ ymgystriwch
> * chymdeithas, ymgyfran

Yr ail *epistol* at a Corinthieit, a scrivenwyt o Philippi, dinas ym-Macedonia, *ac anuonwyt* trwy *law* Titus a' Lucas.

---

# EPISTOL PAUL APOSTOL
## AT Y
# GALATIEIT.

### YR ARGVMENT.

Y Galatieit gwedy ey haddyscu gan S. Paul yn-gwirionedd yr Euangel, a dderbynieson yr apostolion ffeils, yr ei yn ol yddyn ddyvot y mewn, yn y absen ef a lygresont burdep dysceidaeth Christ, ac a ddangosesont vot yn angenraid cadw ceremoniae y Ddeddyf, yr hyn y mae yr Apostol yn y resymu mor ddwys yn y erbyn, val y mae yn provi a's caniedit hyny bot yn diwreiddio iechedwrieth dyn a brynawdd Christ: can ys wrth hyny y tywyllit golauni yr Euangel: y llwythit cydwybot: y cymyscit y ddau testament, y cadarnheit cyfiawnder dyn. Ac o bleit bot y dyscyawdwyr feils yn cymeryd arnyn, val pe eu danvouesit hwy y gan yr Apostolion penaf, ac nad oedd i Paul ddim awturtot anyd ymadrodd oi waith y hunan, y mae ef yn provi y vot yn

Apostol wedy ei ordeinio gan Dduw, ac nad yw ef yn is law yr Apostolion eraill: yr hyn beth wedy'r gadarnhau, y mae yn myned rhacddaw yw bwrpos, gan brovi ddarvot ein cyfiawnhau ni yn rhat geir bron Duw eb na gweithredoedd na cerimoniae: yr ei hagen yn ei hamser oedden yn gwasanaethu ac yn buddio: anyd yr awrhon nyd ynt yn vnic yn ffigurae anvuddiol, anid hefyd yn enbyddus, can vot Christ y gwirionedd a thervyn y petheu hyny wedy dyvot: erwydd paam e ddyly dynion yr awrhon groesawy y rydddit, a brynawdd Christ ai waed, ac nyd bot ei cydwybot wedy ei rhwydo ai maglu gan hoynyneu athraweth dynawl: o'r dywedd mae'n dangos ym-pa beth y mae y rhydddit hyn yn sefyll, a' pha ryw weithredoedd a berthyn yddei.

# EPISTOL PAUL APOSTOL AT Y GALATIEIT.

## Pen. j.

Paul 'sy yn argyhoeddi ei hanwadalwch can yddyn 'oddef ei hudaw gan y gau ebestyl, yr ei a precethent vot yn angenreidiol cadw ceremoniae 'r Ddeddyf er iechedwrieth, Ac yn gwrthgyfarch yr ei 'sy yn precethu amgen vodd no Christ yn llwyrbur. Mae yn dangos y vuchedd y hun, yn mawrhau ei swydd a'i Apostolieth, ac yn declaro y vot y hun yn 'ogyfiuwch a'r Apostolon pennaf.

PAUL Apostol (nyd gan ddynion, na thrwy ddyn. anyd trwy Iesu Christ, a' Duw tat yr hwn y cyvodes ef o veirw) a'r oll vrodur 'sy 'gyd a mi, ad Ecclesi Galatia: *rat *vo* gyd a chwi a' thangneddyf y gan Dduw Tat, a' *chan* ein Arglwydd Iesu Christ, yr hwn y rhoddes y hun dros ein pechotae, val in gwaredai y wrth y cydrychiol vyd drwc *yma* erwydd ewyllys Duw a'n Tat, ir hwn *y bo* gogoniant yn oes*oedd* oesoedd, *Amen.* Ryvedd yw genyf mor vuan ich ‡ysmutwyt *ymaith* i * Euangel arall, y wrth yr vn ach galwesei yn rhat Christ, yr hwn nyd oes *Euangel* arall, anyd bot rei ich ‡trallodi, ac yn wyllysu * datroi Euangel Christ Eithyr pe'*s nyni* neu Angel o'r nef a brecethei ywch amgen, na hynn a precethesam ywch, ‡ malldigedic vo. Mal y racddywedasam, velly y dywedaf yr awrhon drachefn, A's precetha neb y chwy *yn* amgen*ach*, nac yd er byniesoch, *malldicedic vo. Can ys yr owrhon *ai* precethu 'r wyf *athravveth* dynion, ai '*r yddo* ‡ Duw? ai ceisio 'ddwyf rengu bodd dynion? o bleit a's etwo y ‡ rengwn vodd dynion, ny'*s* byddwn was Christ. Weithion y mynnaf ywch wybot, vrodyr, am yr Euangel a precethwyt geny vi, nad oedd *hi*

* Gras

‡ arweddwyt treiglwyt
* athraweth
‡ trwblio
* dadchwelyd

‡ bid ef yn escymun

* bid ffiaidd beth ef

‡ boddhawn, bodlonwn

* yn ol
‡ nys dyscais vi
* vy-treigl vymwreddiat, vymddugiat, vy-buchedd, vy-helhynt
‡ brofldiais, lwyddais
* yr Iuddewiaeth
‡ ne cyfoedion
* Gr. *zelotes*
‡ o sodiadeu vynhadeu
* yscaresei
‡ eglurhau ne, i mi bregethu
* chyfrinecheis ymgygorais, ymorolais, chydleisiais, chydsumiais
‡ ar ben
* drigais
‡ ond, amyn
* car
‡ wele

* erwydd dyn. Can na's *d*erbyniais y hi gan ddyn, ac ‡ny'm dyscwyt *hi i mi*, eithr trwy ddatguddiat Iesu Christ. Can ys clywsoch *son am* * vy-cytro i gynt, yn y ddeddyf-Iuddewic, val y tra erlynais ar Eccles Duw, ac ei *h*anreithiais, ac a ‡ vuddiais yn * y ddedd*yf*-Iuddewic *gor*uwch llawer *o'm* ‡ cyfeillion yn vy-genetl vyhun, ac oeddwn vwy * awyddus o lawer i ‡ a thrawaetheu vy-tadeu. Eithr pan vu dda gan Dduw (yr hwn am * gohanesei o groth vy mam, ac *am* * galwesei trwy y rat ef) y ddatguddiaw ei Vap ‡ ynof, val y byddei y-my ‡ *y* euangelu ef ymplith y Cenetloedd, yn y man n*yd* * ymchwedl*ey*ais a chnawt a' gwaed: ac ny ddaethym drachefn i Caerusalem at yr ei 'n a *vesynt* Apostolion o'm blaen i, anyd myned *avvnaethym* i Arabia, ac a ddychwelais drachefn i Damasco. Yno ‡ gwedy tair blynedd y daethym drachefn i Caerusalem y *ym*weled *a* P*h*etr, ac a * aro*s*ais y gyd ac ef pem*p*thec dier*not*. A' neb*un* or Apostolon ny's gwelais, ‡ dyeithr Iaco * brawd yr Arglwydd. Ac am y petheu 'ddwy 'yn y scrivennu atoch, ‡ nachaf *vi yn testolaethu* geir bron Duw, nad wyf yn dywedyt celwydd. Gwedy hyny, yr aethym i dueddae Siria a' Cilicia: can ys ni'm adwaenit wrth wynep gan Ecclesi*dd* Iudaia, yr ei *oeddent* yn-Christ. Eithr clywed a wnaethent *vvy* yn vnic rei *yn ddyvvedyt*, Yr vn oedd yn ein ymlit ni gynt, 'sydd yr awrhon yn * precethu'r ffydd, yr hon oedd ef gynt yn hi ‡anreithiaw. A' * gogoneddu Duw a wnaethant am danaf.

* euangelu
‡ dinistro
* molianu

## Pen. ij.

Gan gadarnhau bot y Apostoliaeth ef ywrth Dduw, Y mae yn dangos paam nad enwaedwyt Titus, ac nad yw ef ddim is law yr Apostolion ereill. Ie, a' darvot iddo * argyoeddi Petr Apostol yr Iuddeon. Gwedy hyny mae ef yn dyvot at ei ‡ nod pennaf, 'sef yw hynny provi bot cyfiawnhad yn dyvot yn vnic o rad Duw gan ffydd yn Iesu Christ, ac nyd gan weithredoedd y Ddeddyf.

* *goddi, geryddu, veio ar*
‡ *ddevnydd*

YNO * ar ben pedair blynedd ar ddec *gvvedy*, yr ‡ aethym y vyny drachefn i Caerusalem y gyd a Barnabas, ac a gymerais y gyd a mi Titus hefyt. Ac * a escen*d*ais gan *dd*atymguddiat, ac a gyd esponiais ac wynt yr Euangel yr hon yddwyf yn ei phrecethu ym-plith y Cenetloedd, eithr ‡ o'r nailltu gyd ar ei oedd yn bennaf, rrac mewn vn modd y rhedwn, neu y rhedeswn yn * over: eithr na T*h*itus rhwn oedd gyd a my*vi*,

* ympen, yspeit
‡ escennais
* aethym i vyny drwy weledigeth
‡ wrthyn y hun
* ddiffrwyth

cyd bei ef Groecwr, ny chym*p*ellwyt yw enwaedu er yr oll ffeils vroder a ymluscesont y mewn: yr ei a ymdroscwyddesent y mewn i graffu ar ein rhydddit ni, 'sydd genym yn-Christ Iesu, er yddynt ein dwyn i gaethiwet. Yr ei ny chynwysesam ‡o ddarestyngedigeth *enhyd awr, val y trigei gwirionedd yr yr Euangel yn safadwy y gyd a chwi. A' chan yr ei a dybit eu bot yn vawr, *ny ddysceis ddim* (beth oedden wy gynt, ‡ny'm dawr i: ny chymer Duw *ansawd *vn* dyn) er hyny, yr ei pennaf ny chydesponiesant ddim a mi*vi*. Eithyr yn-gwrthynep, pan welesant ddarvot rhoi ato vi yr Euangel yr ei dienwaediat, val *y rhoesit* i Petr ar *yr ei* 'r Enwaediat: (can ys yr hwn oedd ‡nerthoc drwy *lavv* Petr yn yr Apostoliaeth *ar yr ei 'r* Enwaediat, oedd hefyt yn nerthoc trwy*ddo*fi*ne* yn-cyfor y Cenetloedd) a' phan wybu Iaco, a' C*h*ephas, ac Ioan am y rat a roddwyt i mi, yr ei a gyfrifir eu bot yn golo*f*nae, wy roesant i mi ac i Barnabas ddeau ddwylaw cymddeithas, val *y byddei y ni precethu* ir Cenetloedd, ac wynteu ir *ei* or Enwaediat, *gan rybuddio* yn vnic *ar vod* yni goffau 'r tlodion: yr hyn hefyt yr oeddwn yn astud yw wneuthur.

A' gwedy dyvot Petr i Antiocheia, *mi* *y gwrthsefais ef yn *ei* wynep: can ys y vot ar vai. O bleit cyn dyvot 'rei ywrth Iaco, ef a vwytaei gyd a'r Cenetloedd: anyd gwedy y dyvot *h*wy, ef a *enciliawdd ac ‡ymhanodd *yvvrthynt*, can *iddo* ofni *rac* yr ei oeddent o'r Enwaediat. A'r Iuddaeon eraill cydffuantu ac ef a wnaethant, yd y n y dducit Barnabas yw ffuant wy hefyt. Eithyr pan welais, nad oeddent yn troedio yn vnion at 'wirionedd yr Euangel, y dywedais wrth Petr yn-gwydd pawp *oll*, A's tü*di* ac yn Iuddew wyt yn byw mal y Cenetloedd, ac ny*d* mal yr Iuddeon, paam y cympelly *ni* y Cenetloedd y *vyw mal yr Iuddeon? Ny*ni y savvl ym* Iuddeon ‡wrth anian, ac nyd pechaturieit o'r Cenetloedd, a wyddam na chyfiawn*heir* dyn gan weithredoedd y Ddeddyf, anyd gan ffydd Iesu Christ: 'sef *ny*ni *meddaf*, a credesam yn Iesu Christ, mal in cyfiown*h*eid y gan ffydd Iesu Christ, ac nyd gan weithrede*dd* y Ddeddyf, o bleit gan weithrede*dd* y Ddeddyf ny chyfiawn*h*eir vn *cnawt. Ac a's wrth geisio cael ein cyfiawni trwy Christ, in ceffir ni*nheu* yn pechaturieit, a *yty*w Christ *gan hyny* yn wenidoc pechot? ‡Ymbell oedd. Can ys a's adeilaf drachefn y petheu a ddinistr-

‡ selu, syllu
* gan, drwy
‡ gymeint ac awr,
* nyd, gwaeth geny vi
‡ *prosopon*, personam
* 'rymus
* bilere
‡ a sefeis yn ei erbyn gwrthleddais
* ledtynodd
‡ ymyscarodd
* Iuddewu
‡ o natur
* 'sef dyn
‡ Na'ato Duw

* drespaswr anghyfreith-iwr, draws
‡ wyf

ais, ydd wyf yn gwneuthur vyhun yn *drosedd wr. Can ys *my*vi trwy'r Ddeddyf ‡vum varw ir Ddeddyf, *ac* val y bawn byw y Dduw, im crogwyt y gyd a Christ. Val hyn byw ytwyf *eto*, nyd my*vi* yr awrhon, eithr Christ 'sy vyw yno vi: ac am y byw ddwy 'r owrhon yn y cnawd byw ddwyf gan ffydd ym-Map Duw, yr hwn a'm carawdd, ac ei rhoddes y hunan y trosof. Nyd wyf yn dirymi*o* rrat Duw: o bleit a's ywrth y Ddeddyf y *mae* cyfiawnder, yno y bu varw Christ eb achos.

## Pen. iij.

**Mae ef yn ei ceryddy hwy yn dost, Ac yn provi wrth lawer o resymae vot cyfiawnat yn dyvot y can ffydd, Val y mae yn eglur wrth esempl Abraham, Ac wrth swydd, a' theruyn y Ddeddyf, A' ffydd.**

* rivodd
‡ chredech, uvyddhaech
* rac argaph-wyt

A GALATIEIT ynfidion, pwy a'ch *llygatdynawdd chwi, val na ‡'lynech wrth y gwiri*onedd*, i ba 'r ei y *racyscythrwyt, Iesu Christ o vlaen eich llygait, *ac* yn eich plith y crogwyt? Hyn yn vnic a chwenychwn ei ddyscu genwch, *Ai* wrth weithre*dd* y Ddeddyf yd erbyniesoch yr Yspryt, ai wrth glywet *precethu'r* ffydd? *A* ytych mor ynfydion, a' gwedy ywch ddechreu yn yr Yspryt, y mynech yr awrhon eich perffeithio gan y cnawt? *A* ddyoddefesoch-*vvi* gymeint o betheu yn over? ac a's yn over *yvv*. Yr hwn gan hyny 'sydd yn trefnu ywch yr Yspryt, ac 'sy'n gwneuthur gwyrthieu yn eich plith, *a vvna ef hyny* wrth weithrede*dd* y Ddeddyf, ai wrth glywet y ffydd *gvvedy hei phrecethu? Nid amgen* megis y credawdd Abraham y Dduw, ac ei cyfrifwyt y-ddaw yn gyfiawnder. Gwybyddwch gan hyny, mae yr ei y 'sydd or ffydd, yr ei hyn yw plant Abraham. Can ys yr Scrythur yn rac welet, y cyfiawnei Duw y Cenetloedd trwy ffydd, a rac euangelawdd i Abraham, *gan ddyvvedyt*, Yno-ti y bendithir yr oll Genetloedd. Ac velly yr ei '*sydd* o'r ffydd, a vendithir y gyd a'r ffyddlawn Abraham. Can ys cynniuer ac ynt o weithre*dd* y Ddeddyf, y dan velltith y maent: can yscrivenedic yw, *Ys* malldigedic pop vn nyd erys yn yr oll petheu, a yscrivennir yn llyfer y Ddeddyf, y'w gwneuthur *vvynt*. Ac na chyfiawnir neb*un* wrth y Ddeddyf yn-golwc Duw, amlwc yw: can ys y cyfiawn vydd-byw *wrth ffydd. A'r Ddeddyf nyd yw o ffydd: eithyr y dyn a wnel y petheu hyny, a vydd byw yntynt

* gan

*vvy.* Christ a'n prynawdd *ni* ‡ywrth velldith y Ddeddyf, pan wnaethpwyt ef yn velldith trosam, (can ys y mae 'n scrivenedic, *Ys* malldicedic pop vn 'sy ynghroc a'r bren) val y delei vendith Abraham ar y Cenetloedd trwy Christ Iesu, val yd erbyniem addewit yr Yspryt trwy '*r* ffydd. Broder, dywedyt ydd wyf val *y gvvna* dynion, Cyd na bo an*d* am*b*ot dyn gwedy y cadarnheir, *eto* ny ddirymia neb ef, ac ny *ddyd dim wrtho. Weithion i Abraham ac ‡y'w had y gwnaethpwyt y gaddeweidion. Ny ddywet ef, Ac i'r hadae, megis *yn dyvvedyt* am lawer: eithyr, Ac ith *had *ti*, megis am vn, yr hwn yw Christ. A' hyn a ddywedaf, am y Ddeddyf yr hon oedd petwarcent a dec blynedd ar vcain gwedy, na ddichon *hi* ddiddymio yr ‡Am*b*ot yr hon a racgadarnheit gan Dduw erwydd Christ, val y dirymia hi yr addewit. O bleit a's o'r Ddeddyf *y mae* 'r etiveddieth, nyd *yvv ynteu* mwy *wrth y gaddewit, eithr Duw a roddes *yr etiueddieth* i Abraham wrth 'addewit. I ba beth gan hyny *y gvvasanaetha* 'r Ddeddyf? O bleit ‡trosoddeu y doded *y* hi, y'n y ddelei yr had *hvvnvv* y gwnaed yr addewit yddaw: ac y hi a ordeiniwyt gan Angelion *yn llaw Cyfryngwr. A' Chyfrynggwr nyd yw ‡i vn: eithyr Duw 'sydd vn.

*A yvv 'r* Ddeddyf gan hyny yn erbyn yr a ddeweid*ion* Duw? *Ymbell oedd: Can ys pe rhoesit Deddyf a allesei ‡beri bywhau, yn wir e vesei cyfiawnder o'r Ddeddyf. Eithyr yr Scrythur '*lan* a argaeawdd yr oll *petheu* y dan pechot, y'ny rodddit y gaddewit *wrth ffydd Iesu Christ ir sawl a credant. Eithr cyn *na* dyvot y ffydd, in cedwit y dan y Ddeddyf, ac in goarcheit ir ffydd, a *dd*atguddit rhac llaw. Ac velly y Ddeddyf oedd ein *h*athro *in dvvyn* at Christ, val in cyfiawnheit ni wrth ffydd. Eithr wedy dyuot y ffydd, ny*d* ym ni mwy*ach* y dan athro. Can ys chwi oll'sy *yn* plant *i* Dduw gan *y* ffydd yn-Christ Iesu. Can ys *chvvychvvi* oll a'r a vatyddiwyt ‡i Christ, a wiscesoch Christ. Nyd oes nac Iuddew na Groecwr: nid oes na chaeth na rrydd: nyd oes na * gwrryw na benyw: can ys yr vn y*d*yw-chwi oll yn-Christ Iesu. Ac a's ‡i Christ *yddyvvch*, yno ydd ywch yn had Abraham, ac yn etiueddion *wrth addewit.

‡ rrac

*Yr Epistol y xiij. Sul gwedy Trintot.*

*'osyt, rydd

‡ yddy

*hedyn

‡ testament, dygymot

*gan

‡ camweddeu, angyfraithieu

*trwy

‡ rhwng

*Na ato Duw

‡ roi bywyt

*trwy, gan

‡ yn

*mab na merch

‡ Christ ach pieu

*can

## Pen. iiij.

Dangos y mae paam yr ordiniwyt y ‡ceremoniae. Yr ei ac hwy yn wascodae a orvydd yddyn dervynu pan ddel Christ y disglaer wir-

‡ *cynneddfeu*

ionedd. Mae ef yn y hanoc wy drwy ryw gygcorion, Ac yn cadarnhau ei ddadl ac esempl gadarn neu ddamec.

*Y Sul gwedy Natalic*

* vab
‡ er y vot
* oll, ar cwbl
‡ tutorion, arffedogion

WEITHIAN meddaf, tra vo'r etivedd yn *vachcen, nyd oes goh*aieth* rhyngto a gwas, ‡cyd bo*d* ef yn Arglwydd *pawp *dim*, eithr y mae ef y dan ‡ ymgleddwyr a' llywodraethwyr, y*d* y pryd a 'osodes y tat: Ac velly ni*nheu* pan oeddem vechcin, oeddem yn gaith*ion* y dan y gwyddorion y byt. Eithr gwedy dyvot cyflawnder yr amser, yd anvones Duw ei Vap yn wneuthuredic o *wreic, ac yn wneuthuredic y dan y Ddeddyf, val y prynei ef yr ei oedd y dan y Ddeddyf, val y gallem *dd*erbyn y *braint* ‡mabwrieth. A' chan eich bot yn veibion, yd anvonawdd Duw Yspryt ei Vap ich calonheu, *rhvvn* 'sy yn llefain, Abba, Dat. Ac velly nyd wyt mwy was, amyn map: ac a's map, *yr vvyt* hefyt yn etiuedd *i* D*d*uw trwy Christ. Sef y pryd, nad adwaenech*vvi* Dduw, y gwasanethech yr ei, *wrth anian nyd yyn dduwieu. Ac yr awrhon a chwi yn adnabot Duw, and yn hytrach yn adnabodedic gan Dduw, pa wedd yr ymchwelesoch drachefn at egwan a' *thlodion 'wyddoreu, yr ei y mynwch ymgaethiwo yddynt drachefn yn *eich* ‡gwrthgarn? Cadw *diernodie ydd ych, a' misoedd, ac amseroe*dd*, a' blynydde*dd*. Mae arnaf ofn am dano'ch, rac darvot i mi ‡lafurio wrthych yn over. Byddwch val vy*vi*: can ys mi*vi* '*sydd* val chwi*chvvi*: broder, atolwc yw'ch: ny wnaethoch ddim *eniwed i mi. A' gwyddoch, pan-yw trwy wendit y cnawt yr euangelais ywch ‡y waith gyntaf. A' phrawf*iad* o hanof yr hyn *oedd* yn vy-cnawt, ny ddirmigesoch, ac ny *'omeddesoch: anyd val Angel Duw, *ie* val Christ Iesu im *d*erbyniesoch. Pa *vn* yno oedd eich dedwyddwch? can ys ydd wy'n test ywch, pe besei possibil, y tynnesech allan eich llygait, ac y rhoesech i mi Aethym i gan hyny yn 'elyn ywch, o bleit i mi ddywedyt y gwir ywch? Y maen hwy *yn eiddigedu*s* drosoch ‡nyd yn iawn*vodd:* eithr hwy vynent eich cau *chvvi* allan, val y bei chwi **vot* ac eiddigedd am danynt wy. Eithr peth ‡da*onus* yw cwbl garu yn wastad ym-*p*eth da*onus*, ac nyd yn vnic pan wyf *wydd-yn-gwydd a' chwi, vy-*p*lant-bychein, yr ei 'rwyf eilwaith yn eu *h*escor, *yd* y'n y ‡ffurfer Christ ynoch. A' mynnwn vy-bot y gyd a chwi yr awrhon, val y gallwn newidio vy *llef: can ys ‡petrusaw ydd wyf am danoch. Dywedwch i mi, yr ei a vynnwch vot y dan y Ddeddyf, a ny chlywch y Ddeddyf? Can ys

* bun, wreic nith, verch
‡ mab-wys, cyn-wys

* o natur

* angenoc, eisieuedic, rheidusaidd
‡ or dechreu o newydd
* dyddieu
‡ drafaelu

* camwedd
‡ yn y blaen

* wrthnebesoch, wrthodesoch

* ich gorddercho
‡ ar gam, ynghan,
* yn gorllwyn
‡ tec, prydverth gwiw
* yn presentol, yn gydrychiol gyd a chwi
‡ lunier
* llais
‡ amheu, dowto

mae'n yscrivenedic, vot i Abraham ddau vap, vn o wasanaethwreic, ac vn o'r wreic-rydd. Eithyr hwn oedd o'r wasanaethwyr, a anet *erwydd y cnawt: a' hwn oedd or wreic rydd, *a aned* wrth yr addewit. Wrth y petheu hyn y dyellir peth arall: can ys *mamæ* hyn yw'r ddau ‡Testament, vn yr hon yw Agar o vynyth Sina, '*sy* yn cenedlu i gaethiwed (can ys Agar *neu* Sina mynyth yw yn Arabia, ac y maeyn *cyf*atep i Gaerusalem ys yd yr awrhon) ac y mae yn gaeth hi ai phlant. Eithr Caerusalem *vcho*d* y sy rydd: yr hon yw 'n mam ni oll. Can yscrivenedic yw, Llawenha *dydi* ‡ddiepil yr hon nyd wyt yn *planta: tor allan a' llefa, yr hon ny*d* wyt yn escor: can 'ys ir ‡ddiffaeth y mae mwy o lawer o blant, nac *i hon sy a gwr yddi. Can hyny vroder, ydd ym ni vnwedd ac Isaac, yn plant yr addewit. Eithr megis y pryd hyny hwn a anet ‡erwydd y cnawt, a ymlidiai yr vn *a aned* erwydd yr yspryt, ac velly yr awrhon. Eithr pa ddywait yr Scrythur? Bwriwch allan y wasanaethwreic *hi* a'i map: can na bydd map y wasanaethwreic *yn* etiuedd gyd a map y *vvreic* rydd. Can hyny vroder, nyd ym ni veibion y wasanaethwreic, any*d* y *vvreic*-rydd.

*Yr Epistol y iij. Sul yn y Grawys*
* ar ol
‡ Ddygymbot
* vry
‡ anvap, hesp
* planny
‡ ddiwrioc
* ir wrioc
‡ ar ol

## Pen. v.

Mae ef yn ceisio y tynnu hwy ywrth yr Enwaediat. Ac yn dangos yddyn yr ymladd rhwng yr Yspryt ar cnawt, a' ffrwytheu pop vn o'r ddau.

SEFWCH-*yn-safadvvy* yn y rhydddit y*n* rhyddaodd Christ ni, ac na *rwyder chwi drachefn ac iau caethiwet. ‡Nacha, mi Paul a ddywedaf wrthych, a's *chvvychvvi* a enwaedir *arnoch*, ny ‡vuddia Christ ddim ywch. Can ys test*i*af drachefn i bop dyn, yr hwn a enwaedir *arno*, y vot ef yn *rhwym y gadw 'r ‡Ddeddyf oll. Chwi *ach* *ymddadwnaethoch y wrth Christ: pa 'r ei pynac ich cyfiawnir gan y Ddeddyf, *ys* cwympesoch y wrth rat. Can *ny*ni trwy 'r Yspryt ym yn ‡gwilied am 'obeith cyfiawn*h*ad wrth ffydd. Can ys yn-Christ Iesu nac Enwaediat ny *vuddia ddim, na dienwaediat, any*d* ffydd yr hon a waithia ‡trwy gariat. Yr oeddech yn redec yn *brydverch: pwy ach rwystrodd, val na*d* ‡vvyddhaeth ir gwir*onedd?* Nyd *yvv'r* *grediniaeth hon ywrth *yr* hwn a'ch gailw. Ychydic ‡surdoes a sura yr oll *does. Mae geny vi 'obeith am danoch trwy 'r Arglwydd, na byddwchwi

* ddalier
‡ Wele
‡ Iesa, phrofitia
* ddyledwr
‡ cwbl or Gyfreith
* ymddileusoch, ymddirymiesoch
‡ dysgwyl
* thal
‡ gan
* dec dda
‡ chredecst
* cygcor hwn
‡ leven
* delpyn

o ddim meddwl amgen: eithyr hwn 'sy*dd* ich trallodi *chvvi*, a ddwc *ei* varn*edigeth*, pwy *'n* pynac *vo. Ac a's mivy, vroder, 'sydd eto yn precethu *'r* Enwaediat, paam ydd ys eto im ymlid? velly ef ‡*dd*adwnaed *tramcwydd y ‡groc. Och *dduvv* na thorit ymaith yr ei ach aflonyddant. Can ys vroder, ich galwyt chwi i rydddit: yn vnic nac *arvervvch eich* rydddit yn * achos ir cnawd, eithr ‡gan gariat gwasanaethwch *bavvb* y gylydd. Can ys yr oll Ddeddyf a gyflanir yn vn gair, 'sef yn hwn, ‡Cery dy gymydawc mal tu*h*un. A's *ynte* *cnoi ac yssu y gylydd a wnewch, ymogelwch rac ‡ymddifa gan y gylydd.

Wrth hyny y dywedaf, Rodiwch yn yr Yspryt, ac na vid ywch gyflanwy trachwanteu y cnawt. Can ys y cnawd a drachwenych yn erbyn yr Yspryt, a'r Yspryt yn erbyn y cnawt: a'r ei hyn a *gyverbyniant y gylydd, val na alloch wneuthur cyfryw betheu ac a vynnech. Ac a's ‡arweinir chwi y gan yr Yspryt nyd *ydych* dan *y* Ddeddyf. Sef gweithrededd y cnawd 'sy amlwc, yr ei ynt, tori-priodas, *godineb aflendit, ‡nwy*fiant*, delw addoliat, *swyno, ‡casinep, ‡cynnennu, *gwynvydu, llit, ymgeiniae, tervyscae, *cam*-opinionae, cenvigenn*æ*, lladdiadac, meddtot, ‡glothinep, a'r cyffelyp petheu *hyn*, am pa 'rei y rac ddywedaf ywch, megis ac y rac ddywedais *yvvch*, na bydd ir ei a wna'r cyfryw *betheu*, veddy*annu* teyrnas Duw. Eithr ffrwyth yr Yspryt yw cariat, llawenydd, *tangneddyf, ‡an mynedd*d*, tiriondep, dayoni, ffydd*londep*, *gwarder, ‡artem*p*r yn erbyn y cyfryw nyd oes vn D*d*eddyf. Can ys 'rei *yddo* Christ, a grocesont y cnawnt *gyd* a'u *wniae ai *dra*chwantae. A's byw *yd*ym yn yr Yspryt, rhodiwn hefyt yn yr Yspryt. Na ddeisyfwn ‡wac 'ogoniant, gan ymannoc eugylydd *ac* yn *ym*-genuigennu wrth eu gylydd.

* yw
‡ ddilewyt, e
* darvu am
‡ galanas, atcasrwydd ywrth y groes
* echlysur, ddevnydd
‡ trwy
‡ Car
* brathu
‡ ymdreulio
*Yr Epistol y xiiij. Sul gwedy Trintot.*
wrthnebant
‡ tywysir, arweddit
*ffornicrwydd, puteindra
‡ anlladrwydd
* cyvaredd, Rinie
‡ gelyniathe, galanas ne ddigasedd
* cenvigenneu
‡ ynyta
* heddwch
‡ hwyr-ddic, ne hir oddef
* affeithieu
‡ clodorwac

## Pen vj.

Mae ef yn eiriol arnynt vot yn voneddigaidd wrth y gweinion, A' dangos ei cariat broderawl ai cymesurdep: Hefyd ar ymgleddu o hanynt wenidogion ei Eccles, Bot parhau, Ymhoffi yn ‡croc Christ, I adnewyddiat bywyt, Ac yn y dywedd y mae yn damunaw yddynt wy y gyd a'r ffyddlonion eraill oll lwyddiant.

‡ *croes*

BRODER, a's go*r*ddiwedwyt dyn *mewn ryw vai, *chvvy*chwi ysy yn sprytawl, cyweir*i*wch y cyfryw *vn* ac yspryt gwarder, gan dy ystyried tuhun, rac dy temto di*the* hefyt. *Dygwch ‡*drym*veichiae y gylydd, ac velly cyflanwch Ddeddyf Christ. O bleit a's tyb*ic*

* Arweddwch
‡ lwytheu

neb y vot yn ddim, ac *ynt*ef eb vot yn ddim, y mae
wedy ei dwyllo gan ei dyb ei hun. Eithr provet pop
vn y'waith y*h*unan, ac yno y bydd ganthaw 'orvoledd
yno y*h*un yn vnic ac nyd yn eraill. Can ys pop vn a
ddwc y vaich y*hunan*. Bit i hwn a ddyscwyt yn y
gair, wneuthur hwn y *dyscawdd ef yn gyfranoc ou * dangosoedd
oll dda. Na thwyller chwi: ny watworir Duw: can
ys pa beth pynac a heua dyn, hyny a ved ef hefyt.
Can ys hwn a heua ‡y'w gnawt, o'i gnawt y med lwgr- ‡ yddy
*edigeth:* eithr hwn a heuo ir yspryt, or yspryt y met
vywyt tragyvythawl. Na vlinwn gan hynny yn yn
gwneuthu dayoni: can ys yn ei *briavvd*-*amser y * bryd
metwn, a ddieithr i ni ‡ddefficio. A chan hyny tra vo ‡ lescau
i ni amser, gwnawn dda*ioni* i bop dyn, ac yn enwedic yr
ei, 'sy duylwyth y ffydd.

Welwch *ehelaethet y llythyr a escrivenais atoch * veint, hyd
a'm llaw vyun. Cynniuer ac a vynnent wneuthur *Yr Epistol y xv. Sul gwedy Trintot.*
wynep-*tec* yw'ch yn y cnawt, 'sydd ich cym*p*ell i vynnu
eich enwaedu, yn vnic val nad ymlidir hwy o bleit
*croc Christ. Can nad ynt wy ehunain yr ei a en- * croes
waedir, yn cadw y Ddeddyf, anyd deisyfu cael eich
enwaedu *chvvi*, val yr ymhoffent yn eich cnawt. Eithyr
na ‡bo i mi ddim 'or ymhoffi, anyd yn-croc ein Ar- ‡ ato Duw
glwydd Iesu Christ, gan yr hwn y crogwyt y byt i mi,
a' mi*nheu* ir byt. Can ys yn-Christ Iesu nac enwaediat
ny *vuddia d*d*im, na dienwaediat, anyd creatur newydd. * thal
A' chynniver ac a rodiant erwydd y rheol hon, tang- ‡ ar ol
neddyf *vydd* arnynt, a' thrugaredd, ac ar*uchaf* Israel
Duw. O hyn allan na *volested neb vi: can ys * thrwbled
dwyn yddwyf yn vy-corph nodae ein Arglwydd Iesu. ‡ arllwybre
Vroder, Rat ein Arglwyddd Iesu Christ *a vo* gyd a'ch
yspryt, *Amen.*

At y Galatieit yr yscrivenwyt *hvvn* o Ruuein.

---

# EPISTOL PAUL
## AT YR
# E P H E S I E I T.

### YR ARGVMENT.

Tra ytoedd Paul yn-carchar yn Ruuein, yr ymyrhei gau ddyscawdwyr ym-plith yr Ephesieit, yr ei a lygrent yr iawn ddysceidaeth a ddyscesei ef yddynt, erwydd pa bleit yr escrivenawdd ef yr epistol hwn, yw cadarnhau hwy yn y peth, y ddyscesent ganto. Ac yn gyntaf ar ol ei ym-

anerch, y mae ef yn y diogelu hwy am iachawdwrieth, can y bot wy gwedy eu rhac dervynu gan rydd etholedigeth Duw, cyn na ei geni, ac yn inseliedic i vywyt tragyvythawl trwy yr Yspryt glan, gwedy ei roddy yddynt gan yr Euangel, gwybodaeth yr hyn ddirgelwch, y mae ef yn gweddiaw ar Dduw ei gadarnhau yn ei cyfor. Ac er mwyn nad ymhoffent ynddynt y hunain, mae yn dangos yddynt ei trueni eithaf, yn yr hyn ydd oeddent yn soddedic cyn nac yddynt adnabot Christ, megis popl eb Dduw, Cenetloedd rei ny wnethit addewit yddynt, ac er hyny wrth rydd drugaredd Dduw yn-Christ Iesu, yr iachawyt hwy, ac ei ordeiniwyt yntef yn Apostol yddynt, megis ir oll Genetloedd eraill: am hyny y mae ef yn deisyfu ar Dduw'oleuhau calonae yr Ephesieit a pherfeith ddyall y Vap ef, ac mae'n cygcori yddyn hefyd goffau y dirvawr ddoniae, ac na chynnyrfont gan y gau ebestyl, yr ei 'sy yn ceisio dadchwelyd y ffydd hwy, a' *missing yr Euangel dan draet, yr hon ny phregethwyt yddynt wy, megis wrth ddamwain nei ddigwydd, anid erwydd tragyvythawl gyfrinach Duw: yr hwn wrth y modd hyn ysydd yn cadw yn vnic ei Eccles. Ac am hyny y mae'r Apostol yn canmol ei wenidogeth, can y Dduw wrth hyny deyrnasu ym plith dynion, ac yn peri yddei ddwyn ffrwytheu aml, megis gwiriondep, saincteidwydd, y gyd ar oll swyddeu a berthynant i ddwywoldep. Yn ddywethaf oll nyd yw ef yn declaro yn vnic yn gyffredin pa vuchedd a ddarparei vot ir Christianogiou, and mae'n dangos hefyd yn 'ohanredol, pa betheu a perthyn i 'alwedigeth pop dyn.

*sathru

## Pen j.

Ar ol ei ymanerch, Y mae yn dangos vot yr achos pennaf oi iachawdwrieth hwy yn sefyll yn rydd etholedigeth Duw trwy Christ. Mae ef yn dangos ei wyllys da yn ei cyfor hwy, gan ddiolwch a gweddiaw Duw dros y ffydd hwy. Mawredd Christ.

PAUL Apostol Iesu Christ, gan ewyllys Duw, at y Sainct*æ*, yr ei 'sy yn Ephesus, ar ffyddlonion in-christ Iesu: Rat *a vo* gyd a chwi, a' thangneddyf, y *gann Dduw ein Tat, a' *chan* yr Arglwydd Iesu Christ. Bendigedi*c vo* Duw 'sef Tat ein Arglwydd Iesu Christ, yr hwn a'n bendithiawdd a phob bendith ysprytawl yn nef*olion* yn Christ, megis yd etholes ef *ny*ni ynddaw ef, cyn *na* sailiat y byt, val y byddem sanctaidd, ac yn ‡ddiargywedd geir y vron ef yn-cariat: yr hwn a'n rac dervynawdd ni, i *vabwrieth trwy Iesu Christ yddo ehun, erwydd gwirvodd y ewyllys ef, er moliant gogoniant ei rat, ‡trwy 'r hwn *rat* y cymeradwyawdd ef *ny*ni yn *ei* garedic, *y* gan yr vn y mae i ni brynedigeth trwy y waed ef, *nid amgen* y madduant pechotae, erwydd y *'oludawc rat ef: a'r hwn y bu ef yn ‡am*p*l yn ein cyfor ym pop doethinep a' dyall, ac a egorodd i ni *ddirgelwch ei wyllys erwydd ei ‡rad vodd, rhwn a *lunieithesei ef ynddaw, *nid amgen* yn llywodraeth *cyf*llawnder yr amsere*dd vod* yddaw gyd gynull yn vn bop peth, ac a'r ysydd yn y nefoedd, ac a'r ys ydd yn y ddaiar, *sef* yn-Christ: yn yr hwn hefyt

* wrth
‡ ddigwliedic, ddivei
* vab-wys, tadwys, tadogeth
‡ ar, gan
* gyfoethoc
‡ helaeth
* mysteri
‡ wirvodd, vodlonrwydd
* bwrposesei, osodesei, arvaethesei

in ‡_d_etholwyt pan in rac dervynwyt erwydd ei rac ‡ dywiswyt
*osodiat ef, yr hwn a weith_reda_ bop dim ‡erwydd * luniaeth, ar-
cygcor y wyllys ehun_an_, pan yw i ni, yr ei cyntaf a vaeth
'obeithesam yn-Christ, vot er mawl y 'ogoniant ef: yn ‡ ar ol
yr hwy hefyt _y gobeitheso-chvvitheu_ gwedy ywch glywed
gair y gwirionedd, '_sef_ Euangel ein ieched_vvrieth chvvi_,
yn yr hon hefyt gwedy ywch gredu, ich _in_seliwyt ‡ac ‡ a'r
Yspryt glan y gaddewit, yr hwn yw *ernes ein etiu- * gwystl
eddiaeth, hyd brynedigeth y ‡meddiant _a bvvrcasvvyt_ ‡ gorescyn
er moliant y 'ogoniant ef. Erwydd paam hefyt, gwedy
i mi glybot _son am_ y ffydd, 'sy genwch yn yr Arglwydd
Iesu, a'r cariat *_ar_ ir holl Sainct_æ_, nyd wy 'n ‡peidio * ynghyfor
a dyol_vv_lch drosoch, gan eich coffa_u_ yn vy-gweddiae, ‡ gorphwys
ar _vod_ y Duw ein Arglwydd Iesu Christ, Tat y go-
g̀oniant, roddy i chwi Yspryt doethinep, a' _d_atgudd_iat_
trwy y gydnabyddiaeth ef, a'r 'oleuo *llygait eich dyall * golwc
val y gwypoch pa _vn_ yw gobaith y *alwedigeth ef, a' * alwad
pha _vn yvv_ golud y 'ogoneddus etiueddiaeth ef yn y
Sainct_æ_, a' pha ‡_vn_ yw y tra mowredd y veddiant ef ‡ _leth_
yn ein cyfor, yr ei a gredwn, erwydd gweithred_iat_ ei
*gadr-nerth ef, yr hynn a weithiawdd ef yn-Christ, * gadarn
pan y cyfodawdd ef o veirw, ac e dodawdd ar ei dde- nerthowg-
heulaw yn y ‡nefoedd, *tragoruwch oll llywodraeth, rwydd ‡ nefolion
a' meddiant, a' gallu, ac Arglwyddiaeth, a' phop Enw, * ympellwch
a'r a enwir, nyd yn y byt hwn yn vnic, anyd hefyt yn pen
yr hwn ‡'sy ar ddyvot, ac a ddarestyngawdd bop dim ‡ a ddaw
dan y draet, ac y dodes ef goruch pop dim _y vod_ yn
ben ir Eccles, yr hon yw y gorph ef, '_sef_ y gyflawnder
ef yr hwn 'sy 'n cyflanwy *pop peth ym-pop peth. * yr oll betheu

## Pen ij.

Bod mawrygu Rat Christ, rhwn yw vnic achos iechedwrieth. Ȳ mae yn dangos yddyn pa sut popul oeddynt cyn ei gorymchwel, A' pha suwt ydyn yr awrhon yn-Christ.

A CHWI _THEU_ a _vyvvocaodd ef_, yr ei oeddech
wedy meirw yn-camweddae a' phechotae, yn yr
ei, gynt y rhodiech *erwydd helhynt y byt hwn ‡ac * ar ddull
erwydd y tywysoc a lywa_draetha_ yn yr awyr, '_sef_ yr ‡ ar ol
yspryt, 'sy owrhon yn gweithiaw ym-plant anuvydd_dot_,
yn cyfrwng pa rei ydd oeddem ni_nheu_ hefyt yn *cydtro * treiglo, cyttal
gynt, yn _tra_chwantae ein cnawt, gan wneuthur 'wyllys_e_
y cnawt, a'r meddwliae, ac oeddem wrth ‡anian yn ‡ natur
blant *digo_feint_, yn gystal ac eraill. Eithr Duw yr hwn * llid, soriant

'sy ‡'oludoc yn-trugaredd, trwy ei vawr gariat a'r y*n* carodd ef ni, a' phan oeddem wedy meirw gan pechotc, a'n cyd vywhaodd ni yn-Christ, *gan rat pa vn* yr iach-awyt chwi, ac *an* cyd gyvodes, ac *a'n* *cyflehaod yn y nef*olion leoedd* yn-Christ Iesu, val y dangosei yn yr oesoedd rhac llaw y dirvawr ‡olud y rat ef, trwy ei garedigrwydd y *nyn*i in-Christ Iesu. O bleit can *rat yr iacheir chwi trwy ffydd, a' hyny ny*d* o hanoch y-hunain: ‡dawn Duw ydyw. Nyd *o weithrede*dd*, rac y neb ymhoffy. Can ys y weith*red* ef *ydym* wedy ein creau in-Christ Iesu y weithrede*dd* da, yr ei a ‡ddarparodd Duw, val y rhodiem ynthwynt, Erwydd paam cofiwch ych bot gynt yn Genetloedd yn-y cnawt, ac ich gelwit yn ddienwaediat gan yr ei'n, a elwir *yr* Enwaediat yn-y cnawt, o waith *dvvy*llaw, eich bot, *meddaf*, y pryd hyny eb Christ, ac yn ddieithredic y wrth wladwrieth Israel, ac yn estronieit ywrth yr am-*b*odae'r addewit, ac eb obeith genwch, ac yn *rei* d*di*-dduw yn y byt. Ac yr awrhon in-Christ Iesu, yr ei oeddech gynt ym-pell, *a wnaethpwyt yn agos*eieit*, '*sef* trwy waed Christ. Can ys efe yw'n tangneddyf, rhwn a wnaeth y ddoy*blaid* yn vn, ac a ddatododd *y* gay*ad* y ‡rhan-baret, gan *ddirymio trwy y gnawd ef y ‡gelyniaeth, '*sef* Deddyf y gorchymynnae *yr hon 'sy yn hanuod* o *'ordinadeu, y ‡wneuthur y ddau yn vn dyn newydd ynddo yhun, *gan* wneuthur tangneddyf *velly*, ac val y *cysiliai ef y ddau a Duw yn vn corph gan *y* ‡grog*iad ef*, a'lladd *gelyniaeth wrthei, ac a ddaeth, ac a ‡Euangelawdd dangneddyf ywch 'yr ei oeddech ym-*p*ell, ac ir ei oedd*ech* agos*ieid*. Can ys trwy*dd*aw ef y mae i ni y *ddwyblaid dywysogeth at y Tat ‡gan *yr* vn Yspryt.

Weithion gan hyny nyd yw-ch' mwy ddieithreit a' dyvodieit: amyn *cyt*dd*inasieit a'r Saincte*æ*, ac yn ‡duylwyth *tuy* Duw, ac wedy *eich* adaila*d* ar *sail-*vaeniad* yr Apostolion a' Prophwyti, ac *ynt*ef Iesu Christ *yn bod* yn ‡ben congl*faen*, yn yr hwn yr oll adail*ad* wedy' gyssyltu, a dyf yn tem*pl* *sanctaidd ir Arglwydd, yn yr hwn hefyt y*ch* cyf adailwyt chwi *y vot* yn ‡drigfa*n* Duw *gan *yr* Yspryt.

‡ gyfoethoc
* cydosodes
‡ gyfoeth
* ras
‡ rhoddiat
* wrth
‡ ordeiniodd
* ich
‡ piniwn, vag-wyr genol
* ddadwneuthur, ddidymio
‡ digasedd
* ddefodeu
‡ greu
* cymmodei
‡ angeu
* galanas, digasedd
‡ bregethodd
* hyffordd-rwydd
‡ trwy
*Yr Epistol ar ddydd S. Thomas.*
* cyfwlad,
‡ deulu
* rowndawl
‡ sylvaen cyntaf
* lan
‡ breswylfa, gartref, drigle
* drwy

## Pen. iij.

Dangos y mae achos ei garchar. Deisyfu arnynt nad ymellyngent o ran y 'ovid ef, Ac erchi ar Dduw y mae ei cadarnhhan hwy yn ei Yspryt.

OBLEIT hyn *ydd yvv* vi Paul yn carcharor Iesu Christ dros-y-chwi y Genetloedd, a's clywsoch ywrth y llywodraeth y Rat Duw a roed·i mi ‡yn eich cyfor, *sef yvv hyny, bot Duvv* gan *dd*atguddiat gwedy dangos y dirgelwch hyn y-my (val yr scrivenais vcho*d* yn ychidic '*airiæ*, wrth yr hyn pan ddarllenoch y gellwch wybot vy-dyall yn-*d*irgelwch Christ) yr hwn yn oesoedd eraill ny's *eglurwyt i veibion dynion, val y mae'r awrhon wedy *dd*atguddiaw yw sainct Apostolion ef a' Prop*h*wyti gan yr Yspryt, '*sef* bot y Cenetloedd yn gyd etiueddion hefyt, ac yn cydcorph, ac yn gyfranogion o y addewit ef in-Christ ‡gan yr Euangel, ir hon im gwnaed i yn wenidawc *gan *y* d*d*awn y Rat Duw a roed y-my erwydd ‡grym y veddiant ef. *Sef* y mi*vi* y lleiaf o'r oll Sainct*æ* y rhoddwyt y Rat hwn, ar vot i mi *Euangelu ym-plith y Cenetloedd ‡anchwiliadwy 'olud Christ, ac y eglurhau y y bawp pa *vn* yw cymddeithas y dirgelwch, yr hwn o ddechreu*ad* y byt oedd guddiedic yn-Duw, 'r hwn a greawdd bop dim *trwy Iesu Christ, er mwyn bot yr awrhon ir llywodraethae ac ir meddiannae yn y *lleoedd* nef*olion* yn wybodedic *yddyn* trwy'r Eccles *yr* amryw*liavvs* doethinep Duw, erwydd y rrac ‡'osodiat tragyvythawl, 'rhwn a weithiawdd ef yn-Christ Iesu ein Arglwydd, y gan yr hwn y mae i ni *hyder a hyfforddrwydd wrth 'obaith, gan ffydd yndo *ef*.

Erwydd paam ydd archaf arnoch nac ‡ymellyngoch o bleit vy-blinderae *i* er eich mwyn, yr hyn yw eich gogoniant. O'r achos hyn y plygaf vy-glinieu ar Dat ein Arglwydd Iesu Christ, (o ba vn yr henwir yr oll *tuylwyth yn y nefoedd ac yn y ddaiar) val y rhoddo y-chwy erwydd golud eu 'ogoniant, megis ich nerther yn gadarn gan y Yspryt ef yn y dyn o*dd*ymewn, modd y trico Christ yn ych caloneu gan ffydd, mal gwedy eich gwreiddier a'ch ‡dysyler *yn-cariat, y boch abl y amgyffred y gyd a'r ol Sainct*æ*, beth yw lled, a' hyd a' dyfnder, ac ‡vche*l*der: a' gwybot cariat Christ, yr hwn 'sy *tros wybodaeth, val ich llanwer ac ‡oll *gyf*lawnder Duw. Iddaw ef can hyny *pwy a ddychon dra lliosocau bop peth ar archom *n*ai a veddyliom, *erwydd y meddiant 'sy yn gweithiaw ynom, *y bo* ‡gogoniant yn yr Eccles yn-Christ Iesu, trwy'r oll genetlaethae *yn* oes oesoedd. *Amen.*

*Yr Epistol ar ddie ystwyll*
‡ eroch, tu ac atoch
* gwybuwyt agorwyt
‡ trwy
* trwy
‡ gwaith
* bregethu, venegi
‡ anveidrol
* gan
‡ ddodiat, arvaeth, ddarpar
* ryddit
*Yr Epistol y xvi. Sul gwedy Trintot.*
‡ ddefficioch laesoch
* tadogeth, tadwys
‡ grwndwaler, grwnder
* mewn
‡ vchedd
* tuhwnt i
‡ llawnlloneit
* rhwn
* yn ol
‡ moliant

## Pen iiij.

Mae ef yn ei hanog i warder, hirddioddef, i gariat a' thangneddyf, Pop vn i wasanaethu ac adailad eu gylydd a'r dawn a roddes Duw yddaw, Gogelyd rac dysceidaeth ddiethr. Dody ymaith yr hen ymwreddiat y trachwanteu afradlawn, a' rhodio ym-buched newydd.

*Yr Epistol y xvij. Sul gwedy Trintot.*

MINEU gan hynny *y* carcharor *yn* yr Arglwydd atolygaf yw'ch *ar* rodio yn teilwng o'r 'alwedigeth ich galwyt, * ym-pop ‡ gestyngeiddtra-meddwl, a' ‡ thirionder mewn dyoddefgarwch, gan ymgynnal eu gylydd trwy gariat, gan astudiaw cadw vndep yr Yspryt yn rhwym*edigeth* ‡ tangneddyf. Vn corph *ysydd*, ac vn Yspryt, megis ac ich galwyt yn vn 'obaith eich galwedigeth. Vn Arglwydd *sy*, vn ffydd, vn Batydd, vn Duw, a' That *oll, yr hwn 'sy goruwch ‡ oll, a' thrwy * oll, ac ynoch oll.

(* gyd; ‡ iselder; * lledneisrwydd, mwynder; ‡ heddwch; * pawp; ‡ pop dim; * pop dim)

*Yr Epistol ar ddydd. S. Marc.*

Eithr i bop vn o hanam y rhoet *y* Rat, erwydd y mesur dawn Christ. Can hynny y dywait, Pan escen*d*awdd *y vynydd* ir vch*el*der, ef a * dduc *ganto* gaethiwed yn gaeth, ac a roddes ‡ roddion y ddynion. (Velly, am y-ddaw escen*dy*, pa *beth yd*yw, any*d darvot* yddaw hefyt ddescen*dy* yn gyntaf ir * partheu is*el*af or ddaiar? Yr vn a ddescen*d*awdd, yw 'r vn ac escen*d*awdd, tragoruwch yr oll nefoedd, val y cyflanwei ef bop dim) Ef gan hyny a roddes rei *y vot* yn Apostolion, a'r ei yn Prophwyti, a'r ei yn Euangelwyr, a'r ei yn Vugelydd, ac yn ‡ Ddyscyawdwyr, er * com*p*oni y Saincт*æ*, i waith, y wenidogeth, ac er adail*ad* corph Christ, yd y n y ‡ chyhyrddom oll (yn vndeb ffydd a' gwybodaeth Map Duw) yn wr * cwbl, *ac* ym mesur ‡ oedran cyflawnder Christ, val rhac llaw na byddom mwy*ach* *yn* plant, yn bwhwmman ac yn ein * trawsarwein gan bop ‡ awel dysceidaeth, wrth ddichell dynion, a' hocced, er * cynllwyn twyll. Eithyr dilynwn wirionedd yn-cariat, ac *ym*-pop peth cynnyddu yddo ef, 'rhwn yw y pen, 'sef Christ, y gan yr hwn y bydd ir corph gwedy *darvot* ei gom*p*oni ai gyssylltu ynghyt trwy' bob cymmal, er ‡ ymdrefny*at*, (erwydd y grym*ustr ysydd* ym-mesur pop * parth) dderbyn cynnydd ir corph, er ei adail*ad* yhun yn-cariat.

(* gaethiwodd &c.; ‡ ddonieu; * rhanneu; ‡ Doctorieit, Dyscodron Athrawon; * cynnyrch casclu, clcyt; ‡ chyfarfyddom; * perffeith; ‡ maint; * amgylch; ‡ gwynt; * bwriadu siomedigeth; ‡ ymgymenny, ymdrwsiat; * rhan, aelod)

*Yr Epistol y xix. Sul gwedy Trintot.*

Hyn ‡ ynteu a ddywedaf, ac a testiaf yn yr Arglwydd, na bo y chwi o hyn allan rodio *mvvy* mal y rhotia Cenetledd eraill, yn-gwagedd ei meddwl, ac ei meddwl*vryd* gwedy ei dywyllu, ac yn ddieithreit ywrth * vuched Dduw*iol* trwy'r anwybodaeth ysydd ynthwynt

(‡ gan hyny; * vywyt)

gan ‡galated eu calon*heu:* yr ei gwedy *ylldyn* ‡ddiddarbodi a ymroesont y *ddrythyllwch, y wneuthur*iad* pop aflendit, yn *vnchwant. Eithr chwi*chvvi* ny*d* velly y dyscesoch *vvrth* Christ. A's bu y chwi *ar* y glywet ef, ac o'ch ‡dyscwyt gantho, megis y mae'r gwirionedd yn Iesu, *sef* bot ychwi ddodi ymaith erwydd yr ymwreddiat gynt, yr hen ddyn *hvvnvv*, yr hwn 'sy lygredic *wrth y *tra*chwanteu twyllodrus, ac adnewydder chwi ‡yn yspryt eich meddwl, a' gwiscwch y dyn newydd, yr hwn *erwydd Duw a creawyt yn-cyfrawnnder, a' gwir sancteidrwyd. Erwyd pa am bwrwch ymaith y *celwyd, a' dywedwch bawp *vn* wiri*onedd* wrth ei gymydawc: can ys aelodeu yym yw gylydd. *A's* digiwch, *ac* na phechwch: nac aed haul ‡ymachelyd ar eich dig*ofeint*, ac na rowch le i ddiavol. A ledrataodd, na ledrat*a*ed mwy: eithr yn hytrach llavuried a' gweithied ai ddwylo y peth 'sy dda, val y bo ganto yw roi ir vn a vo ac eisieu *arno*. Na ddeued vn ymadrawdd llwgredic o'ch geneu*e:* anyd yr vn a vo cymmwys, er *mwyn*iant* adailad, val y duco rat ir ei a ei clyw*ant*. Ac na thristewch yr Yspryt glan Duw, gan yr hwn ich *in*seliwyt y ddydd *y* prynedigeth. Bwrier ymaith ywrthych pop chwerwydd, a' dig*ofeint*, a' llid, a' ‡llefain, a' chabl y gyd a' phop *drigioni. Byddwch vwynion wrth eu gylydd, *a*' t*h*rugarogion, gan vaddeu yw gylydd, megis ac maddeuawdd Duw er mwyn Christ i chwi*theu*.

‡ galedrwydd
‡ ddelli
* ddifrawy, eb ddiddori
‡ nwyfiant, rwyf
* wancus vngwaith, vn swydd
‡ dangoswyt
* trwy, gan
‡ ac
* ar ol
* celwydd
‡ yn y lewenydd, yn y hadef, dan y gayreu
* da ar les, y arver
‡ dyscrethain, diespedan, bloeddio
* malis

## Pen v.

Eu hannoc y mae i gariat, Eu rhubyddio y ymogelyd rrac aflendit cupyddtot, ymadrodd ampwyllic, a' gau ddysc, Bot yn ddiseml. Ymogelyd rac meddwdot, Ymlawenhau a' bod yn ddiolchgar parth a Duw, Ymestwng bawp yw gylydd. Mae ef yn traethu am priodas corphorawl ac vn ysprytawl rhwng Christ a'i Eccles.

*Yr Epistol y iij. Sul yn y Grawys.*

BYDDWCH gan hynny ddilynwyr Duw, val plant caredig*ol*, a' rhodiwch yn-cariat, megis i*n* carodd Christ ni*nheu*, ac y roddes y hun*an y* trosam, *y vot* yn offrwm ac aberth *arogl arwynt tec y Dduw. Eithyr godinep, a' phop aflendit, neu ‡cupydddot, nac enwer chwaith yn eich plith, val y gwedda y Sainct*æ*, na *chroesaneth, nac ymadrodd ‡ynvyt, na *chellwair, y pethau ny *chygg*weddant, eithr yn gynt rhoddy diol*vv*ch. Can ys hyn a wyddoch, am ‡puteiniwr, na neb aflan, neu *cupydd, yr hwn yw ‡delw-addolwr, nad oes yddo

* sawyr teg, gwynt melys
‡ trachwant, anghordep
* brynti
‡ lletffol, cuell
* chytgam, digrifwch
‡ godinebwr
* trachwantus
‡ eiddol-

ddim etiueddieth yn-teyrnas Christ, a' Duw. Na thwyllet nep chwi a gwac 'airiau: can ys o bleit cyfryw betheu y daw dig*ofeint* Duw ar y plant anuvydd. Na vyddwch gan hynny *gyfeillion yddynt. Can ys *yr* oeddech gynt tywyllwc*h*, ac yr awrhon goleuni *ydych* yn yr Arglwydd: rhodiwch mal plant golauni, (can ys ffrwyth yr yspryt *a hanoedd* o bop daoni, ‡ac vniondep, a' gwirionedd) gan *yvvch* *broui hyn 'sy ‡gymradwy gan yr Arglwydd. Ac na vit yw'ch gyveillach a'r gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch, eithr ac yn gynt *argyweddwch *hvvy*. O bleit ‡croesaneth yw *bot* adrodd y petheu, a wneir y ganthynt yn guddiedic. Eithyr pop peth gwedy 'r argywedder gan y golauni, a eglurir: can ys golauni a eglurha bop peth *oll*. Erwydd paam y dywait *ef*, * Dyffro *dydi* 'sy yn cuscu, a' chyvot *yn dy sefyll* ywrth y meirw, a' Christ, a 'oleu*h*a y-ti.

* gyfranwyr ac wynt
‡ a' chyfiawnder
* ymorol, ymarddel, dderbyn
‡ dda, voddlon
* cyoeddwch
‡ gwradwydd, gwrthyn
* Dihuna yr hwn a huny a' chwyn ne sa i vyny.
*Yr Epistol yr xx. Sul gwedy Trintot.*

Gwelwch gan hyny vot i chwi rodio yn ‡ddiyscaelus, nyd val an*d*oethion, amyn val doethion, gan *brynu yr amser: can ys y dyddiae 'sy ddrwc. Am hyny na vyddwch am*p*wyllogi*on*, eithr dyellwch beth yw' wyllys yr Arglwydd. Ac ‡na veddwoch a'r win, yn *y peth y mae ‡rhythni: eithyr cyflawner chwi a'r Yspryt, gan ymddiddan a chwychwi eichunain yn psalmae, ac ‡emynnae, ac odlae ysprytawl, gan ganu, a' *psalmu ir Arglwydd yn eich calon*æ*, can ddiol*vv*ch yn 'oystat am pop dim y Dduw *sef* y Tat, yn Enw ein Arglwydd Iesu Christ, gan ymddarestwng y'w gylydd yn ofn Duw.

‡ ddarbodus, ddichlin, bwyllic
* achup yr adec
‡ nach meddwer gan
* yr hwn, hyn
‡ tra,gormodd-edd, ynyt, diwalltrain
‡ hymnae
* odli

Y gwragedd, ymestyngwch ich gwyr priawd, megis ir Arglwydd. Can ys y gwr yw pen y wreic, megis ac y mae Christ yn ben yr Eccles, ac yntef yw '*r* iachawdr y corph. Can hyny mal y mae 'r Eccles yn ddarestyngedic i Christ, ac velly **bot* y gwragedd y'w gwyr priawd ym-pop dim.

* *bid*

Y gwyr, carwch eich gwragedd *eich un*, megis ac y y carawdd Christ yr Eccles, ac y rhoes y *h*unan drostei, val y saincteiddiai ef y hi, a'i *charthu gan 'olchiat y dwfr trwy'r gair, val y gwnelei ef yhi yddo yhun yn Eccles 'ogoniantus, eb ‡arnei * vrych*eun* neu *ch*rych*ni*, neu ddim or cyfryw bethac: any*d* hi bot yn sainctaidd ac yn ‡ddigwyl*iedic*. Velly y dylei gwyr garu ei gwragedd, vegis y cyrph yhunain: hwn a garo ei wreic *ei hun* y car ehun*an*. Can na chasaodd nebnu erioed ei *gnawt yhun, anyd ei vagu a'i ‡ gynnesu, megis ac *y*

* glanhau
‡ vagl
* yddi
‡ ddivei
* gic
‡ veithrin, lonni,

**gvvna* 'r Arglwydd am yr Eccles. Can ys aylodeu *ydym yvv* corph ef, ac oei gnawt, ac o ei escyrn. O bleit hyn y gad dyn dat a' mam, ac y glyn wrth ei wreic, ac y vyddant ill dau *yn* vn cnawt. Dirgelwch mawr yw hyn: eithr dywedyt ydd wyf am Christ, ac am yr Eccles. Can hyny pop vn o hanoch, *gvvnewch velly:* caret pop vn ei wreic *eih*un, 'sef megis yhun*an* a' *bid* ir wraic ofni hei gwr. * mae

## Pen. vj.

Pa wedd y mae ir plant ymddwyn tu ac at ei tadeu, ai mameu, A' hefyd yntwy tu at ei plant. Gweision tu ai perchen. Perchen gweison, tu ac atynt wynte. Annogiat ir drin ysprytol, a' pha ryw arvae y dyliei y Christianocion ymladd a' hwynt.

Y PLANT, uvyddewch ich *rieni yn yr Arglwydd: can ys hyn 'sy gyfiawn. Anrydedda dy dat ath vam (yr hwn yw'r gorchymyn cyntaf ac *iddo* addewit) val y bo yn dda i ti, ac val y bych hir ‡oesoc ar y ddaiar. A' *chvvychvvi* dade, na *yrrwch eich plant i ddigio: eithyr maeth*dd*rinwch wy yn addysc, ac athraweth yr Arglwydd. Y gweision, uvyddehewch ir ei sy yn ‡Arglwyddi ywch, erwydd y cnawt, ac ofn ac echryn yn *sem*p*lder eich calon*æ* megis i Christ, ny*d* a llygad-wasanaeth, megis boddlonwyr dynion, eithyr me*g*is gweision Christ, gan wneuthur wyllys Duw o'r galon, ac o wyllys da yn gwasanaethu'r Arglwydd, ac ny*d* dynion. A' gwybyddwch pa dda*oni* pynac a wnel neb, ys hyny a *dd*erbyn ef y gan yr Arglwydd, *pa vn bynac* ai *caeth ai rrydd *vo.* A'r *Arglwyddi gwnewch*vvitheu*'r vn ryw betheu yddynt wy, gan vaddeu bygwth*iavv:* a' gwybyddwch vot eich Arglwydd chwi ac wynt yn y nefoedd, ac nad oes *braint-gymeriat gyd ac efe.

* tadae ach mamae
‡ hoedloc
‡ chyffrowch enynwch
‡ veistreit
* wirionrwydd
* gwas
‡ meistreit
* *prosopolepsia,* personarum respectus

Am ben hyn, vy-vroder, ym-nerthwch yn yr Arglwydd, ac yn cadernit y allu ef, Gwiscwch oll arvogeth Duw *amdanoch*, val y boch abl i sefyll yn erbyn oll ‡gynllwyn*ion* diavol. Can nad yw ein ymdrech ni yn erbyn *cic a' gwaed, yn amyn yn erbyn pendevigaetheu, yn erbyn meddianneu, *ac* yn erbyn llywodron bydol, *tyvvosogion* y tywyllwch y byd hwn, yn erbyn enwireddae ysprytawl, *yr ei ynt* yn y'r *lleoedd* vchelion. O bleit hyn cymerwch atoch oll ‡arvogaeth Duw, val y galloch wrth*ladd yn y dydd *blin, a' gwedy ywch ‡'orphen pop dim, *allv* sefyll *yn sefydlavvc.* Sefwch gan hyny, wedy amgylchwregesu eich clunieu a gwir-

*Yr Epistol y xxi. Sul gwedy Trintot.*
‡ ruthrae
* cnawd
‡ arvae
* sefyll
‡ anvad, drwc
* ddarvot, cwplau

ionedd, ac ymwiscaw a' dwyvronnec cyfiawnder, ac am eich traet ‡ac escidiae paratoat yr Euangel tangneddyf. Vch pen pop dim, cymerwch *darian *y* ffydd, a'r hwn y gellwch ddiffoddi oll saethae tanllyt ‡y vall, a' chymrwch *helym yr iechedwrieth, a' chleddyf yr Yspryt, *r*hwn yw gair Duw. A' gweddiwch bop amser a' phop ryw weddi ac ‡ervyn yn yr Yspryt: a' gwiliwch *tu ac at hyn y gyd a phop *astudrwydd a' *golochwyt dros yr oll Sainct*æ*, a' thros-y-vi*nheu*, ar roddy i mi ymadrodd, y agori*at* vy-geneu yn ‡hyder*us* y venegi dirgelwch yr Euangel rhon ydd wyf yn genadwr*i* yddei, *yn rhwym, val y bo ymy ddywedyt yn hyder*us* o hanei, megis y perthyn i mi ddywedyt *yn y peth.*

Ac val y gwypoch hefyd y wrth vy ‡negeseu i, a' pha beth 'rwyf *yn ei wneuthur, Tychicus vy-caredic vrawt a' gwenidoc ffyddlon yn yr Arglwydd, a veneic y'wch yr oll betheu, yr vn a *dd*anvoneis *i* atoch er mwyn hyny, val y *caff*ech wybot y wrth vy *negeseu, ac val y ‡conffortiei ef eich calon*æ*. Tangneddyf *vo* y gyd a'r broder, a' chariat *gyd* a ffydd o y *wrth Dduw Dat, ac *yvvrth* yr Arglwydd Iesu Christ. Rat *a vo* y gyd a'r oll rei a garant ein Arglwydd Iesu Christ, ‡*yvv h*ammorwolaeth. *Amen.*

**Hvvn* a scrivenwyt o Ruuein, at yr Ephesieit, *ac a ddanvonvvyt* drwy *lavv* Tichicus.

‡ yn escidiedic a. &c.
* valen
‡ yr enwir, y drwc
* saylet
‡ golochwyt gwrthweddi, archan, adolwyn
* wrthaw
‡ ystigrwydd, goglud, gweddi, ervyn
‡ ehofn, nei eon llyfasus, ddiragrith
* mewn catwyn
‡ helhynt.
* arnaw
* helhynt
‡ diddanei
* gan
‡yddy anllwgredigeth

---

# EPISTOL PAUL

## AD Y

# P H I L I P P I E I T.

### YR ARGVMENT.

PAUL wedy cael rhubydd y gan yr Yspryt glan i vyned i Macedonia, a plannodd yn gyntaf Eccles yn Philippi dinas o'r vn wlat: eithr can vod y gorchymyn arno ef y precethu'r Euangel yn gyffredinawl ir oll Genetloedd, y mae ef yn treiglo o le yle, yd or diwedd y daliwyt ef yn carcharor yn Ruuein, a phan gafas y Philippieit wybot hyn, yd anuonesont ei gwenidawc Epaphroditus a' chymporth yddaw: yr hwn gan espesu yddaw ystat a' chyflwr yr Eccles, a barawdd yddaw scrivenu 'r Epistol hwn, yn yr hwn y mae ef yn ei canmol am yddynt wy sefyll yn wrol yn erbyn y gau apostolieit, gan goffau ydd wynt y wyllys da ef yn ei cyfor, ac erchi na bo er ei garchar ef ydddynt wy laysu nac ymellwng: can ys wrth hyny cadarnheu ac nyd lleihau a wnei'r Euangel: yn enwedic y mae yn deisyfy arnwynt ymogelyt rrac ryfic, a' mawrygu cymmedroldep, gan addaw danvon Timotheus atwynt, yr hwn a addyscei hwy mewn

devnyddieu yn amplach, ac y dawei ynteu hefyd y hun atynt wy, gan venegi hefyd achos hir drigiat y gweninawc wy. Ac o bleit nad oedd 'elynion vwy ir *groc na'r gau-apostolieit, y mae ef yn gorchvugu y geu ddysc hwy gan provi bot Christ yn vnic yn dervyn pop ‡Deddyf gywir, y gyd a'r hwn y mae i ni bop dim, ac eb yr hwn nyd oes i ni ddim, *val y mae y angeu ef yn vywyt i ni, ai gyfodedigeth yn gyfiawnedigeth i ni. Gwedy hyn y mae yma rhac llaw ryw rybuddiadae yn gystal rei cyffredinawl a' gohanredawl, y gyd a thestiat oi ewyllysfryd tu ac atwynt, a' diolchgar gymradwyat am ei cymporth yddaw.

*groc* *groes*
‡ *creddyf*
* *yd pan yw*

# EPISTOL PAUL

AD Y

# PHILIPPIEIT.

## Pen. j.

S. Paul yn dynoethi ei galon tu ac atynt, Wrth roi diolwch, Gweddiae, A' damuniadae dros ei ffydd a'i hiechydwrieth. Dangos y mae ffrwyth ei ‡groc, Ac yn ei hanoc i gyntundep, A' dyoddefgarwch.

‡ *groes*

PAUL a' T*h*imoth*e*us gweision Iesu Christ, at yr oll Sainct*æ* yn-christ Iesu'r ei'sy yn Philippi, y gyd ar e*pi*scopion, a *diaconieit: Rat *vo* gyd a chwi, a' thangneddyf y *gan Dduw ein Tat, a' *chan* yr Arglwydd Iesu Christ. Im Duw y dyolchaf gan *i mi* eich cwbl gofio, (bop amser yn veu oll weddiae y drosoch oll, gan weddiaw *gyd* a llawenydd) o bleit y ‡gymddeithas *y sydd* y chwi yn yr Euangel, o'r dydd cyntaf yd yr awrhon. Ac y mae yn gredadwy genyf hyn yma, *pan yw hwn a ddechreodd y gwaith da *hyn* ynoch, ei gorphen yd yn-dydd Iesu Christ, megis y mae yn *iawn i mi ‡synnied hyn am danoch oll, can *ys* eich bot yn vy-*calon ‡yn gystal yn veu rhwymae ac yn *veu* amndeffen, a' chadarnhad yr Euangel, *nyd amgen* eich bot *chvvi* oll yn gyfranog*ion* a mi o'm rhat. Can ys Duw yn test ymy, mor *or*hoff genyf chwy*chvvi* oll ‡o eigiawn ve-calon in Iesu Christ. A' hyn a weddiaf, *'sef* ar amplhau och cariat etwo vwyvwy yn-gwybyddiaeth, a' chwbl ddyall, mal y metroch ddosparthu y petheu y bo *gohan*ieth* rhyngthynt *i gilydd*, a' bot yn pur*edigion*, ac yn ‡ddidramgwydd, *yd yn-*d*ydd Christ, wedy eich cyflawny o ffrwytheu *cyf*iawnder, yr ein *'sy ynoch* trwy Iesu Christ er gogoniant a' moliant *y* D*d*uw.

* Gwenidogion
‡ wrth
*Yr Epistol y xxij. Sul gwedy Trintot.*
* cyfranogeth
* may
‡ cwplaa
* weddus
‡ varnu, dybiet
* mefyrdot, meddwl, cof
‡ nyd anllai
‡ yn emyscaredd
* gohanred, ragor, amravael
‡ ddianvad
* erbyn

*Mi* a wyllysiwn i chwi wybot, vroder, am y petheu a *ddigvvyddavvdd* i mi, a daethont yn hytrach *yn rhwyddiant ir Euangel, val y mae veu rhwymeu i yn

* er buddiant

Christ yn *e*glaer yn-cwbl o'r ‡Orsedd, ac yn oll *lleodd* eraill, yd y n ydyw llawer o'r broder yn yr Arglwydd yn hyderusach o blait veu rhwymeu *i*, ac yn llyfasu yn *ddiofnusach ‡draythu'r gair. Rei a precethant Christ 'sef drwy genvigen, ac ymryson, a'r ei hefyt o wyllys da. Y'n aill*plaid* yn precethu Christ o gynnen *ac* nyd yn bur*ol*, gan dybie*d* dwyn mwy o *vlinder im rhwymeu. A'r blait arall o gariat, gan wybot ‡vy-dodi *i yn carchar* *er amddeffen*d* yr Euangel. Beth er hyny? eto Christ a bregethir ym-pop ‡modd, pa vn bynac *vo* ai o *ryvv* *liw, *n*ai yn gywir: ac y mae hyny yn llawen genyf, ac a vydd llawen *genyf* hefyt. Can ys-gwn y treigla hynn ‡yn iechedv*vrieth* i mi, trwy eich *golochwyt *chvvi*, a thrwy ganhorthwy Yspryt Iesu Christ, ‡erwydd veu llwyr *dd*ysgwiliad, a'*m* gobaith, yn-dim na'm gwradwydder, eithyr o gwbl *hyder, val bop amser, velly yr awrhon y mawrygir Christ yn veu-corph, *i pa vn bynac vo* ai gan vywyt ai gan angeu. Can ys Christ *ys ydd* i mi *pop vn ym*-bywyt, ac *yn* angeu yn ‡enill*iat*. Ac ai byw yn *y* cnawt *vyddei* *les*ad* i mi, a' pha beth a ‡*dd*etholaf ny'*s* gwn. Can ys *mae yn gyfing arnaf o'r ddautu, gan ddeisyf*u* ‡vy-datdod a' bot y gyd a Christ, yr hyn 'sy oreu dim. Eithr aros yn y cnawt, 'sy yn vwy angenraid*iol* och pleit chwi. A' hynn a wn yn ddilys, yr aro*s*af, ac y *cyd*trigaf y gyd a chwi oll, er budd*iant* y'wch a' llawenydd *ich* ffydd, val y bo *yn* lliosawc eich gorvoledd in Iesu Christ dros-y-vi, gan vy-dyvodiat atoch drachefn. Yn vnic ymddugwch, val y mae *addas er Euangel Christ, pan yw ai delwyf a'ch gwelet, ai bwyf ‡absent, bot i mi glywet ywrth eich *negesae a'bod y'wch *sefyll yn vn yspryt *ac* yn vn eneid gan *ychvvy* gydymdrech trwy ffydd yr Euangel. Ac yn-dim nac ofnwch *gan* eich gwrthnepwyr, yr hyn 'sy yddynt wy yn ‡argoel *cyfer*colledigeth, ac y chwi*theu* o iechedwrieth, a' hyny gan Dduw. Can ys y chwy y rhoespwyt *er Christ, nyd yn vnic ‡vo*d* ywch gredu ynddo *ef*, anyd hefyt dyoddef ‡erddo, gan vod ychwy yr vn **ym*drino, a'r a welsoch yn-y-vi, ac yr awrhon a glywch *vot* ynof'.

‡ dadleuduy, llys
* llai bredych
‡ ddywedyt, adrodd y
* gystudd, ovid
‡ vy-bot
* dros
‡ ffordd
* rith
‡ er
* gweddi
* eovnder
‡ elw, mantais
* wiw, ffrwythwaith
‡ ddywysaf
* rwyf mewn cyfing gyngor o ddeuvodd
‡ v'ysmuto
* teilwng, gweddus tu ac at
‡ ymaith ywrthych, och gwydd
* materon
* parhau, ymoystatau meddwl
‡ arddangos liwat, arwydd
* dros
‡ er ei vwyn
* ymdrech

## Pen. ij.

Mae ef yn eu cygcori yn uch pen dim i vvylltot, wrth yr hyn yn bennaf y cynhelir y ddysc bur. Gan addaw y bydd iddo ef a' Thimotheus

ddyvot ar vrys atynt wy. Ac escuso y mae ef hirdrigiat Epaphroditus.

AD *oes* *neb diddanwch in-Christ, *a's oes* confort cariat, a's *oes* neb ‡cymdeithas a'r Yspryt, a'*s oes* neb *tosturi *na'* thrugaredd, cyflawnwch veu llawenydd, ar y chwi vot yn vn vryd, a' chenych yr vn *ryvv* gariat, ac yn ‡vneneidiae, ac yn vn varn, val na *vvneler* dim trwy gynnen neu 'wag 'ogoniant, eithyr *yn-gostyngeidrwydd-calon tybied pop vn vot arall yn well nac ef yhun. Nac edrychwch bop vn ar ‡yr yddo*ch y c*hunain, eithr pop vn hefyt ar y petheu 'sydd y eraill.

Bid yr vn veddwl ynoch ac oedd in-Christ Iesu, yr hwn ‡ac ef yn ffurf D*d*uw, ny thybiawdd *drais vot yn 'ogyfiuwch a Duw: eithr ef y ‡diddymiawdd ehun, ac a gymerth arnaw *agwedd gwas, ac ei gwnaethpwyt yn gyffelyp i ddynion, ac a ga*ff*ad yr vn ‡ffynyt a dyn. Ef a ymostyngawdd can vod yn vvydd i angeu, ys angeu *croc. Erwyd paam hefyt Duw y tra derchafawdd ef, ac a roddes yddo Enw, ‡uch pen pop enw, *pan yw yn Enw '*r* Iesu i bop glin ‡estwng *yn gystal* ir nefolion, a' daiarolion, ac y danddaiaroliom *bethæ*, ac y bop tauot coffessu mae Iesu Christ yw'r Arglwydd, er gogoniant Duw Tat. Erwydd pa bleit veu-caredigion, megis bop amser yr uvyddhaesoch, nyd megis yn veu-gwydd yn vnic, eithr yr awrhon yn vwy o lawer yn veu absen*t*, *velly* gorphenwch eich iechydwrieth ychunain *drwy ofn ac echryn. Can ys Duw yw'r hwn 'sy yn gweithio ynoch, 'sef yr ewyllys a'r weithred, *nid amgen oi vvir* wyllys da. Gwnewch bop dim yn ‡ddivurmur ac eb ymddadle, val y byddoch yn *ddiargywedd, ac yn bur, *ac* yn veibion *i* D*d*uw yn ‡ddigwl*iedic* *ym-pervedd cenedleth ddrigionus ‡ddygam, ym-plith yr ei ydd ych yn dysclaerio megis *lleuvereu yn y byt, yn rrac esten*d* gair y bywyt, er gorfoledd ym yn-dydd Christ, *can* na redais yn over, ac na ‡lavuriais yn over. Ie, a' phe im offrymit ar *ucha yr* aberth a' gwasanaeth eich ffydd, llawen yw genyf, a' chydlawen a' chwi oll. O bleit hyn hefyt byddwch-wi*theu* lawen, a chydlawenhewch a' mi*nheu*. A' gobeithaf yn yr Arglwydd Iesu, *y dd*anvon*af* Timotheus ar vyr*der* atoch, vegis im *conforter i hefyt, wrth wybot ‡ywrthych. Can nad oes i mi neb o gyffelyp veddwl, yr hwn a 'ofala yn *ffyddlawn dros eich negesae.

*vn dim
‡cyfraniat
*calondit
‡vnveddwl
*gan iselder, warder meddwl
‡ys ydd ywch
*Yr Epistol y Sul o vlaen y Pasc.*
‡pryd ytoedd
*drawsedd
‡bychanoedd
*gwedd, dull gosgedd, delw
‡vodd, suwt, drych
*croes
‡goruwch, aruchaf
*val y byddei
‡blygu
‡gyd ac
‡ddirwgnach, ddirwyth, ddiymwgach
*ddiveius
‡ddibawl ddrwc
*yn-canol
‡gamweddawc, grwca
*goleuae
‡thravaelais
*diddaner didudder
‡eich cyflwr
*bur, ymgeleddgar

‡ oll — Can ys ‡pawp 'sy yn ceisiaw yr yddyn y hunain, *ac*
nyd yr *hyn 'sy* yddaw Christ Iesu. Eithyr *chvvi*
* brawf — adwaenoch y *brofiad*igeth am dano* ef, can ys val
map y gyd a thad, y gwasanaethoedd ef gyd a mi*vi*
yn yr Euangel. Hwn gan hyny 'r wy'n gobeitho
‡ er — y *dd*anvon ‡cy*n* gynted ac y gwypwyf pa ddelw vydd
y-my, a 'gobeithaf yn yr Arglwydd, y bydd i mi
vyhun hefyt ddyvot ar vyr*der*. Eithr *ys* tybiais vot
* hebrwng — yn angenraid*iol* **dd*anvon *veu*-brawd Epaphroditus
‡ cyvaillt — atoch, veu-cydweithwr, a'm ‡cydvilwr, 'sef eich cennad
chwi, a'r hwn a vu yn vy-gwasanaethu i*nheu* o gyfryw
betheu ac oedd arnaf i eisieu. Can ys ydd oedd arno
hiriaeth am dano chwi oll, ac athrist iawn ytoedd,
can y chwi glybot, y vod ef yn glaf. A' diau y vot
* ym bron — ef yn glaf, *ac* ‡yn gyfagos y angeu: anyd bot y
Dduw drugarhau wrthaw, ac ny*d* wrtho ef yn vnic,
‡ gofit ar ovit, drymdd ar drymder — amyn wrthy vi hefyt, rac y-my gahel *tristit ar dristit.
*Mi* y *d*anvoneis ef gan hyny yn ddiescaelusach, val
pan welech ef drachefn, y llawenhaech, ac y byddwn
i*nheu* yn ddidristach. Erbyniwch ef gan hyny yn yr
* drwy oll ‡ pherchwch — Arglwydd ‡*y gyd* a chwbl llawenydd, a' *mawrhewch
* o blait — y cyfryw *'rei:* can ys ‡er mwyn y gwaith Christ y bu
‡ ny phrisiodd ar — ef yn agos i amgeu, ac ny ddarbodawdd am ei einioes,
* ymgeledd — y gwplau deffic eich *gwasanaeth i mi.

## Pen. iij.

Y mae ef yn y rhubyddiaw hwy y ymogelyt rac gau ddyscodron, yn erbyn pa'r ei y mae ef yn gosot Christ, Ar vn modd y hunan, Ai ddysc ef. Ac yn gwrthbrovi cyfiawnhat dyn y hun.

WEITHION, veu-broder, byddwch lawen yn yr
Arglwydd. Ny*d* blin gen y vi scrivennu yr
vn petheu atoch, ac y chwi*theu* y mae yn *beth* dilys.
* Ymogelwch — *Goachelwch *y* cwn: gogelwch d*d*rwc weithwyr:
‡ Enwaediat — gochelwch rac y cydtoriat. Can ys ‡Cylchtoriat y
*d*ym ni, yr ei a addolwn Dduw yn yr yspryt, ac a
* lawenych wn — *ymhoffwn yn-Christ Iesu, ac nyd ym yn ‡ymddiried
‡ coelio, gobeitho — yn y cnawd: cyd bei i mi hefyt allu ymddiried yn y
‡ coelio, gobeithio — cnawt. A thybia nep arall y gallei *ymddiried yn y
* roi i bwys — cnawt, *ys* mwy *y galla* vi: wedy vy enwaedy yr
‡ Ebreiad — wythuet dydd, o genedl Israel, o lwyth Ben-iamin,
* awydd, goglyd — yn ‡Ebra*i*wr or Ebraieit, wrth y Ddeddyf yn Pha-
‡ ddigerydd-adwy — risai*ad:* erwydd *zel yn ymlit yr Eccles: erwydd y
cyfiawnder'sydd yn y Ddeddyf, yn ‡ddigwl*iadvvy.*
‡ enill, vantais — Eithr y petheu oedd yn ‡elw i mi, yr ei hyny a
gyfrifwn yn gol'et er mwyn Christ. Eithr yn ddilys

cyfrif rwyf bop dim yn gollet er mwyn *rhagorawl wybodaeth *am* Christ Iesu veu Arglwydd, er mwyn yr hwn y cyfrifais bop dim yn *gollet, ac yddwyf yn ei cfrif yn dom, val y gallwn ennill Christ, a'm caffael ynddo ef, *sef yvv*, nyd a'm cyfiawnder vyhun genyf: ys ydd o'r Ddeddyf, anyd yr vn y sydd trwy ffydd Christ, *se*f y cyfiawnder ys ydd o *y gan* Dduw trwy ffydd, val yr adwaenwyf ef, a' rhinwedd ei gyfodiad*igeth*, a' chymdeithas ei *gystuddion, val ‡im cyffurfer ai angeu ef, *gan brovi* mewn *neb* ryw vodd a *gyrayddwn y gyfodiad*igeth* y meirw: nyd val pe bawn wedy ei gyrayddyt eisius, neu vot eisius yn berfeith: eithr dilyn ydd wyf, *y geisiavv* ‡emavlyt yn yr hyn er ei vwyn yr ymavaelir ynof y gan Christ Iesu. Y broder, nyd wyf yn *barnu i mi ymavael *ynddo*, eithr vn peth *ydd vvyf arno:* ‡gellwng dros gof hyn 'sy y tu *cefn, a' a cheisio tynnu at yr hyn 'sy y tu ‡*geyr* bron, a' chyrchu at y nod, am y gamp yr vchel 'alwedigeth Duw in-Christ Iesu. Cynnyuer gan hyny *o hanom* ac ym yn berffeith, *synniwn val hyn: ac a*d* ych yn synniaw *yn* amgenach, 'sef yr vn peth a *dd*atgudd Duw ychwy. Er hyny *yn y peth* y daetham ataw, cerddwn wrth yr vn rheol, val y synniom yr vn peth.

[* ardderchoc, arbennic — * ddirwy, gamlwrw, ddiddim — * ddiodddefiade, poenedigaetheu — ‡ y bwyf yn vn wedd — * ddelwn — ‡ goddiwes — * tybiet, bwrw — ‡ ebryvygu, anghofi — * ol — ‡ blaen — * meddyliwn]

*Ha*-vroder, byddwch ddilynwyr o hano vi, ac edrychwch ar yr ei, 'sy yn rhodiaw velly, megys ydd ym ni yn esempl y-chwy. Can ys llawer a rodiant, am ba 'rei y dywedeis ywch yn vynech, ac yr awrhon y dywedaf ywch' dan wylaw, *eu bot* yn 'elynion *Croc Christ, yr ei *sydd* ei dywedd yn ‡gyfergoll, a'i bol*a* yn Dduw *yddvvynt*, a'i gogoniant yn *wradwydd yddynt, yr ei a synniant am betheu daiarawl. Can ys ein ‡gwladwriaeth *ni* 'sy yn y nef*oedd*, o'r lle ydd ym yn edrych am yr Iachawdr, '*sef yr* Arglwydd Iesu Christ, yr hwn a *ys*y*mut ein corph gwael *ni*, val y gwneler yn ‡vnffurf a y gorph gogoneddus ef, *erwydd y nerth*ovvgrvvydd*, gan yr hyn y dychon ef ddarestwng pop dim yddaw yhun.

[*Yr Epistol y xxiij. Sul gwedy Trintot.* — * Croes — ‡ damnasion — * gwarth, mefl, cywilydd — ‡ swyddogeth, helhynt — * newydia — ‡ vnwedd — *yn ol y grymuster]

## Pen. iiij.

Y mae yn ei hannoc y vod o ymwreddiat syberw, Ac yn diolwch yddyn am yr ymgeledd a wnaethoeddynt yddaw ac ef yn-carchar, Ac velly y mae yn dibennu gan *ymiachau.

[**gann yn iach.*]

GAN hyny veu-broder, caredigion a' damunedig*ion*, *veu* llawenydd a'm coron, velly y safoch yn yr

Arglwydd, garedigion. *Atolygaf y Evodias, ac ervyniaf *y* Syntyche, ‡synnyet yn gytun yn yr Arglwydd. Ac ys archaf arna-ti*the*, *ffyddlawn gydweddawc cymporth *y gvvragedd* hyny, yr ei a ‡lavuriesont y gyd a mi yn yr Euangel, y gyd a C*h*lement hefyt, a' chyd ac erail o'm cyd weithwyr, yr ei 'sy ei *h*enwae yn scrivenedic yn y llyfer y bywyt.

* Gweddiaf
‡ gydgordio
* vy-gwir gymar
‡ drasaelysont

*Yr Epistol y iiij. Sul yn Aduent.*

Llawenhewch yn yr Arglwydd yn 'oystadawl, a' thrachefn y dywedaf, llawenewch. Bit eich *gestyngeiddrwydd yn gydnabyddus y gan bop dyn. *Y mae* yr Arglwydd ‡yn agos. Na *'ofelwch *am* ddim, eithr ym pop dim dangoser eich ‡gofynion y Dduw yn-gweddi, a' deisyf*iad gyd* a diolwch. A' *thangneddyf Duw yr hwn 'sy uwchlaw pop dyall, a gaidw eich calonae, a'ch meddyliae in-Christ Iesu. Eb law hyn, vroder, pa beth*æ* pynac 'sy gywir, pa beth*e* bynac *sy* ‡syber*vv*, pa peth*æ* pynac *'sy* gyfiawn, pa pethe pynac, *'sy* pur, pa bethe pynac *'sy* *garuaidd, pa petheu pynac *sydd* ‡o enw da, a*d oes* vn rhinwedd, ac a'*d oes* dim moliant, meddyliwch am y petheu hyn, yr ei'n a ddyscesoch ac a dderbyniesoch, ac a glywsoch, ac a welsoch yn y vi: y petheu hyny gwnewch, a' Duw *benavvdur* tangneddyf a vydd y gyd a chwi. A'llawen wyf hefyt yn yr Arglwydd yn *ddir*vawr, gan y chwi yr awrhon or dywedd ymadnewyddu i *synnie*d* arnaf, am yr hyn cyd baech yn *synniet, ny*d* oeddech yn cahel ‡enhyd. Ny*d* wy yn dywedyt *erwydd eisieu: can ys dyscais ym-pa gyflwr bynac ydd wyf, vot yn vod*d*lawn yddaw. Sef y metraf *ymostwng, a' metraf *amlhau: ym-pop lle, ac ym pop dim im addyscir y vot yn llawn, a' bod yn newynoc, a'bot yn helaeth, a' bod mewn eisiae. *Ys* pop dim a allaf trwy *borth* Christ, rhwn'sy im nerthu. Eithyr *ys* da y gwanaethoch, ar *yvvch* gyfrannu *i'm gorthrymder i. A' chwi Philippieit, a wyddoch can ys yn *d*echreu*ad* yr Euangel, pan aethym i ymaith o Vacedonia, ny chyfrannawdd vn Eccles a mi o ‡bleit devnydd rhoddy a' derbyn, amyn chwi*chvvi* yn vnic. Can ys-*a myvi* yn Thessalonica, chwi a hebrynesshch, vnwaith, ac eilwaith er mwyn veu angenraid *i*, nyd erwydd yr archaf rodd: anyd **ys* archaf y ffrwyth rhwn all aml*h*au yn ‡borth i chwi: *Pellach ys *d*erbyniais oll, ac mae genyf helaethrwydd: 'sef im cyflav*v*nwyt, gwedy ym' *dd*erbyn y gan Epaphroditus y petheu *a ddaeth* y wrthych, arogl per-ar wynt, aberth

* arafwch, tiriondep
‡ wrth law
* phryderwch
‡ airch
* heddwch
‡ honest
* garedigawl, ne a berthyn i gariat
‡ gair
* 'ofalu am
‡ arfod, adeo
* o ran
* ymiselu, ymvychanu
* ymhelaethu
‡ ac
* am blinder
‡ ran, helhynt
* mi
‡ ddosparth
* Weithon

gymradwy a' *th*irion gan Dduw. ‡A'r Duw meu*vi* a gyflanwa eich oll angenraid *chvvi* *erwydd y 'olud ef, gan 'ogoniant yn-Christ Iesu. I Dduw 'sef ein Tad, *y bo* ‡gogoniant yn oes*oedd* oesoedd, *Amen.*

‡ Am &c.
* trwy y gyfoeth
‡ moliant yn tragyvythawl

Anerchwch yr oll Sainct*æ* in-Christ Iesu. Y mae'r broder 'sy gyd a mi, yn eich anerch. Yr oll Sainct*æ* ach anerchant, ac yn bennaf yr ei ynt o tuy*lu* Caisar. Rat ein Arglwydd Iesu Christ y gyd a chwi oll, *Amen.*

O Ruuein yr escriuenwyt at y Philippieit, *ac yd anvonvvyt y* gan Epaphroditus.

---

# EPISTOL PAUL
## AD Y
# COLOSSIEIT.

### YR ARGVMENT.

Yn yr Epistol hwn y mae S. Paul yn rhoi gohanieith rhwng y grymvyw, y nerthoc a'r gwir Christ, a'r geuawc, ddychymigedic ffugiol Christ, yr hwn a ddangosei y ffeils apostolion y wrtho. Ac yn gyntaf, y mae ef yn cadarnhau y ddysceidaeth a precethesei Epaphras, gan ddamunaw yddwynt angwanec o ffydd, y vedry adnavot veint rhagorieth dawn Duw yn y cyfor hwy, gan ddyscu yddynt hefyt bot Iechedwrieth, a' pha ddaconi bynac a ellit ei ddeisyf, yn sefyll yn vnic yn Christ, yr hwn ydd ym yn vnic yn ymarddel ynddo trwy'r Euangel. Eithr yn gymeint a' bot y gau vroder yn cymyscu 'r Ddeddyf a'r Euangel, mae ef yn cyhwrdd a'r ffuantwyr hyny yn ddirfing, ac yn cygcori 'r Colossiet i ymategu yn vnio wrth Christ, eb law'r hwn nyd oes o ddim anyd gorwagedd. A thu ac at am enwaediat, ym gynnal ywrth vwyt, sainceteidrwydd oddyallan, addoli Angelion, vegis yn dywysogaeth y ddyvot at Christ, mae ef yn ei llwyr ddivarnu, gan espesu beth oedd swydd a' natur Ceremoniae, yr ei a ddirymiwyt y gan Christ: yd pan yw yr awr hon bod gwaith y Christianocion yn sefyll ar varwhau y cnawt, adnewyddu buchedd, a' chyffelyp swyddeu ereill y sy yn perthynu yn gyffredinawl ac yn anlltuawl ir oll ffyddlonieit.

## Pen. j.

Diolwch y mae i Dduw am ei ffydd hwy, Cadarnhau dysceidaeth Epaphras, Gweddiaw am angwanegiat ei ffydd hwy. Mae yn dangos yddynt y gwir Christ, ac yn dinoethi gau Christ yr Apostolion ffeils. Y mae ef yn cannal ei awdurdut a'i swyddogaeth, Ac am ei waith ar ei cyflawny.

PAUL Apostol Iesu Christ, *gan wyllys Duw, ac *Th*imotheus *ein* brawt, at yr ei 'sy yn Colosse, Sainct*æ* a' ffyddlon vroder in-Christ: Rat *vo* y gyd a chwi, a' thangneddyf y ‡gan Dduw ein Tat, *a' *chan* yr Arglwydd Iesu Christ. Ydd ym yn diol*vv*ch y

* trwy, wrth
‡ wrth
* ac ywrth
*Yr Epistol y xxiiij. Sul gwedy Trintot.*

Dduw *sef* Tat ein Arglwydd Iesu Christ, yn 'oystadawl gan weddiaw y trosoch: er pan glywsam *son am* eich ffydd in-christ Iesu, ac *am eich* cariat ‡ar yr oll Sainct*æ*, er *mvvyn* y gobaith ys ydd wedi hi dodi y-chwy yn y nef*oedd*, am yr hon y clywsoch yn y blaen y gan 'air y gwirionedd, sef *yvv*'r Euangel, yr hon 'sy wedi dyvot *yd* atochwi, megis ac ir oll vyt, ac yn ffrwythawn val *y mae* yn eich plith chwi*the* hefyt, o'r dydd hwn y clywsoch, ac y gwir *wybuoch 'rat Duw, val hefyt y dyscesoch y gan Epaphras ein ‡annwyl gydwas, yr hwn'sy trosoch*vvi yn* ffyddlawn wenidawc Christ: yr hwnn hefyt a *amlygawdd y-ni eich cariat, *ysy genych* drwy 'r Yspryt. Can ys paam ni*nheu* hefyt, er y dydd*hvvn* y clywsam, ny*d* ym yn peidiaw a gweddiaw trosoch, ac erchi *ar ych cyflawny o wybyddieth y wyllys ef, ym-pop doethinep, a' dyall ysprytawl, val y rotiwch yn deilwng ‡*gan* yr Arglwydd, ai voddhau *ef* ym pop *dim, gan ymffrytho*loni* ympop gweithred da, a' thyvu' ‡yn-gwybodaeth *am* Dduw, wedy ymnerthu *ac oll nerth trwy y'ogoneddus veddiant ef, i bob ‡dioddef*garvvch*, a' *hwyrddic *y gyd* a' hyfrydwch, gan ddyol*vv*ch i'r Tat, yr hwn a'n gwnaeth yn ‡addas i *vot yn* gyfranoc o etiueddieth y Sainct*æ* yn-goleuni, yr hwn a'n gwaredawdd *ni* ywrth veddiant y tywyllwc*h*, ac a'n ysmutawdd *ni* y deyrnas y annwyl Vap, yn yr hwn y mae y ni brynedigeth trwy y waed ef, '*sef* maddeuant pechotae, yr hwn yw *gvvir*-ddelw yr anweladwy Dduw, con*te*nid pop creatur. Can ys *ganto ef y creawyt pop dim, a'r ys ydd yn y nef*oedd*, ac ys ydd yn y ddaear, *pethæ* gwel‡edig*ion*, ac angweledig*ion:* ai *Thronae, ai Arglwyddiaethae, ai Tywysogaethae, ai Meddiannae, pop dim a' greawyt ganto *ef* ac erddo *ef*, ac ef e 'sydd cynn pop dim, ac ynto y mae pop dim yn cyd sefyll. Ac efe yw pen corph yr Eccles: efe yw'r dechreu*ad a'r* cyn*t*enid o'r meirw, val ym-pop dim y caffei y bendeuigeth. Can ys-rengawdd bodd *ir Tad*, *bod* yndo ef drigo oll *gyf*lawnedd, a' thrwyddo ef gysyliaw pop dim yddo yhun, a' heddychu trwy waed y *groc ef *b*ai petheu yn y ddaiar, *b*'ai petheu yn y nefoedd. A' chwi*theu* yr ei oeddech gynt ddyeithreit a' gelynion, can *vot eich* meddyliae ar weithredoedd drwc, yr awrhon hefyt a gysyliawdd ef, yn-corph ei gnawt trwy angae, *er* y'ch gwneuthur *chvvi* yn sainct*aidd*, ac yn *ddiveius ac yn ddigwl*iedic*

‡ ir
* adnabuoch
‡ caredic, cu
* venagodd
* bot
‡ or, ir
* peth
‡ yn ymwybot a
* gan
‡ ymaros
* ammynedd
† gymesur
* yndo, trwyddo
‡ -adwy
* Eisteddfae
‡ groes
* ddiargywedd

gar y vron ef. A's ‡aroswch, wedy *'ech* *sailio ach ffyrfhau yn y ffydd, ac na'ch ‡ysmuder ywrth 'obaith yr Euangel, *am* yr hon y clywsoch *son*, ac a precethwyt i bop creatur a'r 'sydd y dan y nef ir hon ydd yw vi Paul yn wenidawc. Yr awrhon ydd wyf yn llawen*ychu* yn ve-dioddefeu y trosoch, ac yn cyflawny oedd yn *ol o ‡gystuddiae Christ yn veu-cnawd *i*, er *mvvyn* y gorph ef, rhwn yw'r Eccles, i'r hon ydd wyf yn wenidawc, ‡erwydd *llywodraeth Duw, yr hynn a roddwyt i mi ‡yn eich cyfor chwi, y gyflanwy gair Duw, *sef* y dirgelwch *oedd* cuddiedic ‡er ys *oes* oesoedd, ac er ys *oll* genedlaethae, ac yr awrhon a eglurwyt *y'w Sain*ttæ* ef, i'r ei yr ‡wyllysai Duw *yddyn* gahel gwybot *pa yw golud y dirgelwch hyn ym-plith y Cenetloedd, yr hwn '*olud* yw Christ yn ‡y chwi, y gobeith gogoniant, yr hwn ydd ym *ni* yn *ei* bregethu, gan rybyddiaw pop dyn, a' *dyscu pop dyn ‡ym-pop doethinep, val y *gosotom bop dyn yn berffeith yn*gvvydd* Christ Iesu: at yr hyn ydd wyf *i* hefyt yn **ym*travaelu ac yn ‡ymdrech, *erwydd y waith*red* ef rhon 'sy yn gweithio ynof' yn nerthol.

‡perhewch
*grwndwalu ach sicrau
‡ymoder
*deffic gofidie
‡can trwy wrth
‡trefnit, ordinhat
‡eroch
*o ddechre byd
‡yddy
*mynei
‡beth yw cyfoeth
*o
‡dangos y
*ac oll
‡presentom
*llavurio
‡ymdraphillio
*wrth, yn ol

## Pen. ij.

Gwedy yddaw destolaythu ddaed ei wyllys ef yddynt, Y mae ef yn ei rhybyddio nad ymchwelont yn *wyso ei cefn ywrth Christ. I wasaneth Angelion, neu ddychymic arall, neu ynte ceremoniae 'r ddeddyf, Yr ei a 'orphenesont ei swydd, ac eu tervyuwyt in-Christ.

**llwyr ei hol*

CAN ys wyllisiwn y chwi wybot pa veint *ymdrech 'sy ‡arnaf er eich mwyn *chvvi*, ac er yr ei *o Laodiceia, ac er *mvvyn* yr ei ny welsant ‡veu wynep yn-cnawt, val y confforthit eu calonae, ac eu cyssyltit *vvy* ynghyt yn-cariat, ac ym-pop golud gwbl gredadwy ddyall, adnabot dirgelwch Duw 'sef y Tat, a'r *yddavv* Christ: yn yr hwn y mae yn-cudd*iedic* oll tresorae doethinep a' gwybodaeth. A' hyn rwy'n ei ddywedyt, rac bot i neb*vn* eich *twyllo a' geiriae ‡hygoel*iadvvy*, Can ys cyd bwyf ancydrychiol yn y cnawt, er hyny ydd wyf gyd a chwi yn yr yspryt yn llawenechu, ac yn gweled eich *trefn, a' ‡ffyrfder eich ffydd in-Christ. Megis gan hyny yd erbyniesoch Christ Iesu yr Arglwydd, *felly* rhodiwch ynddo, yn wraiddiedic ac yn adaliedic ynddo ef, ac wedy ymgadarnhau yn y ffydd, val ich dyscwyt, can ymamplau ynddei gan ddyolwch. Ymogelwch rac bot neb a'ch espeilio trwy *philosophi

*boen, dravel
‡y mi
*sy yn
‡vi yn ynghorpholeth
*hudo, siomi, gordderchu
‡cyffelybol
*vrdd, ordr
‡dwysder
*vchelddysc

a' gwac ‡ehudrwydd, trwy athraweth dynion, *erwydd gwyddorion y byt, ac ny*d* erwydd Christ. Can ys ynto *ef* y ‡preswilia *cyf*llawnder y Duw*dot yn gorphorol. Ac ydd ych yn gyflawn yndo ef, yr hwn yw pen oll Tywysogeth a' Meddiant: yn yr hwn hefyt ich enwaedwyt ac enwaediat ny*d* o waith llaw, gan **ym*ddyosc *y pechaturus gorph y cnawt, trwy enwaediad Christ, can ys ich *cyd*claaddwyt y gyd ac ef trwy'r betydd, yn yr hwn hefyt ich cydgyfodwyt trwy ffydd gweithredi*at* Duw, yr hwn ay cyfodes ef o veirw. A' chwi*theu* yr ei oeddech veirw ympechotae, ac yn-*d*ienwaediat eich cnawt, a gyd vywhaodd ef y gyd ac efo, gan vaddeu y-*chwi *eich* oll gamweddae, can ddilëu y llaw ‡*g*raipht yr ordinadeu rhon *oedd yn e*in *h*erbyn, rhon oedd yn wrth wynep y ni, ys cymerth ef y hi *y ar y ffordd, ac hei dodes yn-glyn ar y ‡groc, ac a espeiliawdd y Tywysogaethae, a'r Nerthoedd, ac ei erddangosawdd hwy yn *gyhoedd*us*, gwedi gorvot hwy ynthei. Am hyn na varnet neb *arno* chwi ‡ym-*b*wyt a' diot, neu o ran *die*-gwyl, neu *leuad-newydd, neu ‡Sabbathon, yr ei nyd ynt any*d* gwascot petheu ar ddywot: eithr y corph *ysydd* *in-Christ. Na vit i neb wrth ei wyllys eich llywo*draethu* gan 'ostyngeiddrwydd-meddwl, ac addoli*ad* Angelion, gan *ymgodi ym-petheu ny'*s* gwelawdd *e erioed*, *ac* yn an*d*osparthus yn ymchwyddaw gan *veddwl ei gnawt, eb ‡*gyfa*ttal y pen, o'r hwn y mae yr oll gorph wedy '*r* drefnu ai gom*p*oni gan gymmal*æ* a' *chyf*rwymae, yn *cynnyddu gan gynnydd Duw. Can hyny a's meirw *ydych* gyd a Christ ywrth ordinadeu y byt, paam mal p*h*e ich vyw yn y byt, ich llwythir ac athrawiaetheu? *Megis*, Na chychwrdd, Na ‡*or*chwaydda, Na theimla. Yr ei 'n oll aant yn-cyfergoll y gyd a'r *an*arver, ac *ynt vvrth* 'orchymyneu a' dysceu dynion. Yr hyn betheu yn ddiau 'sydd *yddyn* ac *ailun doethinep, yn wyllys *greffydd ac ‡huvylltot-meddwl, ac *nyd* yn *eiriach y corph: ac ny*d* yw mewn dim bri *ganthynt* er cyflawnedd ir cnawt.

‡ dwyll
* ar ol, wrth
‡ trig
*-olieth
‡ ymddihatry
* or
* *Gr. hemin*
‡ scriven
* ymaith
‡ groes
* hyderus ar 'oystec
‡ ar, am, o bleit
* newydd-loer
‡ ddyddieu Sabbath
* ar law
* darestyngedigeth a' diwyll
‡ ymsengi
* synnwyr
‡ gynnal, gaffel
* angwanegu
‡ vlasa, phrawf
* llun, lliw
‡ addoliat, ddiwyll
‡ *Gr. tapeinophrosene*
* cystudd

## Pen. iij.

Dangos y mae ple y mae i ni geisio Christ. Ei cyggory i ymvarwhau. Diosc yr hen ddyn, a' gwisco Christ. At yr hyn y mae ef yn rhoi angwanet gygcoreu, i bawp val y gylydd, y gariat ac huvylltot.

*Yr Epistol ar ddie-Pasc.*

AS *chvvithe* a gydgyfodesoch *gyd* a Christ, caisiwch y petheu odduch*od*, lle mae Christ yn eiste*dd* ar ddeheu*lavv* Duw. Rowch eich *bryd ar y petheu '*sydd*

* meddwl

vchod, *ac* nyd ar betheu *sy* ar y ddaiar. Can ys meirw ytych, a'ch bywyt a guddiwyt y gyd a Christ yn-Duw. Pan ‡ymddangoso Christ, 'rhwn yw'n bywyt, yno hefyt yr ymddangoswch chwi*theu* y gyd ac ef yn-gogoniant. Marw*h*ewch gan hyny eich aylodae 'sy ar y ddaiar, goddinep, aflendit, ‡anvad-wyyn, dryc-chwant, a' ‡chupydd*d*ot yr hwn *delw-addoliat. Achos yr hyn petheu y daw *dig*ofeint* Duw ar y plant ‡yr amvvydd*d*ot. Ym pa *veiæ* y rhodies-y-chwi gynt, pan oeddech yn byw ynthwynt. Any*d* yr awrhon rho-chwi y ffordd ys yr oll petheu hyn, dig*ofeint*, broch, *drigioni, ‡dryc davod*len* *croesan-air, *allan* o'ch geneu. Na ddywedwch gelwydd wrth eu gylydd, can *dd*arvot y chwi ‡*ym*ddiosc *o* yr hen ddyn *ef* a'i weithrededd, a' gwisco y'r newydd, yr hwn a adnewyddir yn-gwybodaeth ‡erwydd delw yr hwn y creawdd ef, lle ny*d* oes na Groecwr nac Iuddew enwaediat, Barbariat, Scythiat, caeth, rhydd: eithr Christ '*sydd* pop dim ym-pop dim.

‡ eglurer
* *Gr. pathos* anlladrwydd
‡ angawrdep
* eiddol-
‡ gwrthnesic, anhydyn, cindyn
* irlonedd llid
* malis
‡ cabl, ymgeiniae
* bryntair, gwrthuunair
‡ ymddihatry
* ar ol

Can hyny megis etholedigion Dew sanct*eiddolion* a' charedigion, ymwiscwch o *dirion drugaredd ‡caredigrwydd, *vvylltot-*meddvvl*, gwarder, dioddefgarwch: gan ymgynnal eu gylydd, a' maddae y'w gylydd, as bydd gan vn gwerel yn erbyn neb: megis ac y maddeuawdd Christ i chwi, ys velly *gvvnevvch* chwi*theu*. Ac ‡vch pen hyn oll *gvviscvvch* gariat, yr hwn yw rhwym *yn* y perfeithrwydd. A' thangneddyf Duw a *lywodraetho yn eich calonae, yr hwn ich galwyt yn vn corph, a' byddwch ‡ddiolchgar. *Preswiliet gair Christ ynoch yn ehelaeth ym-pop doethinep, gan *eich* ‡dyscu a' chygcori eich hunain, yn psalmae, ac *hym*y*nae ‡ac odulae ysprytawl, a' chanu gan rat yn eich calonae ir Arglwydd. A' pha beth bynac a wneloch ar 'air neu weithred, *gvvnevvch* bop dim yn Enw yr Arglwydd Iesu, gan ddiol*vv*ch y Dduw'sef y Tat trwyddaw ef.

*Yr Epistol y v. Sul gwedyr Ystwyll.*
* ymyscaroedd, galondit
‡ mwynder
* iselvryd
‡ aruchaf
* ymorugo
‡ hawddgar
* Trigiet
‡ dangos
* emynae
‡ a' channeu

Y gwragedd, byddwch 'oystyngedic ich gwyr priawt, megis y *cyn*gwedda yn yr Arglwydd. Y gwyr, cerwch eich gwragedd, ac na * vyddwch chwerw*on* wrthynt.

Y plant, vvyddhewch eich ‡rhieni ym-pop dim: can ys hyny 'sy *dda iawn gan yr Arglwydd. Y tadae na chyffrowch eich plant y ddigio, rrac yddyn ‡ ancysirio.

Y gweision, ymuvyddhewch ir ei 'sy yn * arglwyddi ywch erwydd y cnawt ym-pop dim, ny*d* a ‡llygadwasanaeth val ryngwyr bodd dynion, eithr yn * sem*p*l-

* ymchwerwch ac wynt.
‡ tadae a' mamae
* vodlondda
‡ ddigaloni
* veistreid
‡ gwydd, golwc
* gwiriondeb

rwydd calon, gan ofny Duw. A' pha beth pynac a wneloch, gwnewch yn galonoc, megis ir Arglwydd, ac nyd y ddynion, gan *yvvch* 'wybot mae y gan yr Arglwydd yd erbyniwch y tal-*iad-igeth* yr etiueddieth: can ys yr Arglwydd Christ ydd ych yn ei wasanaethu. Eithyr hwn a wna gam*vvedd*, a dderbyn am y cam*vvedd* a wnaeth ef, ac nyd oes *dim* ‡ braint gymer*iad*.

‡ *pcsonarum respectus*

Datro at y decvet pen or Actae

## Pen. iiij.

Y mae ef yn ei hannoc y vod yn wresoc yn-gweddi, I rodio yn ddoeth ym-parthred yr ei ny ddaethant yn gwbl y wir wybyddieth am Christ. Y mae yn eu hanerch, ac yn damuno yddynt holl llwyddiant.

CHWI*THEU* * arglwyddi, gwnewch ich gweision, hyn 'sy gyfion, ‡ ac vnion, gan *yvvch* wybot vot y chwi hefyt * Arglwydd yn y nefoedd. Parhewch yn gweddi*e*, gan wilied ynthwynt y gyd a diol*vv*ch, gan weddiaw hefyt drosom ni, ar y Dduw agori i ni ddrws *yr* ‡ ymadrodd, y adrodd *y* dirgelwch Christ: am yr hwn yddwyf hefyt yn rhwym*edic*, val eu eglurhawyf, *sef* megis y mae yn * raid i mi ymadrodd.

Rodiwch yn ddoeth tu at yr ei '*n* ys y*dd* allan, a' phrynwch yr amser. *Byddet* eich ‡ ymadrodd yn * rhadlawn yn 'oystatawl, ac wedy *ei* ‡ gyfansoddi a' halen, val y gwypoch atep i bop *d*un.

Tychicus *ein* caredic vrawd a' ffyddlon wenidoc, a' chydwas yn yr Arglwydd, a veneic y'wch veu oll * gyflwr, yr hwn a' *dd*anvoneis atoch er mwyn hyn yma val y gwybyddei ef eich cyflwr, *a'* ‡ *ch*onforto eich calonae, y gyd ac Onesimus y ffyddlon a' charedig*avvl* vrawt, yr hwn 'sy *vn* o hanoch. *Yn hwy* a espesant y'wch am bop peth '*sy* yma. Y mae Aristarchus veu-cydgarcharor yn *erchi* yn eich anerch, a' Marcus * nai-vap-chwaer *i* Barnabas (o bleit yr hwn yd erbyniesoch 'orchymynion, a's daw ef atoch *d*erbyniwch ef) ac Iesu yr hwn a elwir Iustus, yr ei ynt o'r enwaediat. Yr ei hyn yn vnic yw veu-cydweithwyr ‡ i deyrnas D*d*uw, yr ei a vuant y mi yn ddiddanwch. Epaphras gwas Christ, yr hwn'sy *vn* o hanoch, 'sydd ich anerch, ac yn 'oystastol yn * ymdrino drosoch yn-gweddieu, ar y-chwy sefyll yn perfeith, ac yn ‡ gyflawn yn oll 'wyllys Duw. Can ys ydd wyf yn testio*laethu*, vot ganto * wynvyd mawr y ‡ drosoch, a' thros yr ei * o Laodiceia, a'r ei o Hierapolis. Luc*as* y ‡ meddic y caredig*ol* 'sy*dd* ich anerch, a' Demas. Anerchwch y broder '*rei*

* veistreit
‡ a cyhmmesur
* veistr
‡ huadlrwydd
* ddir, iawn, weddus
‡ iaith, parabl
* rasus
‡ dywallt
* helbynt, petheu, negeseu
‡ diddanu
* '*anepsios*
‡ ar, at
* ymdrech
‡ gwbl
* serch, awydd
‡ am danoch, eroch
* sy yn
‡ phisicwr

*'sy* o Laodiceia, a' Nymphas, a'r Eccles ysydd yn y d*uy* ef. A' phan ddarlle*n*ir yr epistol hwn y genwch, perwch hefyt ei ddarllen yn Eccles y Laodiceieit, a' bot y chwi hefyt ddarllen yr epistol *a scrivenvvyt* o Laodiceia. A' dywedwch wrth Archippus, Edrych ar y *g*wenidogeth, a *dd*erbyniaist yn yr Arglwydd, val ei cyflawnych. Yr anerch*iad* a'r llaw veu*vi* Paul. *Cofiwch veu rhwymeu. Rat y gyd a chwi, *Amen.* * Coffewch, meddyliwch am

O Ruuein yd scrivenwyt ad y Colossieit *ac anvonwyt* drwy *law* Tychicus ac Ouesimus.

---

# EPISTOL CYNTAF I PAUL
## AD Y
# THESSALONICEIT.

### YR ARGVMENT.

GWEDY darvot addyscu yn dda y Thessaloniceit yn y ffydd, y cyuodes ymlid, yr hwn byth a ymlun wrth precethu 'r Euangel, yn erbyn yr hwn cyd safent wy yn ddiyscoc, er hyny S. Paul (megis vn tra gofalus drostynt) a ddanvonodd Timotheus yw nerthu hwy, yr hwn ychydic gwedy, gan ei rubyddiaw ef oi cyflwr hwy, a roes echlysur ir Apostol yw cadarhau hwy ac amrafael argumentae y vot yn ddianwadal yn y ffydd, ac y ddyoddef beth bynac ar y galwo Duw wy yddaw er mwyn testolaeth yr Euangel, gan eiriol arnynt erddangos wrth dduwoldep ei buchedo, burdep ei creddyf. A' megis na ellir byth garthu'r Eccles mor llwyr val na bo peth efre yn aros ym plith y gweinith, velly yr oedd yn y plith wytheu rei o ddynion enwir, y sawl gan gyffroi ymofynion gweigion a' mangaw y ddadymchoelyd y ffydd hwy, a ddyscent yddyn gauddysc, am van y cyuodedigeth o veirw: am yr hyn y mae ef yn y haddyscu hwy yn dalvyr beth a goeliant, gan 'ohardd yn ddyfri yddynt gaisiaw cynnil ymofyn am wybot yr amsereu, gan wyllisio yddyn yn hytrach wiliad rrac y ddysyvyt ddyvodiat Christ ddyvot ar ei gwartha eb wybot, ac velly ar ol rwy gyngcorion, a'ei anerchiou at y broder, y tervyna.

## Pen. j.

Y mae ef yn diolch y Dduw drostwyn, y bot hwy mor ddiyscoc yn ffydd a' gweithredDuring da, Ac yn derbyn yr Euangel mor * ddyfri, val y maent yu esempl i bawp eraill. **brysur*

PAUL ac Siluanus, a' T*h*imoth*e*us, at Eccles y Thessaloniceit, *rhon 'sy* yn Duw Tat ac yn yr Arglwydd Iesu Christ: Rat y gyd a chwi, a' thangneddyf y *gan Duw ein Tat, a' *chan* yr Arglwydd *wrth
Iesu Christ. Ydd ym yn diolch y Dduw yn'oystatol y troso-chwi oll, gan wneuthur coffa am danoch yn ein ‡ gofio
gweddieu yn ddibaid, gan ‡ goffau eich gryminol ffydd, * llafurus
a'*ch* * diwyd gariat ac ‡ ymaros *eich* gobeith yn ein ‡ amynedd

Arglwydd Iesu Christ *rac bron Duw 'sef ein Tat, gan *yni* wybot, vroder caredigion, eich bot yn etholedig*ion* y gan Dduw. Can ys ein Euangel *ni* ny bu ‡yn-gair yn vnic, eithr hefyt ym meddiant, ac yn yr Yspryt glan, ac yn-*dilysrwydd mawr, megis y gwyddoch ba ryw vodd ydd oeddem yn eich plith er eich mwyn. A' chwi vuoch yn ddilynwyr ‡i ni, ac ir Arglwydd, ac a *dd*erbyniesoch y gair *yn-gorthrymder mawr, y gyd a llawenydd *gan* yr Yspryt glan, val yr oeddech yn esemplae ir sawl oll a credant ym Macedonia ac Achaia. Can ys y wrth-y-chwi y ‡soniawdd gair yr Arglwydd, nyd ym-Macedonia ac *in* Achaia yn vnic: eithr: eich ffydd *chvvi* hefyt yr hon 'sy ar Dduw, *aeth ar lled ym-pdp ‡ban, val na rait i ni ddywedyt dim. Can ys yntwy a venagant am danoch pa ryw *fforddliat y mewn y gawsam atoch, a' pha wedd ‡yr ymchwelesoch at Dduw y wrth *ddelwae, i wasanaethu y byw a'r gwir Dduw, ac y ‡edrych am y Vap ef o'r nefoedd, yr hwn a gyvodes ef o veirw, '*sef* Iesu yr hwn a'n *gwared ni rac y ‡digofeint '*sy* ar ddyvot.

* geir
‡ ar 'air
* hygoelrwydd
‡ hauom
* mewn travel, cystudd
‡ seiniawdd, llafarodd
* a danodd
‡ lle, rrandir
* hyfforddrwydd, gychwynfa
‡ y trosoch
* *Gr. eidolon*
‡ ddysgwyl
* rhyddha
‡ llid a ddaw

## Pen. ij.

Er mwyn na ddeffigient y dan y *groc, Y mae ef yn cymmennu y astudrwydd yhun yn precethu, ar vn yddynt wy yn vvyddhau. Y mae yn ym escuso am y vot ymaith ac na allei ddyvot ac egluro ei galou yddwynt.

CAN ys *chvvi* ychunain a wyddoch vrodur, *y ein fforddiat *y mevvn* atoch na vu yn over. Eithr a' gwedy y ni racddyoddef a' chael ‡anvri yn Phillippi (val y gwyddoch) *ys* buom *hyderus yn ein Duw, y ‡ddywedyt ywch Euangel Dduw gan vawr *ymdrino. Can ys ein ‡annoc *ni* nyd oedd wrth hoccet, nac wrth aflendit, nag wrth ddichell. Eithr val ydd oeddem yn gymradwy gan Dduw, val yr *ymddiriedit *y ni* am yr Euangel, velly ydd ym yn ymadrodd, nyd val'rei a rengant bodd y ddynion, any*d* y Dduw, yr hwn a ‡braw ein calonae. A' chwaith nyd arveresam erioed ac ymadrodd gweiniaithus val y gwyddoch, nac *echlusur i gupydd*d*ot, Duw yn test. Ac ny cheisiasam ‡voliant gan ddynion, na chan y chwi, na chan eraill, pan allesem vot yn *bwys, val Apostolion Christ: eithr ydd oeddem yn dyner yn eich ‡cyfrwng, '*sef* megis mamaeth yn *cynnesu hei phlant. Mal hyn can

* *groes*
* am yn dyfodiat
‡ ein amparchi, gwarthau
* hyf, eon
‡ adrodd, draethu
* ymdrech
‡ cygcor
* gorchymynit
‡ drina
* lliw i drachwant
‡ glod, orvoledd
* awdurdot, drwm
‡ pervedd, cenol, plith
* bwydo, magu, llonhi

hoffed ywch genym, rhwydd wyllysio ydd oeddem gyfranu y-chwy, ny*d* yn vnic Euangel D*d*uw, anyd hefyt ein enedieu ein vnain, can ys ych bot yn ‡anwyl genym. Can ys cof genych vroder, ein llavur a'n *poen: can ys gweithiem ddydd a' nos, rac ‡pwyso ar yr vn o hanoch, ac a precethem y chwi Euangel D*d*uw. Testion *ydy* chwi, a' Duw *hefyt*, mor sanctaidd, ac mor gyfiawn, ac mor *ddiargywedd yr ymddugesam yn eich plith yr ei ‡'sy yn credu. Megis y gwyddoch val ych cygcorem, ac y conffortem, ac yr ervyniem y bop vn o hanoch (megis tad *am* ei blant) ar ywch rodio yn deilwng i Dduw, 'rhwn ath galwodd y'w deyrnas a'*i* *g*ogoniant. O bleit hyn hefyt y diolchwn y Dduw yn ddibait, am'ywch pan *dd*erbyniesoch y genym *g*air pregeth D*d*uw, na's *d*erbyniesoch mal gair dyn, eithyr val y mae yn *ddilys yn 'air Duw, yr hwn hefyt 'sy yn gweithio ynoch y 'sawl a ‡credant. Can ys vroder, *chvvi* aethoch yn ddilynieit y Eccles Duw, yr ei yn Iudaia ynt in-Christ Iesu, can y chwy hefyt ddyoddef yr vnryw betheu gan *wyr-eich-gwlad, ac wyntwy gan yr Iuddaeon, yr ei ac a laddent yr Arglwydd Iesu a'i Prophwyti ‡y hunain, ac a'n ymlidieson ni*ne* a' Duw ny *vodd*h*ant, ac ynt yn erbyn pop dyn, ac yn ein gohardd i precethu ir Genetloedd, val yr iachëid hwy, y gyflawny eu pechotae yn 'oystatawl: can ys *digofein *Duvv* a ddeuth ‡arnyn, yd yr eithav. Can ys vroder, *darvot* ein *gwneuthur yn ymddifaid am danoch dros ychydic amser, yn-golwc, ac nyd yn-calon, *mwy astud vuam y *geisio* gweled eich wynep, gan vawr ‡ddamuned. Am hyny yr oedd ein wyllys y ddyvot atoch (mi*vi* Paul, ys vnwaith neu ddwyaith) anyd *rwystro o Satan *ny*ni. Cnn ys peth yw ein gobaith neu '*n* llawenydd, neu goron *ein* gorvoledd? any*d* ys chwy*chvvi* yn-gwydd ein Arglwydd Iesu Christ yn y ddyfodiat ef? sef *chvvy*chwi yw'n gogoniant a'*n* llewenydd.

‡ garedigol
* travel
cystudd
‡ gormesu
* ddiveius
‡ ywch, ych
* wir
‡ gredwch
* *contribulibus*
‡ priawt
* vodlonant
‡ lid dicter
* ar gwartha
‡ gohanu y wrthych
* glewach dyvalach
‡ ddychwant, ddeisyf
* llestair, lludd, deor, rragot

## Pen. iij.

Dangos y mae vaint y serch yddwynt can yddaw ddanvon Timotheus atwynt, A' hefyd am y vot yn gweddiaw drostwynt.

AM hyny can na allem *ym*attal a vei hwy, *ys* tybiesam vod yn oreu *y ni* aros yn Athen ein *vnain, a' hebrwng Timotheus ein brawt a' gwenidawc Duw, a'n cydweithwr yn *yr* Euangel Christ, ich cadarnhau, ac ich ‡confforto yn-cylch eich ffydd, val na chynnyrfyt

‡ yn vnic
* diddanu, cyssuraw

neb o bleit y gorthrymderae hyn: can ys *chvvichvvi* ychunain a wyddoch, ein darparu ni y hynn*y*. Can ys yn wir pan oeddem y gyd a chwi, *ys* rac ddywedesam ywch' y byddei y ni gahel gorthrymder*eu*, vegis ac y darvu, ac y gwyddoch. Sef o bleit hyn, pryd na allwn *ymattal yn hwy, *ys* auvonais *ef* y *ym*wybot y wrth eich ffydd, rrac darvot ir temptiwr eich temptio mewn ‡neb ryw vodd, a' myned o ein gwaith yn *wac. Eithr yn hwyr yr owhon gwedy dyvot Timotheus *odd* ywrthych atom, a' menegi y ni *ddaeoni am y*ch* ffydd a'ch cariat, a'ch bod ‡yn cadw cof da am danam yn 'oystad*ol*, gan ddeisyf*u* *cahel* ein gweled, vegis ac *ydd ym* ni*nheu* am danoch chwi*theu*, am hyny, vroder, in conffort*h*it *ni* *ynoch, yn ein ol' orthymder a'n angen*octit* trwy y*ch* ffydd chwi. Can ys yr awrhon ydd ym yn vyw, a'd yw chwi yn sefyll *yn ddyfal* yn yr Arglwydd. Can ys pa ddyol*vv*ch allwn *ni* y a*d*-talu y Dduw ydrosoch am yr oll llawenydd *a'r* ydd ym yn llawen*ychu* er eich mwyn gar bron ein Duw, nos a' dydd yn tra gweddiaw ar weled o hanam eich wynep, a ‡*ch*yflawny y sydd yn eisieu ich ffydd? Ac *yntef *y* Duw, 'sef ein Tat, a'r Arglwydd Iesu Christ, a ‡vniono ein * ffordd atoch, a'r Arglwydd a'ch ‡lliosoco ac a'ch am*p*lao yn-cariat y gylydd, ac y bawp oll, megis ac *ydd ym ni* y chwi: er *goystatau eich calonae yn ‡ddigwl*iedic* yn sancteidd geyr bron Duw 'sef ein Tad, *yn-*d*yuodiat ein Arglwyd Iesu Christ y gyd ai oll Sainct*æ*.

Marginal notes: * blindere, trwble — ‡ ymaros — * methlwr eich nethlu — ‡ modd yny byd * over — ‡ ddaed ych &c. — * genych — ‡ chwplau — * Duw yhun — ‡ gyfrwyddo yn siwrnei — * taith, hynt — ‡ angwanego, cynnyddo — * sicrau — ‡ ddiveius, ddiargywodd — * erbyn

## Pen. iiij.

Y mae ef yn ei hannoc i sancteiddrwydd, Gwiriondep, Cariat Llavur, A' chymmetroli galar a' geirad am y meirw, Gan ddosparthu dywedd y cyuodedigaeth.

*Yr Epistol y Sul cyntaf yn y Grawys.*

AC eb law hyny ys atolygwn ywch, vroder, ac a ervyniwn yn yr Arglwydd Iesu ar *ymchwanegu vwy vwy, megis yd erbyniesoch y cenym po'dd y dylech rotio, a' boddhau Duw. Can ys gwyddoch pa 'orchmynion a roesam y'wch y gan yr Arglwydd Iesu. O bleit hyn yw 'wyllys Duw, '*sef* eich sancteiddiat chwi, ac *ymgynnal o hanoch ‡rrac ffornicrwydd * a' gwybot o bop vn o hanoch p'odd y medd*ianna* ei lestr yn sancteidrwydd ac anrydedd, ac nyd yn ‡gwyyn trachwant, megis y Cenetloedd yr *ei* nyd adwaenant Dduw. Na bo i nep *'orthrymu na thwyllo ei vrawt ‡ym-masnach : can ys dialwr yw'r Arglwydd am bop cyfryw

Marginal notes: ‡ gengorwn anogwn — * gynnyddu — ‡ val — * ymgadw — ‡ y wrth 'odinep — * val y gwypo — ‡ *Gr. pathei* haint — * 'orthrech, lethu — ‡ ar vn helhynt

betheu; megis ac y rac ddywedesam y'wch, ac y testiasam. Can na's galwodd Duw *nyni* y aflendit, yn amyn i sancteiddrwydd. Can hynuy y nep a *escaeluso *y petheu hyn*, nyd dyn y mae yn ei escaeluso, 'n amyn Duw, 'rhwn ac a roddes ywch ei Yspryt glan. A' thu ac at am ‡vrawdgarwch nyd rait y chwy scrivennu *o hanof* atoch: can ys ich dyscwyt-gan-Dduw y garu eu gylydd. Sef ydd ych yn gwneuthur hyn i bawp o'r vrodur, yr ei 'sy trwy oll Macedonia: ac adolwyn ywch, vroder, ar *ragori o hanoch vwyvwy, a' rhoi eich bryd ar vot yn llonydd, a' ‡gwneuthur y petheu *sy* y'*dd*wch eichunain, a' gweithiaw a'ch dwylo *eich vnain, megis y gorchymynesam y-chwy, val yr ymddugoch yn syber*vv* tu ac at yr ei 'sy*dd oddy* allan, ac na bo dim yn eisieu ychwy.

* 'ommedd ddirmyga
‡ vrawdol gariat
* gynnyddu
‡ ymyryd ar yr eiddoch
* Gr. priod
* honest

Ny*d* wyllyswn, vroder, eich bot yn anwybot am yr ei 'sydd ‡yn hunaw, val na *chymroch-drymder, megis ac *y gvvna* eraill yr ei nyd oes ganthynt *ddim* *g*obaith. O bleit a's credwn varw *o* Iesu, ai *ad*gyuodi, ys velly yr ei*n* a hun*e*sant yn Iesu, a ddwc Duw y gyd ac ef. Can ys hyn a ddywedwn wrthych yn-gair yr Arglwydd, na bydd i ni yr ei 'sy *yn* vyw, ac *yym* *yn aros yn-duodiat yr Arglwydd, ragvlaenu ysawl a ‡hun*e*sant. Can ys-*ynt*ef yr Arglwydd a ddescen*d* o'r nef *gyd* a *gawr, ac a llef *yr* Archangel, ac ‡ac vtcorn Duw: a'r meirw in-Christ a gyuodant yn gyntaf. Yno ni*nheu* yr ei byw ac 'sy yn aros, a *gymmerir ‡yny man gyd ac wynt yn *yr* *wybre*nneu*, y ‡gyfarfod ar Arglwydd yn yr awyr: ac velly yn oystatol y gyd ar Arglwydd y byddwn. Can hyny, *confortwch eu gylydd a'r ymadroddion hyn.

‡ wedy, cysgu
* thristaoch
‡ gyscesant, 'sy wedy meirw
* dolef a' llais
‡ a chorn
* ysclyfiir, gyrheiddir.
‡ hefyd, ar gip, ar vnwaith
* cymyleu
‡ gyhwrdd, yn erbyn
* cyssyriwch diddenwch, dyhuddwch

## Pen. v

Espesu yddyn am ddydd brawd ac am ddyvodiat yr Arglwydd y mae, Gan eu hannoc y wiliad, A' synnyed ar y ei 'sy'n precethu gair Duw yn y plith wy.

AC am yr amsereu a'r prydieu, vroder, ny*d* rait *yvvch* scrivenu o hanof atoch. O bleit *chvvi* eich vnain a wyddoch yn *espes, *can ys* y daw dydd yr Arglwydd ys mal lleitr ‡o hyd nos. Can ys pan ddywetont, Tangneddyf, a' diogelwch, yno y daw arnynt *ddestryw*iad* disymuth, megis gofid gwraic veithioc *wrrh escor, ac ny'*s* d*di*angant. Anyd *chvvychvvi*

* ddilys, hylythr hygles
‡ ar
* ddinistr
‡ yn

vroder, ny*d ydy*ch yn-tywyllwch, val y del*ei* y dydd hwnw arnoch, megis lleitr. A' *chvvi*chwy oll plant y golauni ytych, a' phlant, y dydd: ny*d* ym *ni* *i'r nos, nac i'r tywyllwc*h*. Sef gan hyny na chyscwn val eraill, eithr gwiliwn, a' byddwn ‡ddiwyd. Can ys yr ei a gyscant, y nos y cuscant, a'r ei a veddwant, y nos y meddwant, Eithyr *ny*ni **ac yn blant* ir dydd, byddwn ‡ddiwyd, gan wisco *am danom* ddwyfronnec y ffydd a' chariat, a' gobaith *yr* iechedwrieth yn *lle* *helym. Can na ddarparawdd Duw *ny*ni y ‡ddig*lloni*, any*d* er caffael*iad* iechedw*vrieth*, trwy *vraith* ein Arglwydd Iesu Christ, yr hwn a vu varw trosam, val ai *gwiliem ai cuscem, y byddem vyw nghyd gyd ac ef. Erwydd paam cygcorwch eu gylydd, ac adeilwch bop vn ‡eu gylydd, megis ac ydd ych yn gwneuthur. Ac *ni* atolygwn ywch vroder, adnabot yr ei, a *lavuriant yn eich plith ac a ynt ich llywo*draethu* yn yr Arglwydd, ac yn eich ‡cygcori, a' rhowch eich traserch arnynt er mwyn y gwaith wy. Byddwch dangneddyfus yn eich plith eichunain. A' *ni* ddeisyfwn arnoch, vroder, rhybyddiwch yr ei *anllywodraethus: diddenwch y rhai gwan veddwl: ‡cynhaliwch y gweniait: byddwch *ymarous wrth *bavvp* oll. Gwelwch na thalo neb ddrwc dros ddrwc y neb*un:* eithr yn 'oystat*ol* dilynwch yr hyn *sy* d*d*a, 'sef y chwi ychunain, ac y bawp *eraill*. Byddwch lawen yn 'oystad*ol* Gweddiwch eb ‡peidio. Ym-pop dim dyolchwch: can ys hyn yw wyllys Duw in-Christ Iesu *tu ac atoch. Na ddiffoddwch yr Yspryt. Na ‡thremygwch brophwyto*liaeth*. *Provwch bop dim, *ac* *atdeliwch yr hyn 'sy dda, Ymgedwch rac pop *cyf*rith drigioni. Ac ys Duw y tangneddyf a'ch sancteiddio *yn* oll gwbl: a' phoed eich cyfan yspryt a'c*h* eneid ac*h* corph, a gatwer yn ‡ddihawl erbyn dyuodiat ein Arglwydd Iesu Christ. *Ys* ffyddlon yw'r hwn ach galwodd, yr vnhefyt *ei* gwna. Brodur, gweddiwch trosam. Anerchwch yr oll vrodyr a' chusan sanct*avvl.* Ydd wyf yn ych noddi*o* yn yr Arglwydd, ar *vot* ddarllen yr epistol hwn ir oll Sainct vroder. Rat ein Arglwydd Iesu Christ y gyd a chwi, *Amen.*

Yr *epistol* cyntaf ad y Thessaloniceit a scrivennwyt o Athen.

* yn eiddo nei yn hanfod or
‡ sobr, temperus
* *eiddo*
‡ wiliadurus
* penffestyn, saylet
‡ ddicter, lid
* dyhunem, baem yn effro
‡ llall
* dravaelant
‡ rhybuddio
* afreolus
‡ siriwch
* derchefwch, ategwch cynwyswch
‡ ddyoddefus
* ymadel, dor
* ychwi
‡ ddiystyrwch
‡ Treiwch, trinwch, chwiliwch
‡ cedwch
* cyfryw
‡ ddiarhawl
* tyrgu, gorchymyn

# YR AIL EPISTOL I PAUL
## AD Y
# THESSALONICEIT.

### YR ARGVMENT.

RAC ir Thessaloniceit dybiet vot Paul yn y escaeluso hwy, o bleit yddo vyned i leoedd eraill, yn hytrach nac atynt wy, y mae ef yn scrivenu atynt, ac yn ei hanoc i ymddyoddef ac y ddwyn ffrwythydd eraill y ffydd, ac na's cynnyrfid hwy y gan wac opinion yr ei a ddangosent vot dyfodiat Christ yn agos, can ys dir vyddei o vlaen y dydd hwnw ymadael y wrth y gwir greddyf, nid amgen trwy barth mawr o'r byt, ac i Anchrist deyrnasu yn Templ Dduw: yn y dywedd gan ei 'orchymyn yhun yw gweddieu hwy, ai cisirio i ddianwadalwch, y mae yn wyllysio yddynt gospi yn dost, y cyfryw ac a vydden yn byw yn segur ar lavur ereill, y sawl, anys vfyddhant y gycgorion ef, y mae yn gorchymyn eu escommuno.

## Pen. j.

Dyolwch y Dduw y mae am y ffydd hwy, ei cariat a'i dyoddefgarwch. Y mae yn gweddio ar angwanegu y cynneddfae hyny, Ac ymdangos pa ffrwyth a ddaw ywrth hyny.

PAUL a' Siluanus, ac Thimorheus at Eccles y
Thessaloniceit *rhon 'sy* yn Duw ein Tat, ac yn yr
Arglwydd Iesu Christ: Rat *a vo* gyd a chwi, a' thang-
neddyf ywrth y Dduw ein Tat, ac ywrth yr arglwydd
Iesu Christ. Diolwch a ddlyem y Dduw yn oystadol
trosoch, vroder, val y mae yn *addas, am vot eich * weddus
ffydd yn cynnyddu yn ddirvawr, a' bot eich cariat bawp iawn, gym-
y'w gylydd yn ‡lliosocau, val ydd ym *nine yn ym- mesur, ddeil-wng
hoffy ‡o hanoch in Ecclesi Duw, o bleit eich am- ‡ amlhau
mynedd, a'ch ffydd yn eich oll ymlidiae a'r gorthrym- * nyni, ein
derae ydd ych yn ei goddef, *yr hyn* sy *yn* *argoel-*goleu* hunain ‡ am danoch
*o* cyfiawn-varn Duw, val ich teilynger i deyrnas D*d*uw, * arddangos,
‡er *mvvyn* yr *hon ydd ych eisioes yn goddef. Can ys arwyddo
cyfiawn yw gan Dduw, dalu gorthrymder ir sawl 'sy*dd* ‡ dros
ich gorthrymu chwi, ac y chwi*the* yr ei a 'orthrymir,
llonyddwch y gyd a ni pan vydd yr Arglwydd Iesu
*yn* ‡ymddangos o'r nef y gyd aei alluawc Angelion, ‡ ymddad-
*yn tanflam*eoc*, gan roddi dial ir sawl ny*d* adwaenant guddio
Dduw, ac ny*d* vvyddhant i'r Euangel ein Arglwydd * mewn
Iesu Christ, yr ei 'n a boenir a chyfergoll dragyvythawl,
o ‡*d*rac*h* bron yr Arglwydd, ac ywrth 'ogoniant *ey* ‡ wydd, y gan
*veddiant *ef*, pan ddel ef y'w ‡'ogoneddu yn ei Sainct*æ*, * allu
ac y'w ryfeddu yn yr oll 'rei a gredant (can ys ein ‡ ogoniantu
testiolaeth *ni* tu ac atoch a gredwyt) yn y dydd hwnw.

O bleit hyn*y* ydd ym hefyt yn gweddiaw yn 'oystad*avvl* y trosoch, ar *vod* i'n Duw eich teilygy *yvv* 'alwedigeth, a' chyflawny oll *ddawyllys*garvvch* y ddayoni *ef*, a' gwaith ffydd, ‡gan veddiant, val y gogonedder Enw eun Arglwydd Iesu Christ ynoch, a' chwi*the* ynthaw *yntef*, *erwydd rhat ein Duw, a'n Arglwydd Iesu Christ.

* rad
‡ yn nerthol, yn allnoc
* gan

## Pen ij.

Dangos y may yddynt na ddaw dydd yr Arglwydd, nes dyvot ymadaei a'r ffydd yn gyntaf. A' theyrnas *Anchrist. Ac am hyny y mae yn eu rhybuddio rrac eu hudo, eithr sefyll o hanynt yn ddiyscoc yn y petheu a ddyscawdd ef yddwynt.

* *Grrrthgrist*

WEITHION yr Atolygwn ywch, vroder, *er dyvodiat ein Arglwydd Iesu Christ, ac er ein cydgynull*iad* ato *ef*, na'ch ‡ysmuder yn ddisyfit ywrth *eich* meddwl, ac nach cynnyrfer, na chan yspryt, na chan 'air, na chan lythyr, megis *scrivenedic* ywrthym ni, val be bei dydd Christ *yn *gyf*agos. Na thwyllet neb chwi ‡ym-modd yn y byd: can *na's davv'r dydd hvvnvv* *nes dyvot yr ‡ymadawiat yn gyntaf, a' *bod* dadguddio y dyn y pechot*urus*, '*sef* map y ‡cyfergoll, yr hwn a 'wrthnepa, ac a ymdderchaif yn erbyn *pop dim a elwir *yn* D*d*uw, neu y addolir: yd yn yd eiste*dd* megis *yn* D*d*uw yn Templ D*d*uw, gan ‡y ddangos ehun mae *efe* yw Duw. Any ddaw *yn* eich cof, pan oeddwn eto gyd a chwi, *ddar*vot i mi ddywedyt ywch *y petheu* hyn? Ac yr awrhon y gwyddoch y rhwystr 'sy yw ddatcuddio ef yn ei amser. Can ys dirgelwch yr enwiredd ys y yn gweithio eisius: yn vnic yr hwn 'sy yr awrhon yn rhwystro, *a rwystr *y*n-es myned ac ef y ar y ffordd. Ac yno y*d* atguddir yr enwir hwnw, yr hwn a ‡ddiva yr Arglwydd ac Yspryt ei eneu, ac ai *diflanna a dysclaerdab ei ddyuodiat, *ys ef* yr hwn 'sy ei ddyuodiat ‡o waith*red* Satan, wrth oll veddiant, ac arwyddion, *ac aruthroedd gauoc, ac wrth oll ehudrwydd ‡ancyfiawnder, ym-plith yr ei a *gyfer*gollir, can na *dd*erbyniesont y cariat y gwirionedd, val yr iacheëit hwy. Ac am hyn yd*d* envyn Duw yddwynt ‡ehudrwydd cadarn, val y credant ir *gau, val y ‡barner yr oll 'rei ny chredrent y'r gwirionedd, any*d* *ymvodd*h*au yn ancyfiawnder. Eithr *nyni* a ddlyem ddiol*vv*ch yn oystat y Dduw y trosoch, vroder caredigion can yr Arglwydd, o bleit y Dduw o'r ddechreu*ad* eich ‡*d*ethol chwi i iechyd*vvrieth*, trwy sancteiddiat yr Yspryt, a'

* gan, trwy
‡ ys coger, chyffroer, ymoder
* geir llaw, ar y drws
‡ ervydd dim modd
* o dddyeithr
‡ deffic
‡ colledigeth
* oll
‡ ymddangos y vod yn Dduw
* attal, gwrthladd, lestair
‡ ddivetha, ddiwalitrain
* dadwna
‡ gan
* a' ryveddodau celwyddoc
‡ twyll, dichell, hocced
* anwiredd celwydd
‡ ddamner
‡ cyd synnio ac enwyredd
‡ dew ys

ffydd gwirionedd, ir hyn y galwodd *ef* chwi *trwy ein Euangel *ni*, y berchenogi gogoniant ein Arglwydd Iesu Christ. A' chan hyny, vroder, byddwch safadwy, a' ‡chynneliwch yr athraweth, ich dyscwyt, *paun bynac* ai gan 'air, ai ein Epistol *ni*. Ac *efe ein Arglwydd Iesu Christ, a'*n* Duw 'sef y Tat yr hwn a'n carawdd, ac a roddes y ni ddiddanwch tragyvythawl a' gobeith trwy ‡rat, a ddiddano eich calonae, ac ach *ffyrfhao ym-pop gair a gweithred d*da*.

* gan wrth
‡ chedwch
* ys
‡ ras
* sicrao

## Pen iij.

Deisyfu y mae arnnynt weddiaw drostaw, ar lwyddo ganto precethu r' Euangel, A'i rhybyddiaw i geryddu yr ei segur, Ac yno damuno yddynt oll ddawnged.

BELLACH, vroder, gweddiwch drosom, ar *rwyddhau rac gair yr Arglwydd, a' e i ogoneddu, megis a chyd a chwi*theu*, ac ar ein ‡rhyddhau ywrth ddynion *anresimol a ‡drigionus: can na*d* oes ffydd gan bawp. Eithr bot yr Arglwydd *yn-ffyddlawn, yr hwn ach *ffyrfha, ac ach caidw rac *y* ‡drwc. Ac ydd ym yn *gobaitho am danoch trwy 'r Arglwydd, *ac* ych bot yn gwneuthu'*r*, ac y gwne*l*wch *rhac llavv* y petheu a 'orchymynwn y-chwy. A'r Arglwydd a ‡gyfrwyddo eich caloneu at cariad *ar* D*d*uw, ac y ddysgwyl*iad* am Christ. *Ys* gorchmynwn ywch, vroder, yn Enw ein Arglwydd Iesu Christ, *ar* ychwy **ym*dymu *ymaith* ywrth bop brawt 'sy yn rhotio yn *afreolus, as nyd wrth yr athraweth, a *dd*erbyniawdd *ef* genym *ni*. Can ys-chwychwi *eichunain* a wyddoch ‡po'dd y dylech ein dylyn *ni:* can na*d* ymddugesam-yn-afreolus yn eich *cyfrwng, ac ny'*s* bwytesam vara gan nep yn rhat: any*d* gweithio *avvnaem* trwy lafur a' ‡lluddet nos a' dydd, *er mwyn na phwysem ar neb o hanoch. Ny*d* can na*d* oedd i ni awturtot, *yn* amyn val y dodem einunain yn esempl y'wch i'n *dilyn. Can ys-pan oeddem gyd a chwi, hyn ich rhybyddiesam amdano, can a's byddei neb, a'r ny*d* wyllysei weithio, na chei vwyta *chvvaith*. Can ys-clywsam, vot 'rei yn rhotio yn eich plith ‡yn afreolus, eb weithio dim oll, any*d* gwaith*io* *afraid. Can hyny yr ei 'sy gyfryw, a ‡'orchymynwn ac a gygcorwn *can eun Arglwydd Iesu Christ, ar yddyn waithio *y gyd* a llonyddwch, a' bwyta ei bara euhunain. A' chwi*theu*, vroder, na ddefficiwch yn gwneuthu'r da*yoni*. Ad *oes* nep ny'*s* vvyddhao i'n

* Am ben hyn
* gerdet, redec o air
‡ gwared
* anvad, anweddus
‡ mall, sceler, diraid
* sicra, atega
‡ vall
* coelio
‡ vnino, gyteirio
* gilio
* antrefnus ddi ordr
‡ vaſ, pa wedd
* plith, misc
‡ thravel
* rac gormesu
* ymlyn
‡ eb ordr
* nym dawr
* trwy

‡ nodwch — ymadrodd, ‡arwyddocewch ef trwy lythyr, ac na vit
* giffeilach — ywch' *or* *gymddeithas ac ef, megis y cywillyddio.
Er hyny na chymerwch ef val gelyn, eithyr cygcorwch
‡ Ac ys — ef brawt. A' gwir Arglwydd y tangneddyf a roddo
yw'ch tangeddyf yn 'oystatawl ym-pop modd. Yr
Arglwydd *vo* y gyd a chwi oll.

Yr anerch y can-y-vi Paul, a'm llaw vy*h*un, yr hwn yw'r arwydd ym-pop epistol: val hyn y'*r* scrivennaf, Rat ein Arglwydd Iesu Christ *vo* y gyd a chwi oll, *Amen.*

*O Lyver cenedleth. &c. yd y van hyn, W. S.; a'r Epistol iso D.R.D.M. ei translatodd*

Yr ail *Epistol* ad y Thessalonicceit a scrivennwyt o Athen.

---

# YR EPISTOL CYNTAF I PAUL
## AT
# T I M O T H E U S.

### YR ARGVMENT.

Wrth scrivenu'r Epistol hwn ny welir bot Paul yn darparu yn vnic dyscu Timotheus, anyd yn penaf *dal eraill dan ledofn, yr ei a vynesent y wrthladd ef, o bleit ei ieuncdit, ac am hynny y mae ef yn y arvu ef yn erbyn y ‡gorchestwyr hyn, yr ei y dan liw awyddserch ir Ddeddyf, a aflonyddent yr ei dwywol ac ynuyd ac anvuddiol *orchestion, wrth yr hyn yr eglurhaent, cyd byddent yn professio yr Ddeddyf, na wyddent pa ydoedd dywedd y Ddeddyf. Ac am danaw ehun, y mae ef velly yn coffessu ei anteilyngdawt, mal y mae ef yn dangos i ba ‡dailyngdawt y trefnawdd Duw ef: ac am hyny yr wyllysia ef bot gweddiaw tros pop rryw *ddynion, can y Dduw wrth gynnic ei Euangel a' Christ ei Vap yddynt wy oll, vot yn an*ailltuawl i bop ryw ddyn, megis y mae y Apostolieth ef, yr hyn 'sy yn briawt ir Cenetloedd, yn testolaethu. Ac yn gymeint a darvot y Dduw adael Gwenidogion megis yn gyffurfion ordiniol yn ei Eccles y ddwyn dynion i iechydwrieth, y mae ef yn dosparthu pa ryw sut dynion y dlyent wy vot, yr ei y goelir yddynt am precethu dirgelwch Map Duw wedy ei ddatcuddiaw yn-cnawt. Gwedy hyn y mae ef yn dangos pa trwble vydd ar yr Eccles ym-pop amser, yn enwedic yn y dyddieu dywethaf, pan vydd i ddynion yn rhith creddyf ddyscu ir bopul betheu gwrthynep i air Duw. Gwedy darvot yddaw a hyn, y mae ef dyscu yddo pa wragedd gweddwon a ddlyeid ei derbyn neu 'gwrthddot y weini yr cleifion: hefyt pa henafieit a ddyleit ei dewiso ir swydd, gan y gycori iddo na bo ef ry ebrwydd yn derbyn, nac yn barnu neb: hefyt pa beth 'sy ddlyedus ar wasanaethddynion, naturieth gau ddyscyawdwyr, am wac 'orchestion, am *cupydddot, am gyvoethocion, ac yn uwch ‡na dim y mae ef yn gorchymyn yddaw ymoglyd rrac gauddysc.

Margin notes: * *cadw*; ‡ *questionwyr*; * *questione*; ‡ *vrddas*; * *partiol*; * *drachvvant*

## Pen j.

Y mae ef yn anoc Timotheus y wilio ar ei swydd, yn enwedic ar yddo edrych na ddyscer dim ir popul anyd gair Duw. Gan ddeclaro pan yw

i ffydd, y gyd a chydwybot dda, cariat ac adailadeth yw dywedd y peth. Ac 'yn rhybyddio am Hymenaius ac Alexander.

PAWL apostol Iesu Christ, trwy ordinhaad Dyw eyn keidwad, ar arglwydd, Iessu Christ eyn gobaith, At Tymotheus fy mab naturiol yn y ffydd: Gras, trugaredd, a heddwch can Ddyw eyn tad, a' *chan* Christ Iessu eyn Arglwydd. Megis i dysyfais arnat aros yn Ephesus, pan aethym i ymaith i Vacedonia, *gwna velly*, mal i gellych rybuddio rrai, na ddyscont amryw ddyskeidiaeth. Ag nad ystyriant chwedlay, ag achay anorffen, rrain kynt yddynt fagu questiwnay, nag edeiladaeth dywiol sy drwy ffydd. Can ys diwedd y gorchymyn ydiw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd *ddiau. O ddiwrth y rrain i ‡kiliasont rrai, ag a droysont at oferson, hwy a fynnen fod yn ddoctoriaid y gyfraith, heb na dyall yr hyn a ddoytont, nar pethau i boont yn i sikerhau. Nyni a wyddom, eisus ‡taw da y gyfraith, os erfyr dyn hi yn gyfreithlon, can wybod hynn, na ddodwyd y gyfraith ir kyfion, eithr ir rrai afreolus ac ir anostyngedigion, ir hai andywiol, ar pechaduriaid, ir rrai enwir, a' rrai anlan, i *lawruddogion tad a' llawruddogion mam, i lawruddogion-dynion, ir putteniwyr, ir ‡bwggeryddion, i ladron dynion, i rrai celwyddog, ir anudonwyr, ag od oys dim arall, rrwn sy wrthwyneb i athrawaeth iachus. *Y sydd* ar ol 'gogoneddus efengil y bengidedig ddyw, a ymddiriedwyd i myfi. Am hynny diolch i ddwy ir hwn, a roes ym allu 'sef Christ Iesu eyn Arglwydd: can ys ef am barnodd yn ffyddlon, ac am dodes yn eu wasanaeth: a' mine or blaen yn cablwr, ag yn emlidiwr, ag yn *draws: eithr trugarhau wrthyf a wnaeth *ef:* cans yn anwybod*us* i gwneuthym trwy angrredinieth. Eithyr tra*gor*ddigonawdd rrad eyn Arglwydd gida ffydd a chariad, hwn 'sydd yn-Christ Iesu. Gair gwir *yw hwnn*, ag ym pob modd yn heuddu cymeriad, mai Christ Iesu a ddoeth ir byd i gadw pechaduriaid, o rrain pennaf ydwyfi. Eithr achos hyn i trugarhaodd wrthyf, mal *i bai* i Iesu Christ ddangos ynof yn gyntaf pob ‡hir-oddeu, ir syampl yddyntwy, rrain rrag llaw a grettont yntaw herwydd y bowyd tragwyddol. Weithian ir brenin tragwyddol, difarwol, anweledig*ol*, vnig synhwyrol Ddyw, *i bo* ‡vrddas, a gogoniant yn oysoedd oesau, Amen. Y gorchymyn hwn i ddwyf yn y roddi attatti, *fy* mab Timotheus, mal ar ol y proffodolaethay, a gerddasont or blaen am danat, i gellech trwyddynt wy ymdrechu

* ddiffuant ddiragrith, anyscyfrith
‡cyfeiliornodd, aeth ar ddidro
‡ may
* leiddiait, lladdwyr
‡ gwrwgydwyr
* ormeilwr yn gwneuthur cam
‡ *Gr. macrothymian*
‡ anrydodd

yr ymdrechiad ta, trwy gadw ffydd a' chydwybod dda,
* tori llong rron a ddodasont rrai heibio, ac a wnaythont *long-
*gyfer*goll am y ffydd. O rrai hyn i may Hymeneus, ac
Alexander, rrain a *ddy*roddais i Satan, i ddyscu vddynt
na chablont.

## Pen ij.

Y mae ef yn annoc gweddiaw dros pop dyn, Paam, A' pha wedd. Yn-cylch trwsiat a' chymmesurwydd merchet.

CYNGHORI ddwy am hynn, ymlaen pob peth fod
ytolygon, gweddiau, erfyniadau, a' thalu diolch
dros pob rryw ddynion, tros Brenhinoedd, a' ffawb or a
osoded mewn audurdod, fal i gallom ddwyn buchedd
* dwywoldeb, dywioldeb lonydd*aidd* ac heddychawl, drwy bob *gwaredd ac
honestrwydd. Canys hyn sy dda a chymradwy gar
‡ wyllysa bron Dyw eyn ceidwad, rrwn a ‡fynn vod pob rryw
ddyn*ion* yn cadwedig, ac dyfod i wybodaeth y gwir-
* Cyfryngwr ionedd. Can ys vn Duw *sydd*, ac vn *Canolydd *rrvvng*
Duw a' dynion, *sef* y dyn Christ Iesu, Rrwn ai rroddes
i hunan yn pridwerth tros pawb, *sef* testioleth yn i
‡ priawd amseray ‡i hunain. Ar yr hyn im dodwyd yn pre-
gethwr ac yn abostol (y gwir a ddoydaf yn-Christ, heb
gelwydd) *sef* athro y cenedloedd mewn ffydd a gwir-
ionedd. Am hynny mi a fynnaf ir gwyr weddio ym-pob
* ddowto man gan ddyrcha dwylo purion heb ddicter, na **dar*-
ammau. Velly hefyd y gwragedd, bod yddynt ym-
drwsiaw mewn dillad gweddus, gida lledneisrwydd a
chymesurwydd, nid a gwallt plethedig, neu aur, neu
‡ berleu ‡gemau, neu ddillad gwerthfawr. Eithr (megis i
gweddai i wragedd yn yn-addaw duwiolaeth) a gweith-
redoedd da. Gwraig discet mewn distawrwydd ynghyd
a ffob gostingedigrwydd. Ond ni oddefa fi i wraic
* *Gr. andros* y gwr trauthu dyst, nac arfer awdurdod ar *wyr, eithr bod
mewn distawrwydd. Can ys Adda yn gynta a ffurf-
awyd, ac yno Efa. Ac nid Adda a dwyllwyd, eithyr y
wraig wedy i thwyllaw aeth yn euoc or cam-wedd.
Etto hi a fydd cadwedig can ddwyn plant, os hwy a
drigant yn y ffydd, a chariad, a sancteidrwydd ynghyd
a cymesurwydd.

## Pen iij.

* *tulwyth ty* ‡ *vrddas* Datcan y mae ef pa yw swydd gwenidogion yr Eccles. Ac am y *tuyluoedd hwy, ‡Teilyngdawt yr Eccles, Ar poynt pennaf o'r athraweth nefawl.

Y MADRODD gwir yw hwn, o bydd neb yn wollysy swydd escob, *ys*da waith a chwennych. Rraid ir escob fod yn ddifai*edic* gwr vn wraig, gwiliadwr, pwyllog, cymwys, lleteuwr, athrawys, nid gwingar, nid ymfustwr, nid chwannoc i fudr elw, eithr rrywiog, nid yn ymladdgar, nid cybydd, vn a wyr reoli y dy i hun yn dda, yn cymal i blant tan vfuddtra, ynghyd a phob honestrwydd: Can ys oni wyr dyn reoli i dy i hun, pa fodd i gofala ef tros eglwys Duw? Nid *yscolhaig-ieuanc, rrac iddo wedy ymchwyddaw gwympo mewn ‡ enllib diawl. A' rraid iddaw ef hefyt gaffael gair da can ddieithred, rrag digwydd mewn gwarth, a magl diawl. Velly hefyd *bot* y deconiaid yn honest, nid a thafodau dau ddyblig, nid trachwannog i win, nid chwannog budr elw, yn dal*a* *cyfrinach y ffydd, mewn cydwybod pur. Arhain profer hwynt yn gynta: ac yno gwasnaythant, os byddant difeius. Velly hefyd *bot* eu gwragedd yn honest, nid a thafodau drwc, *eithr* sobyr, a ffyddlon ym pop peth. *Bot* deconiaid *yn* wyr vn wraig, ac yn gwybod rreoli i plant yn dda, ay teye i hunain. Can ys yr hai a wasanaytho yn iawn, a ynillan yddyn i hunein *g*radd dda, a rrydit mawr twy'r ffydd, sy yn Christ Iesu. Hynn i ddwy yn i scrivennu attat, dan 'obeithio i dauaf attat ar fyrder. Ac o tariafi yn hir, fod i ti wybod, pa fodd i bydd rraid iti ymddwyn yn-ty Dduw. ‡ rron ydiw Eglwys Duw byw, piler, a sylfayn y gwirionedd.

Ac yn ddi‡ddadyl, mawr ydyw cyfrinach dywyoliaeth '*sef* Duw a wnaethpwyt yn weledig * mewn cnawt, a gyfiownwyd yn yr yspryd, a welwyd can angylion, a bregethwyd ir Cenedloedd, a gredwyd iddaw yn y byd, ac a gymerwyd i fyny*dd* i ogoniant.

* *Gr. neophyton*
‡ *Gr. crima* barn
* dirgelwch
‡ rhwn
‡ ymryson
* deb
* ynghnawd

## Pen. iiij.

Dyscu yddo y mae ef pa ddysc ddylei gilio rragddo, A' pha vn ei ddylyu, Ac ym-pa 'orchwyl y dlyei ef ymarver yn vngwaith.

A R Yspryt syn doydyt yn eglur, ir ymedy rrai yn yr amseroedd diwaytha or ffydd, yr ystyrio ysprydoedd * cyfeiliorn*us*, a' dysceidiaythay cethreuliaid, yn dywedyt celwydd trwy ‡ druth, rrain sy ai cydwybod wedi i llosci gan-hayarn-*brwd, yn gwa*h*ardd * priodas, ac yn erchi, ymattal oddiwrth fwydydd, rrain a creawdd Duw yw mwynhau trwy talu-diolch ‡ ir ffyddloniaid,

* dydro, crwydroc
‡ *hypocrisei* ffuant, rhagrith
* poeth
* priodi
‡ or, gan

ac irhai a edoynant y gwirionedd. Cans pa beth bynac a creawdd Duw, da ydiw: ac nidoes dim yw wrthod, os cymerir trwy talu-diolch. Herwydd i santeiddir trwy 'air Duw, a gweddi. O dygi di ar gof ir brodyr y pethau hyn, *ys* da wasnaythwr fyddi i Iesu Christ, rrwn ith fagwyd mewn geiriau'r ffydd, ac athrawaeth da, rrwn a ddylynaist yn astud. Eithr gad heibio * anlan, a ‡ gwraichiaidd chwedlae, ac *ym*arfer *di* dyhun i dduwiol*aeth. Can ys ymarfer corphorawl ychydig a proffittia: eithr dywolieth proffidiol yw i pob peth, ac addewid iddaw or bowyd presennawl, ac or hwn a ddaw *rrac llavv.* Y gair hwn sy wir, ac ym-pob modd y haydday cymeriad. Cans am hynny i ddym yn * poeni ac y cael eyn ‡ dirmygy, herwydd yn bod yn *gvvir* obeitho ar Dduw byw, rrwn ydiw caidwad oll ddynion, yn enwedig y *ffyddloniaid. Y pethau hynn gorchymyn *di* a dysc-yddynt. Na ddiystyred neb dy ifiengtid ti, eithr bydd ir hai a gretton *yn* siampl, ar 'air, ar ymddygiad, ar gariad, ar yspryt, ar ffydd, *a'* p*h*urdeb. Hyd oni ddelwyfi, ymosod i ddarllein, i gyngor, ac i athrawaeth. Nac ysceulusa y * rrodd sydd ynotti, rron a rodded i ti i proffedoliaythy gan osodiad dwylo yr ‡ Henafiaeth. Arfera y pethau hynn, ac ymddyro yddynt, mal i gallo dy lysaad *ti* fod yn eglur ym-plith pawb. Gwilia arnat tyhun, ac ar athrawaeth: parhaa yn hynn: can ys o gwnei di hyn, ti ath cedwi dy hun, ar rei * wrandawo arnat.

* aflan
‡ chwedleu gwrachiod
*-der
* travaelu
‡ cablu, diveilioni
* yr ei 'sy yn credu
* dawn
‡ *presbyterij*
‡ ath clywant

## Pen. v.

Y mae yn y ddyscu ef pa wedd y dirper yddo ymddwyn wrth argyweddu pop gradd. Trefn o bleit gwragedd-gweddwon. * Goystatau gwenidogion-Ecclesic. Llywodraeth y gorph ef, A' barn am pechoteu.

NA cheryda ‡ hen*afg*wr, eithr cynghora megis tad, yr hai ievainc megis brodyr: Yr hen wragedd, mal mammay, yr rei iefainc mal chwioredd, ynghyd a phob * diweirdeb. Anrrydedda'r gwragedd gweddwon rrain sy wir weddwon. Ac o bydd vn weddw ac iddi plant neu wyrion, dyscant yn gyntaf ddangos * gwaredd tuagat at dy hun, a' thalu'r pwyth yw ‡ henafieid: can ys hynny 'sy honest a chymradwy gar bron Duw. Eithr hon 'sy wir weddw ac vnic, a obeitha yn-Duw, ac a parhaa mewn gofynnion a gweddion nos a dydd.

* *Gosot*
‡ *prebyterum*
* purdep
* dywolder
‡ rrieni

Ond hon syn byw, mewn * mursendod, marw ydiw cyd bo yn byw. Gorchymyn y petheu hyn, mal i gallont fod yn ddifeius. Ac o bydd neb nid ymgeleddo yr eiddo, ac yn enwedic eu teulu, e wadawdd y ffydd, a' gwaeth yw nag vn diffydd. Na ‡ ddycer-ir-cyfri wraig-weddw tann trugain *blvvydd* oed, rron fu wraic vn gwr, ac yn dda i gair am weithredoedd da: os magawdd hi i p*h*lant, o lletteuodd hi * y pellenig, o golchawdd he traed y saint, o cymhorthwyawdd hi y rrai fyddent mewn adfyd, o bu perhaus yn wastad ym pob gorchwyl da. Eithyr gwrthod y gweddwon iefainc: can ys pan ddechreuont ymdrythyllu yn erbyn Christ, ‡ priodi a fynnant, yn cael * colledigaeth, am vddynt torri y ffydd gyntaf. Ac velly hefyd *hvvy* yn segur dyscu a wnant rodio *odd*amgylch o ty i dy, ac nid yn vnic segur: eithr hefyd yn ‡ ofeiriaithus, ac yn * rrodresgar, yn adrodd yr hyn ny weddei. Mi a fynna am hyny irrei iefeinc ‡ priodi, a phlanta, gwarchadvv y tuy *ac* na roddont ddim achos ir gwrthnebwr i oganu. Can ys rrei eusus a ymchwelasont ar ol Satan. *Ac* o bydd na gwr ffyddlon, na gwraig ffyddlon a' *gvvragedd* gweddwon ganthynt, cynhorthwyent hwynt, ac na * 'ormeser ar yr eglwys, mal i bo digonedd i rrei 'sy wir weddwon.

Yr ‡ Henaduriaid syn rreoli yn dda, dau*ddy*blig * vrddas hayddant, yn enwedig y rrei sy yn ‡ poyni yn y gair, ac mewn dysc. Can ys yr yscrythyr *lan* a ddowaid, Na vwslia safn yr ych sy'n durnu r yd: hefyd, May'r gwethwr yn * heuddu i gyflog. * Ar Henadur na dderbyn achwyn, o ddieithr tann ddau neu tri o dystion. Yr hei a bechant, cyrydda *hvvy* yn gyhoedd*us*, mal i gallo r lleill ofni.

Gorchymyn i ddwy *yt* gar bron Duw ar Arglwydd Iesu Christ, ar etholedig Angylion, gadw o hanot hynn heb ragori neb mwy noi gilidd, na gwneuthyr dim ‡ o gydpartieth. Na ddod ddwylo yn ebrwydd ar neb, ac na fydd cyfranoc a phechodau rrei eryll: cadw di dyhun yn bur. Nac yf ddwfr yn hwy, eithr arfer ychydic win, ir mwyn dy gylla, ath fynych * wendid*e*. Pechodau rryw ray or blaen amlwg fyddant, yn rrag ‡ ymddwyn ir farn: ar yddo eraill yn dywod ar y ol. Ac felly hefyd gweithredoedd da or blaen amlwc fyddant ar hei a font amgenach, i cuddio nis gellir.

* rrysedd, neu trythylwth, mwytheu
‡ chymerer
* ddieithred
‡ gwrha
* barnedigeth
‡ Gr. yn llawn berw, dadurddus
* ddiriaid, goaml
‡ wra
* or meiler, phwyser
‡ *presbiteri*
* anrydedd, parch
* llavurio, travaelu
‡ dailwng
* Yn erbyn
‡ *prespyterum*
‡ yn bartiol
* lescedde
‡ myned or blaen

## Pen. vj

Dywti gwasanaeth ddynion tu ac at ei perchen, Yn erbyn yr ei nys
[* boddlonir] *dygonir a gair Duw. Am wir dduwoldep, a' boddlondep meddwl,
Yn erbyn cupydddot. Rhoi gorchymyn ar Timotheus.

CYNIFER ac y'sydd o wasnaythwyr tann yr iau,
barnant eu meistredd yn teilwng o bob anrrydedd,
rrag cablu enw Duw ay addysc. A' rrei 'sy a meistred
vddynt yn credu, na dystyrant hwynt, herwydd i bod
yn vrodyr, eithr yn hytrach i gwasneuthu, ir mwyn i
[* ffyddlon] bod yn *credu, ac yn garedigion, ac yn gyfrannoc or
twrn da. Dysc y pethau hyn, a' chynghora. Od oes
yn dyscu yn amgenach, ac nad yw yn cyttuno ac iachus
eirie eyn Arglwydd Iesu Christ, ac ir addysc, 'sy ar ol
duwioliaeth, chwyddo i may heb wybod dim, eithr
[‡ ymddadleu am airieu] amhwyllo ynghylch questiwnay a ‡dadl-geiriau, or
[* drygdybieu] hyn i mae cenvigen, ymryson, *ym*senneu, *tybieu drwc.
Ofer ddadlay dynion llygredig ey meddwl, wedy cyfer-
[‡ mae dywiol-dep yw elw] golli y gwir centhynt, yn tybiaid ‡taw elw yw duwiol-
iaeth, ymochel oddiwrth y cyfryw. Elw mawr eusus
yw duwiolieth, drwy ymvodloni o ddyn a'r hyn vo
cantho. Can ys ni ddygasom ni ddim ir byd, *a' diogel
[* ac yspys] yw ni allwn ddwyn dim ymaith.

Am hynny o cawn ymborth a dillad, ymfodlonwn ar
hynny. Eithr yr ei a fynnent ymgwaythogi, a gwymp-
[* tentation] ant i *profedigaeth, ac i vagl*e*, ac i lawer o drachwantay
ffolion a' niweidus, rrain syn boddi dynion i golledig-
[‡ *Gr. philargyria* ariangarwch] aeth ac i ddistriw. Can ys ‡chwant-*mwnws yw
[* bath, mwnei] gwreiddin pob drwg. Yr hein tra oyddynt rrei yn i
[* gyfeiliornesont, aethont ar ddidro] chwenychu, hwy a *wyrasont or ffydd, ag ay ‡trych-
[‡ gwanasont] asont ey hunain *tryvrodd* a llawer o *g*ovidie. Eithr ti
[* tec, claer, prydverth, bybyr] gwr *i* D*d*uw, gochel y pethay hyn, a' dilid ar ol
cyfiawnder, duwiolaeth, ffydd, cariad, ymynedd, *a'*
lledneisrwydd. Ymladd ymladdiad *gorchestol y
ffydd: cymer afael ar y bowyd tragwyddawl, ir hwn
[‡ proffeseist broffess] hefyd ith alwyd, ac ir ‡ymaddewaist ymaddawiad da
[* orchymyn] gar bron llawer o dystion. Dy *ddirofyn i ddwy gar
bron Duw, syn bywhau pop peth, a gar bron Iesu
Christ, rrwn tan Pontius Pylatus a dystiodd cyffes
[* dec] *pybur, cadw o honot y gorchymmyn *hwn* yn ddiflot,
[‡ ddivagul, ddivrych] ac yn ddifai hyd ymddangosiad eyn Arglwydd Iesu
Christ, rrwn yn y dyledus amser a ddengys ef, rrwn sy
fendigedig ac vnic pennaeth, Brenin y Brenhinoedd, ac
Arglwydd yr Arglwydd, Ir hwn yn vnic i may difar-

woldeb, ac yn trigo yn y goleuni divmgyrch, rrwn irioed nis gweles *vn* dyn, ac nis dichin i weled, ir hwn i bo anrrydedd a' gallu yn dragwyddawl, Amen. Yr hei sy ‡oludawc yn y byd yma gorchymmyn vddynt, na boont rryfygus eu meddwl, ac na rothon ei, gobaith mewn *golud anwadal, eithyr mewn Duw byw, (rhwn syn rroi i ni pop peth yn ddigonawl yw mwynhau) ar wneuthyd o honyn ddaioni, ac ‡ymgyvoethogi o weithredoedd da, *ac* yn hawdd canthyn roi, ac yn *havvdd* i cydfod, yn storio yddynt i hunain sail da rag llaw, mal i gallont gavayly y bowydd tragwyddol. O Timotheus, cadw a roed attat, gan ochel *aniwaraidd ofersoniadwy, a gwrth-osodiaday cam-enwedig celfyddyd, rron rrai yn ymaddaw a hi, a *gam* wyrasont or ffydd. Gras gida thi, Amen.

‡ gyvoethogion

* cyvoeth

‡ *Gr. ploutein*

* aflan

Yr *Epistl* gynta i Tymotheus, a yscrifennwyd o laodiceia, rron yw penn dynas Phrygia Pacatiana.

---

# YR AIL EPISTOL I PAUL
## AD
# T I M O T H E U S.

### YR ARGVMENT

Yr Apostol yr awrhon yn parat y gadarnhau y ddysc ai waed, rhon a brotfessai ef ac a ddyscesei yddynt, ys ydd yn rhoi cysir yn-Timotheus (ac wrtho yntef yr holl ffyddlonieit) yn ffydd yr Euangel, ac yn-goystatol a' phur gotfess yr vnrryw: gan wyllysio yddaw nac ymellyngo rrac ofn blindereu, anyd yn ddyoddefus dysgwyl am y dyben, megis y gwna'r llavurwyr, yr ei o'r dywedd a dderbyniant ffrwytheu ei llavur, a' bot yddo vwrw ymaith oll ofn a' gofal, megis y gwna'r sawdwyr yr ei a gaisant yn vnig voddhau ei capten: gan ddangos yddo yn vyrsum yr Euangel, yr hon a bregethesei ef, gan 'orchymyn yddaw ef precethu'r vnryw y eraill, gan yddo yn ddiyscaelus ymogelyd rrac cynneueu, mangau ymddadleue, ac ymofynion moelion, er mwyn bot yw ddysceidaeth allu adeillad yn gwplach. Ac wrth ystyried esemple Hymenaius a' Philetus, yr ei a ddychwelesont y gwir ddysc am y cyfodiadegeth, ey bot mor *horibl: ac eto er mwyn na rhwystrit nep vrth y cwymp hwy, ac wynt yn wyr o awturtot ac mewn cymeriat, y mae ef yn dangos nad yw pawp 'sy y professo Christ, yn yddo ef, a' bot yr Eccles y dan yr advyt hyn 'sef bot yn ddir ir ei drwc drigo ymplith yr ei da, yn y ddel treiat Duw: er hyn y mae ef yn cadw yr ei a ddetholawdd ef, ys yd y dywedd. Ac val na byddei y Timotheus ancysirio y gan yr ei enwir, y mae ef yn declaro pa ryw ffiaidd ddynion, ac amsereu periclus a ddaw rhac llaw, gan ewyllysio yddo ymarvu a' gobaith y tervyn da y ddyry Duw ir ei yddaw, ac ymarver yn ddyval yn yr Scrythyrae, ys yn erbyn y gwrthnepwyr, ac er lles ir Eccles, gan ddeisyfu arnaw ddyvot ataw o bleit rryw negeseu angenraidiol, ac velly gan ynanerch yn y enw ehun a eraill, y mae ef yn tervynu.

* *aruthrol, ddygas*

## Pen. j.

*W. S yr vn hwn, a'r ddau iso.*

Paul yn annog Timotheus y vod yn ddianwadal ac yn ddyoddefus wrth ei ymlid, a' pharhau yn yr athraweth y ddyscesei ef yddaw, 12 Dros yr ei yroedd y rwymeu ef a'i gystyddion ym wystl. 16 Cammolieth Onesiphorus.

PAUL Apostol Iesu Christ gan wyl'ys Duw, erwydd addewyt ‡buchedd yr hon 'sy yn-Christ. Iesu.

* bywyt

2 At Timothes *vy* map caredic: Rat, a' thrugaredd, *a'* thangneddyf y gan Ddyw y Tat, a' *chan* Iesu Christ ein Arglwydd.

3 *Ys* diolchaf y Dduw, 'rhwn y wasanaethaf om rrieni a chydwybot bur, can ys eb peidio y may genyf gof am danat yn vy-gweddieu nos a' dydd,

4 Can ddeisyf*u* dy welet, *a'mi* yn vyvyr oth dda*i*grae, val im llanwer o lawenydd:

5 Pan 'alwyf *im* cof y ddiffuant ffydd ys *ydd* ynot, 'rhon y drigawdd yn gyntaf yn dy ‡nain Lois, ac yn dy vam Euneic, ac y may yn ddiogel genyf y *tric* yno *tithe* hefyt.

‡ vam-gu

6 Achos paam, ydd wyf ith coffau y gyffroi y dawn Duw ys ydd ynot, wrth arddodiat vy-dwyaw.

7 Can na roddes Duw y ni yspryt ofn*usrvvydd*, anyd *yspryt* *nerth*ovvgrvvydd*, a' chariat, a' phwyllog-rwydd.

* meddiant

8 Am hyny na vydd arnat gywilydd ‡o destiol-aeth yr Arglwydd, nac o hano vi*neu* y garcharawr ef: eithr cydoddef-*di*-gystuddion yr Euangel, wrth veddiant Duw,

‡ am

9 Yr hwn an iachaodd, ac an galwodd a galwedigaeth sanctaidd ny*d*, wrth ein gweithredoedd *ni*, anyd wrth y *bwrpos yhun, a'*y* rat, 'rhwn a roespwyt y ni trwy Christ Iesu cyn ‡amseroedd oeseu.

* arddodiat
‡ bot y byt

10 Eithyr ef a eglurwyt yr owrhon gan ymddang-osiat ein Iachawdr Iesu Christ, yr hwn a ddileodd angeu, ac a dduc vywyt ac ac ammarwolaeth i 'olauni trwy'r Euangel.

* ddadwnaeth

11 Ir hon im gosodwyt i yn precethwr, ac yn Apostol ac *yn* ddyscyawdr y Cenedloedd.

12 Am yr hwn achos y dyoddefaf hefyt y petheu hyn, ac nyd oes arnaf giwilydd: can ys gwn pwy a gredais, ac y mae yn ddilys genyf y vot ef yn abl y gadw yr hyn a ddodais ataw erbyn y dydd hwnw.

13 Cadw *wir esempl yr iachus ymadroddion, yr

* ffurf, cyffurf, gyndelw, ailun

ei a glyweist y can y vi yn ffydd a' chariat *ys ydd*
yn-Christ Iesu.
14 Y ‡peth prydverth, y roed atat, cadw trwy'r ‡gwiwbeth
Yspryt glan, yr hwn a drig ynom.
15 *Ti* wyddost hyn, ddarvot ir ei oll ys y*dd* yn Asia,
droi o ywrthy vi: o'r sawl *rei* y mae Phygellus ac
Hermog*e*nes.
16 Roed yr Arglwydd drugaredd y duy*lu* Onesiph*o*-
rus: can ys ef yn vynych am llon*h*odd i, a'm catwyn
nyd oedd gywilydd ganthaw.
17 Eithyr pan oedd yn Ruuein, ef a *ym*caisiawdd *a*
*m*i yn ‡ddiwyd iawn, ac a*m* ca*f*as. * ddyval
18 *Roed yr Arglwydd yddo, gahel *o hano* dru- ‡ Caniataed
garedd gyd a'r Arglwydd yn y dydd hwnw, a' pha
veint betheu vu ef im gweni yn Ephesus, ti wyddost *niuer
yn 'oreu *vn*.

## Pen. ij

2 Y mae yn ei annog y vot yn ddianwadal yn-trwbl, ar yddo ddyoddef yn wrawl, ac aros yn ddiyscoc yn iachus ddysc ein Arglwydd Iesu Christ, 11 Can ddangos yddaw ffyddlondep amcan Dew yn-cylch cadwedigaech yr ei yddo ef, 19 A' noth yny.

TITHEU gan hyny, vy map, ymnertha yn y rrat ys
ydd yn-christ Iesu.
2 A'r petheu y glyweist y cenyf', *gan lawer o *ymgwydd,
testion, yr hein ‡a roddi at *ffyddlon ddynion, yr ei ymplith
vyddant abl y dyscu eraill hefyt. ‡ rho, dod
* wyr ffyddlon
3 Ti*theu* gan hyny goddef-dy-‡'orthrymu megis ‡ ddrugu,
milwr da *i* Iesu Christ. helbulio
4 Nyd *oes* neb a ryvela, a ‡*ym*ymblyc a negeseu*on* * sawdiwr
y vuchedd *hon*, er mwyn *bod* yddo ryngu bodd yr hwn ‡ ymrwyda,
ydywysawdd yn vilwr. ymdrafferthu, ymrwystra
5 Ac a*d* ymdrech nep hefyt am gamp, ny choronir ef,
dyeithr yddo ymdrech ‡yn ddeddfol. ‡ mal y dylei
6 *Dir yw ir llavurwr lavurio cyn nag yddaw * Raid
*dd*erbyn ffrwytheu.
7 Considera *y petheu* a ddywedaf: a'r Arglwydd a ‡ Ystyria
roddo yt' ddyall ym-pop dim.
8 Cofia *am* Iesu Christ *y hanoedd* o had Dauid,
ddarvot y gyvodi ef o veirw ‡wrth vy Euangel *i*. ‡ yn ol
9 Yn yr hon *ydd wyf yn dyoddef trwbl mal * im drygir
gweithredwr-drwc, *ys h*yd rwymeu: eithr gair Duw ny
rwymir.
10 Am hyny ydd wyf yn goddef pop peth, er mwyn

y *d*etholedigion, megis ac y gallent wy*theu* gaffael *yr*
iechyd*vvrieth* ys ydd yn-Christ Iesu, y gyd a gogoniant
tragyvythawl.
11 Gwir *yvvr* gair, A's meirw ydym y gyd ac ef, y
byddwn hefyt vyw gyd ac *ef.*
12 A's dyoddefwn, ni a gydeyrnaswn hefyt *ac*
*ef:* ac a's *ym*wadwn *ac ef*, *ynt*ef hefyt a *ym*wad a
ni*nheu*
13 A'*s* ny*ni* ny chredwn, *er hyny* efe a erys yn ffydd-
‡ ymwadu
lawn: ny 'all ef ‡y wadu y *h*un.
14 *Am* y petheu hyn dwc ar gof *yddynt*, a' thestia*l*-
*aetha* ger bron yr Arglwydd, na bo yddynt ymrysont
* gwrthdroi
yncylch gairieu, *yr hyn* nyd *yvv* er dim lles*aad*, *anyd* er
‡ yr ei a'i clywant
* *d*adymchwelyd ‡y gwrandwyr.
* gymradwy
15 Studea ar dy 'osot dy *h*un yn *brovedic y Dduw,
‡ ny borraid cywilyddio
yn weithwr ‡divevl, yn *vn*iawn-barthu gair y gwir-
ionedd.
* Gohardd, Gwrthladd
16 *Gommedd halog*ion* wag-airieu: can ys cynnyddu
y wnant y vwy o anwywoldep.
17 A'y ymadrodd hwy a ysa val cancr: *ac* o'r *cyf*-
*ryvv* rei y mae Hymenaius ac Philetus.
* ddydro
18 Yr hein am y gwirionedd aethant ar ‡gyfeilorn,
gan ddywedyt ddarvot eisus y cyvodiadigeth, ac y
* dinistro
maent yn **d*adymchwel ffydd *rryvv*rei.
‡ grwnd, gwndwal
19 Eithr y mae ‡sail Duw yn sefyll yn *ddiogel, ac
* ffyrf, gadarn
y mae yddo yr *in*sel hon, Yr Arglwydd a wyr *pvvy* rei
‡ ys yddo
‡yw'r eiddo, ac, Ymadawet ywrth *ancyfiawnder pwy
* andywoldep, enwiredd
byn*ac* a 'alwo ar Enw Christ.
20 Eithr mewn tuy mawr ny bydd yn vnic llestri aur
* er
ac ariant, *and* hefyt *llestri* pren a' phridd, a'r ei *i an-
‡ er
rydedd, a'r ei i ‡ddianrrydedd.
21 *As* neb gan hyny y carth y hunan ywrth *y petheu*
hyn, efe vydd lestr i anrydedd, wedy ei sancteiddio, ac
* *Gr. euchreston*
yn *addvwyn ir Arglwydd, ac yn ‡parat i bop gwaith-
‡ ddarparedic
*red* da.
* Cila
22 *Fo hefyt rrac ‡chwanteu ieuntit, a' dilyn gyf-
‡ gwynieu
iawnder, ffydd, cariat, *a'* t*h*angneddyf, y gyd a'r ein y
alwant ar yr Arglwydd o galon bur.
* questione
23 A' dod ymaith ynvyd ac andyscedig*aidd* *or-
‡ peri ymgeintach
chestion, can wybot mai ‡magu ymryson a wnant.
24 Eithr gwas yr Arglwydd dir yw nad ymrysono,
*voneddigaidd, lednais
amyn bot *yn dirion ‡i bawp, yn athrawaidd, *ac* yn
‡ tuar at
dyoddef-ei-ddrygu *yn dda ei ortho.*
25 Gan ei *h*addyscu a' chymedroldep yr ei gwrth-

wynep-ei-meddwl, *y edrych* a roddo Duw vn amser
yddynt *vvy* ediveirwch, *i *gyf*adnabot y gwirionedd, * er
26 A' bod yddynt ddyvot ir iawn *allan* o vagl diavol,
yr ei a ‡ddelit ganthaw wrth ei wyllys. ‡ gaethiwit

## Pen. iij.

1 Prophwyto y mae ef o'r amsereu periclus, 2 Y mae yn amlygu r
*hypocriteit y dan ei lliw ai harwydd. 12 Yn dangos cyflwr y * *ffuantwyr*
Christianogion. 14 A' phy wedd ymogelir periclon. 16 Hefyt pa *gausaint*
vudd a ddaw y wrth yr Scrythurae.

GWYBYDD hyn hefyt, ‡may yn y dyddieu dy- ‡ taw
wethaf y daw amsereu *periclus. * enbydus,
2 Can ys bydd dynion ‡a'i serch arnyn y hunain, blinion
*yn* cupyddion, *ym*ffrostwyr, *yn* veichion, *cablwyr, ‡ *Gr phiautoi* * ymsenwyr
yn anuvyddion yw ‡rrieni, *yn* andiolchgar, *yn* ansanct- ‡ tad a' mam
aidd,
3 ‡Digariat-naturiol ganthynt, yn tori-*dygym*b*ot, ‡ *Gr. 'astorgoi*
gaugyhuddwyr, *yn rei* antemperus, yn ffyrnyg*ion*, eb * cyngrair
serch ganthynt ir ei da,
4 Bradwyr, 'rei gwaydwyllt, rei ‡bolchwydd, rei yn ‡ bocsachus
caru chwantach yn vwy nac yn caru Duw,
5 A' chanthynt *gyfrith dywoldeb, eithyr ymwadu * ailun
a'ei 'rym a wnae*tho*nt: tro ymaith gan hyny y wrth y
cyfryw *rei*.
6 Can o'r ei hyn y mae y sawl a ymluscant i dai*e*,
ac yn dwyn yn gaith wrageddos yn llwythoc o bechotae,
yn arweinedic gan amravael chwanteu,
7 *A'r gvvragedd hyn* ynt vyth yn dyscu, ac eb allu
byth dyvot y wybodaeth y gwirionedd.
8 Ac megis y gwrth safodd Iannes ac Iambres
Voysen, vel'y y mae yr ei hyn yn *gwrthddod y gwir- ‡ gwrthladd,
ionedd, dynion o veddwl llygredic, yn ‡amprovadwy gommedd ‡ gwliedic
*erwydd y ffydd. * am, tu ac at
9 Eithr ny vuddiant *vvy* mwy*ach:* can ys ei *h*yn-
vydrwydd vydd amlwg i bawp, megis ac y bu yr
eiddynt.
10 ¶ A' thi a lwyr adwaenost vy-dysc*eidaeth i*, hel-
hynt vy-buchedd, *vy*-purpos, ffydd, ammyned, cariat,
dioddefgarwch,
11 Ymlidiae, *a'* *gorthrymdereu yr ei y ‡ddaeth i * blindereu
mi yn Antiocheia, yn Iconium, ac yn Lystri, yr hyn ‡ ddarvu
ymlidiae a ddyoddefais: eithyr o ywrthynt oll im
gwaredawdd yr Arglwydd.

2 D

12 Ac ys pawp a'r wyllysont vyw yn ddywol
yn-Christ Iesu, a ymlidir.
‡ hudwyr, siomwyr — 13 Eithr y drwc ddynion, a'r *twyllwyr aant waeth-
waeth, gan dwyllo, a' chael ei twyllo.
14 Eithyr aros ti yn y petheu a ddysceist, ac ith
sefydlir *ynthynt*, yn gwybot can bwy *e*y dysceist:
* oth vebyt — 15 A' bot y ti wybot yr Scrythur*æ* *g*lan ‡er yn vap,
yr ei 'sy abl ith wneuthur yn-ddoeth i iechedwrieth
trwy'r ffydd ys ydd yn-Christ Iesu.
16 *Can ys* yr oll Scrythur *ys ydd* wedy ei rroddi can
ysprytoliaeth Duw, ac *ys ydd* profitiol y addyscu, y
‡ gospi — argyweddu, y *correctio, *ac* y roi athraweth yn-cyf-
iawnder,
* gwbl — 17 Mal y bo dyn Duw yn ‡perfeith, wedy ei ber-
feithio i bop gweithred da.

## Pen. iiij.

Y mae ef yn annog Timotheus y vot y vrwd yn y gair, a' dyoddef gwrth-
pwyth, 6 Y mae yn gwneuthur coffa am ei varwolaeth ehun. Ac yn
erchi i Timotheus ddyvot ataw.

YS gorchmynaf yty gan hyny ger bron Duw, a'
*cher bron* yr Arglwydd Iesu Christ, yr hwn a
‡ ddyvodiat — vairn y byw a'r meirw yn ei ‡ymddangosiat, ac yn ei
deyrnas,
‡ ymrhyd ac amryd — 2 Precetha'r gair: tyn-rragot, yn amser ac allan o
* ys dwrdia — amser: argywedda, *cerydda, annoc drwy ammynedd-
da ac athraweth.
3 Can ys e ddaw'r amser pryd na ddyoddefant
‡ llosei, merwino — athraweth iach*us:* eithr aei clustieu ‡a chosi, wrth y
chwanteu y hunain a *ben*tyrant yddynt ddyscyawdwyr,
4 Ac a droant ei clustieu y wrth y gwirionedd, ac a
ymchwelant at chwedleu.
*Yr Epistol ar ddydd S. Luc.* — 5 Eithyr gwilia di ym-pop dim: dyoddef-wrth
pwyth: gwna waith Euangelwr: par wybot yn ollawl
dy wenidogeth.
6 Can ys ydd yw vi yr owrhon yn parat im offrymu,
* datdodiat — ac amser vy *ymadawiat ys ydd yn agos.
‡ da — 7 *Mi* a ymdrechais ymdrech ‡tec, ac 'orphenais
* y rredecfa — *vy*-gyrfa, y ffydd a gedwais.
8 *Can's* rrac llaw y roddwyt y mi y gadw coron cyf-
iawnder, yr hon a rydd yr Arglwydd y barnwr cyfiawn
* Cais — y mi yn y dydd hwnw: ac nyd y mi yn vnic, amyn ir
* ar gais, yn ddiatrec — oll 'rei y garant y ymddangosiat ef..
9 *Brysia y ddyvot ataf ‡yn ebrwydd.
* gofleidio, braicheido — 10 Can ys Demas am gadawdd, gan *ymgary y byd

‡presennol, ac aeth ymaith y Thessalonica. Crescens ‡yn awr
*aeth* i Galatia, Titus i Dalmatia.
11 Luc*as* yn vnic ys y gyd a mi. Cymmer Varc a'
dwc y gyd a thi: can ys buddiol yw ef y mi y weini*d*-
*ogeth*,
12 A' T*h*ichicus a *dd*aunonais i Ephesus.
13 Y *cochl a edewais i yn Troas y gyd a C*h*arpus, *coffr, llyfr
pan ddelych, dwc gyd a thi, a'r llyfreu, yn enwedic y
‡membranae. ‡memrwn, parsmente
14 Alexander y gof-*copr a wnaeth i mi lawer o *elydn, efydd
ddrwc: talet yr Arglwydd yddo ‡erwydd ei weithred- ‡yn ol
oedd,
15 Rac yr hwn ymgadw di*the* hefyt: cans ef a wrth-
*safodd ein precaeth*e ni* yn *ddir*vawr. *laddodd, ddododd
16 Yn vy atep cyntaf nyd oedd neb ‡*yn sefyll* gyd a
mi, eithr pawp am gadawsont: *mi atolygaf y Dduvv* ‡yn cymorth
na *liwier y*dd*-wynt. *roer yn ei herbyn
17 Er hyny yr Arglwydd a safodd gyd a mi, ac am
nerthawdd, mal trywo vi y cwbl ‡cyflawnit i preceth- ‡adnabyddit
*iat*, ac mal y clywent yr oll Genetloedd, ac im gwared-
wyt o eneu y lleo.
18 A'r Arglwydd am gwared rrac pop gweith*red*
ddrwc, ac am caidw yw deyrnas nefawl: ir hwn *y bo*
*gogoniant yn oes*oedd* oeseu, Amen. *moliant
19 Anerch Prisca, ac Aquila, a' th*uylvuth* Onesi-
phorus.
20 Erastus a arosawdd yn-Corinthus: Trophinus a
edais yn-Miletum yn glaf.
21 Cais ddyvot cyn y gayaf. Eubulus ys ydd ith
anerch, ac P*h*udens, ac Linus, ac ‡Claudia, a'r oll ‡Gwladus
vroder.
22 Yr Arglwydd Iesu Christ *a vo* y gyd ath yspryt.
Y rat *ef vo* gyd a chwi, *Amen*.

Yr ail *Epistol* a escrivenwyt o Ruuein ad Timotheus yr E*pi*scop cyntaf y ddywyswyt i Eccles Ephesus, pan 'osodit Paul yr ailwaith ger bron *y Caisar Nero. **yr ymperotr*

---

# EPISTOL PAUL
## AD
# T I T U S.

YR ARGVMENT.

PAN adwyt Titus yn-Creta y 'orphen yr athroeth a ddechreuesei Paul, Satan a gyffroawdd rei y sawl a geisient nyd yn vnic ymchwelyd llywod-

** ddysc*
*‡ ynghyfrith Cyfraith*
** over betheu*
** gynneddfeu*

raeth yr Eccles, eithyr hefyt llygru yr *athraweth: can ys 'rei o ryfic a geisient ymsengi ‡ y vot yn Vugelydd: eraill, y dan liw Deddyf Moysen a dduceson y mewn lawer o * philorec. Yn erbyn y ddau ryw ddynion hyn y mae Paul yn arvu Titus: yn gyntaf gan ddyscu yddo pa ryw wenidogion a ddlei ef ei dewys, gan erchi yn bennaf y bot hwy yn wyr o ddysceideth iach er mwyn gallu o hanynt wrthladd y gwrthnebwyr, ac ym-plith petheu eraill y mae ef yn noti yr Iuddeon ir ei 'sy yn dody rryw sancteiddrwydd yn y vwydydd a' chyfryw ceremoniau o ddyallan, gan ddyscu yddynt pa yw gwir 'orchwyllion buchedd Christinus, a' pha ryw betheu a berthyn i alwedigeth pop dyn. Yn erbyn yr hyn a's cyferbynia neb neu vot eb vvydhau, e vyn ymoglyd rhagddo.

## Pen. j.

5 Y mae ef yn athrawy Titus o bleit llywodraeth yr Eccles. 7 Ordinhat a' swydd gwenidogion-Ecclesic. 12 Natur y Cretiait, ac am yr ei a heuent chwedleu Iuddewic, a' dychymygion dynion.

* wrth
PAUL gwas Duw, ac Apostol Iesu Christ, *erwydd
ffydd etholedigion Duw a' gwybodeth y gwir-
‡ ar ol
ionedd, 'rhon 'sy ‡ erwydd dywoldep,
* bywyt
2 Y dan'obaith *buchedd dragyvythawl rhon y ‡ di-
‡ ny all dywedyt celwyt
gelwydd Dduw ei gaddawodd, cyn *amseroedd oeseu:
* dechreu byt
3 Eithr ef a eglurhaodd ei 'air ‡ yn y gwir amser*eu*
‡ ymrhyd
drwy precethu, yr hyn a ymddiriedwyt i mi, wrth
'orchymyn Duw ein iachawd*ur*:
* naturiol gwir
4 Ad Titus vy *anianol vap wrth y ffydd gyffredin,
Rat, trugaredd a thangneddyf o y can Dduw y Tat, a'
*chan* yr Arglwydd Iesu Christ ein iachawd*ur*.
5 Er mwyn hyn ith edais *di* yn-Creta, mal y bei y ti
*drigo* y gyweirio y petheu ys y*dd* yn aros, a' bot yt'
‡ ordino
‡ 'osot *Henafieit yn-pop dinas, megis yr ordiniais yty.
* *Prespyteros*
6 A's bydd nep *diargywedd, gwr vn wreic, ac yddo
* dyvei adwy
‡ rwyf, dra, wtres, ormodedd, reiat
blant ffyddlon, yr ei nyd enllybir o ‡ nwyfiant neu vot
yn anuvydd.
7 Can ys dir yw i E*pi*scop vot yn ddiargywedd, mal
‡ anhydyn, gyndyn
gor*u*chwiliwr Duw, nyd yn ‡ gyrrith, ny*d yn* digllon,
nyd yn *gor*hoffi gwin, nyd trawar, nyd budr-elw-wr,
8 Ethr yn rhoi-lletuy, vn yn caru dayoni, doeth,
‡ vnion
‡ cyfiawn, sanctaidd, temperus,
‡ ffest, 'lud
9 Yn dal*h*a-yn ‡ lew y gair ffyddlon wrth yr athraw-
eth, val y gallo hefyt gygcori a dysceideth iach*us*, ac
argyweddu yr ei a wrth ddywedant,
10 Can ys bot llawer o rei anyvydd, a' gwacsiarad-
* ddivaddef
wyr, a' thwyllwyr meddilieu, yn ben*af yr ei '*sy* or
enwaediat,
‡ rrait
11 Yr ei vydd ‡ dir goarcheu-ei geneu, yr ei a *dd*ym-
chwelant cwbl dai*e*, gan ddyscu i '*rei* betheu ny-ddylent,
er mwyn budr elw.

12 *Vn o hanynt wy *euhunain*, '*sef* vn oi prophwyti
y vnain a ddywedei. Y Creteit bop amser ‡*ynt* gel-
wyddawc, dryg *vestviloedd, boliae ‡*gord*diog*ion*.
13 Y testiolaeth hon 'sy wir: achos hyn argywedda
hwy yn *vlaen*llym, val y bont iach yn y ffydd,
14 Nyd can ddarbot chwedleu Iuddewaidd a' gor-
chymyneu dynion, yr ei a ymchwelant ywrth y gwir-
ionedd.
15 Ys ir ei pur y mae pop *dim yn pur, eithr ir ei
halog*edig*, ac ir ei ‡ny chred, nyd oes dim pur, eithr ei
meddwl a'i cydwybot a halogir
16 Y maent yn *proffessu yr adwaenant D*d*uw,
eithyr ‡ar *g*weithrrdoedd y maent yn *ei* wadu, ac wynt
yn ffiaidd ac yn anuvydd, ac i bop gwaith*red* d*d*a yn
amprovadwy.

* Syganei vn. &c.
‡ '*sy*
* aniveilieit
‡ lluscenaidd, muscrell
* peth
‡ diffydd
* cy-
‡ a

## Pen. ij.

Y mae ef yn gorchymyn yddaw y ddysceidaeth iach, ac yn manegy yddaw pa wedd y dysc ef y bop gradd ymddwyn, 11 Trwy ddawnged rrat Christ.

EITHR adrodd di y petheu y weddant y ddysc
iach*us*.
2 *Bot* yr henafgwyr yn *sobr, honest, diseml, iach
yn y ffydd, yn-cariat, ac ammynedd :
3 Yr henafwragedd yr vnffynyt, eu bot ynghyfryw
ymwreddiat ac a wedda i sancteiddrwydd, nyd gau gy-
huddiait, nyd wedy ymroi i win lawer, *eithr* yn dyscu-
ir-ei betheu honest,
4 Mal y gallont iawnsynhwyraw y gwragedd-ieainc,
y garu ei gwyr, y garu ei plant.
5 *Bot* yn ddiseml, yn ddiwair, trigo gartref, yn dda
*ac* yn ddarostyngedic yw gwyr, mal na chapler gair
Duw.
6 Cygora wyr-ieuainc yr vn modd, ar vot yn ddiseml.
7 Vch pen pop dim *oll* dod dy hun yn esempl ‡o
weithredoedd da **gyd* a dys*ceideth* anllygredic, *gyd* a
phwyllogrwydd, *a'* c*h*yfandep,
8 Ac ymadrodd iach*us*, rhwn ny ellir ei veio, val y
bo y hwn a safo yn erbyn, gywilyddio, eb ganthaw
ddim am danochwi y dywedyt coeg*n*i.
9 Bot gwasanaethddynion yn ddarostyngedic yw
‡*h*arglwyddi, a'i boddhau ym-pop dim, nyd yn *gwrth-
ddywedyt,
10 Nyd yn *trosgwyddo, eithr bod yddynt ddangos

* bwylloc, syberw, call
‡ am
* *mevvn*
‡ perchen meistreit
* ym-
‡ rroi, ne troi heibio, yscyflu

pop ffyddlondep, val yr addurnant ddysc*eideth* Duw ein iachawd*ur* ym-pop peth.

11 Can ys 'rat Duw y ddwc iechyt i bop dyn, a ymddangosawdd,

12 Ac ys ydd in dyscu y ymwadu ac andywoldep, a' chwanteu bydol, a' bot y ni vyw yn *sobr ac yn gyfiawn, ac yn ddywiol yn y byt ‡cydrychiol.

* bwylloc ddiseml
‡ yma, ynawr

13 Gan edrych am yr 'obaith wynvydedic, ac ymddangosiat gogoniant y Duw *mawr a'n iachawd*ur* Iesu Christ,

* cadarn galluoc

14 Yr hwn y rroddes y hun y trosam, val in prynei ‡ywrth oll enwiredd, a'n carthu *y vot* yn popul priawt yddo yhun, yn *awyddus i weithredoedd da.

* *Gr. catharise*
* *Gr. zelotin*

15 Adrodd y petheu hyn, ac annoc ac argywedda ac oll awdurtot. Na vit y nep dy dremygu.

## Pen. iij.

1 Vvydddot ir sawr a vo mewn awdurtot, 9 Y mae ef yn rrybuddio Titus y ymogelyd rrac questione ynvydion a' divudd, 12 Gan ddybenu wrth grybwyll am ryw negeseu'n ailltuawl, 15 Ac anerchion.

COFF*HA* yddynt vot yn ddarestyngedic ir Tywysogaetheu ac Auturdotae, *a'* bot yn vvydd, *ac* yn parat i bop gweithr*ed* da.

2 Na *chablant nep, na bot yn ymladdwyr, *anyd* llednais, gan ddangos pop tiriondep i bop dyn.

* ddywedont anair i

3 Can ys ydd oeddem ni*neu* hefyd yn andoethion, yn anuvydd, yn siomedic, yn gwasanaethu chwanteu ac ‡amryw wynieu, yn byw yn-drygioni a chenvigen, dygasoc, yn casau eu gylydd.

‡ *La. voluptatib*

4 Eithyr gwedy y *addvwynder a' ‡dyngarwch Duw ein Iachawd*ur* ymddangos,

* *Gr. chrestotes*
‡ *philanthropia*

5 Nyd o weithredredd cyfiawnder, a'r y wnaethem ni, eithr *erwydd ei drugaredd yr ‡iachaodd ef *ny*ni, can 'olchiat yr adenedigeth, ac adnewyddiat yr Yspryt glan,

* wrth, ar ol
‡ cadwodd

6 Yr hwn a *ddineawdd ef arnom yn ehelaeth, trwy Iesu Christ ein Iachawd*ur*,

* dywalltodd

7 Val y bei y ni, gwedy ein cyfiawnhau gan y rat ef, gael yn gwneuthur yn etiveddion ‡erwydd gobaith bywyt tragyvythawl.

‡ ar ol

8 Fyddlawn yw'r ymadrodd hyn, a'r petheu a wyllysiaf yty eu ffyrfhau, ar ir sawl a credant yn-Duw, ymovalu y ddangos yn amlwc *g*weithredoedd da. Y petheu *y' sy* yn dda acyn profitiol y ddynion.

* sicrau

9 Eithr gwrthladd questione ynvydion, ac *iachae*, a' ‡ *Gr. machas, 'sef*
chynneneu *ac ymrysongerdd o bleit y Ddeddyf, can * ceintache
ys amprofitiol ynt a' gweigion.
10 ‡Gommedd y dyn *y vo* *heretic, gwedy vn*vvaith* ‡ Gwrthladd
neu ddoy*vvaith ei* rybudd*io*, * drwo opinionus
11 Gan wybot am y cyfryw, yddymchwelwyt, ai vot
yn pechu wedy ‡ varnu y cantho yhun*an*. ‡ ddamno
12 Pan *dd*anvonwyf Art*e*mas atat, *ai Tychicus, * neu
bydd astud y dddyvot ataf i Nicop*o*lis: Can ys ‡yno y ‡ Gr. bernais, bwriadais
pwrpasais *g*ayafu.
13 **D*anvon Zenas y ‡Deddfwr, ac Apollos yn * Hebrwng
ddiwyd, val na bo arnynt eisieu dim. ‡ Cyfraithiwr
14 Discant hefyt yr ei *yddom* ni ddangos yn eglur
weithredoedd da er mwyniant*e* angenraidiol val na bont
yn anffrwythlawn.
15 Yr oll 'rei 'sy gyd a mi*vi*, ath anerchant. Anerch
yr ei an carant yn y ffydd. Rat gyd a chwi oll.
*Amen*

Ad Titus, y ddewysiwyt yn E*pi*scop cyntaf i Eccles y Cretieit, yr hwn escrivenwyt o Nicop*o*lis ym-Macedonia.

---

# EPISTOL PAUL
## AD
# PHILEMON.

### YR ARGVMENT.

Cyd bei i ragorieth Yspryt Paul ymddangos yn rhyvedd yn ei Epistolae eraill, er hyny y mae'r Epistol hwn yn testiolaeth mawr, ac yn eglurdep o hyny. Canys ympell y tuhwnt y i selder ei *ddevnydd, y mae ef yn ehedec megis pe ir nefoeddd, ac yn ymddiddan a dywiol rat a' mawrhydi. Onesimus gwas i Philemon a espeiliasei ei ‡arglwydd, ac a giliasei ymaith, yr hwn gwedy i Paul ei ennill i Christ, a ddanvonawdd drachefn at ei arglwydd, yn ddyfrifol yn ereu am vaddeuant yddaw, 'sef ac argumentae tra thrymion yn provi dylet yn aill Christian ir llall, ac velly gan ymanerch y tervyna.

* *vater*
‡ *veistr*

# EPISTOL PAUL
## AD
# PHILEMON.

## Pen. j.

5 Y mae ef yn llawenychu glywet ffydd a' chariat Philemon, 9 Yr hwn y mae ef yn deisyfu arno vaddae yw was Onesimus, a'i dderbyn yn garedigawl drachefn.

PAUL carcharawr Iesu Christ, a'*n* brawd Timotheus,
at Philemon ein *caredic *gar*, a'n cydweithwr,
2 Ac at *ein* caredic *chvvaer* Apphia, ac at Archippus
ein cydvilwr, ac at yr Eccles ys ydd yn dy d*uy di:*
3 Rat y gyd a chwi, a' thangneddyf y can Dduw
Dat, a' *chan* yr Arglwydd Iesu Christ.
4 Diol*vv*ch ydd wyf im Duw, gan dy gofio yn 'oys-
tadol yn vy-gweddieu,
5 (Wrth y mi glywet am dy gariat ath ffydd, yr
hon 'sy canyt ar yr Arglwydd Iesu, ac ar ei oll Sainct*æ*),
6 Mal y gwneler ‡cyfraniat dy ffydd yn *ffrwyth-
lawn, a' mal yr adwaener pa ddaioni pynac ys ydd
ynoch trwy Iesu Christ.
7 Can ys y mae genym lawenydd mawr a' *dy-
ddanwch yn dy gariat *ti*, can ys trwyo ti, vrawt, y
diddenir ‡caloneu y Sainct*æ*.
8 Erwydd paam, cyd bo mawr vy hyder yn-Christ y
orchymyn yty yr hyn 'sy *weddus.
9 *Er hyny* *o *ran* cariat gwell cenyf ‡atolwgy yty,
cyd bwyf val yr ytwyf, ys *ef* Paul *hen*vv*r, ac owrhon
hefyt carcharor *er mvvyn* Iesu Christ.
10 Atolygaf yty dros vy map Onesimus, yr hwn a
‡genhedlais *i* yn y rrwymeu,
11 Yr hwn gynt a vu yty yn *amproffitiol, ‡amyn
yr awrhon *yn* profitiol y ti ac y min*heu*,
12 Yr hwn a *dd*anvonais drathefn: a' chymer di*theu*
**ynt*ef, 'sef vy ymyscaroedd *vy hun*,
13 Yr hwn ‡a wyllyswn i ei attal gyd a mi, mal troso
ti y bysei yddo vy-gweini *i* yn y rrwymeu yr Euangel.
14 Eithr eb *lavv* dy veddwl *di* ny wnawn i ddim mal
na byddei dy *ddaioni *di* megis ‡gan *angen, anyd o
‡vodd.
15 Ef allei gan hyny y vyned ef ymaith dros amser,
mal yd erbynyt ef yn dragyvyth,
16 Nyd yr owrhon mal gwas*anaethvvr*, amyn uch-
law gwas*anaethvvr*, '*sef mal* brawd *yn* caredic, yn en-
wedic y mi: pa veint mwy y ti, ac yn y cnawt, ac yn
yr Arglwydd?
17 A's gan hyny y *tyby ‡yr *petheu* eiddom yn gy-
ffredin, *d*erbyn ef mal my*h*un.
18 A's gwnaeth ef eniwet yty, neu vot yn dy ddlet,
dod hyny *yn gyfrif* arna vi.
19 Mi Paul a scrivendodd hyn am llaw vy un: *mi*
a dalaf-y-pwyth, cyd na ddywedaf yty, ydd wyt yn
vy-dlet ys am dana ty vn.

* anwyl
‡ cyvaillt, cydsawdwr
‡ cyfundap, cymddeithas
* *Gr. euergos* hywaith, gwaithgar
* chonffort
‡ ymyscaroedd
* perthynasol
‡ er
* ervyn
‡ oedranus
‡ gefais, enillais
* anvwyn anvuddiol
‡ eithr, anyd
* vo
‡ chwenychaswn
* ged, dwrn da
‡ o, rrac
* ddir, gympell, anvodd
‡ wyllys da
* cymery
‡ vi yn gydymaith
* gan, ddrwc

20 *Do, vrawt, mwynhawy vi *y ged* hyn gan-yt yn * Ie, Ac, Ys
yr Arglwydd: ‡dyhudda vy emyscaroedd yn yr ‡ llonha, confforta
Arglwydd.
21 Gan ymddiriet yn dy vvydddot, yr escrivennais
atat, gan wybot y gwnai ys mwy nac a ddywedaf.
22 Eb law hyn hefyt paratoa i mi letuy: canys gobeithaf trwy eich gweddieu im rroddir ychwy.
23 Y mae yn dy anerch Epaphras vy cydcarcharor
in-Christ Iesu,
24 Marc*us*, Aristarchus, Demas *a'* Luc*as*, vy-cyd
*weithwyr.
25 Rat ein Arglwydd Iesu Christ *vo* gyd a'ch yspryt, * ganhorthwywr
Amen.

O Ruuein yr escrivenwyt ad Philemon, *ac a ddanvonvvyt* trwy *lavv* Onesimus was*anaethvvr*.

---

# YR EPISTOL
## AD YR
# EBRAIEIT.

### YR ARGVMENT.

Yn gymeint a' bot llawer o Scriuenyddion, yn gystal yr ei Groec ar
ei Llatin, yn testio, na vynei scrivenydd yr Epistol hwn ac am iawn
achosion bot gwybot ei enw, peth afrait ynte i neb yw chwaith travaelu
yn hyn o ddevnydd. A' chan vot Yspryt Duw yn awdur yddaw, nyd
llai ddim ei awdurtot, er na wyddam ni a pha bin yr escrivenawdd ef
hwn. Pa vn bynac ai Paul ytoedd (yr hyn nyd yw gyffelip) ai Luc, ai
Barnabas, ai Clement, ai vn arall, y bwrpos pennaf ef oedd ddwyn yr
Ebrait i gredu (wrth yr hyn enw y mae ef yn meddwl yn benaf yr ei
oeddent yn aros yn-Caersalem, ac wrthyn wytheu yr oll Iuddaeon eraill)
nad oedd Christ Iesu yn vnic y prynawdr, eithr hefyt mae dir oedd wrth
y ddyvodiat ef bot pen am yr oll *ceremoniae: yn gymeint a bot ei * *cynneddfau*
‡athraweth ef yn ddyben yr oll prophetolaetheu, ac am hyny nyd Moysen ‡ *ddysc*
yn vnic oedd yn is nac efe, anyd hefyt yr Angelion: can ys wyntwy oll
oeddent y gweision, ac yntef yr Arglwydd, eithyr velly yn Arglwydd,
mal y cymerth ef hefyt y cnawd ni, ac a wnaethpwyt yn vrawt yni er
ein sicrau o'n iechydwrieth y trwyddaw ef yhun: can ys efe yw'r
Offeiririat tragyvythawl hwnw, ir vn nyd oedd yr oll Offeirieit Leuitieit
anyd gwascotae, ac am hyny ar y ddyvodiat ef bot yn rrait yddynt yspeidtaw, a' *dileu pop aberth dros bechot, megis y mae ef yn provi o'r * *darvot am, na bai mvvy*
saithvet pen a'r ail wers ar ddec, yd y dauddecvet pen, a'r ddaunawuet
wers. Hefyt efe oedd y Propwyt hwnw, am yr vn gynt y testient yr oll
Prophwyti, megis y declarir or ddaddecuet pen, a'r ddaunawvet wers,
yd y bempet wers ar vcain or vnryw ben: ac ys efe yw'r Brenhin ir
hwn y mae pop peth yn ddarostyngedic, megis yr eglurir or wers hono
25. yd dechre y pen dywethaf. Erwydd paam yn ol esemplae yr hen
dadae rhait yni oll gredu ynddo ef, val y bo dwedy ein saincteiddo trwy
y gyfiawnder ef, a'n dyscu y gan ei ddoethinep, a'n llywodraethu y gan
ei veddiant, yni allu yn ddiyscoc, ac yn gyssurus barhau yd y dywedd

yn-gobaith y llawenydd hwnw y 'osodir ger bron ein llygait, gan ymarver yn-gorchwiliau Christianus, megis y gallom vot ac yn ddiolchgar y Dduw, a gwneuthur a ddylem in cymydawc.

## Pen. j.

*D. R. D. M. yr vn hwn at yr Ebraieit, y ddau i Petr, a'r vn i Iaco*

1 Dangos y mae ef ef rhagorvraint Christ, 4 Goruch yr Angelion, 7 Ac am y swydd hwy.

DUW lawer gwaith a llawer modd gynt a ymddiddanodd ar tadau trwy'r prophwydi:

*Yr Epistol ar ddie Natalic*

2 Y dyddie diwaythaf hynn ef ymddiddanodd, a
nyni trwy eu Vab, rrwn a wnaeth ef yn etyvedd pop
peth, trwyr hwn hefyd y gwnaeth ef y bydoedd,
* *Gr. character* 3 Rrwn am yfod yn llewyrch y gogoniant, a **gvvir-*
*tes hypostascos* lun y berson ef, ac yn cynnal pop peth trwy eu air
galluawg *ef*, wedy golchi eyn pechodeu ni trwyddo ef
eu hun, a eystedd*avdd* ar ddeau-law y fowredd ef yn
* lleoedd goruchaf — y *goruche*lion*,
4 Ac ef a wnaethbwyd o lawer yn well nor Angylion
o gymyn ac y raeth ef ac enw sy yn dwyn rragor
arnyntwy.
5 Can ys wrth pwy or angylion yrioed y dywod ef,
Vy mab i ydwyt i, myvi heddiw ath enillais di? ac
eilwaith, Myfy a fydd yn tad iddo ef, ac yntau fydd yn
vab y mineu?
6 A' thrachefn pan ydyw yn dwyn eu vab cyntaf
ir byd *hvvn*, y dowaid, Ac ai addolasont ef holl angylion
Duw.
7 Ac am yr angylion yn wir y dowaid, Rrwn a
wna eu cenadau o yspridion, ay wasanaythwyr o fflam
dan.
‡ dron — 8 Wrth y mab hagen *y dyvvait*, Dy ‡gadair di,
Ddyw, yn oes oesoedd: teyrnwialen vnion teyrnwialen
dy dyrnas di.
9 Ti a geraist wirionedd, ac a gasëist enwiredd; am
* eliawdd — hyny Dyw, ysef dy Ddyw di ath *enneyntiodd ac olew
‡ gyfeillion — llywenydd ytuhwnt ith ‡cymedeithion.
10 A'c, Tydi yn y dechreuad, arglwydd, a *g*rownd-
waleist y ddayar, ar nefoedd gwaith dy ddwylaw di
ydynt.
11 Colli a wnant wy eythr tydi a erys: acy gyd oll
heneiddio a wnant megis cadachay.
12 Ac megis gwisc y plygi di hwynt, ac a ymnewid-
iant: eythr tydi yr vn ydwyd, ath vlenyddoedd di ni
* phallant — *ddeffygiant.
13 Wrth pwy or angylion erioed y dywod ef, Eistedd

ar y llaw ddeau ym, hyd oni ddodwy dy elynion yn stol ith traed?

14 Onid ysprydion gwasanaythgar y dynt wy oll, a ddanfonir y wasanaenthu, ir mwyn y rray a fyddont ytyveddion yr iechaid?

## Pen. ij.

1 Eiriol arnam y mae ef vot yn uvydd ir Ddeddyf newydd 'rhon a roes Christ y ni, 9 Ac na rwystrer ni wrth wendit ac iselradd Christ, 10 Can vot yn angenreidiol yddo er ein mwyn ni gymeryd gyfryw ddiystadl gyflwr arnaw, val y byddei gynhebic yw vroder.

AM hynny rraid yni yn ddysceulus ystirieth y pethau a glowsom, mal na ollymgom ni hwynt vn amser y lithro.

2 Can ys o bydday gadarn y gair a ddoydid trwy Angelion, a derbyn o bob sarhaet, ac anufyddtod gyfion talu pwyth,

3 Pa fodd y diangwn ni, od esceuluswn cyfryw *vavvr* * ddiogelwch
*gadwadigaeth? rrwn pan ddechreuwyd y arddangos drwyr arglwydd y hun, a sickerhawyd y ni gan y rrai a fu yn y wrandaw,

4 Duw yn cydtestlauthu, drwy arwyddion a rryveddodau, ac ymravael rinweddau, a' rranniadau yr Yspryd glan, ar ol y wyllys y hun.

5 Can ys nid ir engylion y darestyngodd ef y byd a ddaw, rrwn y ddydym yn son am dano.

6 Eithr vn yn rryw fan a ddwg testioleth, gan ddoydyd, Beth yw dyn, mal y meddyliech am dano? neu vab dyn mal y darbyddech o honaw?

7 Ti ay gwnaythost ef ychydig yn is nor Angylion: * isach, iselach
a gogoniant ac vrddas y coronaist ef, ac ay gosodaist ef goruwch gweithredoedd dy ddwylaw.

8 Pob peih a ddarostyngaisti tan y draed ef. Am hyn, gan ddarostwng o hono bob peth yddo, ni adawodd ef ddim heb y ddarostwng iddo. Eythr etto nid ydym yn gweled pop peth yn ostyngedic yddo.

9 Eythr Iesu a welwn ni wedy y goroni a gogoniant
ac *vrddas, y neb a wnaythbwyd ychydic is nor ‡ anrydedd
angylion, herwydd dioddefaint marfolayth: mal y bay
yddo ef trwy ras Duw *brovi marfolayth dros bawb. * chwayddu

10 Can ys gweddus oedd yddo ef, herwydd pwy y may pob peth, a thrw yr hwn y may pob peth, wrth iddo ddwyn llawer o feibion y ogoniant, gysegru pennadur y cadwadigaeth hwynt trwy 'ovydiau.

11 Can ys y neb a santeiddio, ar sawl a santeiddier,

or vn y maynt *y gyd* oll, or achos hwn ni vydd cwil-
yddus cantho y galw hwynt yn frodyr,
12 Can ddoydyd, Myvi a ddangosaf dy enw di ym
brodyr, ynghanol yr eglwys y canaf ymynnau yti.
13 A' thrachefn, Mi a ddodaf vy ymddiriaid yntho.
A' thrachefn, Wele vi, a'r plant a roddes Duw y mi.
14 Am hynny gan fod y plant yn gyfrannog o gig a
gwaed, yntau hevyd yr vn modd a wnaythbwyd yn
gyframog or vnrryw, mal y gallai ef trwy farfolaeth
ddistrowiaw, y neb y doedd a llyvodrayth marfolayth
ar eu law, sef yw hwnw diawl.
15 Ac mal y gallay ef y ymwared hwynt *y gyd* oll,
rrain rrac ofn marfolaeth gwbl oi bowyd oyddynt tann
gaythiwed.
16 Nid angylion eusus a gymerawdd ef: eithyr epil
Abraham a gymerawdd ef.
17 Wrth hynny y dylai ef ymhob peth fod yn gy-
ffelib yw frodyr, mal y gallai fod yn drigaroc, ac yn
Archoffeiriat ffyddlawn am y pethau a berthynant y
Dduw, y *ddiffoddi pechodau y bobl trwy fodloni
Duw.
18 Yn wir gan ddioddef o honaw, ‡a' bod profed-
igaeth arno: vo ddichon help yr rrai *bo profedigaeth
arnunt.

* voddloni, voddhau Duw tros
‡ ai demtio
* temtiedic

## Pen. iij.

1 Y mae ef yn erchy arnynt vot an uvydd i 'air Christ, 3 Yr hwn 'sy deilyngach na Moysen. 12 Poenedigeth y cyfryw ac a galedant ei caloneu, ac ny chredant, val y caffent 'orphoysfa dragyvythawl.

AM hyn, vymrodyr santeidd, cyfranog*ion* or galwed-
igaeth nefawl, ystyriwch yr *Abostol ac arch-
offeiriad eyn ‡cyffes *ni* Christ Iesu:
2 Ef fu ffyddlon yr neb ay gosodes ef, megis ac y bu
Moyses ynghwbl oi dy ef.
3 Cymynt yn wir rragor 'ogoniant tu hwnt y Voyses
a hayddai hwn, ac y may mwy or vrddas ‡ir neb a
edyladawdd y ty, nog ir ty ‡*y hun.*
4 Can ys pob ty a edeilir trwy ryw vn, ar neb a
*wnaeth pob peth, Duw ydiw.
5 A' Moses yn wir a fu ffyddlon ynghwbl oi dy ef,
megys gwas*aethvvr*, ir testelauthu y pethau y bydday
son am danyn rrac llaw.
6 Eythyr Christ megis mab, ar eu dy y hun, ty yr
rwn ydym ni, os nyni a geidw ein ‡hyder a' gorhoffedd
ein gobaith yn gyfan hyd y diwedd.

* Genadwri
‡ proffess
‡ i hwn
* adeiladodd
‡ ymddiriet

7 Am hynny megis y dowaid yr yspryd glan,
Heddiw o gwrandewch i y ‡lais ef, ‡llef
8 Na chaledwch ych calonau, megis yn *yr emryson, *y chwerw-
ar ddull dydd y tentasiwn yn ‡y diffaith*vvch*. edd, anoc ‡yr anialwch
9 Lle y tentiason ych tadan chwi fi, ym profason, ac
a welson fyngweithredoedd ddeugain mlynedd,
10 Am hynny y sorais wrth *genedleth honno, ac a *nasion
ddoydais, Y mayntw fyth yny myned ar gam yn eu
caloneu, ac nid adnabuont fy ffyrth i.
11 Ac velly y tyngais yn fynig*lloni*, Os caent wy
entrio ym esmwythdra *vi*.
12 Disgwiliwch *vym*rodyr, rrac bod vn amser yn neb
o honoch galon ddrwg, ac anffyddlon, y *beri* ymadel a
Dyw byw.
13 Eithyr cynghorwch bawb y gilidd beunyd, tra
elwer Y dydd heddiw, rrac i neb o honoch *ym*galedu
trwy dwyll pechawd.
14 Can ys cyfrannawg o grist eyn gwnaythbwyt ni,
os cadwn ni y dechreuad drwyr hwn eyn cynhelir y
fyny, yn gyfan hyd y dewedd.
15 Lle y doydir, Heddiw os gwrandewch i y lais
ef, na chaledwch ych caloneu, megis ac yn yr *ym- *annoc
ryson.
16 Can ys rrai ‡ar ol gwrandaw, y hannogasont ‡gwedy clywet
ef-y-ddigio, ac etto, nid pawb ar a ddoythan or Ayfft
trwy Voyses.
17 Wrth pwy y bu ef sorredic ddeugain blynedd?
onid wrth y rrai a bechasai, rrain a gwympasai eu *cyrff *celanedd
yn y diffaeth*vvch?*
18 Wrth pwy y tyngodd na chaent wy entrio yw
'orphoysfa *ef?* onid wrth y rrai, nyd uvyddhaent?
19 Ac ydd ym yn gweled na allent wy entrio herwydd
angrrediniaeth.

## Pen. iiij.

2 Bot y gair eb ffydd yn anvuddiol. 3 Sabbath neu 'orphoysfa y Christianogion. 6 Poen yr ei ny chredant. 12 *Anian gair Duw. **Natur*

OFNWN am hynny, rrac vnrryw amser trwy
wrthod addewid entrio yw orphwysfa ef, gael ar
neb o honochi foddybygu eu *ddiddymmu. *myned ei waith yn over
2 Can ys y ni pregethwyd yr Evengel mal vddynt-
wythe: eithr ni thykiodd vddynt wy y gair a glowid,
am nad oedd wedy eu gydwascu a ffydd yn y rrai ay
clywsont.
3 Nine yn wir y rrai a gredasom, sy yn entrio ir

orphoysfa, megis ac ydyvod ef wrth y llaill, Val *hyn* y
tyngais yn fynniclloni, Os caffant wy entrio ym gor-
*'orphen gwplau — sswyffa: cyd bayr gwaith wedi y *berffeithio o amser
gosodiad growndwal y byd.
4 Can ys am y saithvet dydd mewn man y dyvawd
val hyn, Ac a orffwysawdd Dyw y seithfed tydd oddi-
wrth eu holl weith.
5 Ac yma drachefn, Os cant wy entrio i'm gor-
phwysfa.
6 Or achos hwn gan fod hyn wedi y adael yn ol,
vod rrai yn cael entrio y mewn, a' bod y rrai y
pregethwyd yn gynta vddynt, heb entrio herwydd
angrrediniaeth,
7 Trachefn may yn rracderfynn rryw ddydd, gan
ddoydyd trwy ddavydd Heddiw, ar ol cymaint o amser,
megis y doytbwyd, Heddiw o gwrandewch y lais ef, na
chaledwch ych caloneu.
*Iesu — 8 Can ys pe *Iosua fase wedi y dwyn hwyntw y
'orphoysfa ni sonniasai fe am ddydd arall ar ol hynny.
‡ *Sabbatismus.* — 9 Ac am hynny may *rryvv* ‡'orphwysfa wedi eu adael
yn ol y bobl Ddyw.
10 Can ys yr hwn a entriodd yw 'orphwysva, gor-
ffwyso a wnaeth hwnw oddiwrth y weithredoedd eu
hun, megis ac y *gorphoy savvdd* Dyw oddiwrth yr eiddo
yntau.
*'orphwysfa hono — 11 Rown eyn bryd am hynny ar entrio ir *vnrryw
orffwysfa, rrac cwympo o neb ar ol yr vn siampl o an-
efyddtod.
‡ grymiol — 12 Can ys byw*iol* yw gair Dyw, a' ‡nerthol ei
waith, a' llymach nac vnrryw gleddau-daufiniog, ac
a gyrydd hyd at wahaniad yr enaid, a'r ysbryd, ar
cymalau, a'r mer, a' barnwr yw y meddyliau a' bwriadau
yr galon.
13 Ac nid oes *vn* creadur anamlwg yn y olwc ef:
eythr *bot* pob peth yn noeth ac egored yw lygaid ef, am
*may i ni a wnelom ac ef — y rrwn y *ddym ni yn son.
14 Gan fod am hynny y ni Archeffeiriad mawr, a
entriodd ir nefoedd *'sef* Iesu mab Dyw, daliwn *ein afel
ar* eyn proffes.
16 Can ys nid oes y ni archeffeiriad, rrwn nis dichon
gydoddau an gwendid ni, namyn a tentiwyd ym hob
peth yr vn modd, eithr yn ddibechawd.
‡ gadair, esteddva — 16 Am hynny awn yn hy*derus* at ‡dron y gras, *val*
*amserol, ymrhyd — y dderbyn*iom* trugaredd, ac y gael gras yn gymorth
*temhoraidd.

## Pen. v.

1 Y mae ef yn cyffelypu Iesu Christ *ac Offeiriait Leui, gan ddangos ym-pa peth y maent yn cytuno neu yn ancytuno. 11 Yn ol hyny y mae ef yn ‡ argyweddu yscaelustra yr Iuddaion.

CAN ys pob Archeffeiriad o blith dynyon y cymerir *ef*, a' thros dynion y gosodir ef, yn y pethau sy tu ac at Ddyw, y offrymmu a'rrodion ac aberthau tros pechodau,
2 Rrwn a *wyr yn gymesurol gydsynnio cyflwr yr *ei* ‡anghyfarwydd, ar neb sy ar gam, am y fod *yntau hevyd wedi y amgylchu a gwendid, * vedr ‡ anwydodol, a'r cyfeiliornus * ef y hun.
3 Ac ir mwyn hynny y dyly trostaw y hun yr vn modd a' thros *yddo 'r* bobl offrymmu tros pechodau.
4 Ac ni chymer neb yr *vrddas hyn yddo y hun ond y neb a fo Dyw, yn y alw, mal Aaron. * anrydedd
5 Velly Christ hevyd ni chymerawdd yddo yhun hyn o vrddas, y fod yn archeffeiriad, namyn yr hwn a ddyvod wrtho, Tydi yw fy mab i, heddiw yr enillais i dydi, *ei rhoes yddavv*.
6 Megis y may ef heuyd mewn man arall yn doydyd, Tydi effeiriad wyt yn dragwddawl, ar ol ordr Melchisedec.
7 Rrwn yn y dyddiau y gnawd ef a offerymmodd trwy levain a ‡dagre, weddiau ac ytolygon at yr hwn, ydoedd abl yw achub ef o ddiwrth farfolaeth, ac a wrandawyd y peth y roedd yn i ofni. ‡ deigre * gadw
8 A chyd bay ef Vab, er hyny ef a ddyscawdd vfydddot, erwydd y pethau a ddioddefawdd.
9 A' chwedi eu gysegru, ef a wnaythbwyd yn audur iechid tragwyddawl ir rrai a wrandewynt:
10 Wedi eu *gyf*enwi can Ddyw yn Archeffeiriad ar ol ordr Melchi-sedec.
11 Am yr rwn may y ni lawer yw ddoydet, sy anhawdd y *manegi, achos ych bod chwi yn ‡fuscrell ych clustiau. * hadrodd, deongl ‡ bwl
* rrac eich damno *m*rodyr, *val *na* bo barn arnoch: wele, may'r browdwr
yn sefyll wrth y drws.
10 Cymerwch, fymrodyr, yn siampl am oddeu blin-
der, ac am hir ymynedd, y proffwydi rrain a fuont yn
‡ ymddiddan, parablu ‡doyded yn Enw'r Arglwydd.
11 Wele, dedwyddd y ddym yn gadel y rrai a ym-
oddefant. Chwi a glowsoch am ymynedd Iob, ac a
* wybuoch *welsoch y diwedd *a vvnaeth* yr Arglwydd. O blegit
trathosturiol yw'r Arglwydd a' thrugaroc.
12 Eithr ymlaen pob peth, fymrodyr, na thyngwch,
nac ir nef, nac ir ddayar, na llw arall amgen: eithr bid
**Gr. eis hypocrisin* ych ief, yn ief, a*ch* nac *ef*, yn nac *ef*, rrac syrthio o
honoch, *mewn barn.

13 Oes neb yn ych plith mewn adfyd? gweddied.
Oes neb *yn esmwyth arno? caned. * wrth ei vodd
14 Oes neb yn ych plith yn glaf? Galwed am
*Henaduriaid yr eglwys, a gweddiant wy trosto, ac * *Presbyteros*
‡eliant ef ac olew yn Enwr Arglwydd. ‡ enneintiant, angenant
15 A gweddi 'r ffydd a iachaar claf, ar Arglwydd ay
cyfyd ef y fyny*dd*: ac o gwnaeth ef pechoday, hwynt
a vaddeuir iddo.
16 Cyfaddefwch ych beie *y naill ir llall, a gweddi- * *Gr. allelus* yw gylydd
wch tros y gilidd, y gael ych iachau: can ys llawer a
dal gweddir cyfion, pan vo ‡ffrwythlon. ‡ grymus, gadarn
17 Elias dyn ydoedd or *vn sut a ninay, ac yn eu * gyflwr
weddi ydd archodd na bai glaw, ac ni ‡bu glaw tair ‡ lawiodd hi
blynedd, a' chwe*ch* mis.
18 Ac ef a weddiawdd drachefn, ac a roddes y nef y
glaw, ac a ddug y ddayar eu ffrwyth.
19 *Vym*rodyr, o daeth neb o honoch ar *gyfeilorn * ddidro
oddiwrth y gwirionedd, a throi o ryw vn ef,
20 Gwybydded ef am y neb a droes y pechadur rrac
mynd ar gyfeilorn o ddiar y ffordd, y vod ef yn ‡cadw ‡iachau, achup
enaid rrac angay, ac yn kyscodi *lliaws*grvvydd o* pech- * llaweredd
odau.

---

# YR EPISTOL CYNTAF CYFFREDINAWL
## I
# PETR APOSTOL.

### YR ARGVMENT.

Annoc y ffyddlonieit mae ef y ymwadu a hwy hunain, a' diystyru'r byd, val gwedy y rhydheit hwy ywrth oll wynnieu cnawdawl a' rhwystron, y gallont yn rhwyddach gaffael dyvot y deyrnas Christ, ir hon in galwyt gan rat Dew, y ddatguddiwyt y ni yn y Vap ef, ac ei derbyniesam eisus wrth ffydd, ei *meddiannasam trwy 'obaith, ac in cadarnhawyt ynthei trwy santeiddrwydd ‡bywyt. Ac er mwyn na lescao y ffydd hon wrth weled Christ wedy ei dremygu ac ar wrthddod gan yr holl vyd hayachen, dangos y may ef nad yw hyn anyd cyflawny yr Scrythurae yr ei a destiant y byddei ef yn vaen trancwydd ir ei cwliedic, a' diogel sail iechydwrieth ir ffyddlonieit: am hyny y mae ef yn y hannoc hwy y vynd rhacddyn yn *wychr, gan ystyried pa rei oeddent, ac y ba deilyngdawt y galwodd Dew hwy. Gwedy hyny, y mae ef yn traythu petheu gohanrhedawl, gan ddyscu dailieit p'odd yr vvyddhant yw llywiawdwyr, a' gwasanaeth-ddynion ei perchen, a' ph'wedd y ‡dirper ir ei gwedy eu priodi ymddwyn. Ac achos darvot ordino i bawp ys ydd yn dduwiol, y ddyoddef cael eu hymlid, y mae ef yn dangos yddynt ddaed y dyben vydd yw gorthrymdere, ac yn

* *goryscynesam*
‡ *buchedd*
* *gyssurus*
‡ *dyly*

wrthwynep i hyny pa poenæ 'sy wedy ei ddarparu gan Ddyw ir ei audywiol. Yn ddywethaf oll y mae ef yn dyscu yddynt p'wedd y dylei y gwenidogion-ecelesic ymddwyn, gan eu gohardd y arfer traws awturtot ar yr Eccles: hefyt bot yn iawn i wyr ieuainc vot yn gymmesurol, ac yn addas y ddyscu, ac velly y tervyna gan eu cygori.

## Pen. j.

2 Dangos ymae ef may trwy ampl drugaredd Dew in *detholwyt ac in adgenedlwyt i 'obaith vywiol, 7 A'r modd y treijr ffydd, 10 Nad yw yr iechydwrieth yn-Christ beth newydd, eithyr peth wedy ei bropwyto gynt. 13 Y mae ef yn y hannoc hwy y ymwreddiat dywiol, yn gymmeint ay ‡geni hwy yr owrhon o newydd can 'air Dew.

*D.R.D.M.*

PETR apostol Iesu christ, at y dieithraid, sy ar wascar rryd Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a' Bithynia,

2 Detholedic o racwybodaeth Dyw tad i santeidd-rwydd yr ysbryd, trwy vfuddtawd, a thaynelliad gwaed Iesu Christ: Gras ywch a heddwch a amylhaer.

3 Bendigedic fo Dyw, a thad eyn harglwydd Iesu Christ, rrwn oi fawr drugaredd an adenillawdd ni, y obaith bywiol trwy ail gyfodiad Iesu Christ o ddiwrth y meirw,

‡ an llygradwy

* *chvvi*

4 Y gael ytifeddiaeth *diddiwedd a ‡dilwgr, ac ni diflanna 'rron a roed y gadw yn y nef y *nyni,

5 Rrain trwy allu Dyw ydym gadwedic herwydd ffydd y gael y diogelwch a ddarparwyd yw arddangos yn yr amser diwaythaf:

6 Yn yr hwn beth y ddych yn llawenhau, cyd byddech ennyd bach (o ba raid) mewn tristwch, herwydd amryw brofedigaythay,

* ar tan

7 Mal y ceffer profiad ych ffydd chwi, sy werthfowr-usach nor aur colledic, (cyd profer ef *trwy dan) ir mawl, ac anrrydedd a' gogoniant *yvvch*, pan ymddangoso Iesu Christ:

‡ anrraethawl

8 Rrwn heb y weled y ddych yn y garu, yn yr hwn ir nas gwelwch ef yrwan, y ddych ir hynny yn credu, ac yn llawenhau a llywenydd ‡ni ellir eu ymadrodd a' gogonyddus,

* iechyd, cadwedigeth

‡ *eich*

* iechyd

9 Gan *dd*erbyn terfyn ych ffydd, *ys* *diogelwch ‡yr eneidiau.

10 Am yr hwn *ddiogelwch ir ymofynasont, ac y chwiliasont y prophwydi, rrain a prophwydasont am y gras oedd taac attochi,

11 Gan ymgais pa bryd neu pa ryw amser y gwnai

ysbryd Christ oedd ynthyntwy yn testlauthu yn y blaen,
ysbusu, y dioddefau *y gaffai* Christ, ar gogoniant ay
cydcanlynay hwynt.
12 Ir rrain y dangoswyd, nad vddyntwy, eithyr y nyni
y gwasnaythay y pethau a fanegwyd y chwi trwy yr hai
a bregethasont ywch yr efengl trwyr ysbryd glan a
ddanfoned or nef*oedd*, *ac* ar yrrain y chwennych yr
angylion gael edrych.
13 O blegid hyn gwregyswch llwynay ych meddwl:
byddwch sobr: a' gobeithiwch yn berffaith ar y gras a
ddycpwyd attoch, drwy ‡ddrychioleth Iesu Christ, ‡ymddangosiat ddatguddiat
14 Megis plant vfuddion, rrain ni chydymgyfflyb-
wch ychvnain ar hen trachwantay yn yr anwybodaeth
einoch:
15 Eithyr megis ac y may y neb ach galwodd chwi,
yn santaidd, byddwchithay hevyd santaidd ymhob ym-
wreddiad,
16 Am hyny ir escrivennir, Byddwch santaidd, cans
myvy santaidd ydwy.
17 Ac as gelwchi ef yn Tad, rrwn heb ystyriaeth
person a farna ar ol gweithred pawb, ymddygwch tros
amser ych preswylfa *yma* mewn ofn,
18 A chwi yn gwybod nad a phethau llygredic *megis*
arian nei aur ich *ymwaredwyd o ddiwrth ofer ym- *prynwyt
wreddiad, a gowsoch o 'osodigaythay'r tadau,
19 Eithr a gwerthfawr waed Christ, megis yr oen
difrych*enlyd* dihalogedic.
20 Rrwn a ddarparhawyd yn y blaen, cyn gosod seil-
faynay y byd, eithr a ysbyswyd yn yr amseroedd di-
waythaf ir ych mwyn chwi,
21 Rrain ydych trwyddo ef yn credu ‡i Ddyw, ‡ynuw
rrwn ay cyvodes ef o ddiwrth y meirw, ac a roddes
iddo ef ogoniant, mal y bay ych ffydd chwi ach gobaith
ar Ddyw.
22 A chwi gwedi puro ych eneidiau, am vfuddhau
ir gwirionedd trwyr ysbryd, mewn cariad broduraidd
*diweniaeth, cerwch *bavvb* y gilidd yn ‡'rymus, *diffuant
23 Chwi a aned o newydd, nid o *hil farwol eithr o ‡ehelayth, bybyr, awydd-
*hil* anfarwol trwy air Dyw, rrwn sy fyw ac yn aros yn us, ddwysfryd
dragwyddol. *had
24 Can ys pob cnawd mal y glaswellt*yn yvv*, ‡a' ‡ac oll 'ogon-
phob ryfig dyn val blodeu yn y glaswellt*yn*. Gwywo a iant
wnar glaswelt*yn*, a'r blodeuyn a gwympa i lawr.
25 Eithr gair yr Arglwydd a erys yn dracwyddol: a
hwn*vv* ydyw y gair a bregethwyd ‡y chwi. ‡yn eich plith

## Pen. ij.

* camwedd, bai

1 Eu hannoc y mae ef ar roi heibio pop *gwyd, 4 Gan ddangos may Christ yw'r sail y maent yn adailad arnaw. 9 Rygorvraint y Christianogion. 11 Y mae ef yn ervyn yddynt ymgynnal ywrth chwanteu cnawdol. 13 Bot uvyddhau ir llywiawdwyr. 18 P'odd y dlei gwasanaeth-ddynion ymddwyn ‡ wrth eu perchen. 20 Annoc y mae ddyoddef yn ol esempl Christ.

* ffuant
‡ dryg davodleu

HERWYDD hyn, dodwch heibio pob malais a
phob twyll, a phob *rragrith, a' chenvigen, a
phob ‡goganair.
2 *Ac* mal rrai bychain newydd eni byddwch chwan-
noc y laeth didwyll y gair, mal i galloch drwy hwnw
gynyddu.

* *Gr. chrestos* mwyn, addfwyn, dayonus, hyfryd, tirion llesol

3 Os profasochi fod yr Arglwydd yn *gywaithas.
4 At yr hwn y ddych yn dyvod megis at faen byw
anghymradwy can ddynion, eithr can Ddyw etholedic
*a'* gwerthfawr.
5 A' chwithau hevyd megis main byw*iol*, a edylad-
wyd yn dy ysprydol, *ac yn* effeiriadaeth santaidd y
offrymmu aberthau ysprydol cymradwy can Ddyw trwy
Iesu Christ.

* Wele
‡ hwn

6 *Ac* am hyny y cynhwysir yn yr scrythr, *Nycha,
dodi y ddwy yn Syon *sail*fayn arbennic, etholedic
*a'* gwerthfawr: ar ‡neb a gretto yntho, nis gwrad-
wyddir *ef.*

‡ anrydedd

7 O blegid hyn y chwi sawl ydych yn credu,
‡vrddas yw: eithr yr anufuddion, y maen a wrth-
odasont yr edeiladwyr, hwnw a wnaed yn ben congl.

* cwymp, rhwystr

8 Ac yn faen tramcwydd, a' chraic *afrifed, *ir rrai* sy
yn tramgwyddo wrth y gair a hwynt yn anufydd, ir hwn
beth ir ordinhawyd hwynttw.

‡ cenedl
* yr hwn

9 Eithr chwichwi cenhedlaeth etholedic *ytych*, bren-
hinawl effeiriadaeth, *nasiwn santaidd, pobl syn yn
briodoriaeth *y Ddyvv* mal i gallechi vanegi rrinwedd-
au ‡y neb ach galwodd o dywollwc yw ryfedd*odys*
'oleuni ef,
10 Rrain gynt nid pobl *oyddech*, yn awr hagen pobl
Ddyw: rrain gynt ni doed ywch trugaredd, yn awr
hagen a freiniasoch trugaredd.

*Yr Epistol y iij. Sul gwedy yr Pasc.*

11 *Vyn*grredigion, ytolwc ywch, megis dieithraid a
phererinion ymgedwch o ddiwrth trachwantayr cnawd,
rrain sy yn rryfela yn erbyn yr enaid,
12 A bid ych ymwreddiad yn honest ymysc y
cenhedloedd, mal y gallo rrai sy ich goganu mal pe

byddech *afrifeid, herwydd ych gweithredoedd da y — *rei yn gwneuthur drwo
welant, foliannu Dyw yn y dydd ‡ir ymweler ac wynt. — ‡ y gofwy, ymweliat
13 Ymddarostyngwch o blegyd hyn y bob dynawl
odinhad ir mwyn yr Arglwydd, ai ir Brenin, mal ir
goruchaf,
14 Ai ir llywiawdwyr, mal i rrai trwyddo ef a
ddanfonir, ir *dialedd ir rrai drwc, ac ir mawl yr — *poeni, cospi
rrai da.
15 Can ys felly may wollys Dyw, mal y galloch
trwy wneuthyd yn dda gostegu anwybodaeth dynion
ffolion,
16 Megis *yn* rryddion, ac nid val rrai a gymer
rrydit yn lle cochel malais, eithr mal gwasnaythwyr
Dyw.
17 Perchwch bawb: cerwch cymdeithas froduraidd:
ofnwch Ddyw: anrrydeddwch y Brenin.
18 Gwenidogion, ymostyngant mewn pob ofn yw
meistred, nid yn vnic ir rrai da cywaythas, eithr yr ir
‡anghyweithas hevyd. — ‡ caimion, celstan
19 Can ys hyn sy *rasol, as herwydd cydwybod i — *radlon, ddiolchgar
Ddyw, y bo y neb cydymddwyn molestay, yn goddau
yn ddiachos.
20 O blegid pa glod yw, ir bod yn dda ych ymynedd — *Yr Epistol yr ail Sul gwedy yr Pasc.*
pan cernotter chwi am ych beie? eithyr pan wneloch
dda, ac ir hynny yn dda ych ymnnedd yn goddef *cam*,
hyn sy ‡rasol gar bron Dyw. — ‡ rad, gymradwy
21 Can ys y hyn y galwyd chwi: o blegid Christ
hefyd a ddioddefodd trosom ni, gan adel y ni *angraifft — * esempl
val y gellychi ganlyn eu ‡ol*ion* ef. — ‡ lwybreu
22 Rrwn ni wnaythodd pechod, ac ni chad twyll yn
eu enau.
23 Rrwn pan *ddirmygwyd ef, ni ddirmygawdd — * ddivenwyt, ddistreuliwyt
eilwaith: pan ddyoddefawdd, ni vygythiodd, eithyr
‡bwrw y dialedd at y neb sy yn barnu yn gyfion. — ‡ rroi ar yr hwn
24 Rrwn y hun a ddug yn pechoday ni yn eu corff
ar y pren, val y gallem ni wedi eyn ymwared o ywrth
pechod, fyw y gyfiawnder, trwy cleisiau rrwn yr iach-
aywyd chwi.
25 Can ys y royddech megis defaid yn mynd ar
*ddidro: eithr yn awr chwi a droysoch at bigail, ac — * gyfeilorn, ddiwenva, ddispirod
escob ych eneidiau.

## Pen. iij.

1 Py wedd y dlei bot ymwreiddiat gwragedd yw gwyr, 3 Ac yn ei gwiscat. 7 Dlet gwyr yw gwragedd. 8 Y mae ef yn aunoc pawp i

vndap a' chariat, 14 Ac yn ymarous y ddyoddef trwbl wrth esempl a' dawnged Christ.

VAL hynny hefyd y gwragedd, byddant ostyngedic
yw gwyr priod mal y galler os byddai rrei an-
vfyddion ir gair, trwy ymwreddiad y gwragedd eu
hynnill hwynt heb y gair.
* pur 2 Pan ganfyddont ych ymwreddiad *diwair, *ys y*
gyd ac ofn.
3 Trwsiad yr hain nid oddiallan y bytho, *megis* o
blethiadau gwallt, ac amgylch osodiad aur, neu wisciad
dillat *gvvychion.*
‡ cuddiedic 4 Eithr dyn ‡dirgeledic y galon, bid dihalawc, ac
ysbryd esmwyth llonydd, rrwn sydd fawr eu bris gar
bron Dyw.
5 Can ys velly gynt ir ymdrwssiayr gwragedd sant-
* ynuw, ar Dduw aidd, rrain vyddynt yn gobeithio *Dyw, yn ddaros-
‡ *Gr. 'idiois* tyngedic yw gwyr ‡priawd.
6 Megis ir vfuddhaodd Sara y Abraham, can y alw
* *Gr. hes* ef yn Arglwydd: merched yr *hon fyddwchi, o
wneuthyr yn dda, heb arnoch ofn dim dychryn.
7 Chwithau y gwyr, yr vn ffunyd, cydgyfanheddwch
ac wynt mal y gwedday i rai gwybodol, can roddi an-
rrydedd ir wraic, megis ir llestr gwannaf, mal y rrai sy
hevyd cydetifeddion gras y bowyd, rrac rrwystro ych
gweddiay-chwi.
*Yr Epistol y v. Sul gwedy Trintot* 8 Am benn hyn, byddwch bawb or vn meddwl, ‡yn
cydoddau pawb gidau gilidd: cerwch fal brodyr:
‡ *Gr. sympatheis* *byddvvch yn* drugawg: *byddvvch yn* gwrtais.
9 Nid yn talu drwc tros drwc, neu ‡ddirmic tros
‡ senn dirmic: namyn *elchwyl bendithiwch, gan wybod
* yn wrthwynep ych galw y hyn, sef y freinior fendith ‡*o* etifeddiaeth.
10 Can ys y neb a chwennych y bowyd, ac a garo
weled dyddiau da. attalied eu davod o ddiwrth ddrwc,
ay wefusay rrac adrodd twyll.
11 Gocheled y drwc a gwnaed y da: ceisied heddwch
* dilyned a dilyded hwnw.
‡ ar 12 Can ys llygaid yr Arglwydd *'sy* *tuagat yr *er ei*
* ac cyfion, ay glustiay ef tu ac at y gweddi hwynt: eithr
wyneb yr Arglwydd fydd goruch y rrai a wnel drwc.
13 A' phwy ach dryga chwi, os byddwch yn dylid *yr
hyn 'sy* dda?
14 Eithr o bydd ywch ddyoddef herwydd cyfiownder,
‡ hofn dedwydd ydych: ond am y ‡brawchiad hwynt nad
* chynyrfer cowi ofnwch, ac na *chynhyrfwch.
15 Eithr santeiddiwch yr Arglwydd Ddyw yn ych

calonay: a' byddwch barawd bob amser y atteb y bawp
a ofynno ywch reswm am y gobaith sy ynoch,
16 *A hynny* trwy vfuddtra a *chwrteisrwyd, a' * pharch
chenych cydwybod dda, mal y gallo y rrai a ddoyto
yn ych erbyn megis *yn erbyn* rrai drwc, quilyddio,
rrain a feiant ar ych dayonys ymwreddiad yn-Christ.
17 Can ys gwell *ydyvv* (os wollys Dyw ay mynn) *Yr Epistol ar*
i chwi ddyoddef yn gwneuthr da*yoni*, nac yn gwneuthyr *nos Pasc.*
drug*ioni*.
18 Can ys Christ hevyd vnwaith a ddioddefodd tros
pechoday, y cyfion tros yr anghyfion, mal y galle yn
dwyn ni at Ddyw, ac a gavas marfolaeth yn y cnawd,
eithr a fywhawyd yn yr yspryd.
19 Trwy rhwn hevyd y ddaeth *ef*, ac a bregethawdd
ir esprydion *oedd* yn-carchar,
20 Gynt yn anvfydd hwynt, pan vnwaith y ddoedd
hir ymynedd Dyw yn discwyl yn-dyddiay Noe, pan
ddarparheid yr arch, yn yr hon ychydig*ion*, ysef yw,
wyth *enaid a ‡achubwyd yn y dwfr. * dyn
21 Ir rrwn y may yr *angraifft sy yn awr yn eyn ‡ gwaredwyt
‡achub ni*nay* ysef *y* bedydd *yn attep* (nid trwyr hwn y gadwyt * *gynddelw*
tynnir y ffordd budreddi y corph, eythr trwyr hwn y ‡ iachau, cadw
gwna cydwybod dda ymofyn a Dyw) trwy gyfodedig-
aeth Iesu Christ,
22 Rrwn sydd ar y llaw ddeau *i* D*d*yw, gwedi
myned ir nef, ar Angylion ar *poweroedd, ar ‡gal'u * Awdurdode, Galluoedd
wedi ymddarostwng iddo. ‡ meddiante

## Pen iiij.

1 Cygori dynion y beidiaw a phechot y mae ef. 2 Na threulion mwy or amser yn-camwedd. 7 Bot yn sobr ac yn hywaith y weddiaw. 8 Caru eu gylydd, 12 Ymddyoddef yn-trwbl, 15 Ymogelyd rrac bot i neb ddyoddef mal dryccdyn, 16 Eithyr mal Christian, ac velly na bo arno gywilydd.

AM hynny can ddioddef o Christ trosomni yn y
cnawd, chwithe hevyd ar*fog*wch ychunain ar
vnryw fedddwl, *ys ef* bot i hwn a ddioddefodd yn y
cnawd, beidio a phecod,
2 Ir mwyn hyn na bo iddo o hyn allan (tros yr hyn
sy yngweddill or amser yn y cnawd) fyw ar ol tra-
chwantay dynion, eithr ar ol wollys Dyw.
3 Cans digon ydyw y ni dreulio o honom yr amser
aeth heibio or enioes, ar ol trachwant y cenhedloedd, yn

rrodio mewn drythyllwch, trachwantay, meddtod, gloth-
* diota
ineb, *ymyved, a ffiaidd ‡addoli-delway.
‡ *Gr. eidolo latreiais*
4 Achos pam may yn chwith canthunt, na byddech
* *Gr. 'asotias*
yn cydredec gidagwynt, ir vnrryw *ormodd rrysedd,
‡ cablu, goganu
dan ych ‡dychanu *chvvi*.
5 Rrain y bydd rraid vddynt roy cyfri ir neb, sy
barawd y farnu y byw ar meirw.
6 Cans ir mwyn hynny y pregethwyd yr evengil ir
meirw hevyd, mal y gellid y cyfyrgolli hwynt, ar rann
dynion, yn y cnawd, eithyr y gellynt fyw ar rann Ddyw
yn yr ysbryd.
*Yr Epistol ar y sul gwedy yr Derchavael.*
7 Diwedd pob peth sy yn agosau. Am hynny bydwch
gymesurol, a deffroedic y weddiaw.
8 Ymlaen pob peth bid cariad twym*yn* yn ych plith:
* laweredd
can ys cariad a guddia *liaws pechoday.
‡ ddirwyth, ddirwgnach
9 Lledteywch bawb y gilidd, yn ddi‡vurmur.
10 Pawb megis ac y cafas rodd, byddet iddo eu
chyfrannu ay gilidd, mal dayonys stiwardiaid am ryw
ras Dyw,
* ymadrodd
11 Os *dowaid neb, *dyvvedet* megis gair Dyw. Os
‡ gweinidoca
‡gweini *a* wna neb *gvvnaed* hynny megis or gallu y may
Dyw yn i roddi, mal y molianner Dyw ymhob peth
* *Gr. to cratos,* gallu, nerthowgawydd
trwy Iesu Christ, ir hwn y may gogoniant, ac *arglwydd-
iaeth yn oes oesoedd. Amen.
12 Caredigion, na fid chwith cenych y praw sy arnoch
trwy dan, rrwn a wneid ir profedigaeth ywch, val pe
digwydday ywch ryw beth dierth:
13 Eithr llawenhewch, can ych bod chwi yn gyfran-
* ddioddefion
noc ar *goddefiaday Christ, mal y galloch pan eglurer
y ogoniant ef, fod yn llawen ac yn hyfryd.
‡ ymsenir, divenwir
14 Os ‡dirmygir chwi er *mvvyn* Enw Christ, ded-
wydd *ydych:* cans yspryd y gogoniant, ac (*yspryt* Dyw
a orphwysa arnoch: rrwn ar y rran hwynt a gayff
anair: ac ar ych rran chwi a foliennir.
* cosp
15 Eithr na fid i neb o honoch oddef *advyd mal
‡ ymyrrwr
llofrydd-celain, neu leidr, neu ddrygwas, neu fal ‡vn a
vo yn ymyrreth a materion rrai eraill.
16 Eithr *os dyoddef neb* megis cristion, na fid quilidd
cantho, namyn molianned Ddyw yn hynny o ran.
17 Can ys yr amser a ddoeth, y bydd rraid ir farn
* yn
ddechre *ar dy Dyw. Ac o dydiw yn gyntaf yn dechre
arnam ni, pa ryw ddiwed a fydd ir rrai ni choyliant
evengil Ddyw?
18 Ac os pring ir iacheir y cyfion, yr enwir ar pech-
adur ple ir ymddengis?

19 Ac am hynny gwnaed y rrai sy yn goddef ar ol
wollys Dyw, ymroi *yddo ef* eu heneiddiau trwy wneuthyr
yn dda, megis ir creawd*yr* ffyddlon.

## Pen. v.

2 Dlet y Bugelydd-Ecclesic yw *porthi devaid Christ, a' pha 'obr a gant *bwydo
a's gwnant hyny yn ddiwyd. 5 Cygori y mae ir ei ieuainc ymddar-
ostwng ir henafieit. 8 Bot yn sobr, a' gwlliad ar allu o hanyn wrth-
ladd y gelyn.

IR *henaduriaid sy yn ych plith, yr ytolygaf finau sy *Prespyteros
hevyd ‡henadur a thyst dyoddefiadeu Christ, a ‡Prespyter
chyfrannawc hevyd or gogoniant a eglurir rrac llaw.
2 Porthwch *ddiadell Ddyw, sy tan ych llaw, ac *ddefait
ymgeleddwch hwynt nid trwy gymell, eithr yn wyll- ‡angraifft
yscar: nid ir chwant budr elw, namyn o barodrwydd
meddwl:
3 Nid fal rrai a fynnon vod yn arglwyddi ar tretad
*Dyvv*, eithr fal y galloch fod yn ‡siampl ir ddiadell.
4 A' phan ir ymddangoso y pen bigael, cael a wnewch
goron ddilwgr y gogoniant.
5 Yr vn ffunyt yr *ifainc, byddwch ostyngedic ir *Yr Epistol y*
henafiaid, a chydymostyngwch bawb yw gilidd: ac *iij. Sul gwedy Trintot.*
ymdrwsiwch o ddifewn ac vfuddtra meddwl: can ys *ei iangach
Dyw a wrthladd y beilchion ac a ddyry *g*ras ir ei
vfudd.
6 Ymostyngwch achos hyn tann al'uoc law Dyw, mal
y gallo ych dyrchafu ‡pan ddel amser, ‡yn yr am-
7 Cwbl och gofal bwriwch arno ef: can ys ef 'sy yn rhyser, ymd
gofalu trosoch*vvi*.
8 Byddwch sobr a' gwiliwch, can ys ych gwrthnebwr
diawl megis llew rruadus sy yn rrodio o ddamgylch, yn
ceisio neb a allo y lyncu:
9 Rrwn *gordrechwch ef yn gadarn yn y ffydd, dann *gwrthsefwch,
wybo vod yn cyflowni yr vnrryw ‡anayle yn ych brodyr cyferbyniwch
sy yn y byd. ‡vlindereu
10 A Dyw *avvdur* pob gras, rrwn an galwodd ni yw
tragwyddol 'ogoniant trwy Christ Iesu, wedy darffo
ywch oddeu ychydic, ach gwnel yn perffaith, ach cad-
arnhao, ach cryfhao, ac *ach* sicerhao.
11 Iddo efe y *bo* gogoniant ar emerodraeth yn oes
oesawdd, Amen.
12 Cyd a Sylvanus brawd ffyddlon ywch, im tyb i, y
ddysc crifenais ar ychydic, dan ych cynghori, a thyst-
lauthu mayr gwir ras Dyw ydiw hwn, y ddych yn
sevyll yntho,

13 Mae yr eglwys sy yn Babylon cydetholedi a chwi, yn *erchi* ych annerch, a' Marcus fy mab i.
14 Anherchwch bawb y gilidd a chusan cariad. Tengnhefedd ywch oll *achlan* sawl ydych yn Christ Iesu. Amen.

---

# YR AIL EPISTOL CYFFREDINOL
YDDO
# PETR APOSTOL.

## YR ARGVMENT.

EFFECT ac amcan yr Apostol yn hyn o van yw eiriol ac annoc yr ei
** addefessent* vnwaith y * broffessent Christ, ar aros o hanynt yn hyny yd yr awr
ddywedd: hefyd bot Dew can ei 'rymiol rat yn cyffroi dynion i sancteidd-
*‡ y gausaint* rwydd buchedd, can poeni yr ‡ hypocriteit yr ei a gamarverant oy Enw
ef, a' chan angwanegu ei ddonieu yn yr ei dywiol: erwydd paam can
** ymbraint* vuchedd ddewiol efe yr awrhon hayach * ar dervynu ei einioes, ys ydd
*angeu, ymbron* yn ei hanoc y gymradwyaw ei galwedigeth, nyd can ddodi ei hawyddvryd
*ei bwll* ar betheu bydawl (megis ac yr scrivinesei ef yn vynych atwynt) eithyr
can derchafael eu golwch parth ar nefoedd, mal eu dyscir y gan yr
Euangel, ir hon y mae ef yn dest eglaer, yn benddivaddeu am yddo glybot
*‡ gyhoeddi* ai glustieu ehun ‡ galw o'r nef Chlist y vot yn Vap Dew, megis ac yn yr
vn modd y testiasent y Prophwyti. A' rrac yddynt wy addaw llonyddwch
** gyfaddef,* yddwynt y hunain wrth * proffessu yr Euangel, y mae ef yn eu rhybudd-
*ymarddelw* iaw am y trubleu a geffynt arnwynt gan y gau ddysciawdwyr, a' heuyt
*yn yr* gan watworwyr a' thremygwyr ‡ creddyf, yr ei y mae ef yn honny ei
*‡ dywoldep* moddion a'i cynneddfeu mal pe eu yscrythrid ar llenn: gan gycori y
ffyddonieit nyd yn vnic dysgwyl yn ddyval am Christ, anyd hefyt syllu
yn gydrychiol ddydd y ddyuodiat ef, ac ymgadw yn ddivrych erbyn y
dythwn.

## Pen. j.

4 Yn gymmeint a darvot y veddiant Dew roddi yddynt bop peth yn
perthyn i vuchedd, y mae ef yn eu hanoc y eneiliaw rrac llygredigeth
** trwy, can* chwantau bydawl. 10 Diogely ei galwedigeth * a gweithredoedd da,
a ffrwytheu ffydd. 14 Y mae ef yn coffau am y varwoleth y hun,
17 Can ddeclaro bot yr Arglwydd Iesu yn wir Vap Dew, megis ac y
gwelsei ef y hun ar y mynydd.

SYMÆON Peter, gwasnaythwr, ac abostol Iesu
Christ, ir rrai a freiniason ffydd gyffelip anrryd-
* Iachawdr edd a ninay, trwy gyfiownder eyn Dyw an *achubwr
Iesu christ:
2 Gras ywch, a' thengnhevedd a amylhaer, trwy
ednabyddiaeth Dyw ac Iesu eyn arglwydd,
3 Megis y rroddes y ddywiol allu ef i ni bob peth
‡ dywoldep *am* a berthynant ir bowyd a' ‡gwaredd, trwy y edna-
byddieth ef rrwn an galwodd ni y ogoniant a rrinwedd.
4 Gan hyn, *ys ef* roddi yni addaweidion rragorfawr
‡ anrydeddus ‡gorchestol, val y gellech trwy rreini fod yn gyfrannoc

o ddywiol anian, wedi diainc or llwgwr, sy yn y byd
trwy trachwant.
5 Ac ar hyn dodwch gwbl och diwydrwydd: cysyllt-
wch gidach ffydd rinwedd: a' chida rrinwedd, gwybod-
aeth:
6 A chida gwybodaeth, cymhedrolder: a chyda
chymhedrolder, ‡ ymynedd: a chidac ymynedd ‡ anmyned, ymaros
*gwaredd: *dywoldep
7 A chida gwaredd, credigrwydd broduraidd: a
chyda chredigrwydd broduraidd, cariad.
8 Can ys os byddwchwi ar pethau hyn cennwch,
ac yn amyl hwynt, peri a wnant na boch na segur
na diffrwyth yngwybodaeth eyn Arglwydd Iesu Christ.
9 O blegid neb ni bo rrain cantho, dall ydiw ac ni
wyl ddim o bell, yn gollwng tros go eu ‡'lanhau oy hen ‡ garthu
bechoday.
10 Or achos hwn, *fym*rodyr, byddwch yn vwy diwid
y wneuthyr ych galwedigaeth ach ethelodigaeth yn
sicir: can ys o gwnewchi hyn, ni lithrwchi byth.
11 Can ys yn y modd hwn digonawl *ydd ymgleddir * y trefnir
chwi, o fforddiat i dragwyddol teyrnas eyn Arglwydd y chwi
an ‡ Achubwr Iesu Christ. ‡ Iachawdr
12 Or achos hwn, nid esceuleusaf i ych coffhau chwi
fyth am y pethau hyn, cyd bochi cyfarwydd, a' siccir yn
y cyndrychol wirionedd.
13 Can ys tybiaid y rwy fod yn iawn i mi, tra
fwy yn y tabernacl hwn, ych cyffroi trwy ddwyn ar
gof ywch.
14 Can y mod i yn gwybod fod yn gyfagos yr amser
y dodaf heibio y tabernacl hwn, megis ac y dangoses
eyn *h*Arglwydd Iesu Christ i mi.
15 Diwid fydda hevyd ar vod ywch allu gwneuthr
coffa am y pethau hyn, gwedi vy ymadawiad i
16 Can ys nid chwedlay dichellus a ganlynhasom ni
pan oeddem yn manegi ywch rinwedd, a devodiad ein
*h*Arglwydd Iesu Christ, eythr an llygaid y gwelsom eu
fowredd ef:
17 Can ys ef a *dd*erbyniasai can Ddyw tad anrrydedd
a gogoniant, pan *ddeuawdd cyfryw lef atto ef o ddiwrth * ddaeth
y dirfawr 'ogoniant, Hwn yw'r mab credigol mau fi, yn
yr hwn im ‡ boddlonir. ‡ cwbl vodd-
18 A'r llef hon a glowsom ni pan ddoeth or nef, a ni heir
gidac ef yn y mynydd santaidd.
19 Y ddym *ni* hefyd a gair *cadarnaf yproffwydi * ffyrfaf

‡ gwnewch
cenym, yr hwn da i ‡gweithiwch o ddarbod am dano,
megis am oleuni yn llewrchy mewn lle towyll, hyd oni
‡ La. *lucifer*
wowrio'r dydd, ac yni chotto ‡seren ddydd yn ych
calonay.
20 Os bydd i chwi ar wybod hyn yn gynta, na does
* o angerdd priawd, o awenydd dynawl
vn proffedoliaeth yn yr scrythyr ac iddi *ladmeriaeth
neilltuol.
21 Can ys nid trwy wollys dyn y doeth gynt proffed-
oliaeth: eithr dynion santaidd Dyw a ddoydasont megis
y cynhyrchwyd hwynt can yr ysbryd glan.

## Pen. ij.

Prohwyto y may ef o ddysciawdwyr gauoc, ac yn dangos y y poenedigeth hwy.

* ydd oedd
EITHR *neur fuont gau bropwydi ym plith y bobl,
mal y bydd, yn ych plith chwithay athrawon
‡ opinioneu sceler, periclus
ffeilsion, rrain yn ddirgel a ddygant y mewn ‡ethol-
ffyrdd enbydus, ie yn gwadu yr Arglwydd rwn y
prynnodd hwynt, ac yn tynnu arnynt i hunain ddi-
henydd buan.
* cyfergoll
2 A' llawer a canlynant y *ffyrdd-enaidfaddau]
‡ enllybir, gogenir
hwynt, trwyr rrain yr ‡horitr ffordd y gwirionedd.
3 A' thrwy cybyddtra ac wrth airieu gwneuthyr y
marsiandiant am danoch, barnedigaeth yr hain ir ystalm
‡ ny yw yn y pell
‡ni hwyrhaa, ay colledigaeth hwynt ni chwsc.
4 Can ys onid arbedodd Dyw yr angylion, abech-
asent, eithr y taflu i wared i vffern ay dodi mewn ca-
dwynay towyllwc, yw cadw i cyfyrgolledigaeth:
5 Ac nid arbedodd yr hen fyd, eithr Noe yr wythfed
*dyn* pregethwr y cyfiownder, a waredodd ef, ac a dduc y
* llif, diliv
*diliw ar fyd yr ‡enwiriaid,
‡ andywolion
6 Ac a droes dinasodd Sodoma a Gomorrha yn
* llyty
*llydw, ay dymchwelawdd ac ay cyfyrgolles hwynt, ac
ay gwnaeth hwynt yn siampl ir rrai rrac llaw a vuch-
eddynt yn anywiol,
‡ waredoedd
7 Ac a ‡achubodd Loth gyfion rrwn oedd mewn
gofid trwy aniwair ymwreddiad yr enwiriaid.
8 (Can ys *ac* efe yn gyfion, ac yn trigo yn y mysc
hwynt, yn gweled, ac yn clywed, ydoedd yn poyni eu
enaid cyfion o ddydd y ddydd trwy eu anghyfreithlon
weithredoedd hwynt.)
9 Yr Arglwydd a wyr *achub y gwirioniaid o iwrth
profedigaeth, a' chadw yr ei anghyfiown i ddydd y farn
yw poeni:
10 Ac yn bennaf y rrai sy yn rrodio ar ol y cnawd,

mewn trachwant ‡anlendid, ac yn distyru audurdod ‡ af-
ac wynt yn rryvygus, ac ẏn rrac ymgymryd, ac ny * presumptus
‡rusiant *dirmugu y rrai sy mewn goruchel ‡an- ‡ ofnant
rrydedd. * gaplu
11 Kyd byddynt yr angylion sy fwy mewn cadernid ‡ vrddas, awdurdot
a' gallu, heb ddodi *dirmygys farn yn y herbyn hwynt * difenw, sen-
gar bron yr Arglwydd. varn
12 Eithyr y rrain megis enifeiliaid anrrysymol, rrain
a ymborthir hwynt drwy anianol ymgyrch a wnayth-
bwyd yw dala, ac yw difa, a 'oganant y pethau ni wydd-
ont o iwrthynt, ac yw dihenydd y deuant trwy y llygr-
edigaeth y hunain.
13 Rrain a *dd*erbyniant gyflog anghyfiownder, mal
y rrai sy yn cyfri yn lle eiddunet byw mewn gwnfyd
tros amser. Brychay *yntynt*, a ‡thrisclynay, yn ym- ‡ *Gr. momoi*
ddigrifo yn eu twyll*iad*ay, pan font yn cydwleddu gida manne, mefle
chwi,
14 A llygaid canthynt yn llawn godineb, nis gallont
chwaith beidiaw a phechod, yn *abwydaw eneidiau an- * llithio
wadal: a chenthynt galon gwedi ymgenefino a chybydd-
tra, plant yscymyn,
15 Rrain wedi ymadael ar ffordd *iawn, aythont ar ‡ vnion
grwydyr, yn canlyn ffordd Balaam, *map* Bosor, rrwn a
garawdd gobyr anghyfiownder:
16 Eithr ef a geryddwyd am y gamwedd, can ys yr
assen *dan*iauawl ‡ddud yn doyded a llef d*dy*n*ol*, a wa- * *Gr. 'aphonon*
harddodd enfydrwydd y proffwyd. .i. aflafar
17 Yr hain ffynnonnay ydynt heb ddyfr, *a'* niwlenne
a ymchwa lar tymestyl, ir hain y may ‡duedd tywoll- gwrymder
wgynghadw yn dragowydd.
18 Cans o ddoydet chwyddedic eiriau gorwagedd,
trwy trachwantay, a thrythyllwch y cnawd, abwydo, a
wnant yr rai a ddianghesay yn 'lan oddiwrth y rrai a
ymdroysynt mewn crwydr,
19 Gan addaw yddynt rrydit, ac wynt y hunain yn
wasanaethwyr llwgr*edigrvvydd:* can ys can bwy bynac
i gorchfycer neb, ef aeth yn wr caeth i hwnw.
20 O blegit os wedi eu diainc o iwrth hal ogredig-
rwydd y byd, trwy ednabyddiaeth ein *h*Arglwydd an
*achubwr Iesu Christ, y ceffer hwynt eilwaith wedi * Iachawdr
ymrwystro ar vn pethau, a chwedi y gorchfygu, y diwedd
ir rreini aeth yn waeth nor dechreu.
21 Can ys gwell fiase vddynt, na wybesynt ffordd y
cyfiownder, na chwedi y gwybod, cilio o iwrth y gor-
chymyn santeidd a rodded vddynt.

* yn ol
‡ obwyd, chwydfa
* ir drobola-dom

22 Eithr vddyntwy y digwyddodd, *a ddowaid y
wir ddihareb, Y ci a ymchwelodd at y ‡chwdiad eu
hun: a'r, Hwch wedi y golchi *yw ymdroyad yn y
dom.

## Pen iij.

3 Dangos y mae ef scelerder yr ei a watworant addeweidion Dew. 7 Ym-pa sut vodd y bydd dywedd y byt. 8 Ar vot yddynt ymbaratoi i hynny. 16 Pwy yw'r ei a gamarverant hyn a scrivenesei S. Paul, a'r Scrythnrae eraill hefyt, 18 Gan ddybennu a diolcheu tragyvythawl i Christ Iesu.

YR ail epistol hon y ddwyf yn awr yn y escrivennu
attoch, *fyn* grredigion, yn yr honn y ddwy yn
dadebru trwy atcoffedigaeth ych meddwl puraidd,
2 Mal y bo cofus cenych y geiriau, a racddoydasont
y prophwydi santaidd, an gorchymyn ninau rrain ydym
abostolion yr Arglwydd an *Achubwr.

* Iachawdur, Caidwad

3 Yn gynta dyellwch hyn, i deuant yn y dyddiau
diwaytha, watwotwyr, *yr ei* a rodiant ar ol y trachwant-
ay *y hunain*,
4 Ac a ddoydant, Ple may addewid y ddefodiad ef?
canys ir pen fu farw y taday, pob peth sy yn perhau yr
vn ffunyt o ddechreuad y creaduriaeth.

‡ oi bodd

5 Canys hyn ‡o waithyoddef nis gwyddant, fod y
nefoedd ir ystalm byd trwy air Dyw, ar ddayar *hefyd* sy
or dwr, ac yn y dwr.
6 Achos pam y byd rhwn ydoedd hynny o amser, a
gyfyrgollwyd, trwy ddwfyr diliw.
7 Eithr y nefoedd ar ddayar, y sydd yr awr honn,
trwyr vn gair y maynt wedi y rroi y gadw, i daan erbyn
dydd y farn, a' difa yr enwir ddynion.
8 Yr vn peth hynn, *fyn*grredigion, na fid diarwybod
ywch, vod vn dydd gidar Arglwydd, megis mil o
flenyddoedd, a' mil o flynyddoedd mal vn dydd.
9 Nid ydiw yr Arglwydd yn *e*hwyr*h*au, am eu add-
ewid, (megis y tybia rrai ehwyrdra) eithr ymyneddus
yw tu ac attom ni, ac nis mynay neb fod yn golledic,
namyn dyvot o bawb i edifeirwch.
10 Eithyr dydd yr Arglwydd, megis lleidyr y nos y
daw, yn yr hwn y ra heibio y nefoedd mewn trwst, a'r

‡ elmentae, elfyddae

defnyddiau yn wir o wres a ddoddant, ar ddayar ac a
fo ynthi o waith*ie*, a loscir.

* oll

11 A chan vot yn rraid y hynn *y gyd ymellwng,
pa ryw fath ddynion y deleychi fod mewn santaidd
ymwreddiad a dywoliaeth,

12 Yn discwyl, ac yn brysio at ddefodiad dydd Dyw,
yn yr hwn i llysc y nefoedd, ac ir ymollwng, ar ‡ defn- ‡ *Gr. stoicheia*
yddiay can wres a doddant?
13 Eithr y ddym *ni* yn discwyl am nefoedd newydd-
*ion*, a' dayar newydd, ar ol i eddewid ef, yn yr hun y
* cyfanhedda cyfiownder. * preswyl, trig
14 Am hynny, *fyn*grredigion, can ych bod yn
gwiliad am gyfryw bethay, rrowch ych bryd ar allu o
hono ef ych cael yn ddifrych*eulyd* ac yn ddilwgyr mewn
tengnhevedd.
15 Ac am hir ymynedd eyn *h*Arglwydd rrac cymer-
wch may iechid yw, megis yr yscryfennodd eyn caredic
frawd Paul attoch*vvi* herwydd y doythineb a rodded
iddo,
16 Megis * y neb sy yn son ‡ ym hob epistol am y * vn
cyfryw hynn: y mysc y rrain may rryw bethay an- ‡ ei oll
hawdd y dyall, rrain a wyrant y rrai sy anyscedic ac
anwadal, mal yr yscythyray eraill, ir distriw yddynt y
hunain.
17 Chwichwi am hynny *vyn*grredigion, can ych
bod yn gwybod y pethay hynn ymlaen llaw, gochel-
wch, rrac ych tynnu chwithay hefyd ar grwydyr yr
enwiriaid, a chwympo o ddiwrth ych sicrwydd ych
hunain.
18 Eithr cynyddwch mewn gras, ac ednabyddieth
eyn Arglwydd *ni* an * ceidwad Iesu Christ: ir hwn
y bo gogoniant yr awr honn, ac yn dragwyddol byth.
Amen.

---

# YR EPISTOL CYNTAF CYFFREDINAWL IOAN APOSTOL.

### YR ARGVMENT.

Gwedy darvot i S. Ioan ddeclaro yn ddigonawl, bot ein oll iechyd-wrieth yn sefyll yn vnic yn-Christ, rrac bot y nep wrth hyny gymeryd hyder y bechu, y mae ef yn dangos na ddychon nep credu yn-Christ, oddyeithr yddo ymroi y gadw y 'orchymynion ef, gwedy darvot hyny, y may ef yn eu cygori y * ymogelyt rrac gau prophwyti, yr ein a ailw ef ‡ Antichristieu, a' * phrovi'r ylprytion. Yn ddywethaf oll y mae ef yn ei dyfrifol gycori hwynt y vrawdol gariat, ac y o'chelyd twyllwyr.

*W. S. tri Ioan ac vn Iudas.*

* *'oaglyd*
‡ *Gwrth-*
* *ffryvo, threio*

## Pen. j.

2 Testiolaeth wir am y tragyvythawl 'air Dew. 7 Gwaed Christ yw y * carthiat pechot. 10 Nyd oes nep eb pechot.

* *glanhat*

*Yr Epistol ar ddydd S. Ioan Euangelwr*

YR hyn oedd or dechre, yr hynn a glywsam, yr hyn
a welsam a'n llygait, yr hyn a edrychasam arnaw,
ac a a deimlodd ein dwylaw o 'air y bywyt,
2 (Can ys y bywyt a ymddangosodd, ac *ei* gwelsam,
ac ydd ym yn testio, ac yn dangos ychwy y bywyt
tragyvythawl, yr hwn oedd y gyd a'r Tat ac a ym-
ddangosawdd y ni)
3 Yr hyn, *meddaf*, y welsam, ac a glywsam, a dde-
clarwn ychwi, val y bo y chwi*the* hefyt ‡ gymdeithas
gyd a ni, ac val y bo ein cymdeithas *ni* hefyt y gyd or
Tat ai Vap Iesu Christ.
4 Ar petheu hyn a scrivenwn atoch, val y bo eich
llawenydd yn *gyf* lawn.
5 Hyn yw'r genadwri a glywsam canthaw *ef*, ac ydd
ym yn y ddeclaro y chwi, ‡ may golauni yw Duw ac nad
oes ynthaw ddim tywyllwc*h*.
6 A's dywedwn vot y ni gymdeithas ac ef, a rrodio
yn y tywyllwc*h*, celwyddoc yym, ac nyd *yd*ym ar y
* gwir.
7 Eithyr as rrodiwn yn y golunni, megis y mae ef yn
y golauni, y mae y ni gymdeithas au gylydd, a' gwaet
Iesu Christ ys ydd in carthu ywrth pop pechot.
8 A's dywedwn nad oes * cenym pechot, ydd ym ni
twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nyd oes ynom.
9 A'*s* ‡ coffesswm ein pechotae, ffyddlon yw ef a'
chyfiawn, val y maddeuo y ni ein pechoteu, a'n ‡ carthu
ywrth oll enwiredd.
10 A's dywedwn na phechasam, ydd ym yn y
wneuthur ef yn gelwyddoc, a'i 'air nyd yw ynom.

* cyfeillach, cymmun, cyfyndap

‡ bot Duw yn 'oleuni

* iawn

‡ glanhau

* ynom

‡ addefwn

‡ glanhau

## Pen. ij.

1 Bot Christ yn Ymddiddanwr yni. 10 Am gariat * perffeith, a' ph'wedd y treijr. 18 Gogelyd rrac Antichrist.

VY * meibion-bychain, y pethu hyn ydd wyf yn y
scryvenu atoch, val na phechoch : ac a phecha
nep, y may y ni * ymddiddanwr y gyd a'r Tat, Iesu
Christ y cyfiawn.
2 Ac efe yw'r ‡ cyssiliat tros ein pechodeu : ac nyd
tros yr yddom *ni* yn vnic, eithyr tros *pechotæ* yr oll vyt.
3 Ac wrth hyn y gwyddam yr adwaenam ef, a'*s*
cadwn y 'orchymynion ef.
4 Yr hwn a ddywait, *Mi* adwen ef, * ac ny chaidw
ei 'orchmyneu, celwyddawc yw, a'r gwirionedd nyd yw
ynthaw.

* *cywir*

* plant

* ddadlewr, negeswr

‡ cymmot

* eb

5 Eithr hwn a gaidw y 'air ef, yn wir yn hwn*vv* y
mae cariat *ar* D*d*uw yn berffeith: wrth hyn y gwyddam
ein bot ynthaw *ef*.
6 Yr hwn a ddywait y vot yn aros yntho *ef*, a dd*y*lei
*ys* velly rodiaw, megis ac y rrotiawdd *yn*tef.
7 Vrodyr, nyd wyf yn yscrivenu *vn* *gorchymyn * dysc, athro-
newydd atoch, eithyr gorchymyn hen, yr hwn y ‡vu y eth
chwi or dechreu*at:* yr hen 'orchymyn yw'r gair, yr ‡ gawsoch
hwn a glywsoch or dechreu*at*.
8 Trachefn, gorchymyn newydd ydd wyf yn ei-
scrivenu atoch, yr hyn 'sy yn wir yntho *ef*, ac yno chwi*the*
*hefyt:* can ys y tywyllwch aeth heibio, a'r gwir 'olauni
'sy yr awrhon yn *llewychu. * tywynu,
9 Yr hwn a ddywait y vot yn y golauni, ac yn casau dyscluerio
eu vrawt, yn y tywyllwc*h* y mae *h*yd y *pryd* hyn.
10 Yr hwn a gar ei vrawt, ys y yn aros yn y golauni,
ac nyd oes ‡*achos* cwymp ynthaw. ‡ camwedd
11 Eithyr hwn a gasao ey vrawt, yn y tywyllwc*h* y
mae, ac yn y tywyllwc*h* y mae yn rrodiaw, ac ny wyr y
b'le y mae yn mynet, can ddarvot i'r tywyllwc*h* ddallu
ei lygait.
12 *Ha* blant-bychain, ydd wyf yn scrivenu atoch, o
bleit maddeu ychwi *eich* pechote er mwyn y Enw ef.
13 Scrivennu ydd wyf atoch, dadeu, can y chwi
adnabot yr hwn ys ydd or dechreu*at*. Scrivennu ydd
wyf ato-chwi, *wyr-ievainc, can *ddarvot* y chwi ‡orch- * yr ei
vygu y *Vall. ‡ 'orvot * drwc
14 Scrivenny ydd wyf ato-chwi, ‡yr ei bychain, can ‡ vechcynos,
y chwi adnabot y Tat. Scrivennais atoch, dateu, can y blantys
chwi adnabot yr hwn ys ydd o'r dechreu*at*. Scrivenais
atochwi, wyr-ieuainc, can eich bot yn gedyrn, a' gair
Duw ys ydd yn aros ynoch', a' gorchvygesoch y
*Vall. * drwc
15 Na charwch y byt, na'r petheu ys ydd yn y byt.
A char nep y byt, nyt yw cariat y Tat ynthaw.
16 Can ys pob peth ys ydd yn y byt (*megis* chwant
y cnawt, a' chwant y llygait, a' balchder ybywyt) nyd
yw o'r Tat, eithyr or byt y mae.
17 A'r byt ys ydd yn mynet heibio, ay chwant *ef: * yntef gantho
a' hwn a wna wyllys Duw a erys yn dragyvyth.
18 *Ha*-blant-bychain, yr amser dywethaf ydiw *hi*, a'
megis y clywsoch y delei yr ‡Antichrist, *ac yr owrhon ‡ gwrthgrist
y mae Antichristieu lawer: wrth yr hyn y gwyddom * ys
mae'r amser dywethaf ydyw *hi*.
19 O *dd*ywrthym *ni* ydd aethant wy allan, eithyr nyd

oeddent o hanam ni: can ys pe besent o hanam, ys
aro*sa*sent *vvy* gyd a ni. Eithr *hyn a dderyvv*, val yr
eglurit, nad ynt *vvy* oll o hanam *ni*.
‡ wylment — 20 Eithr y mae ‡y chwi *enneint o *d*dywrth yr hwn
* cenych ‡ wybuoch — *ys y* Sanct*aidd*, a' *chvvi* a ‡wyddoch bop peth.
21 Nyd escrivennais atoch', o bleit na wyddoch y
gwirionedd: eithyr am y chwi ei *h*adnabot, ac am nad
* vn neb — oes ‡dim celwydd o'r gwirionedd.
‡ 'sy — 22 Pwy *yw 'r celwyddawc, anyd yr hwn a wad
may Iesu yw '*r* Christ? hwn yw 'r Antichrist yr vn a
wad y Tat a'r Map.
23 Pwy pynac a wad y Map, nyd yw y Tat gan
hwnw chwaith.
Triget — 24 ‡Aro*s*et gan hynny yno-chwi yr hyn a glywsoch
or dechreu*at*. A's erys ynoch yr hyn a glywsoch o'r
dechreu*at*, chwi*the* hefyt a aro*s*wch yn y Map, ac yn y
Tat.
‡ promiss a promissoedd — 25 A' hwn yw'r *addewit a addawodd ef y ni, '*sef*
bywyt tragyvythawl.
26 Y petheu hyn a scrivenais atoch, erwydd yr ei 'sy
ich twyllo.
‡ wylwent — 27 Eithyr yr *enneint a *dd*erbynies*o*ch y cantho *ef*,
ys y yn aros ynoch: ac nyd rait ychwi vot nep ich
dyscu: eithr mal ich dysco yr Enneint hwnw am bop
* 'airwir — peth, ac y mae yn gywir, ac nyd yw yn gelwyddawc, ac
‡ trigwch — megis ich dyscawdd, yr *aro*s*wch ynthaw.
28 Ac yr owrhon blant-bychain, aro*s*wch ynthaw,
mal pan yr ymddangoso ef, y bo hyder genym, ac na
chywilyddiom ger y vron ef yn ei ddyvodiat.
29 A's gwyddoch y vot ef yn gyfiawn, gwybyddwch
may pwy pynac a wna gyfiawnder y anet o honaw *ef*.

## Pen. iij.

1 Dirfawr gariat Dew arnam, 7 A p'hwedd y dlyem nineu drachefn garu ei gylydd.

* ddangoses ‡ yni — GWELWCH, pa'r y gariat a *roes y Tat ‡arnam,
val in gelwit yn veib*ion* Dew: o bleit hyn ny*d*
* ni — edwyn y byt *chwi, can nad edwyn ‡e efe.
‡ o hano ef — 2 *A* garedigion, yr owrhon ydd ym *ni* veibion Dew,
eithyr nyd ymddangosawdd eto pa *beth* vyddwn: a'
gwyddam pan ymddangoso *ef*, y byddwn gyffelip yddaw:
can ys gwelwn ef megis ac y mae *ef*.
3 A' phop vn 'sy ganthaw y gobaith hyn yntho *ef*, ei
* glanha — *purha y hun, megis ac y mae *yn*tef yn bur.

4 Pwy pynac a wna bechot, y mae ef hefyt y
‡gwneuthur ancyfraith: cans *ancyfraith yw pechot. ‡ *Gr. poion 'anomian*
5 A' gwyddoch may ymddangos a wnaeth ef er ‡dileu * tor cyfraith
y*n* pechotae ni, ac ynthaw *ef* ny*d* oes pechot ‡ toddi, peri
6 Pwy pynac 'sy 'n aros yntho *ef*, ny phecha *ef:* ymaith
pwy pynac a pecha, ny welawdd *ddim o* hanaw, ac ny's
adnabu ef.
7 Blant bechain, na thwyllet nep chwi: yr hwn a
wna gyfiawnder, ys y gyfiawn, megis y mae *yn*tef yn
gyfiawn.
8 Hwn a wna bechot, o dddiavol y mae: can ys
diavol a becha or dechreu: er *mvvyn* hyn yr ym- * i, o bleit
ddangosodd Map Dew, ‡val yd atdodei *ef* weithred- ‡ er datdot
oedd diavol.
9 Pop vn a anet o Ddew, ny phecha: can ys y had
ef ys ydd yn aros ynthaw, ac ny all ef bechu, can y eni
ef o Dduw.
10 *Yn hyn yr adwenir plant Dew, a phlant diavol: * Ar
pwy pynac ny wna gyfiawnder, nyd *ef* yw o Ddew,
*n*a'r hwn ny char ei vrawt.
11 Can ys hyn yw'r genadwri, a glywsoch or dech-
reu*at*, bot y ni garu eu gylydd,
12 Ny*d* mal Cain *yr hvvn* oedd or ‡Vall, ac a lad- ‡ drwo
odd ei vrawt: ac er mwyn pa beth y lladawdd ef *vo?*
can vot y weithredoedd e *yhun* yn ddrwc, a'r ei ei vrawt
yn dda.
13 Na ryveddwch, vy-broder, cyd casao y byt chwi. *Yr Epistol yr*
14 *Ny*ni a wyddom ddarvot ein ysmuto o varwol- *ij. Sul gwedy*
aeth y vywyt, can ein bot yn caru y broder: hwn ny *yr Trintot.*
charo *ei* vrawt, 'sy' n aros yn angeu.
15 Pwy pynac a gasao ei vrawt, *lladdwr-‡dyn * llaw ryddioc,
ydyw: a' gwyddoch nad oes i *vn lladwr-dyn vywyt lleddiat
tragyvythawl yn aros ynthaw. ‡ celain
16 Wrth hyn y ‡gwybuom gariat, can yddo ef * nep
*ddodi ei ‡einioes drosom *ni:* a' ni*neu* a ddlem ddodi ‡ dyellesam
ein einioes dros ein broder. * roddi
17 A'phwy pynac ysy ganthaw *vywyt y byt hwn ‡ enaid, vywyt, hoedl
ac a wyl ei vrawt ‡mewn eisieu, ac a gayo ei *dostri *'olud, dda
o*dd*ywrthaw, p'wedd y trig cariat *ar* D*d*ew ynthaw? ‡ ac
* emyscaroedd
18 Vy plant-bychain, na charwn ‡ar' air, nac ar
davot *yn vnic*, eithyr ar weithred a' gwirionedd.
19 Ac wrth hyny y gwyddam ein bot or gwirionedd,
ac y bydd y ni ger y vron ef *ddiogelu ein calonneu. ‡ hyderuso
20 Can ys a's ein caloneu a'n *condemna, mwy yw * barn, yn
Duw na'n caloneu, ac a wyr bop peth. euoc, damna

21 Caredigion, a's ein calon ni'n condemna, _yno_ y
‡cenym
mae ‡y ni hyder *ar Dduw.
* _Gr. pros_
‡ ovynom
22 A' pha beth bynac a ‡archom, _ni ei d_erbyniwn
cantbaw, can y ni gadw ei 'orchymyneu, a' gwneuthur
* dda
y petheu ys y *voddlawn yn ei 'olwc.
23 Hwn gan hyny yw y 'orchymyn ef, vot y ni gredu
yn Enw ei Vap Iesu Christ, a' charu eu gylydd, mal
y rroes ef 'orchymyn.
24 Can ys yr hwn a gaidw y 'orchymynion ef, a
drig ynto _ef_, ac _ynt_ef yntho _ef:_ ac wrth hyn y
gwyddam y vot ef yn aros ynom, _ys ef_ o'r Yspryt y
roddes ef y ni.

## Pen. iiij.

1 Gohanieth ysprytion. 2 P'wedd yr adwaenir Yspryt Dew rrac yspryt
* _didro_
*cyfeilorn. 7 Am gariat Dew a'n cymydogion.

CAREDIGION, na chredwch bop yspryt, eithr
* treiwch
*provwch yr ysprytion ai o Dduw ydd ynt: can's
gau bropwyti lawer aethont allant ir byt.
2 Wrth hyn yr adwaynwch Yspryt Dew: pop
‡ ar a. &c.
yspryt ‡yn coffessu ddyvot _o_ Iesu christ yn-cnawd,
ys y_dd_ o Dduw.
3 A' phop yspryt ny choffessa ddyvot Iesu Christ
yn-cnawt, nyd yw _ef_ o Ddeo: eithr hwn yw _yspryt_
Antithrist, am yr hwn y clywsoch _son_, y delei, ac ys
* eisus
y_dd_ *yr owrhon yn y byt.
4 Blant bychain, ydd y chwi o Ddyw, ac y gorvuoch
_h_wy: can ys mwy yw'r hwn ys ydd yno chwi, na'r
hwn ys ydd yn y byt.
5 Wy_ntvvy_ or byt y maent, am hyny y ‡llafarant
‡ymadroddont, soniant am
am y byt, a'r byt eu *clyw.
6 _Ny_ni o Ddew ydd ym, yr hwn a edwyn Ddyw, a'n
* gwrendy hwy
clyw _ni:_ yr hwn nyd yw o Ddyw, ni'n ‡clyw _ni._ Wrth
‡ gwrendy
hyn yr adwaynom yspryt y gwirionedd, ac yspryt y
* didro
*cyfeilorn_i_.
_Yr Epistol y Sul cyntaf gvedy Trintot_
7 Garedigion, carwn eu gylydd: can ys cariat o
Ddyw ‡yr _han_yw, a' phop vn a gar, o Ddeo y ganet,
‡ y daw, y mae
ac a edwyn Ddyw.
8 Yr hwn ny char, ny_d_ edwyn _e_ Ddyw: can ys
* dyw. &c.
*cariat yw Duw.
‡ Ar
9 ‡Yn hyn y may cariat Dyw yn ymddangos arnam
ni, can y Ddyw _dd_anvon ei vnic-genedledic Vap ir byt,
val y byddom byw trwyddaw _ef_.
10 Yn hyn y mae cariat, nyd am _ddaruot_ y ni garu

Duw, eithyr am yddaw ef ein caru ni, ac anvon ei Vap
*y vot* yn *gyssiliat tros ein pechoteu. * gymbot
11 Caredigion, a's velly in carawdd Duw *ni*, a' ni*neu*
a ddylem garu eu gylydd.
12 Ny welawdd nep Dduw ‡erioed. As carwn *ni* ‡ vn amser
eu gylydd, y mae Duw yn trigio ynom, a'i gariat ys y
perffeith ynom.
13 Wrth hyn y gwyddom ein bot yn trigio yntho
*ef*, ac *yn*tef ynom ni*neu*: can *ddarvot* yddo roddi y ni
o'i Yspryt *ef*.
14 A' ni*neu* welsom, ac a destolaythwn, *ddarvot* ir
Tat *dd*anvon y Map *y vot* yn Iachawdr y byt.
15 Pwy pynac a goffeso bot Iesu yn Vap Duw,
ynthaw *ef* y may Duw yn trigio, ac *yn*tef yn-Duw.
16 A' *ny*ni a adnabuom, ac a gredasam y cariat ys
y gan Dduw ‡ynom *ni*. Duw *cariat yw, a'r hwn a * arnam
drig yn-cariat, a drig yn-Duw, a' Duw yndo *yn*tef. ‡'sy
17 ‡Yn hyn y *cwplëir y cariat ynom, val y bo ‡y ‡ Trwy, Can
ni hyder yn-dydd y varn: can ys mal y may ef, ys * perffeithir
velly ydd ym ni*neu* yn y byt hwn. ‡ cenym
18 Nyd oes ofn yn-cariat, eithr perffeith gariat a
vwrw allan ofn: o bleit y mae *i ofn poenedigeth: a * can, yn
hwn a ofna, ny*d* yw ‡perffeith yn-cariat. ‡ gwbl
19 Ydd ym ni yn y garu ef, can yddo ef ein caru *ni*
yn gyntaf.
20 A's dywait nep, *Mi* a garaf Dduw, ac yn casau
ei vrawt, celwyddawc yw: can ys *pa-ddelw y gall ef * p'odd
yr hwn ny char ei vrawt a welawdd *ef*, garu Duw 'rhwn p'wedd
ny welawdd?
21 A'r gorchymyn hwu ys ydd y ni y cantho ef, bot
y hwn a gar Dduw, garu ei vrawt hefyt.

## Pen. v.

1. 10. 13. Am ffrwytheu ffydd. 14. 20. Swydd, awturtot, a' dywdap Christ. 21 Yn erbyn delweu.

PWY pynac 'sy yn credu mae Iesu yw'r Christ, o
Ddeo y ganet, a' phob vn 'sy yn y caru yr hwn a
genedlodd, y car *yn*tef hefyt *yr hvvn* a genetlwyt o
hano *ef*.
2 Yn hynn y gwyddom y carwn blant Dyw, pan
ym yn caru Duw, ac yn cadw ei orchymynneu.
3 Can ys hwn yw cariat Duw bot y ni gadw ei 'or-
chymynneu: a'i 'orchmynneu nyd ynt trymion
4 Cans oll ar anet o Dduw, 'sy yn *gorchvygu'r * hyn

*Yr Epistol y Sul cyntaf gwedy 'r Pasc*

byt, a' hon yw'r 'oruchafieth ys y yn gor*u*chvygu'r byt,
*'sef* ein ffydd.
5 Pwy 'sy*dd* yn gorchvugu'r byt, any*d* yr hwn 'sy
yn credu may Iesu 'sy Vap Duw?
6 Hwn yw'r Iesu Christ y ddaeth ‡trwy ddw*fr* a'
gwaet, ny trwy ddw*fr* yn vnic, *amyn trwy ddw*fr* a
gwaet: a'r yspryt yw'r hwn 'sy yn testio: can ys yr
Yspryd ysy*dd* wirionedd.
7 Can ys y mae tri, ys y yn testiolaethu yn y nef,
y Tat, y Gair, a'r Yspryt glan: a'r tri hyn vn ynt.
8 Ac y mae tri, ysy yn testiolaethu * yn y ddaiar, yr
yspryt, a'r dw*fr* a'r gwaet: a'r tri hyn ‡*cyt*vn ynt.
9 A's testiolaeth dynion a *dd*erbyniom, testoliaeth
Dyw 'sy vwy: can ys hyn yw testiolaeth Dyw, y
destiawdd ef am ei Vap.
10 Yr hwn a gred ym-Map Dyw, y may *iddo y
testiolaeth yndo ehunan: hwn ny chred ‡*y* D*d*uw, y
gwnaeth ef yn gelwyddoc, can na chredawdd y destiol-
aeth, a destiolaethodd Dyw am ei Vap.
11 A' hon yw'r testiolaeth, *'sef darvot* y Dduw roddi y
ni vywyt tragyvythawl, a'r bywyt * hwn ys ydd yny Map.
12 Hwn y mae y Map ‡yddaw, y may y bywyt
yddaw: a' hwn nyd yw yddaw Vap Dyw, nyd oes
yddaw vywyt.
13 Y petheu hyn a scriuenais atoch, yr ei a gredwch
yn Enw Map Dyw, mal y gwypoch vot ychwy vywyt
tragyvythawl, ac mal y credoch yn Enw Map Dyw.
14 A' hyn yw'r *hyder, ys y genym ynddo ef, can
ys a*d* archwn *ni* ddim ‡erwydd y wyllys ef, ef a'u
clyw *ni*.
15 Ac a's gwyddom y vot ef yn ein clywet, pa *beth*
pynac a *archom, gwyddom vot y ni ein airch y arch-
asam ‡arno.
16 A's gwyl nep ei vrawt yn pechu pechot, *ar* ny*d*
*yvv* **hyd* angeu, archet, ac ef a rydd yddaw vywyt *'sef*
ir ei ny phechant y*d* angeu. Y mae pechot y*d* angeu:
nyd wyf yn dywedyt *y dleyt-weddiaw drosto.
17 Pop ‡ancyfiawnder pechot yw, ac y mae pechot
*'rhvvn* ny*d* *yvv* y*d* angeu.
18 Gwyddom mae pwy pynac a anet o Ddyw, na
phecha: eithyr hwn a genetlwyt o Dduw, y caidw
ehun, a'r *Vall ny chyfwrdd ac ef.
19 Gwyddom ein bot o Ddyw, a'r oll vyt ys y yn
gorwedd yn-‡drigioni.
20 A' *ni* wyddom ddyvot Map Duw, ac a roes y ni

‡ pop beth
* gorvot
‡ can
* anyd
‡ ar
* cantho
‡ *Ddevv*
* hyn
‡ cantho
* ymddiried
‡ ar ol, wrth
* ovynom
‡ yddo
* *Gr. pros* ar, at, i, y
* val y gweddiyt
‡ enwiredd
* drwc
‡ mallder scelerder

veddwl y adnabot yr hwn, ys y *gy*wir ac ydd *ym ni* yn * airwir
y *cy*wir hwnw, *'sef* yn y Vap ef Iesu Christ: hwn *yma*
'sy wir Dduw, a bywyt tragythawl.
21 *Vy* 'rei-bychain, ymgedwch ywrth *eiddolon * *Gr. eidoo-*
Amen. *loon .i.* delweu

---

# YR AIL EPISTOL I IOAN.

## Pen. j.

Scrivennu y mae ef at ryw Arglwyddes, 4 Gan lawenychu vot y phlant hi yn rhodio yn y gwirionedd, 5 Ai hannoc hwy i gariat, 7 Ei rhybudd y ymochelyd o ywrth gyfryw dwyllwyr ac a wadant ddyvot Iesu Christ yn-cnawt, 8 Y mae yn ervyn yddynt aros yn-dysceidaeth Christ. 10 Ac na bo yddwynt ddim a wnelont a'r ei ny dducant gwir ddysc Christ Iesu ein Iachawdr.

YR *Henaf*g*wr at y *dd*etholedic Arglwyddes, a'i * *Prespyter*
phlant, yr ein a garaf yn y gwirionedd: ac ny*d*
mi*vi* yn vnic, eithr yr oll 'rei a adnabuont y gwirionedd,
2 Er mwyn y gwirionedd ys y*dd* yn trigio ynom, ac
a vydd y gyd a ni yn tragyvyth.
3 Bit rrat, gyd a chwi, trugaredd, a' thangneddyf * y gan
*ywrth Ddyw Tat, ac o *ddy*wrth yr Arglwydd Iesu ‡ Gr. y Map
Christ ‡Vap y Tat, y gyd gwirionedd a' chariat.
4 Llawen iawn vu genyf, gahel o honaf dy blant yn
rrodio yn-gwirionedd, val y*d* erbyniasam 'orchymyn
gan y Tat.
5 Ac yr owrhon yr ervyniaf yt', Arglwyddes, (ny*d* * adolwyn
mal *vn* yn yscrivennu gorchymyn newydd yty, eithr
yr hwn oedd y ni or dechreuat) bot y ni garu eu
gylydd.
6 A' hwn yw'r cariat, bot y ni rodio ar ol y 'orchymynion
ef. Hwn yw'r gorchymyn, bot ychwy val y
clywsoch or dechreu, rodio ynthaw.
7 Can ys llawer o twyllwyr a ddaethant *y mevvn* ir
byt, yr ei ny choffessant ddyvot Iesu Christ yn-cnawt.
Yr hwn 'sy gyfryw, twyllwr yw ac Antichrist.
8 Edrychwch arnoch ychunain, na chollom y petheu,
y wnaetham, eithyr val y*d* erbyniom lawn gyfloc.
9 Pwy pynac a *drosedda ac ny*d* erys yn-dysceideth * a dros y
Christ, ny*d* oes Dyw ‡yddaw. Yr hwn a erys gyfraith
yn-dysceidaeth Christ, y mae yddo y Tat a'r Map. ‡ gantho

10 A'*s* daw nep atoch, ac eb ddwyn y ddyscedaeth
hon, na *dd*erbyniwch ef ir tuy, ac na ‡ddywedwch
wrtho, * Hyn-pych-well.
11 Can ys yr hwn a ddywet wrtho, Hynpych-well,
ys y cyfrannoc oy weithredoedd drwc ef. Cyd bei
cenyf lawer o betheu yw scrivennu atoch, er hyny ny*d*
*scrivennvvn* a phapyr ac ‡inc: eithyr gobeitho *ydd vvyf*
ddyvot atoch, ac ymadrodd *g*eneu yn-geu, mal y
cyflawner ein llawenydd.
12 Y mae meibion dy *dd*etholedic chwaer ith anerch.
Amen.

‡ chyferchwch well yddo
* *La. Aue*
‡ *Gr. melan* i. duy

---

# Y TRYDYDD EPISTOL
I
# S. IOAN.

## Pen. j.

3 Llawenychu y mae ef vot Gaius yn rhodio yn y gwirionedd, 8 Eu hannoc y mae y vot yn garuaidd wrth y Christianogion tlodion yn amser ei hymlit. 9 Dangos y mae caredic waith Diotrephes, 12 A' gair da Demetrius.

YR Henaf*g*wr at y caredic Gaius, yr hwn a garaf
yn-*g*wir*ionedd.*
2 *Y* caredic, ydd wyf yn damuno yn bennaf dy vot yn
llwyddo ac yn dda'r byt arnat, mal y mae dy enait yn
llwyddo.
3 Canys llawenhau a wneuthum yn vawr pan ddaeth
dy vrodyr, a' thestiolaethu am y gwirionedd ys ydd
ynot, mal ydd wyt yn rrodio yn-gwirionedd.
4 Nyd oes can yf' lawenydd mwy na hyn, *nid amgen*,
clywet bot vy meibion yn rhodio yn-gwirionedd.
5 *Y* caredic, ydd wyt yn gwneuthur yn ffyddlon beth
bynac a wnai i'r brodyr, ac y *estronieit,
6 Yr ei a destiolaythen am dy gariat gerbron yr
Ecclesi. Yr ei a's hebryngy ‡rhagddynt megis y
gwedda erwydd Dyw, *ys* da y gwnai,
7 Can ys er mwyn y Enw ef ydd aethant ymddaith,
eb gymeryd dim gan y Cenedloedd.
8 *Ny*ni a ddlyem gan hynny *dd*erbyn y cyfryw *rei*,
val y byddom *ganhorthwyr ir gwirionedd.
9 Scrivenais at yr Eccles: eithr Diotrephes yr hwn
a gar vot yn vlaenor yn y plith hwy, ny *dd*erbyn *ddim*
*o* hanom.

* ddieithreit
‡ ymddaith, yw taith
* helpwyr

10 Erwydd paam a's dauaf, *mi* venagaf ei weithred-
oedd y mae *e* yn y wneuthur, gan ‡siarad in *h*erbyn a ‡ ddadwrdd, gloehdar
gairie drigionus, ac nyd yn voddlawn y hyn*y* ac ny*d*
yw ef y hun yn *d*erbyn y brodyr, eithr gohardd y mae
yr ei a wyllysient, a' ei ‡gwthio allan o'r Eccles. ‡ tavly, bwrw
11 *Vy*-caredic, na *ddilyn yr hyn 'sy ddrwc, anyd * *imiteris. i.* ddanwered
yr hyn ysy dda: yr hwn a wna ddayoni, o Ddyw y
may: a'r hwn a wna ddrygioni, ny welodd Dduw.
12 Y mae y D*d*emetrius 'airda gan bawp, a' chan y
gwirionedd y *h*unan: a' ni*neu* hefyt ein vnain ym yn
testiolaethu, a' gwyddoch vot y*n* testiolaeth ni yn *gy*wir.
13 Y mae *ymi lawer o betheu yw scrifenu: eithyr * genyf
nyd ‡a duy a' phin yr scrivennaf atat. ‡ ac ino
14 Gobeitho ydd wyf *gahel* dy welet ar vyr*der*, ac *y*
*cavvn* ymddiddan *eneu yn-geneu. * wyddyng-wydd
15 Tangneddyf yty. Y mae dy geraint ith anerch.
Anerrch y cereint wrth *y h*enwe.

---

# EPISTOL CYFFREDINOL IUDAS.

### YR ARGVMENT.

SANCT Iudas ys ydd yn rhybuddio yr oll Ecclesydd yn gyffredinawl y ymogelyd rac twyllwyr yr ei 'sy a'i bryd ar dynnu caloneu'r popul seml ywrth wirionedd Dew, ac yn wyllysu na bo yddwynt *gymdeithas a'r cyfryw, yr ei y may ef yn eu honny dan eu lliw a'i harwydd, gan ddangos trwy amrafael esemple o'r Scrythur 'lan pa horribl ddialedd a ddarparwyt yddwynt: yn y dywedd y mae ef yn diddanu'r ffyddlonion ac yn y hannoo hwy y aros yn-dysceidaeth Apostolion Iesu Christ. * *gyfeillach*

## Pen. j.

*Yr Epistol ar ddydd Simon ac Iudas*

IUDAS gwas*anaethwr* Iesu Christ, a' brawt Iaco, at
yr ei a 'alwyt ac a sancteiddiwyt y gan Ddyw Tat,
ac ynt gatwedic i Iesu Christ:
2 Trugaredd ywch, a' thangneddyf a' chariat a
liosocer.
3 *Vy*-caredigion, pan rois *vy*-*cwbl ddiwydrwydd ar * oll
escrivenu atoch am yr iechyd*vvrieth* cyfredin*avvl*, an-
genraid oedd y mi scrivenu atoch ich annoc, y *ym- ‡ *Gr. epagonizesthai .i.* ymorchestu, ymdynnu
drech-yn-ddirving *ym-plait* y ffydd, *rhon* a roed vnwaith
ir Sainct.
4 Can ys y mae rryw ddynion wedy ymlusco y mewn
yr ei oeddent gynt wedy rrac ordino ir varnedigeth hon:

andywolion *ytynt* yr ei 'sy yn ymchwely*d* rrat Dyw y*n*
d*d*rythyll*vvch*, ac yn gwadu Dyw yr Arglwydd vnic,
a'n *h*Arglwydd Iesu Christ.
5 Wollysio gan hynny ydd wyf ych coffan, yn gy-
meint ac ychwy vnwaith wybot hyn, p'wedd y bu ir
Arglwydd, gwedy darvot iddo waredu y bopul allan or
Aipht, destruo *gwedy *hyny* yr ei ny chredent.
6 Yr Angelon hefyt yr ei ny chatwasant eu dech-
reuat *cyntaf*, eithyr gadael eu ‡preswylfa *y *h*un, ef
eu catwodd ‡yn-catwynae tragyvythal y dan dywyllwc*h*
*y*d* varn y dydd mawr.
7 Megis Sodoma a' Gomorrha, a'r dinasoedd oi *h*am-
gylch, yr ei yn gyffelip vodd ac wyntwy a wnaethant
'odinep, ac a ‡ddilynesont gnawt *arall, a 'osodwyt yn
esempl, ac yn dyoddef *dialedd tan tragyvythawl.
8 Yn gyffelip ‡hagen y mae hefyt y breuddwydwyr
hyn yn halogi'r cnawt, ac yn *tremygu llywodraeth, ac
yn cablu ‡yr ei-'sy mewn-awdurtot]
9 Eithyr Mi*ha*cael yr Archangel, pan ymrysonawdd
ef yn erbyn diavol, ac ymddadleu *am corph Moysen
ny veiddiawdd y veio ef a ‡chableu any*d* dywedyt
Ceryddit yr Arglwydd di.
10 Eithyr yr hein a gaplant y petheu ny wyddant:
a 'pha betheu bynac a wyddant yn *anianawl, megis
aniueilieit, ys y yn ddireswm, yn *y petheu* hyny yr ym-
lygrant.
11 Gwae hwy*ntvvy ;* can ys ‡cerddesont *yn* ffordd
Cain, ac eu *trosgwyddwyt can dwyll*iat* cyfloc Balaam,
ac eu *cyfer*collwyt yn-gwrthddywediat Core.
12 Yr-ei-hyn ynt vrycheu yn eich cariat*vvleddoedd*
pan vont yn cydwledda *a chvvi*, yn ddiofn, yn eu ‡pescy
y hunain: *wybre*nnæ ynt* diddw*fr*, wedy eu cylch-
arwein gan wyntoedd, prenneu ‡llygredic eb ffrwyth,
ddwywaith yn veirwon, *ac* wedy eu diwreiddio.
13 Tonneu *cynddeirioc y mor *ydynt*, yn ‡ewynnu
*allan* eu *cywilydd y *h*unain: ser ‡gwibioc, ir ei y
catwyt *duedd y tywyllwc*h* yn dragyvyth.
14 Ac Enoch hefyt y saithfet o Adda, a prophwyt-
awdd am y cyfryw *'rei*, can ddywedyt, Wele, yr Ar-
glwydd *'sy* yn dyvot *gyd* a ‡myrddion o ei sainct*æ*,
15 I roi barn yn erbyn pawp, ac y argyweddu yr oll
andewolion yn y plith hwy am eu *h*oll andewiol weith-
redoedd, yr ei a wnaethant wy yn andewiol, ac am eu
*h*oll ymadroddion *calet yr ei a ddywedei pechaturieit
andewiol yn eu *h*erbyn.

* ailwaith, drachefn
‡ trigfa
* briawt
‡ mewn
* i, ir
‡ Gr. aethant ar ol
* estron, dieithr
* poen
‡ er hyny
* Gr. gwrthod Arglwyddiad
‡ *Gr. doxas*
* ynghylch, o bleit
‡ senn
* naturiol
‡ dilynesont
* bwriwyt ymaith
‡ porthi
* cymyleu
‡ gwywon, crinion
* creulon
‡ tarddu
* gwarth, gwradwydd, mefl, anharddwch
‡ *Gr. planetae*
* duder, gwrwmder
‡ miloedd
* creulon, ffyrnic

16 Yr ei hyn ynt ‡murmurwyr, achwynwyr, *'rei* yn
*cerddet yn ol y chwanteu y *h*unain: yr ei a ddyweit eu
geneu ‡valch-betheu, yn *rryveddu personae *dynion*, o
‡bleit caffaeliat.
17 Eithyr, garedigion, cofiwch y gairieu y ragddy-
wetpwyt y gan Apostolieit Iesu Christ,
18 Can yddynt*vvy* ddywedyt ywch' y byddei gwat-
worwyr yn yr amser dywethaf, yr ei a gerddent yn ol
eu andewiol chwanteu eu *h*unain.
19 Yr hein ynt y sawl a ymohanant, *cnawdol*ion*, eb
vot *yr* Yspryt ganthynt.
20 Eithr, *chvvy*chwi garedigion, ymadeiladwch yn
eich sancteiddiaf ffydd, gan weddiaw yn yr Yspryt glan,
21 Ac ymgadwch yn-cariat Dyw, gan ‡edrych am
drugaredd Iesu Christ, y vywyt tragyvythawl.
22 A' thrugar*h*ewch wrth 'rei, gan *amravael-varnu,
23 A' eraill cadwch ac ofn, gan eu tynnu allan o'r
tan, a' chasau ys y wisc ‡vrychedig *y* gan y cnawt.
24 Ac i hwn a ddygon eich cadw, yn *ddigwymp,
ach ‡gosot yn ddiveius yn-gwydd ei 'ogoniant trwy
*'orvoledd,
25 *Ys ef*, y Ddyw yr vnic ddoeth, ein Iachawdur *y bo*
gogoniant a' mawrygrwydd, *ac* arglwyddiaeth, a' medd-
iant, ys yr owrhon ac yn *oll oesoedd, Amen.

‡ grwgnach-wyr, grwyth-wyr
* rrodio
‡ gorsythdra, dynder
* mawrygu
‡ er mwyn mantes
* *Gr. psychicoi*
‡ ddysgwyl wrth
* *Gr. diacrinomeni*
‡ vrycheulyd, vannedic
* *Gr. aptaistous* 'sef yn ddibechot
‡ presento, goystatu
* lawenydd
‡ gallu, awdurdot
* 'sef tragwyddol.

---

# *GWELEDIGETH

# IOAN Y ‡DIVINYDD.

* Atcuddiat
‡'sef yr ymadroddwr am Dduw.

## YR ARGVMENT.

EGLAER yw, y mynnei'r Yspryt glan megis casclu ir llyfer rhagorol hwn *grynodep y prophetolaethehyny, yr ei a racscrivenesit, eithyr a gyflawnit gwedy dyvodiat Christ, can angwanegu hefyt cyfryw betheu ac vyddei raidiol, yn gystal in rhac rybuddiaw am berycleu a ddelent, ac in rhybuddiaw y 'ochelyd rrei, ac in cysirio yn erbyn eraill. Yma gan hyny yr eglurir ‡ Diuiniti Christ, a' thestiolaetheu ein prynedigeth: pa betheu 'sy cymradwy gan Yspryt Dew yn y *ministreit, a' pha bethe 'sy ancymradwy ganto: rhac weledigeth Dew yw ddetholedigion, ac am y gogoniant a'r diddanwch yn y dydd dial: p'wedd y destruwer yr ‡hypocriteit yr ei a *vrathant mal scorpionae aelodae Christ, eithyr yr Oen Christ y amddeffen yr ei a dducant testoliaeth y gyd a'r gwirionedd, yr hwn er anvodd y bestvil a' Satan a deyrnasa ar oll. Bywiol ‡yscythrat Antichrist wedy arddangos, yr hwn er hyny a dervynir ei amser a'i veddiant, a' chyd dyoddefir y gynddaredd ef yn erbyn yd etholegion, er hyny ny chyredd y veddiant ef ym-pellach na drugu y cyrph hwy: ac or

* *sum, swm swmp*
‡ *dywdab*
* *gwenidogion ecclesic*
‡ *gausaiuct*
* *gnoant*
‡ *eb ddiolch*
* *ddosparth*

dywedd y dinistrir ef can * lit Dyw, pan vydd ir etholedigion roi moliant y Ddyw am y ‡ vuddygoliaeth, ac er hyny tros amser ef a ddyoddef Dyw yr Antichrist hwn, a'r putain y dan liw ymadrodd tec a' dysceidaeth voddlonus y hudo'r byt: am hynny y mae ef yn cygori'r ei dywiol (yr ei nyd ynt anyd rhan vach) ymochelyd rhac gweniaith y vudroc hon, ai molach, a' hwy a gant welet ei * hadvail yn ddidrugaredd, a'r compeini nefawl yn canu moliauneu yn ‡ ddidaw: can ys yr Oen 'sy wedy ei briodi: a' gair Dew * aeth a'r oruchafiecth: Satan yr hwn yn hir o amser oedd wedy ellyng yn rhydd, ys y yr owrhon wedy ei davly ef a'i 'weinidogion ir pytew tan yw poeni yn tragyvythawl, ‡ lle yn-gwrthwynep i hyny y ffyddlonion (yr ei ynt sanctaidd ddinas Caerusalem, a' * gwraic yr Oen) y bydd yddwynt veddiannu gogoniant tragyvythawl. Darllenwch yn ddiyscaelus, barnwch yn bwyllog, a' galwch yn ddivrifol am wir ddyall y petheu hyn.

‡ *ddigofain, soriant*
‡ *'orchafieth, gorvot*
* *chwymp*
‡ *eb dor*
* *a 'orvu*
‡ *ac*
* *priavvd*

## Pen. j.

1 Achos y * weledigeth hon. 3 Am yr ei a'i darllenant. 4 Ioan yn scrivennu at y saith Eccles. 5 Mawredigrwydd a' swydd Map Dew. 20 Gweledigeth y canwyll‡breni a'r' ser.

GWELEDIGAETH Iessu Christ, yr hon y rroedd
Dyw yddo ef, yw ddangos yddy wasnaethwyr
‡yrrein y orvydd yn vyan ddyfod y ben: ac ef y ddan-
vonoedd, ac y ddangosoedd gan y angel yddy was-
anaethwr Ioan,
2 Yr hwn y dystolaethoedd *o eir Dyw, ac o dyst-
olaeth Iesu Christ, ac o pob peth ar y weloedd ef.
3 Happys ywr *neb y ddarlleyo, ar rrei y wrandaw-
ant geyriey y bryffodolaeth *hon*, ac y cadwant y
pethey ysydd yn escrivenedic yndi: cans y maer amser
gayr llaw.
4 Ioan, ‡yr seith Eglwys ar ydynt yn Asia, Rrad vo
gyd a chwi, a' heddwch o *dd*iwrth yr Hwn ys ydd, yr
Hwn vu, a'r Hwn *vydd rrac llaw, ac o ddiwrth y seith
Ysbryd y rrei ydynt gair bron y ‡dron ef,
5 Ac o ddiwrth Iesu Christ, yr hwn ys ydd tust
ffyddlawn, *yr ‡enedigaeth cynta or meyrw, a Thy-
wysog *ddyvvch* vrenhinoedd y ddayar, yddo ef yn
caroedd ni, ac yn golchoedd ni oddiwrth yn pechodey
yny waed, *yhun*,
6 Ac yn gwnaeth yn Vrenhinoedd ac yn ‡Effeirieid
y Ddyw y dad ef, *yddo ef *y bo* gogoniant ac ym-
herodraeth yn oes oesoedd. Amen.
7 ‡Dyna, y may ef yn dyvod gydar *nywl, a' phob
llugad ae gwyl ef, ar rrei *hefyd* y ‡brathasant ef *tryvvodd:*
ac wylovain y wnant *arno ef holl ‡ceneloe*dd* y dayar,
Velly y mae, Amen.
8 Mi wyf *α Alpha ω Omega*, y dechre a'r diwedd,

* *datguddiat hyn*
‡ *heirn*
* Datcuddiat yw air yn ei gylydd
‡ y petheu
*T.H.C.M. a translatoedd oll text yr Apocalypsis yn ieith ei wlat.*
* am
‡ Dedwydd, Gwynvydedic
* hwn, vn
‡ at y. &c.
* 'sy ar ddyvot
‡ eistedfa
* *a'r*
‡ cenedledigeth
‡ O
‡ Wely
* wybreneu
‡ gwanasont
* ger y vron ef
‡ llwytheu
* chyfranwr

medd yr Arglwydd, yr Hwn y sydd, a'r Hwn vu, ac yr
*Hvvn* ddaw *rrac llavv*, *'sef* yr hollalluawc.
9 Mi Ioan, ych brawd chwi, a * chydynaith mewn ‡ trwmbleth
‡ cospedigaeth, ac yn y deyrnas ac mewn goddefaint
Iesu Christ, oeddwn mewn ynys a elwir Patmos am 'eir
Dyw, ac am dystolaeth yr Iesu Christ.
10 Yr oyddwn yn *yr* yspryd yn dydd yr * Arglwydd, * Sul
ac y glyweis ‡ rrac vynghefen, lleis mawr, mal *lleis* ‡ y tu cefn, yn vy ol
trwmp*et*,
11 Yn dywedyd, mi wyf α *Alpha* ac ω *Omega*, y
cyntaf ar diwethaf, a'r peth yr wyt ti yny weled, es-
crivena mewn llyfr, a danvon * yr seith Eglwys ar * i'r
ydynt yn Asia, y Ephesus, ac y Smyrna, ac y Berga-
mus, ac y Thyateira, ac y Sardei, ac y Philadelphia, ac
y Laodiceia.
12 A mi ym*c*hoyles yn vu ol y weled y lleis, a
‡ ddwad wrthy vi: a phan ym*c*hoyles, mi a welwn seith ‡ lafarei, ymadroddei
canwylbren aur.
13 Ac ynghanol y seith canwyllbren, vn yn debic
y Vab y duyn, gwedy ymwysgo a gwisc hed y draed a'
chwedi * gwisco gwregis aur ynghylch y vrone. * ymwregysu
14 Ey ben, ay wallt oeddent wnion mal gwlan gwyn,
*ac* mal eira, ay lygeid *oeddent* mal fflam dan.
15 Ay draed *oeddent* mal ‡ pres coeth, yn llosgi ‡ elydn, alcamanol
megis mewn ffwrneis: ay leis mal swn llawer o ddyfr-
oedd.
16 Ac yr oedd yn y law ddehe saith seren: ac o * ney leis
eney allan yrydoed yn myned cleddey llym doy vinioc:
a discleiro a wnaeth y wyneb ef mal yr * hoyl yn y * haul
‡ 'rym ef. ‡ nerth
17 A phan y gweles i ef, my a syrthies wrth y draed
mal marw, ac ef a ddodoedd y law dehe arnaf, dan
ddwedyd wrthyf, nac ofna: mi wyf y cyntaf a'r di-
wethaf,
18 Ac yr wyf yn vyw, ac y vym varw, * a syna, yr * ac wele
wyf yn vyw yn oes oesoedd, Amen: ac y mae genyf yr
‡ allwyddey yffern * a myrvolaeth. ‡ agoriadeu
19 Escryvenna y pethey y weleist, ar pethey ysydd, * ac angeu
ar pethey a ‡ 'orfydd bod rrac llaw. ‡ vyddant, ddawant
20 Dirgelwch y seith seren y weleist yn vy llaw
ddechre, * a'r seith canwyllbren aur, *yvv hyn*, Y seith * Cenadey
seren * Angylion y seith Eglwys ydynt: ar seith can- ‡ Cynnulleidfa
wyllbren y weleist, y seith ‡ Eglwys ydynt.

## Pen. ij.

1 Y mae ef y cygori pedeir Eccles, 5 I 'diweirwch, 10 I barhau, dy-
oddefgarwch ac amendaat, 5. 14. 20. 23 yn gystal trwy vygwth, 7.
10, 17, 26 Ac addeweidion gobrwy.

ESCRYVENA at Angel Eglwys Ephesus, Hyn y
may ef yn dywedyd y sydd yn dal*a* y seith seren
* y ‡ rrodio — yn *u law ddehe, ac y sydd yn ‡treiglo yn c*h*anol y
seith canwyllbren aur.
2 Mi adwen du weithredoedd, ath travael, ath *g*oddef,
* goddef — ac na elly ‡cyd ddwyn ar rrei drwc, ac y holeist hwynt
ysydd yn dywedyd y bod yn Ebostolion, ac nyd ydynt,
‡ y may genyd goddefiad — ac y gefeist hwynt yn ‡gellwddoc.
3 A thi oddefeist, ac ‡yr wyd yn oddefgar, ac y
* vlineist — dravaeleist yr mwyn vu enw i, ac ny *ddyffigieist.
‡ Eythyr — 4 ‡Ac er hynny y may genyf peth yth erbyn, am yt
ymadel ath cariad cyntaf.
5 Meddylia, am hyn, o pa le y cwympeist, ac etiverha,
* anyd ef — a gwnar gweithredoedd cynta: ac *onys *gvvnei* mi ddof
ar vrys yth erbyn, ac y symydo dy ganwyllbren allan
oy le, any well*h*ey.
6 Ond hyn y sydd genyt, achos yt cashay gweyth-
* esioes — redoedd y Nicolaitait, y rrein yr wyf vi *hevyd yny
cashay.
7 Y sydd a chlyst gantho, gwrandawed, pa beth y
‡ gorchvygwr — ddwed yr ysbryd wrth yr Eglwysi, Ir ‡gorchtrechwr, y
rrof vwytta or pren y bywyd, yr hwn y sydd yn c*h*anol
paradyvys D*d*yw.
8 ¶ Ac escrifena at Angel Eglwys y Smyrniaid,
Hyn y dd*y*wed ef y sydd gyntaf a' ddiwethaf, Yr hwn
y vy varw ac y sydd vyw.
9 Mi adwen dy weythredoedd, ath travael, ath tlodi
* gabl — (eithr yr wyd yn gyvoethoc) ac *mi advven* *enllib
melleigedic yr rein ydynt yn dywedyd y bod yn
‡ cynulleidfa — Iddewon ac nyd ydynt, ‡ond y maent yn ‡Synagog
Satan.
10 Nac ofna ddim or pethey y orvydd yd y oddef:
synna, e ddervydd y bwrw y cythrel rrei o hanoch
chwi y garchar, mal y gellyr ych profi, a' chwi a gewch
* angeu — travayl deng niwrnod: bydd ffyddlawn hed *myrvol-
aeth, a mi y rrof ytti coron y bowyd.
11 Ysydd a chlyst gantho, gwrandawed pa beth y
ddwed yr ysbryd wrth yr eglwysi, Ny chlwyfir y gor-
‡ angeu — trechwr gan yr eil ‡marvolaeth.

12 Ac Escrifena at Angel Eglwys Pergamus,
Hyn ymay ef yny Ddwedyd y sydd ar cleddey llym
day vinioc.
13 Mi adwen dy weithredoedd ath trig*ad*le *'sef* lle
may * eiteddley Satan, a thi y gedweist vy Enw i, ac * thron
vy ffudd i nys gwedeist, ‡ ac yn y dyddiey pan las vu ‡ ys
ffuddlon merthyr Antipas yn ych plith chwi, lle may
Satan yn * drigadwy. * trigio
14 Eithr y may genyf ychydic*ion* yth erbyn, cans y
may ‡ yno genyd rrei yn dala dysc Balaam, yn yr hwn ‡ genyt yna
y ddyscoedd Balac, y vwrw * plocyn tramcwyddys gar * trancwydd rrwystr
bron ‡ meibion *yr* Israel, er yddynt vwytta or pethey y ‡ plant
aberthwyd * u ddelwey, a ‡ godineby. * i eiddolon
15 Velly hefyd y may genyd rrei yn dala dusc y ‡ ffurnigo
* Nicolaitait, yr hyn yr wyfi yn y gasay. * *Gr. Nicolaitoon*
16 Etifarha, ac onys *gvvnei*, mi ddof attad ar vrys,
ac a ymladdaf yn y erbyn hwynt a chleddey vy
vy-geney.
17 Ysydd a chlyst gantho, gwrandawed pa beth y
ddwed yr ysbrud wrth yr Eglwysi, ‡ Yr gortrechwr, ‡ I hwn a orchfygo
mi rrof y vwytta or Manna ysydd gyddiedic, ac mi rrof
yddo ef garec wen, ac yn * u garec enw newydd *yn* * y
escrivenedic, yr hwn ny ‡ adnebydd neb, ond ae ‡ edwyn
* herbyno. * derb-
18 ¶ Ac escrivena at Angel Eglwys Thyateira, Hyn
y may Mab Duw yny ddwedyd, ysydd ae lygeid mal
fflam dan, ae draed mal ‡ pres-pur. ‡ *chalcolibano*
19 Mi adwen dy weythredoedd ath cariad, a*th* was-
anaeth, a*th* ffydd, ath goddeviad, ath weithredoedd, a'
*bot* y diwethaf yn rragori ar y cyntaf.
20 Eithr ymae genyf ychydic *bethe* yth erbyn, am
* yd goddef y wreic *hono* Iezabel, yr hon ysydd yn * yt
galw y ‡ hyn yn broffwydes, y ddusgy ac y dwyllo vy- ‡ hun
ngwasnaethwyr i y beri yddynt *g*odyneby, ac y vwytta
bwydydd gwedy y aberthy ‡ y ddelwey. ‡ i eiddolon
23 Ac mi a rroyssym amser yddy y etiferhay am y
godinep, ac ny chymerth *hi* etifeyrwch.
22 * Syna, mi a bwraf hi ywely, ar sawl a wnant * Nachaf, Wele
odineb *gyd* a hi, y ‡ gospedigaeth mawr, onyd etiferhant ‡ gystudd,
am gweithredoedd. gyni, 'ovid
23 Ac mi ladda y phlant a * myrfolaeth: ar holl * ac angeu
Eglwysi ‡ y gydnabyddant mae mi wyf yr hwn y *ch*whilia ‡ aodna-
y 'rrennae ar caloney: ac mi a rrof y bob vn o hanoch
yn ol ych gweithredoedd.
24 Ac y chwi y dwedaf, y gweddillion Thyateira,

* Cyniuer — *Ysawl *bynac* na does ganthynt y ddusc hon, ac ny
adnabyont dyfnder Satan (mal y dwedant) ny ddodaf
‡ yn chwaneo — arnywch beych *arall.
25 Ond y peth yssydd genywch *eisus*, delwch *yn dda*
hed yn 'ddelwyf.
26 Can ys yr vn y orfyddo ac y gatwo vyngweith-
redoedd hed y diwedd, mi a rroddaf yddo ef gallu ar
‡ nassioney — ‡genetloedd, ac ef a rriola hwynt a gwialen hayarn, ac
hwynt a ddryllir mal llestri pridd.
27 Ac yny modd y dderbynes i gan vyn had, velly
y rroddaf i yddo ef y seren vorey.
28 Sydd a chlyst gantho, gwrandawed pa beth y
ddwed yr ysbryd wrth yr Eglwysi.

## Pen. iij.

1 Y mae ef yn annoc yr Ecclestdd ai gwenidogion i wir proffessiat ffydd ac y wiliaw, 12 Gyd ac addeweidion ir ei a paraant.

AC escrivena at Angel Eglwys *ys y yn* Sardi, Hyn y
* yr hwn — ddwed *ef ysydd a seith ysbrud Dyw gantho, ar
seith seren, Mi adwen dy weithredoedd can ys y may
‡ yti — enw ‡genyd dy vod yn vyw, ond yr wyd yn varw.
* Dyffro — 2 *Duhyn a' chadarnha y gweddillion, ar ydynt yn
barod y veirw: can ys ny cheveis i dy weithredoedd yn
‡ gyflawn — ‡byrffeith gair bron Dyw.
3 Am hyny cofia, pa beth y dderbyneist, ac y
* ffest — glyweist, a dala yn *sicker, ac eteferha. Am hyny, ony
‡ gwylied — byddy yn ‡dduhynol, mi ddof attad mal lleydyr, ac ny
chey wybod pa'r awr y dof attad.
4 *Eithr* y mae genyd ychydyc o enwey eto yn Sardi,
yrrein ny halogesont y dillad: a rrei hyny a rrodiant
gyda mi mewn *dillad* gwnion: can ys teylwng ydynt.
* orchfyco — 5 Yr vn y *orfyddo, y dddillatteir mewn dillad
‡ ddileaf — gwnion, ac ny ‡ddodaf y enw ef allan o Lyfr y bowyd,
* addefaf — ond mi *coffessaf y enw ef gair bron vyn had, a' chair
bron y Angelion.
6 Y sydd a chlyst gantho, gwrandawed, pa beth y
ddwed yr ysbrud wrth yr Eglwysi.
7 ¶ Ac Escrifena at Angel *yr* Eglwys *ys y yn* Phila-
delphia, Hyn y ddwed ef y sydd santeidd a chowir, yr
‡ allwydd — hwn y mae gantho ‡agoriad Dauid, yr hwn agor*a* ac
ny chay*a* neb, ac y gay*a* ac nyd agor*a* neb,
* wele — 8 Mi adwen dy weithredoedd: *syna, mi a ddodeis
gair dy vron drws agored, ac ny dduchyn neb y chay*ed*
‡ ef — ‡hi: can ys y mae genyd ychydic *rym a thi y ged-
* nerth — weist vyngeir, ac ny wedeist vy Enw.

9 ‡Syna, mi wnaf yddynt hwy o *Synagog satan y ‡ Wele
rrein y galwant y hun yn Iddewon ac nyd ydynt, ond * gynulleidfa
y maent yn gelwyddog*ion*, syna, *meddaf*, mi-wnaf
yddynt ddyfod ac ‡anrrydeddy gair bron dy draed, a' ‡ addoli
chydnabod vy mod yn du garu *di*.
10 O achos ‡yd gadw geir vyng oddef i, am hyny ‡ yt
mi ath cadwa di oddiwrth awr y profedigaeth, yr *hon a*
ddaw ar yr holl vyd, y brofi hwynt ar ydynt yn trigo
ar y ddayar.
11 *Syna, yr wyf yn dyfod ar vrys, dala'r peth y * Nachaf wely
sydd genyd, rrac y neb gymeryd dy goron.
12 Mi wnaf yr vn y 'orfyddo yn *biler yn hemel ‡ golofn
vy nyw i, ac nyd eiff ef allan ‡rac llaw: ac mi * mwy
escrifenaf arno ef Enw vy nyw i, ac enw *dinas vy ‡ caer
nyw i, yr hon ydiw Caersalem newydd, y sydd yn
discyn or nef oddiwrth vy nyw *i*, ac *mi scrivennaf* arno
ef vy Enw newydd i.
13 Y sydd a chlyst gantho, gwranandawed pa beth
y ddwed yr ysbryd wrth yr Eglwysi.
14 Ac escrifena at Angel Eglwys y Laodiceit, Hyn
y ddwad Amen, y tust ffyddlawn a' chowir, dechreyad
creadyrieid Dyw.
15 Mi adwen dy weithredoedd, nyd ydwyd na
‡thwym nac oer: mi vynwn pyt veid *yneill aetwym ‡ oer na
ae oer. gwresoc
16 Ac am hyny can dy vod yn ‡lled-twym, ac heb * ai oer ai gwresoc
vod nac yn oer nac yn dwym, 'e *dder*vydd i mi dy ‡ vwygl
chwdy *di* allan om geney.
17 Can ys yr wyd yn dwedyd, Yr wyf i yn gyv-
oethoc, a chenyf amlder o dda, ac ny does arnaf eisie
dim, ac ny wddost dy vod yn druan ac yn resynol, ac
yn dlawd, ac yn ddall, ac yn noeth.
18 Mi gynghoraf ytti bryny genyfi aur *puredic ‡ provedic can
trwy dan, mal y *gellir dy ‡gyvoethogi, a gwisco
amdanad a dillad gwnion, mal ith ymwiscer, ac mal
nad ymddangoso *cywilydd dy noethter *di:* ac ira * gwrthuni
‡ dy olygon ac *eli llygeid, mal y gwelych: ‡ lygait
19 Yrwyf yn ‡beio ac yn cospi y sawl yr wyf yny * *collyrio*
garu: am hyny ‡pryssyrgara a gwella. ‡ argyoeddi, ceryddu, siardo
20 Syna, yrwyf yn sefyll wrth y drws, ac *yn ‡taro'*r*
*drvvs*. O chlyw vn duyn vu lleis ac agoror drws, mi * Lla. *emulare*
*dd*af y mewn atto ef, ac y swppera gydac ef, ac yntey ‡ curo, ffusto
gyda miney.
21 *Yr vn y orfyddo, mi rro yddo ef eiste gyda mi * Ir hwn

‡ *throno*

yn vy * eisteddle, mal y gorvym i, ac eisteddes gyda
vynhad yn y eisteddle ef.
22 Y sydd a chlyst gantho, gwrandawed pa beth y
ddwed yr ysbryd wrth yr eglwysi.

## Pen. iiij.

1 Gweledigeth mawredigrwydd Dew. 2 Y mae ef yn gweled y tron, ac vn yn eistedd arnaw, 8 A' 24. eisteddva oi amgylch a'. 24. henafgwyr yn eistedd arnwynt, a' phedwar aninal yn moli Dew ddydd a' nos.

*Yr Epistol ar Sul y Trintot*
* ac wele, lly'ma
‡ vtcorn
* Escen, Dring
‡ *Gr. thronos*, tron, trwn
* *vaen*
* Sas. emeraud
‡ lluchedene
* i lew
* yn ehedec, ar ei adain
* ac oyddent

GWEDY hyn mi edrycheis, * a' syna, y rydoedd
drws yn ogored yn y nef, ar lleis cynta y glyweis,
oedd mal lleis ‡ trwmpet yn *c*whedlea a mi, dan
ddywedyd, * Dabre y vyny*dd* yma, a mi ddangosaf ytti
y pethey y orfydd yw gwneithr rrac llaw.
2 Ac yn y man y royddwn yn yr ysbrud, a syna, ve
ddodwyd ‡ eisteddle yn y nef, ac ve eisteddoydd vn ar
yr eisteddle.
3 Ar vn y eisteddoedd, oedd yw edrych arno, yn
debic * y garec iaspis, a' *charec* sardin, ac envys oedd
gylch ogylch yr eisteddle yn debic yr olwc arno y *garec*
smaragdus.
4 Ac ynghylch yr eisteddle *yr oedd* pedwar eisteddle
a rrigein, ac mi a weleis ar yr eisteddleoedd yn eiste
pedwar a rrigein o henafieid, a dillad gwnion amdanynt,
a choraney aur ar y penney.
5 A' ‡ mellt a thraney, a lleisiey, y ddoethant allan
or eisteddle, a saith lamp o dan oeddent yn llosgi gair
bron yr eisteddle: yrrein ydynt seith ysbrud Dyw.
6 Ac yn golwc yr eisteddle *yr ydoedd* mor o wydr yn
debic y *vaen* cristal: ac yn*ch*anol yr eisteddle, ac
ynghylch yr eisteddle y royddent pedwar enifel yn llawn
o lygeid ym'laen ac yn ol.
7 Ar enifel cyntaf cynhebic * yllew ydoedd, ar eil
enifel yn debic y lo, ar trydedd oedd ac weyneb gan-
tho mal *vvynep* d*u*yn, ar pedwaredd enifel *oedd* yn debic
y eryr ‡ yn hedfan.
8 Ac yroedd y bob vn or pedwar enifel chwech o
adeinedd gylch ogylch yddynt, *a' rreini yn llawn llygeid
otyfewn ac nyd odddent yn gorffowys dydd na nos, yn
dwedyd, Sanct*eidd*, sanct*eidd* Sanct*eidd* Arglwydd
Ddyw, *h*ollalluawc, yr hwn y Vu, ac y Sydd, ac ‡ Ys
ydd ar ddyvot.

9 A' phan rroyssont y nefeylied hynny *g*ogoniant ac
anrrydedd, a' diolch * ir yr hwn oedd yn eiste*dd* ar yr ‡ yn oes oes-
eisteddle, yr hwn y sydd yn byw yn ‡ dragywydd. oedd
10 Y pedwar ar rigein o henafied y syrthiasant
gair bron yr vn oedd yn eist*edd* ar yr eisteddle, ac a * grymasont
* anrrydeddasont ef, y sydd yn byw yn dragywydd, iddaw, addol-
ac y vwrasont y coronae gair bron yr eisteddle, dan asont. &c.
ddywedyd,
11 Teylwng wyd, Arglwydd, y *dd*erbyn gogoniant ac ‡ wneythost
anrrydedd, a' gally: cans ti y ‡creest pop peth ac er *gwneythpwyt
mwyn dy ewyllys *di* y maent, ac y * crewyd.

## Pen. v.

1 Gweled y mae ef yr Oen y agori 'r llyver. 8. 14. Ac am hyny y mae y petwar aniuail, y 24. henafwyr, a'r Angelon yn moli yr Oen, at yn ei addoli 9 Am eu prynedigeth a'u cedion eraill.

AC mi a weleis mewn llaw ddehe yr vn oedd yn
eiste ar yr eisteddle, Llyfr escrivenedic or ty vewn,
ac or tu allan, gwedy sely a seith sel.
2 Ac mi a weleis Angel cadarn yn pregethy a lleis
ychel, Pwy sy deilwng y agory*d* y Llyfr, ac y ddatdod
y seley ef?
3 Ac ny doedd neb * yn y nef, nac yn y ddayar, na ‡ mewn
than y ddayar, yn abyl y agory*d* y Llyfr, na*g* y edrych
arno.
4 Ac *yno* mi wyles llawer, o achos na chad neb yn
deilwng y agory*d*, ac y ddardlen y Llyfr, nac y edrych
arno.
5 Ac vn or henafied y ddwad wrthyf i, Nac wyla:
‡syna, llew yr hwn ysydd o lwyth Iuda, gwreiddyn * wele
Davydd, y * enilloedd y agory*d* y Llyfr, ac y ddatdod y ‡ gafas
seith sel ef.
6 Yno mi edrycheis, a synna, yn c*h*anol yr eisteddle,
ar pedwar enifel, ac yn c*h*anol yr henafied, yr ydoedd
Oen yn sefyll mal by biasey gwedy ladd, yr hwn oedd a
seith corn, ac a seith llygad yddo, y rrein ydynt seith
ysbryd Dyw, y ddanvonwyd ‡ yr *h*oll * vud. ‡ ir
7 Ac ef yddayth, ac y gymerth y Llyfr o law ddehe * vyd
yr vn oedd yn eiste*dd* ar yr eisteddle.
8 A phan cymerth ef y Llyfr, y pedwar enifel, ar
pedwar ar igein henafied, y syrthiasont gair bron yr
Oen, ac yr ydoedd gan bob vn *o* hanynt telyney a
phiolae aur yn llawn o crogley, y rrein ydynt gweddie'r
Sainct,

9 Ac y ganysont caniad newydd, dan ddwedyd.
Teilwng yd gymryd y Llyfr, ac y ddattod y sele ef,
‡ ithladdwyt can ys ‡ veth las, ac yn pryneist ni y Ddyw * trwy dy
* can waed *allan* o bob cenedlaeth, ac ‡ ieith, a' phobl, a'
‡ thavod nasion,
10 Ac yn gwneythost yn Vrenhinoedd ac yn Effeiried
* deyrn- yn Dyw *ni*, a ni, a * thyrnaswn ar y ddayar.
11 Yno mi edrycheis, ac y glyweis lleis llawer o
Angylion ynghylch yr eisteddle ac *ynghylch* yr enefeilied
ar henafied, ac *yr oeddent* mil o filioedd,
12 Yn dwdyd a llais ywchel, Teilwng yw yr Oen y
las y dderbyn gallu a chyfoeth, a' doethyneb, a' ched-
ernid, ac anrrydedd, a' gogoniant, a' moliant.
13 Ac mi a glywes yr holl creadyried y rrein ydynt
yny nef, ac ar y ddayar, a than y ddayar, ac yny mor,
a' phob peth y sydd yndynt hwy, yn dwedyd, Moliant,
ac anrrydedd, a' gogoniant, a gallu y *vo* yddo ef, y
sydd yn eiste ar yr eisteddle, ac yr Oen yn dragywydd.
14 Ar pedwar enifel a ddywedasont, Amen, ar pedwar
‡ addolasont ar igein o henafied a sirthiasont y lawr, ac ‡ anrrydedd-
asont ef, y sydd yn byw yn dragywydd.

## Pen. vj.

1 Yr Oen yn agori y chwech insel, a' llawer o betheu yn dyvot ar ol y hagori, val y mae hyn yn amgyffred prophetoliaeth gyffredin yd dywedd y byt.

YN ol hyn, mi edrycheis pan agoryssey'r oen vn or
seley, ac mi y glyweis vn or pedwar enifel yn
* Dyred dwedyd, mal *by bei* trwst traney * Dabre ac edrych.
2 Ac mi edrycheis, a' syna, yr ydoedd march gwyn,
ac yr ydoedd bwa gan yr vn oedd yn eiste*dd* arnaw, a
choron y royspwyd yddo ef, ac ef aeth allan dan con-
‡ 'orvot cwerio ac y ‡ concwery.
3 A phan agoryssey yr eil sel, mi glyweis yr eil enifel
*Dyred a'gwyl yn dwedyd, * Dabre ‡ ac edrych.
‡ *phovver* 4 March arall aeth allan, ae *livv* yn goch, a * *gallu* y
rroed yr vn oedd yn eiste*dd* arno, y gymryd heddwch o
* ddiar, can ‡ ddiwrth y ddayar, ac y beri yddynt lladd y gilydd, a'
chleddey mawr y rroed yddo *ef*.
5 A' phan agorysei ef y trydydd sel, mi glyweis y
trydydd enifel yn dwedyd, Dabre ac edrych. A' mi
‡ ll'yma varch edrycheis, a ‡ syna *yr oedd yno* march du, a phwyse yn
llaw yr vn oedd yn eiste*dd* arno *ef*.
* lef, leferydd 6 A' mi glyweis * leis yn c*h*anol y pedwar enifel yn

dwedyd, messyr o wenith er ceinioc, a' thri mesyr o
‡heith er ceinioc, a'r olew, gwin, na *waytha *di*. ‡haidd, barlis
7 A' phan agorasey ef y bedwaredd sel, my glyweis *dryga, wna
lleis y bedwrydd enifel yn dwedyd, Dabre ac edrych. eniwed ir. &c.
8 Ac mi edrycheis, a syna, march *a llivv* ‡priddlyd a ‡*Gr. chlooros.*
*Marsolaeth oedd enw yr vn oedd yn eiste arno, ac i. melyn, lluch-
Yffern y dilynoedd ef, a gallu y roed yddynt hwy dros win, gwelw,
y bedwaredd rran ‡or ddayar, y ladd a chleddey, ac a *Angeu
newyn, ac a marfolaeth, ac a *'nefeilied y ddayar. ‡ir
*bestviledd
9 A' phan agorasey ‡ef y bymed sel, mi weleis dan ‡'sef yr oen
yr allor eneidiey yr rein y las am 'eir Dyw, ac am
y tustolaeth yr hwn *oedd ganthynt. *oeddent yn ei
10 Ac hwy a lefasont a llef ywchel, dan ddwedyd, gynnal
Pa hyd, Arglwydd, santeidd a chowir? nad ydwyd yn
barny a 'dial yn gwaed ni, ar y rrein ar ydynt yn trigo
ar y ddayar.
11 A' gowney gwnion ‡hirion y rroed y bob vn o ‡Llat. *stolæ*
naddynt, ac y ddwetpwyd wrthynt, am yddynt o'rffwys gwiscoedd-
*dros ychydic o amser hyd yn gyflewnid *rif* *y] cyd- llaesiom
wasnaethwyr, ac brodyr, y ledd*es*id, mal y llas ynthwy. ‡enhyd bach
‡ei
12 Ac mi edrycheis pan agorasei ‡ef y chweched *nes cyflewni
sel, a syna, crynfa mawr y ddayar y doedd, ar haul ‡yr Oen
aeth cyn ddued a sach lien blew*oc*, ar lleyad oedd, yn
debic y waed.
13 A' ser o'r nef y syrthiasont yr ddayar, mal pren
ffeigys yn bwrw ffeigys-gleison pan scydwyr *hi* a
gwynt mawr.
14 Ar nef aeth heybio, mal *rol-o-bapir, gwedy
‡troi ynghyd, a phob mynydd ac vnys y *drowyd allan *Gr. biblios*
oy lle*oedd*, 'sef llyfr, yr
hwn vyddei yn
15 A' brenhinoedd y ddayar, ar gwyr mawr, ar y cynvyd yn
cyfoethogion, ar pen captenied, ar *gvvyr* cedyrn, a phob rrolyn
gwr caeth, a phob gwr-rrydd, y ymgyddiasont mewn ‡ei rolio
gogofey, ac ym plith ‡creigie y mynyddey, *ysmutwyt
16 Ac hwy y ddwedasont wrth y mynedde*dd* ar ‡clegyr,
creigeu, Cwympwch arnom *ni*, a' chyddiwch ni rrac
wyneb yr vn y sydd yn eiste*dd* ar yr eisteddle, ac o
ddiwrth *digovent yr Oen.
17 Can ys y may dydd mawr y ddigovent ef gwedy *lid, edicter
dyfod, a' phwy y ddychyn sefyll?

## Pen. vij.

4, 9 Gweled y mae ef wasanaethwyr Dyw wedi eu selio yn ei taleu o bop
nasion a phoploedd, 15 Yr ei cyd bont yn dyoddef trwbl, er hyny y

mae yr Oen yn y bwydo hwy, yn eu harwain i ffynnoneu dwfr byw,
17 A' Duw a sych ymaes yr oll ddaigreu y ar y llygait.

AC yn ol hyn, mi weleis pedwar Angel yn sefyl' ar
bedwar*cornel y ddayar, yn dala pedwar gwynt
* congl
y ddayar, rrac yr gwynt chwthy ar y ddayar, nac ar y
*Yr Epistol ar ddydd yr oll Sainct.*
mor, nac ar vn pren.
2 Ac mi weleis Angel arall yn *dyfod y vynydd o
* escen
ddiwrth y Dwyrein, ac yr rydoedd sel Dyw byw
gantho, ac ef y lefoedd a ‡lleis ywchel ar y pedwar
‡ llef
Angel y rrein y rroyspwydd gallu *y ddrygu'r ddayar,
* waythir
a'r mor,
3 Dan ddwedyd, Na ddrygwch y ddayar, na'r mor,
nar *coed, nes yni sely ‡gwasnaethwyr yn Dyw ni yn
* preneu
y talceni.
‡ nodi
4 Ac mi glyweis rrif y rrei y selwyd, ac yroydent
gwedy *sely pedeir a seith vgeinmil o holl ‡cenedl-
* selio
aythey meybyon *yr* Israel.
‡ llwytheu plant
5 O *genedyl Iuda ef y selwyd doyddeng mil. O
* lwyth
‡genedyl Ruben ef y selwyd doyddengmil. O genedyl
‡ lwyth
Gad ef yselwyd doyddengmil.
6 O genedyl Aser ef y selwyd doyddengmil. O gen-
edyl Nephtalei ef y selwyd doydddengmil. O genedyl
Manasses ef y selwyd doyddengmil.
7 O genedyl Simeon ef y selwyd doyddengmil. O
genedyl Leui ef y selwyd doyddengmil. O genedyl
Issachar, ef y selwyd doyddengmil. O genedyl Zabulon
ef y selwyd doyddengmil.
8 O genedyl Ioseph, ef y selwyd doyddengmil. O
genedyl Ben-iamyn ef y selwyd doyddengmil.
9 Yn ol hyn mi edrycheis, a' syna *rrif mawr, yr
*torf, tyrfa, lliaws
hwn ny alley neb y rrifo, or holl nasioney a' chenedl-
‡ a' thauodeu
aythey, a' phobloedd, ‡ac ieythoedd, yn sefyll gair
bron yr eisteddle, a' chair bron yr Oen, a *gowney
*gwiscoedd
gwnion hirion amdanynt, a' ‡phalmwydd yny dwylaw.
‡phalmidwydd
10 Ac hwy y lefasont a lleis *y wchel, dan ddwedyd,
*mawr, uchel
‡Cadwedigaeth *sydd yn dyfod* oddiwrth yn Dyw ni,
‡ Iechyd
ysydd yn eiste*dd* ar yr eisteddle, ac oddiwrth yr Oen.
11 Ar *h*oll Angelion y safasant ogylch yr eisteddle,
ac ogylch yr henafied, ar pedwar enifel, ac hwy syrth-
iasant gair bron yr eisteddle ar y hwynebey, ac *an-
*addolasant
rrydeddasant Ddyw,
12 Dan ddwedyd, *Amen.* Moliant a' gogoniant, a'
doethinep, a diolch, ac anrrydedd, a' gallu, a' nerth, *y
vo* yn Dyw *ni* yn dragywydd, *Amen.*

13 Ac vn or henafied a ‡chwedleyawdd, dan
ddwedyd wrthyf, Pwy ydynt y rrei hyn, ysydd a
gowney gwnion hirion amdanynt? ac o pa le y
ddaythont?
14 Ac mi ddwedeis wrtho ef, Arglwydd ti wddost.
Ac yntey y ddwad wrthyf i, Yrrein yddynt y rrei y
ddaythont allan o *drafael mawr, ac y olchasont y
gowne-hyrion, ac y wneythont y gowney-hyrion yn
wnion yn gwead yr Oen.
15 Am hyny y maent gair bron eisteddle Dyw, ac
yny wasnaethy ef yn demel dydd a nos, ar vn ysydd
yn eiste ar yr eisteddle, y dric yn y plith hwynt.
16 Ny vydd arnynt newyn ‡mwy, na syched mwy,
ac ny *ddeyl yr haul arnynt, na dim gwres.
17 Cans yr oen, yr hwn ysydd yn c*h*anol yr eisteddle,
y rreola hwynt, ac y ‡towys hwynt at y ffynhoney byw
o ddyfroedd, a' Dyw y sych yr holl ddeigrey o ddiwrth
y llygeid.

‡ *Gr. aprecithe*, atepodd, sef ymddiodanodd

* drwbleth, drallot, gyni, ing

‡ rac llaw

* chwymp

‡ harwein

## Pen. viij.

1 Bot agori y seithfet sel: bot goystec yn y nef. 6 Y petwar Angel yn canu ei trumpie, a' phlae dirvawr ar ol hynny yn dyvot ar y ddaiar.

APHAN y agorassey ef y seythfed sel, yrydoedd
gostec yny nef *amgylch haner awr.
2 Ac mi weleis y seith Angel, yr rein oyddent yn
sefyll gair bron Dyw, a' seith trwmpet yroedd yddynt.
3 Yno Angel arall y ddoyth ac y safoedd gair bron
yr allor, a senser aur gantho, a' llawer o arogley y rroed
yddo ef, y offrymy a gweddie yr oll Seint, ar yr allor
aur, yr ‡hwn ydyw gair bron yr eisteddle.
4 A mwg yr erogley ynghyd a gweddie yr Saint, y
*ddrychafysant gair bron Dyw, o law yr Angel.
5 Ar angel y gymerth y senser, ac y llanwoedd hi
a' than or allor, ac y bwroedd yr ddayar, ac yroydd
lleise, a thraney, a' ‡mellt, a' chrynfa'r ddayar.
6 Yno y seith Angel, y rrein oeddent ar seith trwmpet
ganthynt, y *wneythont y hun yn barod y gany'r
trwmpedey.
7 Ar Angel cynta y ganoedd y trwmpet, ac yr
ydoedd *ceseir a' than, gwedy cymysgu, a gwaed ac
hwy y vwrwyd yr ddayar, a' thrayan y ‡coed y losg-
wyd, ar holl gwellt glas y losgwyd.
8 Ar eil Angel y ganoedd y trwmpet, a' bwrw y y

* ynghylch

‡ hon 'sydd

* escenesont, aethon y vyny

‡ llucheid

* ymparatoesont

* cenllysc

‡ *arborum*, preneu

* glan vawr
wneithpwyd yr mor, mal *be bei* *mynydd mawr yn
llosgi a than, a thrayan y mor aeth yn waed.
9 A' thrayan y creadiried, a'r oyddynt y vyw yny
mor, y vyont veyrw a thrayan y llonge y ddinystrwyd.
10 Ar trydedd Angel y ganoedd y trwmpet, a seren
* *Gr. lampas*, ffagyl
vawr y syrthioedd or nef, yn llosgi mal *toris, ac ef y
syrthioedd y drayan yr afonydd, ac y ffynhoney y dyfr-
oedd.
11 Ac enw'r seren a elwir wermwd: am hyny
trydedd ran y dyfredd aethant yn wermod, a llawer o
‡ *homines. i.* dynion
‡wyr y vyont veirw, o *vveith* y dyfredd *hynny*, can ys
y gwneythur hwynt yn chwerw*on*.
12 Ar pedwerydd Angel y ganoedd y trwmpet, a
tharo y wneythpwyd trayan yr hayl, a' thrayan y
lleyad, a' thrayan y ser, nes towylly y trayan hwynt:
* drayan lewychu, dowynny
a' *tharo* y wneythpwyd y dydd, mal na alley y *thrayan
hi *g*oleyo. ac yn yr vn modd y nos.
‡ ehedeo
13 Ac mi edrycheis, ac y glyweis Angel yn ‡hedfan
trwy ganol y nef, dan ddwedyd a lleis ywchel, Gwae,
* gan
gwae, gwae *y* ddeilied y ddayar, *rrac lleisiey ys yn
ol y trwmpedey y tri Angel, y rrein oyddent etto y
gany-trwmpede.

## Pen. ix.

1 Y pempet ar chwechet Angel yn canu ei trwmpie: y seren yn cwympo or nef. 3 Y locustae yn yn dyvot allan or mwg. 12 Bot y gwae cyntaf gwedy mynet heibio. 14 Darvot gellwng yn rhydd y petwar Angel y oeddent yn rwym, 18 A' lladd y drydedd ran y dynion.

AR pymed Angel y ganoedd ar trwmped, ac mi
welais seren yn cwympo or nef yr ddayar, ac
* allwydd
yddo ef y rrowd *agoriad y pwll ‡heb waylod.
‡ pytew diwaelod, anoddyn
2 Ac ef agorodd y pwll heb waylod, a' mwg y gyfod-
oedd or pwll, mal mwg ffwrneis vawr, ar haul, a'r
* awyr
*wybr y dywyllwyd gan mwg y pwll.
‡ ryw pryfet
3 A' ‡locustae y ddeythont ar y ddayar or mwg
allan, a gallu y rroet yddynt hwy, mal y may gallu
gan *scorpionae y ddayar.
4 A' gorchymyn y rroed yddynt, na waethent *g*wellt
‡ *Gr. chlooron.* i. gwyrdd
y ddayar, na dim ‡glas, nac vn pren: ond yn *inyc y
* vnio
dynion oyddent heb sel Ddyw yny talceni.
5 A' gorchymyn y rroed yddynt na ladden y rreini,
‡ cystuddio, poeni
ond yddynt ‡anesmwytho arnynt pym mis a' *bod* poen
y hwynt mal poen y *vei o vvaith* scorpion, pan darfyddei
* guo ei
yddo *brathy duyn.

6 ‡ Ac yn dyddiey hyny y dynion y geisiant marfol- ‡ Am hyny
aeth, ac ny *chywrddant a hi, ac y chwenychant veirw * chaffant ef
‡ a marfolaeth * y gila rracddynt. ‡ ac angeu a ffy
7 A' ‡ llyn y lacustae *oedd* debic y veirch gwedy * chyffelip-iaethe
paratei y rryvel, ac *yr oedd* ar y peney mal coronae
yn debic y aur ae, hwynebey hwynebe yn debic y
dynion.
8 A' gwallt oedd ganthynt, mal gwallt gwragedd, ae
danedd oeddent mal damedd llewod.
9 Ac yr oedd ganthynt * lurigae, mal llurigae haiarn: * *loricæ*
a ‡ lleis y hadeynedd oedd debic y leis siaredey yn rredec ‡ twrw, sain
gan lawer o veirch y rryfel.
10 A' * chynfonney oedd yddynt, mal y scorpionae, * chlorene
ac yny cynffoney y rroeddent ‡ conynney, ae meddiant * colyne
*hvvynt* oedd y ddrygu dynion pym mis.
11 Ac y mae ganthynt vrenin arnynt, yr hwn ydiw
Angel y pwll heb waylod, ae euw ef yn Ebryw *ydyvv*
Abaddon, ac yn-* gryw ef y enwyr, ‡ Apollyoon. * Groec
12 Vn gwae aeth heybio, a' syna, y may doy wae ‡ cyfergollwr
* yw ddyfod ‡ rrac llaw. * yn
13 ¶ Ar chwechcd Angel y ganoedd y trwmpet, ac ‡ gwedy hyn * Yno
mi glyweis lleis oddiwrth pedwar corn yr allor aur, y
sydd gayr bron Dyw,
14 Yn dywedyd ‡ yr chwechcd Angel, oedd ar ‡ ir, wrth
trwmpet gantho, Gillwng y pedwar Angel, y rrein
ydynt yn rrwym yn yr afon vawr Euphrates.
15 Ar pedwar Angel y ellyngwyd, y rrein y ym-
barattowdd yn erbyn awr, yn *erbyn* diwrnod, *yn erbyn*
mis, ac yn erbyn blwyddyn y ladd trayan y dynion.
16 A' rrif gwyr meyrch y ‡ llu, oedd igeyn mil o ‡ rryfel
weithiey deng mil: can ys mi glyweis y rrif hwynt.
17 Ac mal hyn y gweleis i y mairch mewn gwel-
edigaeth, ac yr rydoedd gan rrei oeddent yn eiste
arnyt, lurigae tanllyd, ac o *livv'r* hyacinct a brwmstan,
a' pheneyr mairch oeddent megis penney llewod: ac
yn mynd allan oe geneye, tan a' mwg a' brwmstan,
18 A' thrayan y dynion y las gan y tri * yma, '*sef* * hynn
gan y tan ar mwg, a'r brwmstan, y rrein y ddoyth
allan oe geneue hwynt.
16 Can ys y gallu hwynt 'sydd yn y geneyey, ac yny
cynffoney: can ys y cynffoney hwynt oeddent debic y
‡ seirph, a pheney ganthynt, ar rrei hyn yrroeddent yn ‡ nadroedd
drygu.
20 A' * relyw or dynion ny las gan y plae hyn, ny * gweddilion gwargred
chymersont etyfeyrwch am weithredoedd y dwylaw y

* *Gr. eidola*

beydiaw ac addoli cythreylied, a *delwey aur ac arian,
a' phres, a' mein, a' phrene, yrren ac ny allant *g*weled,
na chlywed na cherdded.

‡ ychweyth
* rrinieu

24 Ac ny chymersont hevyd ‡etifeyrwch, am y
mwrddwr, nae y *cyfareddion, nae y godineb, nae y
lledrad*eu*.

## Pen. x.

1 Bot y llyver yn agoret gan yr Angel. 6 Tyngu y mae ef na bydd mwy amser. 9 Rhoi y mae ef y llyfr i Ioan, yr hwn ys ydd yn ei vwyta.

‡ gwisco
‡ bwa'r glaw
* colofnae

AC mi welais Angel cadarn arall yn discyn or nef,
gwedy ‡ddillaty or wybren, *ac envys ar y ben,
ac y wyneb ef ydoedd mal yr haul, ae draed ef oeddent
mal *pilerey tan.

‡ asw

2 A Llyvr bychan oedd yn agored yny law ef, ac ef
y rroedd y droed ddehe ar y mor, ae *droed* ‡assey ar y
ddayar,

* taran
‡ lafaresont leissasont

3 Ac ef y lefoedd a lleis ywchel, mal by bei llew yn
rryo: a' gwedy darfod yddo lefein, y seith *twrwf y
‡wneythont y lleisey.

* adrodd, leisio
* ddyvod
‡ taran

4 A' gwedy darfod yr seith twrwf *gwneythyr y
lleysiey, yroeddwn ar veder scryvenny: ac my glyweis
lleis or nef yn dwedyd wrthyf', Sela' r pethey y *leis-
oedd y seith ‡twrwf, ac na scryvenna hwynt.

* gododd

5 A'r Angel yr hwn y weleis i yn sefyll ar y mor ac
ar y tir, y *dderchafodd ey law yr nef,

‡ yn, myn, ir
‡ mwyach, ymhellach.

6 Ac y dyngodd ‡mewn yr vn ysydd yn byw yn
dragowydd, yr hwn y creoedd y nef, ar pethey ydynt
ynddo ef, ar ddayar ar pethey ydynt ynddy hi, ar mor
ar pethey ydynt ynddo ef, na vyddey Amser ‡rrac llaw.

* yw

7 Ond yn nyddiey lleis y seithfed Angel, pan dde-
chreyo ef gany ar trwmpet, ddyweddy y wneir dirgelwch
Ddyw, mal y ddatcanoedd ef *yddy wasnaethwyr y
proffwydi.

‡ ymddiddan-odd

8 Ar lleis y glyweis or nef, y ‡chwedleyoedd eilweith
a mi, ac y ddwad, Cerdda, cymer, y llyfyr-bechan ysydd
yn llaw'r Angel, yr hwn ysydd yn sefyll ar y mor ac ar
y tir.

* ysa yn llwyr, bwyta ef y gyd

9 Ac mi eythym at yr Angel, dan ddwedyd wrtho,
Dyrro y mi y Llyfr-bychan. Ac ynte y ddwad wrihyfi,
Eymer, *a llynca ef ac ef, y cwherwa dy vol*a di*, ond ef
y vydd melys yn dy eney *di* mal mel.

‡ *libellum* llyfran

10 Ac mi y gymereis y ‡llyfr-bychan o law yr Angel,
ac y llynceis ef, ac yrydoedd ef yn velys yn vyngeney

megis mel : a' chwedy y mi lynky ef, vy mol*a* y cwherw-
oedd.
11 Ac ef y ddwad wrthyf, Reid yd proffwydo ‡eil- ‡ drachefn
weith ymysc y bobloedd, ar nassioney, a'r *ieithioedd, * tafodeu
ac y lawer o Vrenhinoedd.

## Pen. xj.

1 Mesuro 'r templ. 3 Cyuodi dau test y gan yr Arglwydd, a'i lladd y gan y bestvil, 11 Eithyr gwedy hyn y ei derbyn y' ogoniant. 15 Derchafel Christ, 16 A' moli Dew y gan .24. henaif.

